

**Bangor University**

## **DOCTOR OF PHILOSOPHY**

**Llysieuilyfr William Salesbury : testun o lawysgrif LI.G.C. 4581, Ynghyd a rhagymadrod ac astudiaeth o'r enwau llyisiau Cymraeg a geir ynddo.**

Edgar, Iwan Rhys

*Award date:*  
1984

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

LlYSIEULYFR WILLIAM SALESBURY :

TESTUN O LAWYSGRIF Ll.G.C. 4581, YNGHYD Â RhAGYMA DRDD  
AC ASTUDIAETH O'R ENWAU LLYSIAU CYMRAEG A GEIR YNDdO.

VOL I

TRAETHAWD AM RADD Ph.D., 1984.

Cydnabyddir dyledion yng nghorff y gwaith, yn y troed-  
nodiadau ac yn y llyfryddiaeth. Yr wyf hefyd yn ddiolch-  
gar am gael defnyddio adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol,  
Llyfrgell Coleg y Brifysgol Bangor, Llyfrgell Rydd Caerdydd,  
Llyfrgell Bodley, Y Llyfrgell Brydeinig a rhai o ddefnyddiau  
crai *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

Yr wyf yn ddyledus tu hwnt im tiwtor, Gruffydd Aled  
Williams am fy rhoi ar ben y ffordd a bod yn gymorth a  
chanllaw drwy gydol yr ymchwil hwn. Hefyd yr wyf yn dra  
diolchgar i Ddafydd Roberts am ei gymorth sylweddol iawn  
wrth ymdrin ag agweddau cyfrifiadurol ar y gwaith. Diolch  
yn ogystal i Wenllian Awbery, Daniel Huws, Alun Mathias,  
Nia Watcyn Powell, Brinley Rees ac i rai o staff y llyfrgell-  
oedd a nodwyd uchod a staff *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

Cyflwynaf y gwaith hwn i'r rhai eraill, heblaw myfi, a  
ddiardedelwyd o Goleg y Brifysgol Bangor am ymladd dros  
hawliau'r brodorion mewn nythfa i estroniaid a chynffon-  
wyr.

## CRYNODEB

Y mae'r traethawd hwn wedi ei rwymo'n dair cyfrol. Yn yr ail gyfrol ceir y testun sy'n sylfaen i'r gwaith : llysieulyfr Salesbury. Yn y rhagymadrodd (y gyfrol gyntaf) trafodir hanes y llawysgrifau perthnasol, awduraeth y llysieulyfr ei gyfnod, ei ffynonellau, rhai o'i nodweddion, a'i le fel rhan o weithiau Salesbury. Ond y mae rhan helaethaf y rhagymadrodd yn ymdrin â holl enwau llyisiau Cymraeg y llysieulyfr, gan gyfeirio'n fyr at natur enwau llyisiau Cymraeg yn gyffredinol. Er mwyn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi enwau llyisiau a'u rhoi yn eu cyd-destun, aethpwyd ati i lunio rhestr enwau o ffynonellau eraill yn dyddio o tua 1400 i tua 1700. Bu i hon gael ei chynnwys yn yr atodiad (y drydedd gyfrol) yn ogystal ag eglurhad o'r modd y'i lluniwyd. A cheir yn yr atodiad dri mynegai i'r testun : enwau llefydd, personau a llyisiau.

Y mae'r gwaith yn dair cyfrol :

CYFROL I : RhAGYMDRODD

I	Y LLAWYSGRIFAU .....	1
II	AWDURAETH .....	7
III	FfYNONELIAU A ChYFNOD .....	18
IV	WILLIAM SALESBURY A'R LLYSIEULYFR .....	28
V	ENWAU LLYSIAU YN Y TESTUN AC YN GYFREDINOL .....	36
VI	YMDRIN AG ENWAU LLYSIAU CYMRAEG Y LLYSIEULYFR .....	44
VII	LlyFRYDDIAETH .....	240

CYFROL II : TESTUN

TALFYRIADAU A ThROEDNODIADAU .....	i
TESTUN .....	1

CYFROL III : ATODIAD

TRI MYNEGAI (Rhagair) .....	1
MYNEGAI ENWAU LLYSIAU .....	3
MYNEGAI ENWAU LLEFYDD .....	67
MYNEGAI ENWAU PERSONAU .....	71
LLUNIO RHESTR ENWAU LLYSIAU .....	74
RHESTR O ENWAU LLYSIAU .....	89

Noder mai ag un 'l' y dewisais i sillafu enw Wiliam Salesbury. Foddbynnag yn enw'r traethawd hwn, yr enw a gofrestrwyd, â dwy 'l' y'i sillefir).

## I Y LLAWYSGRIFAU

Yn llaw Roger Morris, Coed y Talwrn, y mae llawysgrif Ll.G.C. 45811. Arni y canolwyd yr ymchwil hwn. Ar dudalen 187a ceir:

*"Hyd yma o lyfr o law W. Salsburie  
a gawsid ei venthic gan Syr Tom=  
as ap Wiliam./ 1597./  
Deo gratias".*

Mi gredwn fod hyn cystal â dweud mai gwaith Wiliam Salesbury oedd yr hyn a geid hyd at y fan honno : gwaith a fenthyciwyd i Roger Morris gan Syr Tomas ap Wiliam (Thomas Wiliems, Trefriw). Ni chefais le i amau cywirdeb hyn. Hyd nes caf gyfle ymhellach i gadarnhau hyn byddaf yn trin y testun (hyd at tud. 187a) fel gwaith Wiliam Salesbury.

Niwlog ydyw hanes Ll.G.C. 4581 a'r llawysgrif wreiddiol y daeth y rhan fwyaf o Ll.G.C. 4581 ohoni. Bu farw Roger Morris tua 1604-5 yn ôl Nesta Lloyd<sup>2</sup>, tua 1600 yn ôl Denis Jones<sup>3</sup>, a chyn Ebrill 1600 yn ôl Nia Watcyn Powell<sup>4</sup>. Chwalwyd ei lawysgrifau, meddir, a daeth rhai i ddwylo Tomos ap Ifan, Hendreforfudd. Ymhlith y rhain dywedir fod Ll.G.C. 4581<sup>5</sup>. Ni thybiaf fod hyn yn hollol gywir. Ceisiaf ddangos hynny'n nes ymlaen. Credaf mai'r llawysgrif wreiddiol ac nid Ll.G.C. 4581 a ddaeth i afael Tomos ap Ifan. Ar ôl hyn ni wn beth fu hynt y llawysgrif wreiddiol. Ond y mae'n eithaf posibl iddi hi neu Ll.G.C. 4581 fod yn nwylo Robert Dafis, Gwysanau, rwydro cyn 1636. Honnaf hynny oherwydd rhestr o enwau Cymraeg ar lysiau yn ail argraffiad Thomas Johnson, 1636, o lysieulyfr John Gerard. Rhestr ydyw a gafwyd gan "Robert Dauyes of Guissaney"<sup>6</sup>. Yn y rhestr hon ceir nifer o enwau llyisiau na all ond bod wedi eu tynnu o lysieulyfr Wiliam Salesbury<sup>7</sup>.

Tan y ddeunawfed ganrif nid oes gennyf amcan beth fu hanes  
Ll.G.C. 4581. Y pryd hynny torrodd nifer o'i pherchenogion eu  
henwau arni. Dyma rai:

Ll.G.C. 4581 (tud. 1a):  
"Edward Evans"

Ll.G.C. 4581 (tud. 95b):  
"Evan Thomas is the  
True ouner of this book  
I am by[sic] the book from  
Ellis Edwards 1763"

Ll.G.C. 4581 (tud. 119b):  
"Thomas Evans his Book"

Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain ydyw Evan Thomas, sef Evan  
Thomas, Cwm Chwilfod. Ar ei gopi ef o llysieulyfr Salesbury  
(Ll.G.C. 686) y seiliwyd gwaith E. Stanton Roberts a geir yn ei  
lyfr y *Llysieulyfr Meddyginiaethol*. Yn ôl W. Alun Mathias<sup>8</sup> copi  
o Ll.G.C. 4581 ydyw Ll.G.C. 686. Bu i minnau gymharu'r fanwl  
Ll.G.C. 4581 â thestun y *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, nes nad oes  
gennyf amheuaeth fod honiad Alun Mathias yn gywir. Copi gwallus  
ydyw un Evan Thomas. Ac er i mi baratoi troednodiadau manwl yn  
dynodi'r gwahaniaethau rhwng Ll.G.C. 4581 a thestun y *Llysieulyfr  
Meddyginiaethol*, penderfynais eu hepgor o'm testun am nad  
amrywiadau dilys 'mohonynt ond gwallau copïo Evan Thomas. Dyma  
rai o'r enghreifftiau gwaethaf o'r gwallau hynny<sup>9</sup>:

Ll.G.C. 4581 (tud. 17b):  
" ... palatr meindwf sy iddo ac vnicol ac yn hwy no chubyt  
...",

*Llysieulyfr Meddyginiaethol* (tud. 31):  
" ... paladr meindwf sydd Iddo ac unicol ar hwinnw chwybyd  
...";

Ll.G.C. 4581 (tud. 43a):  
"Y llysaе hynn a ddifan gan yssy a phytru ac am hynny  
angheuol ydyw yr oll ryw./",

*Llysieulyfr Meddyginiaethol* (tud. 66):

"y Llysie hyn a ddifan gân ysu a phydry ac am hynny angenrheidiol ydyw yr ol rhyw";

Ll.G.C. 4581 (tud. 89a):

"Y blodae o gwthir mewn goraith gyfaddas yn ol ymddwyn peri hyspy a wna./";

*Llysieulyfr Meddyginiaethol* (tud. 122):

"y blode o gwthir mewn agoriad gyfagos yn ymddwyn peri hysby a wnant./";

Ll.G.C. 4581 (tud. 138b):

"... ac a ddwc phrwyth all crwn yn wýn yn y dechre ac yno rhudd wyn vydd",

*Llysieulyfr Meddyginiaethol* (tud. 171):

"... ag a ddwg phrwyth arall crwn yn wyn yn y Dechre ag yno yn wynnelwyd.";

Ll.G.C. 4581 (tud. 139a):

"A dir yw sychy y dalennae allan or haul ai choaly yn vynech rhac ei llwydo./";

*Llysieulyfr Meddyginiaethol* (tud. 172):

"... a Dir yw chally y llysie allan or haul ai chwaly yn vynyeh rhag ei llwydo..."

Sylwer hefyd ar y manylyn hwn : "Gwaît y voruyn" (Ll.G.C. 686, tud. 172). Mae hwn ynddo'i hun yn arwydd mai Ll.G.C. 4581 oedd ffynhonnell Ll.G.C. 686 drwy ei fod yn cadw'r orgraff bur unigryw a ddefnyddia Roger Morris. Noder fod rhannau go sylweddol o Ll.G.C. 4581 heb eu codi gan Evan Thomas. Y mae chwe phennod ar goll a phymtheg arall heb gael amgen na'u cychwyn!0.

Canfu Stanton Roberts fod gan Evan Thomas nifer o lawysgrifau o bwys yn ei gasgliad. Llwyddodd i olrhain hanes C.M. 1, a chafodd rywfaint o hanes LL.G.C. 686!1. Methais i â chanfod dim o helynt LL.G.C. 4581 o gyfnod Evan Thomas tan y ganrif hon. Purion y gellid dyfalu iddi aros ym meddiant rhai o ddisgynyddion Evan Thomas tan ryw dro yn y ganrif ddiwethaf. Ar y llawysgrif ceir iddi gael ei chyflwyno i'r Llyfrgell Genedlaethol ym 1922 gan "Miss Edmondes" a "Mrs Laurence Williams" Bonvilston Cottage,



Tresimwnt. Mewn traethawd gan J. Gwernogle Evans<sup>12</sup>, honnir i'r 'Llyfrgellydd' Cenedlaethol [John Williams] gael hyd i'r llawysgrif yn yr Old Hall, Y Bont Faen, cartref y ddwy a enwyd. Dywedir mai merched oeddynt i C.G. Edmondos [1838-1893] a fu'n brifathro Coleg Llambod. Dyna'r cwbl y gallaf i ei roi o hanes LL.G.C. 4581.

Rwan trof yn ôl at honiad a wneuthum eisoes, mai'r llawysgrif wreiddiol ac nid LL.G.C. 4581 fu ym meddiant Tomos ap Ifan, Hendreforfudd. Fy sail dros ddweud hynny ydyw llawysgrif Caerdydd 2.973<sup>13</sup>. Arni ceir y dyddiadau "1609" (tud. 187a) a "1627", (tud. 299) (noder nad ydyw rhifo'r dalennau'n gyson). Wele gyd-destun yr ail ddyfyniad:

"... y xvii dydd o fawrth 1627 ir esyrifenodd[sic] Thomas ap Ivan o hen dre forydd ...".

Tuag at ddiwedd y llawysgrif hon ceir rhannau anghyflawn o chwe phennod o lysieulyfr Salesbury (sef o benodau 1,4,5,8,9,10). O gymharu LL.G.C. 4581 â'r llawysgrif hon deuthum ar draws un darlleniad sylweddol wahanol:

LL.G.C. 4581 (tud. 16b):

"Y dail sy nerthoc y sychy ac y attal ac am hynny ydd ynt yn dda y veddiginiaeth cornwydydd ne grefri tra phyrnic a rhyw ohanglwyf y rhei a von yn chwydy gwaed...".

Caerdydd 2.973 (tud. 339a/557):

"y dail sy wresog i sychv ag i atal ag am hynny ydd ynt yn dda i feddeginiaeth ne grefri tra ffyrnig a rhyw anglwyf y rhai a font yn rhedeg o ddwf a brynti hwy awaharddant [sic] chwdv gwaed...".

Ffynhonnell y llysieulyfr yn yr achos hwn ydyw *A New Herball*<sup>14</sup>.

*A New Herball* (tud. 94b):

"The leues of plantayn/haue a drying pour and byndyng together. Wherfore if they be layd to/they ar good for all perillus sores and hard to heale/and suche as draw towarde the comon lepre/and for such as ar flowyng or rynnynng and full of foul mater. They stopp also the burstyng out of blood/...".

Drwy fod darlleniad Caerdydd 2.973 yn yr achos hwn yn nes ati, dangosir nad LL.G.C. 4581 ydyw ffynhonnell y llawysgrif honno. Hefyd ceir cyfeirio mynych yn llawysgrif Caerdydd 2.973 at Doms ap Wiliam (e.e. ar tud. 187a, 192a, 193b, 202b, 212b, 248a, 249b). Gwyddys mai ef a roes fenthyg y llawysgrif wreiddiol i Roger Morris (LL.G.C. 4581, tud. 187a). Gan hynny y mae'n ymddangos i mi mai gweddillion copi arall o'r llawysgrif wreiddiol ydyw Caerdydd 2.973. Ar seiliau hynny ceir yn fynestun droednodiadau yn dangos y gwahaniaeth rhwng testunau LL.G.C. 4581 a Chaerdydd 2.973.

Y mae LL.G.C. 4581 ei hun wedi ei chadw bron yn gwbl gyflawn. Y mae iddi bedwar cant o dudalennau wedi eu rhifo hyd at 200b, ond fod 198a-199b ar goll. Ceir hefyd fynegai i'r llyisiau ar y diwedd - y tudalennau hynny heb eu rhifo. Noder fod ychydig o flerwch rhwymo tua'r dechrau.

Ac eithrio atodiadau Evan Thomas, ac ychwanegiadau ansylweddol gan law anhysbys o'r ail ganrif ar bymtheg<sup>15</sup>, y mae'r cyfan o'r hyn sydd yn y llawysgrif yn llaw Roger Morris. Defnyddiai yntau orgraff Gruffudd Robert, Milan: un o ddotiau o dan *d*, *l* ac *u* i gyfleu *dd*, *ll* ac *w*; rhydd hefyd *ph* yn gyson am bob *ff*. Heblaw am y newidiadau hynny ymddengys i Roger Morris gadw'n agos at y llawysgrif a gopiïai. Bu iddo gadw'r bylchau anghyflawn ynnddi, hyd y gwelaf, yn ogystal ag ambell los. Yn sicr yr oedd Roger Morris yn gopiwr destlus a graenus fel na welir fawr ddim darlleniadau diffygiol yn LL.G.C. 4581.

1. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", W. Alun Mathias, (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1949), tud. 210; *Y Bywgraffiadur Cymreig* (Llundain, 1953), tud. 626.
2. "A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of

- John Jones, *Gellilyfdy*", Nesta Lloyd (Traethawd D.Phil Rhydychen, 1970), tud. 265.
3. "Astudiaeth Feirniadol o Peniarth 168B (tt. 41a-126b)", Robert Isaac Denis Jones, (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1954), tud. ix.
  4. Y mae Nia Powell ar hyn o bryd yn gweithio ar ddogfennau Sesiwn Fawr Sir Ddinbych. Dywedodd wrthyf fod un achos yn erbyn gŵr o'r enw Robert ap Huw yn cyfeirio at lawysgrifau yn mynd o Goed y Talwrn yn Ebrill 1600, ac nid oes sôn am Roger Morris yn byw yno yr adeg hynny.
  5. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 210; "Astudiaeth Feirniadol o Peniarth 168B (tt. 41a-126b)", tud. liv.
  6. "Rhestr Gynnar o Enwau Planhigion yn Gymraeg", Dorian Williams, *Y Gwyddonydd*, cyfrol 17, rhif 2, Mehefin 1979, tud. 73-8.
  7. E.e. gwden y coed- gw. y rhestr enwau llyisiau isod yn yr astodiad.
  8. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 210.
  9. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 212-3.
  10. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 211-2.
  11. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, E. Stanton Roberts, (Liverpool, 1916), tud. ix-xi.
  12. Mân Adneuon LL.G.C. 306B, tud. 55.
  13. Casgliad Fenton 23, gynt (hyd y gwelais arni) ym meddiant Timothy Lewis. Yr wyf yn ddiolchgar i Ddaniel Huws am dynnu fy sylw at fodolaeth y llawysgrif hon.
  14. Gw. III isod.
  15. LL.G.C. 4581, tud. 81b-82a, 1966-197a, 200b.

## II AWDURAETH

Yr wyf wedi datgan yn barod fy argyhoeddi mai Wiliam Salesbury ydyw awdur LL.G.C. 4581 hyd at dudalen 187a, ac uchod wedi dyfynnu'r dystiolaeth fwyaf uniongyrchol parthed â hynny. Ond y mae mwy na hynny yn cadarnhau mai Salesbury ydyw awdur y gwaith dan sylw. Aeth Stanton Roberts i ymdrin yn fanwl a destlus â'r hyn a arwyddai awduraeth Salesbury<sup>1</sup>. Aeth Alun Mathias i fanylu ymhellach ar waith Stanton Roberts yng ngoleuni pellach LL.G.C. 4581<sup>2</sup>. Dosberthir y dystiolaeth i'r arwyddion hyn:

- 1) Dyddiadau a geir yn y testun neu a awgrymir gan dystiolaeth fewnol.
- 2) Cyfeiriadau at bersonau a llefydd.
- 3) Nodweddion ieithyddol y gwaith.

Ni ddichon fod yna fawr o werth i minnau ddyblygu'n gwmpasog sylwadau Stanton Roberts ac Alun Mathias, yn enwedig gan fy mod yn cytuno â'u casgliad mai gwaith Wiliam Salesbury sydd yma. Dyma'n gryno rai o brif bwyntiau Stanton Roberts (yng ngoleuni gwelliannau Alun Mathias a chan anwybyddu diffygion LL.G.C. 686), gan ddilyn y dosbarthu uchod am ran o'r trafod.

1) Crybwyllir y flwyddyn 1555<sup>3</sup>. Trafodir hi fel pe bai flynyddoedd ynghynt. Byddai'n rhaid iddi fod o leiaf dair blynedd ar ddeg ynghynt drwy na chwblhawyd *A New Herball* tan 1568. Hwnnw oedd un o brif ffynonellau'r gwaith<sup>4</sup>. Hefyd sonnir am Leonard Fuchs fel cyfoeswr. Bu ef farw ym 1566. Ef oedd awdur y brif ffynhonnell i'r gwaith<sup>5</sup>. Gwyddys i lyfrau print Wiliam Salesbury ymddangos rhwng 1547-1567 ac iddo fyw efallai tan 1599-1600<sup>6</sup>. Nid ydyw'r dyddiadau hyn felly'n rhwystro i Wiliam Salesbury fod wedi llunio'r gwaith.

2) a) Trafodir y bobl a grybwyllir yng nghorff y llyfr e.e. Syr John Salesbury, Elisa ap Wiliam, John Edward<sup>7</sup>. Ar ôl eu trafod cesglir eu bod yn cydoesi â Wiliam Salesbury, oll yn byw o fewn cylch nid nepell ohono.

b) Nodir i'r enw "Llewenni" ymddangos bedair gwaith: cartref gwreiddiol y Salbrïaid<sup>8</sup>.

c) Y mae'r enwau llefydd a grybwyllir yn ychwanegol gan yr awdur Cymraeg yn y Berfeddwlad neu heb fod ymhell ohoni: cylch disgwyliadwy Wiliam Salesbury<sup>9</sup>.

3) Ceir yma nodweddion orgraff a geirfa a chystrawen sy'n ymddangos yng ngweithiau cydnabyddedig Wiliam Salesbury<sup>10</sup> e.e. y ffurfiau "estran", "popul", "lleo", "Deo", "purpur", "pemp". Noda Alun Mathias<sup>11</sup> nifer o eiriau y prawf eu bod yn unigryw i Salesbury e.e. "adnoc" (LL.G.C. 4581, tud. 4a, 31b), "cyndrychiol" (LL.G.C. 4581, tud. 153a), "ffau" (LL.G.C. 4581, tud. 86a, 91a, 103a). Ac meddai:

"Nid yw'r orgraff ynnddi ei hun o fawr werth inni wrth geisio penderfynu pwy a gyfansoddodd y gwaith, ond y mae'r ffaith fod yr eirfa yn dwyn nodau angen W[illiam] S[alesbury] o'r pwys mwyaf, ac, yn fy marn i, y mae taro ar y geiriau a nodwyd uchod yn y Llysieulyfr yn gystal prawf â dim mai W[illiam] S[alesbury] biau'r testun"<sup>12</sup>.

Cytunaf â hyn.

Cyfeiria Stanton Roberts hefyd at honiadau awdur y llysieulyfr iddo gael ei eni yn Llansannan (LL.G.C. 4581, tud. 6b) a chael addysg yn Sir Gaerhirfryn (LL.G.C. 4581, tud. 157b-158a). Ni allaf ychwanegu dim at yr ail honiad na thynnu dim mwy ohono. O ddychwelyd at y cyntaf, ceir fod Stanton Roberts yn ei led-ddiystyru fel tystiolaeth dros awduraeth Salesbury, er bod traddodiad a dogfennau'n cysylltu Salesbury â Llansannan<sup>13</sup>. Ni

chydsyniaf â chloriannu Stanton Roberts yma. Teimlaf fod yr honiad bywgraffyddol hwn yn gadarnhad pwysig o awduraeth Salesbury.

Ychwanega Alun Mathias at y drafodaeth y pwynt hwn: yn Hafod 26 (tud. 204) ceir Tomos ap Wiliam yn disgrifio Wiliam Salesbury fel "phisicwr godidoc".

Prin ydyw'r hyn y gallaf, ac y gallaswn i fod wedi ei ychwanegu at sylwadau Stanton Roberts ac Alun Mathias ar bwnc awduraeth. Ond y mae ychydig o fanion gennyf i'w hatodi. Fe'u cynhwysaf hwy i estyn ar y tri phwynt o arwyddion awduraeth a nodir uchod.

1) Y mae mwy o arwyddocâd nag a dybid i 1578. Ni allasai'r gwaith, yn ei ffurf bresennol, fod yn gyflawn tan ar ôl y flwyddyn honno<sup>14</sup>. Ond nid ydyw hyn yn difetha dim ar bwynt 1) uchod.

2) LL.G.C.4581 (tud. 10b):

"Eithr i vyrhau damuno ydd wyf vi yn vn veddwl ar Wiliam vchod [sef William Turner] ar gymryt o wyr dyscêdic angwanec boen y olygy y peth..."

Ni allaf lai na meddwl fod yma chwarae â'r enw "Wiliam": William Turner a Wiliam Salesbury ill dau â'r un enw blaen.

Cyfeiriwyd eisoes at Hafod 26<sup>15</sup>. Llawysgrif ydyw sydd yn llaw Tomos ap Wiliam yn gopi o gopi Wiliam Salesbury o eirlyfr Wiliam Llŷn. Ond ar ben ysgerbwd geirlyfr Wiliam Llŷn ychwanegwyd geiriau gan Salesbury a Thomos ap Wiliam. Fe'i hysgrifennwyd ym 1574. Atodwyd ati (eto gan Domos ap Wiliam) mewn llawysgrifen fanach. Hawdd ydyw gwahaniaethu rhwng ysgrifen 1574 a'r ysgrifen atodedig<sup>16</sup>. Yn y llawysgrif hon ceir tri chyfeiriad sy'n cysylltu â'r llysieulyfr dan sylw, ac yn rhinwedd hynny'n

cyplysu'r llysieulyfr â Wiliam Salesbury:

Hafod 26 (tud. 57):

"Erwaint chwys Arthŵr  
llyseŵn, yr hwn a elwir yn  
Sasonaec medswet in llatin  
gan rei Ulmaria, gan Doctor  
fuchsius i gelwir Barba Capri sef  
barf yr afr."  
[*De Historia Stirpium* (tud. 64a): DE BARBA CAPRI],

Hafod 26 (tud. 59):

"Ewingrwn, llythyr, neŵ  
Text  
scriven GS medd M. Elisa  
ap Wiliam llwyd",

Hafod 26 (tud. 122):

"Krywyn, cut moch.  
krywyn kyn moch. *Diereb*.  
ai kreŵ ynteŵ hefyd arwyddocâ'r  
vn peth, ac o hanaw medd Elisa  
ap Wiliam llwyd, gŵr celfydd  
Brutanaidd, y daw Creuddyn...",

Y mae'r tri chyfeiriad yma yn ysgrifen 1574. O edrych ar  
eirlyfr Wiliam Llŷn<sup>17</sup> ceir hyn:

Caerdydd 82 (tud. 23a):

"Erwaint chwys arthur kyd orwedd  
sysse<sup>18</sup> lle kaid  
Erwaint  
Gann w<sup>18</sup>ffre lloyd",

Caerdydd 82 (tud. 24a):

"Ewingrwn tekst gann Elissav  
ap Wiliam",

Caerdydd 82 (tud. 43a):

"krywn kvt moch krywyn kyn<sup>19</sup>n moch  
dihareb yw".

Fel y gwelir diwygiwyd tipyn ar yr hyn a oedd yn wreiddiol yn  
y geirlyfr. Cyfyd nifer o ystyriaethau o'r dyfynnu yma. Yn yr  
ail ddyfyniad o Hafod 26 ceir y llythrennau "G S" : "G S" ydyw fy  
nehongli i ar yr ysgrif sydd yno. Efallai fy mod yn methu ond  
hoffwn awgrymu mai hynny sydd yma, a bod y llythrennau hynny'n  
cynrychioli Gulielmus Salesburius<sup>19</sup>. Fodd bynnag dengys Caerdydd

82 mai Wiliam Llŷn sy'n gyfrifol am roi enw Elisa ap Wiliam yma. O ran hynny y mae'n hysbys ei fod yn gyfarwydd â'r gŵr hwnnw gan fod ganddo awdl foliant iddo<sup>20</sup>. Egluro'n fanylach ystyr "ewingrwn" a wna "G S". Ond am yn y trydydd dyfyniad o Hafod 26 nid o waith Wiliam Llŷn y cafwyd yr enw "Elisa ap Wiliam llwyd". Tomos ap Wiliam neu Wiliam Salesbury a'i rhoddodd yno felly. A gwyddys i awdur y llysieulyfr fod yn gydnabod i Elisa ap Wiliam<sup>21</sup>. Gan droi at y dyfyniad cyntaf o Hafod 26, dengys Caerdydd 82 nad Wiliam Llŷn a soniodd am "Doctor fuchsius". A gwyddys i awdur y llysieulyfr ddefnyddio gwaith Fuchs yn sail i'w waith<sup>22</sup>. Ac wrth gwrs, o'r hyn a ddywed Roger Morris (Ll.G.C. 4581 tud. 187a), gwyddys nad Tomos ap Wiliam oedd awdur y llysieulyfr. Felly dyma arwyddion eraill o awduraeth Salesbury.

3) O edrych ar Destament Newydd a Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 gwelir fod Wiliam Salesbury'n dangos diddordeb yn nhafodiaith y De. Ac o edrych yn Hafod 26 ceir olion o ddiddordeb arloesol Salesbury mewn tafodiaith. Gwyddys fod awdur y llysieulyfr yn ogleddwr<sup>23</sup>, ac eto ceir olion diddordeb yn iaith y De<sup>24</sup>. Dyma efallai arwydd bychan arall o awduraeth Salesbury.

Peth arall y dylid cyfeirio ato fel arwydd o awduraeth Salesbury ydyw holl naws y gwaith a'r ymagweddu a geir ynddo. Y mae'r penodau sy'n dilyn yn cyffwrdd â hynny e.e. yr union ffynonellau dyneiddiol<sup>†</sup> a ddefnyddiwyd i lunio'r gwaith<sup>25</sup>, agwedd at y Saesneg<sup>26</sup> yn ogystal â'r ieithoedd clasurol, yr holl feddylfryd a ddadlennir gan rai o'r enwau llyisiau: dylanwad ffurfiau clasurol/hynafol, awydd i ehangu geirgylch, y duedd i arddel enw oherwydd fod cyffelyb i'w gael mewn iaith/ieithoedd Ewropaidd o bwys<sup>27</sup>. Hefyd disgrifir yr arfer o ddefnyddio



llyisiau Ifan ar nos Wyl Ifan fel "rhyw hen goec ddefot" (LL.G.C. 4581, tud. 18b ). I mi y mae hwnnw'n swnio'n ymadrodd cwbl ddisgwyliadwy gan Salesbury : Protestant A'i hai ar ofergoelion o bob rhywogaeth.

Felly dyma ail ddatgan mai Wiliam Salesbury piau'r llysieulyfr hyd at LL.G.C. 4581, tud. 187a. Galwaf y rhan honno'n rhan A o'i chymharu A'r gweddill sy'n dilyn: rhan B.

Ar yr argraff gyntaf yr oeddwn o'r farn mai Salesbury oedd awdur rhan B hefyd. Y rheswm pennaf dros fy nghred ydoedd tebygrwydd yr arddull a'r orgraff. Fodd bynnag nid oedd Alun Mathias<sup>28</sup> o'r farn mai Wiliam Salesbury oedd awdur y rhan honno. Tybiai ef mai Tomos ap Wiliam oedd yr awdur tebycaf. Yn rhannol dan ddylanwad hynny, sbiaais wedyn ar ran B. Un peth yr oeddwn wedi sylwi arno oedd rhai mân wahaniaeth orgraff rhwng y ddwy ran. Creffais yn fanylach ar y rheiny. Gan gofio mai yn llaw Roger Morris yr oedd y cwbl, gellid ystyried gwahaniaethau o'r fath yn arwyddocaol. Llwyddais i sylwi ar dri lle, lle defnyddir orgraff wahanol i gyfleu'r un peth. Gyda chymorth cyfrifiadur aed i gyfrif yn y tri achos.

i) Sylwais fod llawer mwy o ddefnyddio -y fel terfyn berf yn rhan A ar ferfau ag -u ar ei diwedd<sup>29</sup>. Dyma gyfradd -u : -y yn y ddwy ran:

842:122 (rhan A) sef 12.7%: 87.3%

1:32 (rhan B) sef 97%: 3%.

ii) -ae ac -eu ydyw y dull, bron yn ddieithriad, o gynrychioli y lluosog -au drwy'r gwaith. Ymlynnir yn fwy cyson at -ae yn rhan A<sup>30</sup>. Wele gyfrif -ae : -eu/-au:

1731:110 (rhan A) sef 94%: 6%

57:51 (rhan B) sef 52.8%: 47.2%

iii) Y duedd yn rhan A ydyw defnyddio y yn fynych nid yn unig fel bannod ond hefyd dros yr arddodiad i. Ar y llaw arall y mae tuedd yn rhan B i ddefnyddio i fel bannod yn ogystal ag arddodiad. Gan ystyried i ac y fel uned, dyma i:y ym mhob rhan:

176:4228 (rhan A) sef 4%: 96%

37:227 (rhan B) sef 14%: 86%.

Er mai manion ydyw'r nodweddion hyn y maent yn dangos patrwm pur wahanol rhwng rhan A a rhan B yn enwedig i) a ii)<sup>31</sup>. A chan gofio eto mai Roger Morris oedd y copiwr ym mhob achos tybiaf fod hyn yn dystiolaeth ddigonol i ddangos nad yr un awdur sy'n gyfrifol am ran A a rhan B, ac felly nad gwaith Wiliam Salesbury ydyw rhan B. Wrth gwrs prawf negyddol ydyw hwn, ac nid ydys erddo ddim nes i'r lan i wybod pwy a luniodd ran B.

Fel y dywedwyd Tomos ap Wiliam ydyw cynnig Alun Mathias fel awdur rhan B. O blaid hynny y mae'r cyfeirio a geir ato ar dudalennau 103a a 187a. A gwyddys o dudalen 187a mai ganddo ef y benthycodd Roger Morris y gwaith hyd at y tudalen hwnnw.

Tarewais innau fy ngolwg ar ragymadrodd Tomos ap Wiliam i'w eiriadur (Peniarth 228). Sylwais fod yma elfennau o'r anghysondeb orgraff a ddefnyddiais i wahaniaethu rhwng rhan A a rhan B. Ond cyn ymdrafferthu ar y trywydd hwnnw euthum i gyfeiriad arall. Nòdais fod enwau llyisiau unigryw<sup>32</sup> i'r llysieulyfr ym Mheniarth 228, e.e.:

"Aristolochia ... yr escorlys",  
"Alliarium ... Garllecoc, Troet yr Asen",  
"Leucarhantha ... march ysgalhen dhof".

Ond ofer ydyw ceisio â chael unrhyw enw unigryw yn rhan B ac ym Mheniarth 228. Sylwer ar yr enwau a ganlyn:

Rhan B:

"Persli or ardd" (tud. 187a); "Persli mynyddic" (tud. 188a). "Apiũ syluestre... persli gwyllt" (tud. 189a); "Persli y cerric" (tud. 190a); "Persli mawr neu Alixandyr" (tud. 191a); "Persli o Macedonia" (tud. 191a); "persli yr gors ne Smalaets... Hydroselinon agrion .s: Dyfrbersli gwyllt" (tud. 192a); "Sium ... Water persely ... Persli yr dwr" (tud. 193a); "Caucalis... Eulun persli" (tud. 194a); "Cherophyllũ neu Chaerophyllũ ac ni wnn inneu enw iddo anid i alw Cerfoil yn Gamberaec" (tud. 195a); "Pigddant cerfoil" (tud. 195b),

Peniarth 228:

"Apium ... persli medh rhai yr Smalaets y persli dũ"; "Caucalis ... perseli afrywioc"; "Chaerephyllum ... Ceruil"; "Cherophyllum ... Cheruil"; "Hydroselinum ... perseli'r dwr ne'r gors"; "Olusatrum ... Alusantr Lyseun, Louets deildhu"; "Petroselinum... rhywogaeth perseli'n tyfu ar gerric"; "Sium... perseli'r dwr"; Smyrnion... Marchbersli, y persli gwyllt, yr olusatr, y dulus ne'r Alisantr yn lhygredic, y persli mawr".

Gwelir fod yr enwau *persli gwyllt*, *persli'r dŵr*, *persli mawr*, *smalaetj* ac *alisandr* yn gyffredin i'r ddau waith. Ond prin fod yn hyn arwyddocâd, drwy eu bod yn enwau mor elfennol. Ond sylwer fod gan Beniarth 228, yn aml y sillafiad *perseli*. Yn fwy ystyrlon gwelir mai *eulun perseli* a rydd rhan B yn enw ar y *caucalis*, *persli afrywioc* sydd gan Beniarth 228. Ychwaith ni welir *marchbersli* na *dulys* yn rhan B na *dyfrbersli* ym Mheniarth 228. Ac afraid ydyw bwrw sylw pellach ar yr amrywiadau yn enwau Cymraeg *chaerephyllum* a phenbleth awdur rhan B. Credaf fod hyn yn ddigon i ddangos nad awdur Peniarth 228, sef Tomos ap Wiliam a luniodd ran B.

Pwy felly ydyw awdur rhan B? Yr unig gynnig a allaf i ei roi ydyw mai gwaith Roger Morris ei hun ydyw. O blaid hynny:

i) Ni phriodolir y gwaith i neb, fel pe byddid i'w ystyried yn waith yr ysgrifennwr ei hun.

ii) Yr oedd gan Roger Morris ddiddordeb yn y maes llysieuol,

digon o ddiddordeb i gopiŋo gwaith Wiliam Salesbury ar y pwnc.

iii) Yr oedd ganddo gopi o waith Dodoens. *A New Herball or Historic of Plants* oedd hwnnw mae'n sicr. O hwnnw y cafwyd bron y cyfan o ran B<sup>33</sup>. Fy sail dros ddweud hyn ydyw oherwydd iddo ddyfynnu gwaith Dodoens i gywiro honiad Tomos ap Wiliam ynglŷn ag enw llysiuyn:

Ll.G.C. 4581 (tud. 103a):

"Sowdyl y crydd oedd hefyd vchod yn lle enw *Cambereic* ac ar hynny o law S.T.Williams. *Dodoneus*. Sowdyl y crydd yw *Oxalis altera* ai *Bonus Henricus* ac nid y gwir *Vercuri.*/"<sup>34</sup>.

iv) Dywed Denis Jones<sup>35</sup> yr hoffai awgrymu mai Roger Morris a ysgrifennodd ran B. Daeth i'r casgliad hwnnw ar ôl cymharu (ni nodir sut) ran B â'r darnau hynny a gyfieithiasai Roger Morris o waith John Stow ym Mheniarth 168B, sef tud. 150-152. (Yr oeddwn wedi llunio'r tri phwynt uchod cyn cael hyd i'r pedwerydd pwynt hwn).

- 1 *Llysiuyllyfr Meddyginiaethol*, tud. xxix-lix.
- 2 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 213.
- 3 Ll.G.C. 4581, tud. 119a a 163b.
- 4 Gw. III isod.
- 5 Gw. III isod.
- 6 *Llysiuyllyfr Meddyginiaethol*, tud. xxxii a gw. III isod.
- 7 Gw. y mynegai enwau personau isod yn yr atodiad.
- 8 Gw. y mynegai enwau llefydd isod yn yr atodiad.
- 9 Gw. y mynegai enwau llefydd isod yn yr atodiad.
- 10 *Llysiuyllyfr Meddyginiaethol*, tud. xli-xlix.
- 11 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 215-9.
- 12 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 219.
- 13 *Llysiuyllyfr Meddyginiaethol*, tud. liii-lix.
- 14 Gw. III isod.
- 15 Yr wyf yn ddiolchgar i Alun Mathias am dynnu fy sylw at y llawysgrif hon.
- 16 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 228-232.
- 17 Tra bŵm wrthi ar yr ymchwil hwn daeth i law waith Roy Stevens (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1983): "Gwaith Wiliam Llŷn". Cyn i'r traethawd hwn ymddangos yr oeddwn wedi defnyddio'r geirlyfr Wiliam Llŷn a geir ym

*Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, J. C. Morrice (Bangor, 1908) tud. 267-87, ac wedi defnyddio'r enwau llyisiau sy'n hwnnw yn y rhestr sydd yn yr atodiad (cyfrol III). Yng ngoleuni gwaith Roy Stevens, daeth golau newydd ar eirlyfr Wiliam Llŷn, gw. y traethawd crybwyllledig tud. xxxii-xliv. Ceir testun o'r geirlyfr ganddo yn atodiad ei draethawd: testun o lawysgrif Caerdydd 82. Hwnnw a ddefnyddiais i yma.

- 18 Ni welais lawysgrif Caerdydd 82 fy hunan. Ond hoffwn awgrymu mai camddarlleniad Roy Stevens ydyw'r gair hwn, ac mai "lysseun" ddylai fod yma.
- 19 Y mae nifer o enghreifftiau o'r un ysgrif drwy Hafod 26, e.e. tud. 60, 71, 164. "C" ydyw ar dudalen 59. Ond y mae'r llythyren "G" yn eglur fel rhan gyntaf mewn enghreifftiau eraill e.e. tud. 60. Ffurf ar "S" ydyw'r ail ran: ffurf megis "C" heb y bachyn uchaf arni. Mewn erthygl gan Robin Flower "Richard Davies, William Cecil and Giraldus Cambrensis" *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, III, tud. 7-14, ceir llun (gyferbyn â tud. 12) o nodyn gan Salesbury yn Ll.G.C. 3024. Ar ôl nodyn llofnododd Salesbury ef ag "G.S."
- 20 "Gwaith Wiliam Llŷn", tud. 11.
- 21 Ll.G.C. 4581, tud. 152a, a gw. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. xxxiii-iv.
- 22 Gw. III isod.
- 23 Ll.G.C. 4581 (tud. 33a) : "... a'r Cynga y galwn ni wy yn gyphredin yn Gwynedd heddy".
- 24 Ll.G.C. 4581 (tud. 15b) : "... ystyllenlys yn iaith Deheubarth./". Hefyd ceir "taw" yn los ar "mai" ar dudalen 123b.
- 25 Gw. III isod.
- 26 Gw. IV isod.
- 27 Gw. V isod.
- 28 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 224.
- 29 Tynnir sylw at hyn fel nodwedd Salbrïaidd gan E. Lewis Evans yn "William Salesbury", *Y Llenor*, cyfrol 12, tud. 180.
- 30 Yn "William Salesbury", *Y Llenor*, cyfrol 12, tud. 182,ynnir sylw at hyn fel nodwedd o orgraff Salesbury gan E. Lewis Evans.
- 31 Ceir fod 53741 o eiriau yn rhan A, 3339 yn rhan B. A rhag ofn bod rhan A yn amrywio yn y nodweddion hyn o un man i'r llall cymerwyd tair is-set o benodau ohoni, a'r geiriau yn yr is-setiau mor agos â phosibl o ran nifer i nifer rhan B. Tynnwyd y penodau hynny yma ac acw o ran A. Cafwyd hyn:

is-set 1 (penodau, 72, 87, 106, 121, 129, 130, 132, 133, 137, 138, 144) - 3303 gair; is-set 2 (penodau, 15, 22, 63, 64, 75, 80, 82, 101, 113, 114, 128) - 3355 gair; is-set 3 (penodau, 19, 20, 25, 46, 47, 48, 50, 52, 83, 139, 141) - 3334 gair.

<u>berfau -y</u>	:	<u>berfau -u</u>		
is-set 1	49	:	7 sef 87.5%	: 12.5%
is-set 2	60	:	7 sef 89.6%	: 10.4%
is-set 3	64	:	4 sef 94.1%	: 5.9%.

<u>lluosog -ae</u>	:	<u>lluosog -eu /-au</u>		
is-set 1	104	:	5 sef 95.4%	: 4.6%
is-set 2	98	:	15 sef 86.7%	: 13.3%
is-set 3	111	:	6 sef 94.9%	: 5.1%.

<u>i : y</u>				
is-set 1	16	:	260 sef 5.8%	: 94.4%
is-set 2	16	:	269 sef 5.6%	: 94.4%
is-set 3	16	:	271 sef 5.6%	: 94.%.

Cadarnha hyn fod cysondeb o fewn rhan A fel uned.

- 32 Golygaf â'r term 'enw unigryw' fod yr enw wedi ei fathu o'r newydd. Y mae llawer enghraifft o hyn yn y llysieulyfr (a Pheniarth 228). Am ymdriniaeth fanylach gw. V isod, ac am ymdriniaeth â'r enwau a enghreifftir o'r llysieulyfr gw. VI isod.
- 33 Gw. III isod.
- 34 Noder nad wyf yn petruso dehongli hwn fel sylw Roger Morris. Ni wna synnwyr i mi fel arall. Ond yn "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 220, ni ddehonglir ef felly gan Alun Mathias. Ni welaf sut y cysona beidio â gwneud hynny, gan ddehongli y sylw ar dudalen 187a (Ll.G.C. 4581) fel un Roger Morris. Am enghraifft arall o sylw gan Roger Morris gw. Ll.G.C. 4581, tud. 75b. Y mae hwnnw hefyd mewn ysgrifen Eidal.
- 35 "Astudiaeth Feirniadol o Peniarth 168B (tt. 41a-126b)", tud. lxxix.

### III FFYNONELLAU A CHYFNOD

Trwyadl iawn ydyw astudiaeth Stanton Roberts o ffynonellau Ll.G.C. 686<sup>1</sup>. Yr un ydynt wrth gwrs â rhai Ll.G.C. 458<sup>1</sup>. Prin ydyw'r hyn y gallwn i fod wedi ei ychwanegu at ei sylwadau ef. Ond y mae rhywfaint gennyf i'w ddweud, a hynny'n rhannol drwy fod gennyf y fantais o gael testun cywirach a mwy hydrin.

. Yn gryno dyma brif bwyntiau Stanton Roberts ynglŷn â phatrwm a ffynonellau'r gwaith.

1) Cnewyllyn y gwaith ydyw'r trosi o rannau o *De Historia Stirpium*, Leonard Fuchs (Basel, 1542 : argraffiad cyntaf). Almaenwr a anwyd ym Mafaria ym 1501 oedd Leonard Fuchs. Bu farw ym 1566. Ym 1535 daeth yn athro meddygaeth Prifysgol Tübingen. Ysgrifennodd nifer o lyfrau ar feddygaeth a llysieuath. Ei brif waith oedd y llyfr a nodwyd. Gwyddys mai un o argraffiadau Paris (1543, 1546 ac ati) a ddefnyddiwyd gan Wiliam Salesbury, oherwydd cyfeiria at ychwanegiad a wnaethpwyd at y gwreiddiol yn argraffiadau Paris<sup>2</sup>.

2) Defnyddiwyd hefyd weithiau y Sais, William Turner (?1508-79): *Libellus de Re Herbaria Novvs* (Londinium, 1538), *The Names of Herbes* (London, 1548), *A New Herball* (London, 1551 (y rhan gyntaf), 1562 (yr ail ran), 1568 (y drydedd ran)). Protestant oedd William Turner a fu'n ddeon Wells a meddyg i Ddug Somerset.

3) Gwaith arall a ddefnyddiwyd oedd gwaith yr Is-Almaenwr Rembert Dodoens (1517-1585). Gŵr oedd a fu'n feddyg i'r ymerawdwr Maximilian II a Rudolph II ac yn athro meddygaeth yn Leyden. Ei brif waith oedd llysieuulyfr a gyhoeddwyd ym 1554, a hwnnw a ddefnyddiwyd mewn cyfieithiad Saesneg o gyfieithiad Ffrangeg ohono: *A Niew Herball or Historie of Plantes*, Henrie Lyte

(cyfieithydd) (London, 1578).

4) Y mae patrwm adrannau'r penodau yn nhrefn *De Historia Stirpium*.

5) Y mae cynnwys adrannau "Y rhywiae", "Yr amser", "Yr astempr" a rhan fwyaf "Y lle" yn trosi *De Historia Stirpium*: "GENERA", "TEMPVS", "TEMPRAMENTVM", "LOCVS".

6) Y mae rhai o adrannau "Y phurf" ac "Y rhinweddae" yn tynnu ar *De Historia Stirpium* ac *A New Herball*. Pan fo'r un llysieuyn dan sylw gan y ddau lyfr, cymharwyd y ddau lyfr i lunio'r hyn a geir yn y llysieulyfr. Yn aml y mae'r gweithiau hynny'n debyg o ran cynnwys oherwydd pwynt ll isod. Ond yn amlach (yn enwedig yn rhannau olaf y gwaith) *A New Herball* ydyw sylfaen "Y rhinweddae".

7) Bron yn ddieithriad y mae trefn y penodau yn dilyn trefn y penodau cyfatebol yn *De Historia Stirpium*.

8) Ceir nodweddion gwreiddiol i'r gwaith o raid yn yr adrannau ar enwau, ac fel arall yn bennaf wrth ymdrin â llyisiau cyfarwydd, yn enwedig lle y tyfant.

9) Ymddengys mai ychwanegiadau diweddarach ydyw'r rhannau o'r gwaith sy'n ddyledus i *A New Herball or historie of Plantes*.

10) Gall fod cyfeiriad at waith llysieuol arall yn y llysieulyfr sef *Stirpium Adversaria Nova* Pierre Pena a Mathias de Lobel (Londinium, 1570/1). Cesglir hynny o'r geiriau "*Aduersaria noua*" LL.G.C. 4581 (tud. 67a).

11) Yn y pen draw y mae Leonard Fuchs a William Turner ill dau â dyled sylweddol i'r hen awduron clasurol fel Galen a Dioscorides. Trwy hynny y mae'r llysieulyfr hefyd yn ddyledus iddynt. Gwaith Dioscorides yn bennaf ydyw disgrifiadau'r



llyisiau. I'r hen awduron hyn y perthyn y syniad o 'artempr'  
llyisiau.

Ni chefais le i amau'r pwyntiau hyn ac eithrio yn rhannol  
bwynt 9). Caf gyfle i ddangos hyn isod. Cyn hynny cystal ydyw  
enghreifftio cadarnhad o ddyled y gwaith i'r ddwy brif  
ffynhonnell, *De Historia Stirpium* ac *A New Herball*:

*De Historia Stirpium* (tud. 208b-209b):

DE POLYGONO MARE.

CAP. CCXXXV.

*Polygonum mas herba innocentium vulgò dicitur, quod  
Parisiis Coenuterio Innocentibus sacro luxuriat.*

*Seminalis*

*cur dicta.*

NOMINA.

*Sanguinalis.* ολύγονομάκρη Graecè, Proserpinaca, *Seminalis* à  
*Corrigolia* ω semi[sic] nis multitudine, & *Sanguinalis* à  
*Centumnodia.* cohiben sanguine nominatur. *Officinis Corrigiola*  
& *Centumnodia*, Germanicè *Vueggrasz*, *'Denngrasz*, *'Vuegdrut*  
appellatur. *Polygonon* à geniculorum frequentia, & multitudine  
dictum est.

FORMA.

Herba est ramis tenuibus, teneris, copiosis, geniculis  
intersectis, in terra graminis modo repentibus. Foliis  
Rutae similibus, logioribus tamen. Iuxta singula folia  
semine, vnde masculum vocatur. Flore albo aut puniceo.

LOCVS.

Nascitur passim, quotidieque pedibus coculcatur, sua  
spo te[sic] in aggeribus & semitis proueniens.

TEMPVS.

Aestate floret, quo etiam tempore legitur.

TEMPERAMENTVM.

Vti adstictionem quandam obtinet *Polygonum*, ita sanè  
vincit in eo aqueum frigidum, vt videlicet secundi sit  
ordinis medicaminum refrigerantium, aut etiam quodammodo  
in initio tertii. Est etiam exiccatorium.

VIRES. EX DIOSCORIDE.

Vim habet adstringendi & refrigerandi succus *Polygoni*  
potus. Prodest sanguinem expuentibus, & alui  
defluxionibus, cholericis & vrinae stillicidio. Vrinam  
enim euidenter ducit. Cum vino potus venenatorũ morsibus  
auxiliatur. Va let[sic] etiam ad febrĩũ circuitus vna hora  
ante accessionẽ sumptus. Muliebri profluuiũ appositus  
sistit. Auriũ doloribus, & purulentis auribus instillatus  
cõfert. Cũ vino decoctus mel le[sic] adiecto, eximiè ad  
genitaliũ vlcera facit. Folia contra stomachi ardorẽ,  
sanguinis reiectionem, herpetas, ignes sacros,  
inflammationes, oedemata, & vulnera recentia illinuntur.

EX GALENO.

Polygonum iis sanè quibus stomachus aestu feruet extrin secus[sic] illitum auxiliatur: veluti etiã ignes sacros & calidas phlegmonas iuuat. Porrò tale cū sit, & fluxiones reprimit, & hac ratione videtur exiccatorium esse. Quare cum herpetum, tum vlcerum, aliorumque bonum est remedium: effi cacissimum[sic] autem inflammatione & fluxione laborãtium partium. Est & cruentorum vulnerum glutinatorium. Sed & aurium vlceribus prodest: & si vel satis puris insit, hoc tamen[sic] etiam desiccatur. Eadem ob facultates & muliebri profluuium, & dysenteriam, & sanguinis eiectiones, & vindecū que aliunde immoderatiores impetus sistit. Refert Dioscorides quòd & vrinam prouocet exhibitum stillicidio affectis. Non tamen affectum xactè discriminat in quo dari ip[sic]sum expediat.

EX PLINIO.

Succus eius infusus naribus supprimit sanguinem, & potus cum vino, cuiuslibet partis profluuiū excretionēque cruētas[sic] inhibet. Vis eius spissare ac refrigerare. Semē aluum largius[sic] sumptum soluit, vrinam ciet, rheumatisimos cohibet: qui si non fuere, non prodest. Stomachi feruori folia imponuntur. Vesicae dolori illinuntur, & ignibus sacris. Succes & auribus purulētis instillatur, & oculorum dolori per se. Dabatur & in febribus ante accessiones, duobus cyathis in tertianis quartanisve praecipuè. Item cholericis, dyfentericis & in solutione stomachi.

A New Herball (tud. 96b-97b):

*Of knot grass or swyne grass and of the meadow schauigrass, out of Dioscorides.*

Dioscorides maketh ij kyndes of Polygonum. The one he calleth the male/and the other he calleth the female. Polygonum the male (sayeth he) is an herbe that hath tedre branches and soft set about with litle knees of knoppes about the ioyntes/and they kreppe vpon the ground like grass. The leues ar like rue/but they ar longer & softer. It hath sede besyde euery lefe/wherof it is called the male. The flour is whyte or purple. Polygonum the female is a litle bushling or busshy herbe/hauyng but one stalk/tendre and lyke vnto a rede/and it hath many knoppy ioyntes called of som men knees/one beyng allwayes stopped into an other/after the maner of a trumpet. And it hath certayn thynges about the ioyntes/goyng round about/lyke vnto the leues of a Pyne tre. The root is nothyng worth. It groweth in watery places.

The former kynde is named in Greke *Πολυγονομαρρεμ*, in Latin *Poligonū mas* or *sanguinalis*, in Duch Wegbret/in English knotgrasz or Swynegrasse.

The female is called in Greke *Πολυγονονθηλυ* /in Latin *Polygonū foemina*/in Englishe litle shaue grasse or meadow shauegrasse/because it groweth much in moyst and merrish medowes.

*The vertues of knot grasse out of Dioscorides.*

The iuice of knotgrasse/if it be dronken/hath a byndyng and a coolyng propertie. It is good for them that spit blood/and for the flix and for such as choler bursteth out of/both aboue and beneth. It is good for the strangurian/for it doth manifestly bryng furth water. It is good to be dronken with wyne/agaynst the bytyng of venemus bestes. It is also good to be taken agaynst the fittes of agues an hour before theyr cōmyng. If it be layd to it well/stopp the isshues of weomen. It is good to be put in agaynst the runnyng & mattery eares. It is excellently good agaynst the sores of the priuites/if it be sodden with wyne and hony. The leues ar good to be layde to for the burnyng of the stomack for castyng out of blood/for crepyng sores/for hote inflammationes called saynt Antonies fyre/or of som other the wilde fyre/for impostemes and swellynges and grene woundes. The female which I call medow shauegrasse/hath a byndyng poure & coolyng/and it is good for all that the other kynde is good for/ but it is in all poyntes weyker: Galene besyde these properties/that Dioscorides geueth vnto Polygono/assyneth also these yt folow here after. As knotgrasse hath a certayn byndyng/so doth a waterish coldnes ber the chefe ruel in it. So that it is in ye second degre colde/or allmoste in the begynnyng of the thyrde degre. It is good to make a repercussive or backdryuyng medicine of it/to dry ue[sic] bak agayn such humores as flow vnto any place.

O'r ffynonellau hyn y deilliodd pennod "Y Gancwlwm" (Ll.G.C. 4581, tud. 125b-126b). Sylwer mai *A New Herball* ydyw sylfaen adran "Y rhinweddae".

Am ysbaid bŷm yn tybio fod honiad Stanton Roberts, pwynt 9) uchod, yn gwbl gywir ac mai ychwanegadau diweddarach ydyw'r rhannau sy'n ddyledus i *A New Herball or historie of Plantes*<sup>3</sup>. Yn Ll.G.C. 686 y mae'r rhannau a welai Stanton Roberts eu bod yn ddyledus i'r llyfr hwnnw yng nghorff y llawysgrif. Pan welais Ll.G.C. 4581 sylwais fod yr union benodau hynny un ai'n rhan B neu'n rhai gan law ddiweddarach o'r ail ganrif ar bymtheg sef pennod "Lupines" (tud. 81b- 82a) a'r atodiad at bennod "Y Wilphrei" (tud. 156a). O *A New Herball or historie of Plantes* y cafwyd rhan B i gyd heblaw am ychydig iawn o *A New Herball* a

phytiau ychwanegol ar "Y Wermod" "Llysae Llwydion" a "Dail y Vendigaid". Nid hysbys 'mo dras y pytiau hynny i Alun Mathias<sup>4</sup> nac i minnau ychwaith.

O ran esiampl dyma'r bennod o *A New Herball or Historie of Plants* y cafwyd ohoni'r bennod "Cerfoil" (Ll.G.C. 4581 tud. 195a-195b) bron yn llwyr:

*A New Herball or Historie of Plantes* (tud. 706):

"Of Cheruill. Chap. 1.

*The description.*

Cheruill leaues are of a light greene colour, tender, brittle, much iagged and cut, somewhat hairy and of good sauour. The stalkes be round, small and holowe, vpon the which growe rundels or spokie tuffets with white flowers, and after them a long sharpe brownie seed. The root is white and small.

*The place.*

Cheruill is common in this country, and is sowne in all gardens amongst worts and potherbes.

*The time.*

The Cheruill that is sowne in March or Aprill flowreth betimes, and deliuereth his seed in June and July, but that which is sowne in August, abideth the winter and flowreth not before Aprill next folowing.

*The names.*

This herbe is called of Columella, *Chaerophyllum* and *Chaerephyllum*: of the apothecaries in our time *Cerefolium*: in French *Cerfueill*: in high Douch, Korffelkraut, or Kerbelkraut: in base Almaine, Kervell: in English, Cheruill, and Cheruell.

*The nature.*

This herbe is hot and drie.

*The vertues.*

Cheruill eaten with other meates, is good for the A stomacke, for it 'giueth a good taste to the meates, and stirreth vp meate lust.

This herbe boiled in wine, is good for them that B haue the strangury, if the wine be droonken, and the herbe be laid as an implaister vpon the place of the bladder.

It is good for people that be dull, old, and without C courage, for it reioiceth and comforteth them, and increaseth their strength."

A dyma'r rhan o *A New Herball* lle cafwyd peth o ddefnydd adran "Y rhinweddae":

*A New Herball* (tud. 10):

"The vertues of Charuell, ou̇te of the later wryters  
The iuice of the herbe and the water whiche is stilled/if it be dronken/dissolueth and breaketh in sonnder the blode whiche is runne together/ether by the reason of betinge or by a fall/the leaues of cheruel brused and layde to after the maner of an implaster/dryue away all swellynges and bruses that come of betinge or of falles/euen as the herbe called *scala caelie* doth."

Ond wrth graffu cefais hyd i bennod yn rhan A na chyfatebai'n agos i *De Historia Stirpium* nac i *A New Herball*: "Y Greulys" (Ll.G.C. 4581, tud. 68b-69b). Sylwasai Stanton Roberts ar hynny hefyd<sup>5</sup>: rywsut methodd â gweld dyled y bennod i *A New Herball* or *Historie of Plants*.

*A New Herball* or *Historie of Plantes* (tud. 656-8):

"Of Erigeron. ..."

"The kinds.

... Wherefore Erigeron is now to be counted of three sorts.

*The description.*

1 The great Groundswell hath rough whitish leaues deeply iagged and gnawen vpon both sides, like to the leaues of white mustard or senuie. The stalke is two foot high or more: at the top whereof grow smoll knops which do open into small yellow flowers, the which are suddenly gone, and changed into downie blawbawles like to the heads of Dandelion, and are blowen away with the wind. The roote is harie, and the whole herb is of a strange smell.

2 The lesser Groundswell hath green leaues, which be also much torne, and deeply iagged vpon both sides like the leaues of the great Groundswell, but a great deale smaller, greener, smoother, and not so rough. The stalke is a span long, at the top wherof grow yellow flowers, which do also change suddenly into hore heads or blawbawles, and do slie away with the wind. The roote is hairie, and hath no proper smell.

3 The third Groundswell hath a straight slender stemme, of a browne purple colour, and set full of fine cotton or downie haire: the leaues be long and narrow. At the top of the stalks grow small knops out of which come small pale yellow flowers, the which incontinently after their opening doe change, and become so suddenly gray or white, that he that taketh not the better heed, may think that they are so at the first opening of the

knops: for euen the selfsame day and sometimes the very same hower of their opening, they become graie or hore, and shortly after the knops do spred abrode and open, and the graie haire with the seede, are blowen and carried away with the winde. The roote is small and very tender.

*The nature.*

Erigeron, as Paulus writeth, hath somewhat a cooling nature, but yet digestiue. ...

*The vertues. ...*

The downe of the flowers laide to with a little Saffron D and water, are good for bleared and dropping eies".

O weld felly bod yn rhan A hefyd elfen o ddyled i *A New Herball or Historie of Plantes*, deuthum yn fwy llygadog i chwilio am ragor o gyswllt. Ond methais â chael hyd i ddim arall o sylwedd. Efallai fod rhoi "yspaddat" (Ll.G.C. 4581, tud. 73b) fel un o'r coed sy'n cynnal yr uchelfa yn hanu o wybodaeth Salesbury, neu efallai'n dilyn "Wythies" (*A New Herball or Historie of Plantes*, tud. 873). Nid oes sôn am y goeden honno ym mhenodau perthnasol *De Historia Stirpium* nac *A New Herball*. Hefyd nid oes yn y gweithiau hynny sôn am gymharu ffurf pren bocs â chelyn Mair fel y gwneir yn y llysieulyfr (Ll.G.C. 4581, tud. 133b). Ym mhennod *A New Herball or Historie of Plantes* ar gelyn Mair fe gymherir hwnnw â phren bocs: "the smaller boxe" (tud. 782). Fodd bynnag teg ydyw casglu mai ychydig iawn ydyw dyled craidd y llysieulyfr, sef rhan A, i'r ffynhonnell hon.

Beth felly a wyddys am gyfnod ysgrifennu'r gwaith? Noda Stanton Roberts<sup>6</sup> na allai'r gwaith fod wedi ei gyflawni tan ar ôl 1568 pan gyhoeddwyd ail hanner *A New Herball*. Rhydd Alun Mathias<sup>7</sup> y cyfnod 1568-74 fel adeg cyfansoddi'r llysieulyfr. Yng ngoleuni pennod "Y Greulys" (Ll.G.C. 4581, tud. 68a-69b) rhaid honni bellach na bu i'r gwaith gyrraedd ei ffurf bresennol tan ar ôl blwyddyn cyhoeddi *A New Herball or Historie of Plantes*, sef

1578.

Eto ymddengys fod Wiliam Salesbury yn gynefin â gwaith Leonard Fuchs mor gynnar â 1555. Ceir iddo rybuddio pobl y flwyddyn honno fod amllder blodau suran y gog yn argoeli tywydd gwlyb, a dëellir mai o waith Leonard Fuchs y cafodd y goel honno (Ll.G.C. 4581, tud. 119a). Yr wyf innau'n lled-deimlo y gallai fod y gwaith wedi ei lunio dros rai blynyddoedd. Hwyrach bod arwyddion pennod brawf yn y bennod gyntaf; y mae'n fanwl, hir, ac yn meddu ar lawer mwy na'r penodau eraill o ygrifen Eidal. Hefyd gall y ffaith mai prin iawn ydyw'r deunydd o *A Neww Herball or historie of Plantes* fod yn arwydd fod drafft go derfynol o ran A wedi ei orffen cyn 1578. Ond wedyn rhaid ail bwysleisio mai yn ystod neu ar ôl y flwyddyn honno y daeth y llysieulyfr i'r cyflwr gorffenedig sydd iddo.

Y mae faint ar ôl 1578 y medrai'r gwaith fod wedi ei gyflawni yn dibynnu ar ba bryd y bu farw Wiliam Salesbury, ac ni wyddys hynny'n iawn. Ni ddichon i mi gyfrannu dim newydd at y drafodaeth honno. Y sylw mwyaf penodol ar y mater hwn ydyw'r un o *The History of the Gwydir Family*, John Wynn. Fe'i dyfynnir gan Stanton Roberts a dehonglir blwyddyn marwolaeth Salesbury ganddo fel 1599 neu 16008. Y mae Alun Mathias<sup>9</sup> yn amheus o honni John Wynn. Ond anodd ydyw peidio â rhoi pwys ar eiriau John Wynn o gofio ei fod yn gyfoeswr â Salesbury yn byw am yr afon Conwy ag ef ac heb unrhyw reswm hysbys dros ystumio ffeithiau.

Wrth gwrs gorffennwyd gwaith Salesbury erbyn 1597, gan mai yna pryd y'i copïwyd gan Roger Morris. Yn dilyn daw rhan B. A phe derbynnid mai Roger Morris a'i lluniodd hawdd ydyw dyddio'r rhan honno i 1597-1605 gan y bu farw Roger Morris fan hwyraf erbyn

1. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. xii-xxix a thrwy'r testun.
2. Ll.G.C. 4581, tud. 15b-16a: "Y mae rhyw Phranc yn senny ei veddwl yn escriffenedic yn llyfyr Phwcsiws..."
3. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. xxii.
4. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 224.
5. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. 102, troednodyn 5.
6. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. xxxi.
7. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 222.
8. *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud. xxxii.
9. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 15.
10. Gw. I tud. 1.



#### IV WILIAM SALESBURY A'R LLYSIEULYFR

Yr wyf yn ymwrthod â'r enw a arddelwyd gan Stanton Roberts: "llysieulyfr meddyginiaethol", gan y gellid dadlau mai hynny ydyw pob llysieulyfr Cymraeg arall a berthyn i'r cyfnod 1400-1700, ac eithrio yr union llysieulyfr hwn. Yn wahanol i'r rheiny i gyd y mae rhannau mawr o llysieulyfr Salesbury heb fod yn feddyginiaethol. Perthyn yn hytrach i draddodiad dysg y Dadeni, pryd nad oeddid yn meddwl yn unig am swyddogaeth ymarferol llyisiau.

Ystrydeb bellach ydyw sôn am ddelfryd y Dadeni o ŵr amlochrog. Dangoswyd eisoes fod Wiliam Salesbury yn ymgyrraedd at y ddelfryd honno ar lawer gwedd, gyda'i ddiddordeb mewn crefydd, cyfraith, gwleidyddiaeth, hanes, seryddiaeth, rhethreg ac ieithoedd. Dangosir hyn o'i weithiau<sup>1</sup>. Gwedd ar ei ddiddordeb gwyddonol ydyw'r llysieulyfr, eto y mae elfen o ieithyddiaeth Salbrïaidd i'w gweld nid yn unig yn yr orgraff yr ymadroddi a'r geiriau, ond hefyd yn y trafod ar enwau llyisiau.

Yr oedd bri ar llysieuaeth ar draws Ewrop : bri a adlewyrchid wrth i lyfrau ar y pwnc ymddangos ym mhrif ieithoedd dysg y cyfandir. Llyfrau oeddynt â'u gwybodaeth wyddonol yn seiliedig ar weithiau awduron clasurol, serch hynny'n ychwanegu a gwella ar yr hen ddysg honno. Nid yn annisgwyl ymddengys mai Salesbury oedd y cyntaf yng Nghymru i ymdrin â'r maes hwn ar ei wedd ddyneiddiol newydd.

Yr oedd hen draddodiad llysieuol-meddygol. "Meddygon Myddfai" *Llyfr Coch Hergest* ydyw'r arwydd gyda'r hynaf a erys o'r traddodiad hwnnw<sup>2</sup>. Ac yn llawysgrif Ll.G.C. 2026B (tud. 86) ceir rhan fer o ragymadrodd "Meddygon Myddfai". Llaw Evan Evans

(Ieuan Brydydd Hir) ydyw, ac ychwanegodd yntau hyn:

"In William Salesbury's hand in the margin Meddygon Arbannic. RYS GRYC oedd yn amser oedran christ 1217".

Prawf hyn yn ddiamwys i Salesbury. fod yn wybyddus â'r hen draddodiad llysieuol-meddygol, ac nid rhyfedd 'mo hynny o gofio iddo dryforio drwy gynifer o lawysgrifau ar amrywiol bynciau dysg y Cymry<sup>3</sup>.

Er bod yr hen draddodiad meddygol Cymreig yn disgyn o'r oes Geltaidd, o ffynonellau clasurol y deuai ei wybodaeth erbyn cyfnod Meddygon Myddfai<sup>4</sup>. Serch hynny y mae'n sicr nad oes ar y llysieulyfr unrhyw ddylâd i'r hen draddodiad hwn, heblaw hwyrach am ambell enw planhigyn, ond ni allaf enghreifftio yr un. Fel y gwelir yn III uchod, ac eithrio am gyfeiriadau gwreiddiol, o weithiau Ewropaidd cyfoes y cafwyd holl ddeunydd y llysieulyfr. Wrth gwrs, mewn cyd-destun gwyddonol, yr wybodaeth ddiweddaraf ac nid 'hen' wybodaeth sy'n ddilys. Dyna ydyw'r sefyllfa bellach, a diau y medrir gweld egin y meddylfryd hwn yn newis Salesbury o'i ddeunydd. Y deunydd cyfoes cywiraf a diweddaraf a ddewiswyd ganddo i'w llysieulyfr. *De Historia Stirpium* a gydnabyddid ar y pryd ac a gydnabyddir hyd heddiw fel prif waith ei gyfnod, ydyw sylfaen y llysieulyfr. Y pennaf ffynhonnell arall oedd gwaith William Turner, ac er nad oedd yn ŵr llawn mor bwysig â Leonard Fuchs, yr oedd yn sicr yn awdurdod blaenllaw ac yn un o sylfaenwyr traddodiad llysieuol diweddar Lloegr. A William Turner a Leonard Fuchs ill dau yn Brotestaniaid, nid rhyfedd efallai i William Salesbury droi at eu gweithiau hwy.

Er y gwelir olion ymddiddori yn y maes hwn neu agweddau arno gan gyfoedion a lled-gyfoedion dyneiddiol Salesbury, y mae

Salesbury yn sicr yn torri tir newydd â'i llysieulyfr<sup>5</sup>. Y mae'r llysieulyfr yn unig un o'i fath erioed i gael ei lunio yn y Gymraeg. Ar ôl dweud hynna cyfyd nifer o gwestiynau ynglŷn â natur y gwaith: cwestiynau na ellir 'mo'u hateb yn iawn, ond bwrw ambell i sylw arnynt.

A ydyw'r llysieulyfr yn gyflawn? Nid ymddengys i mi ei fod. Hawdd ydyw gweld bod manion heb eu gorffen, drwy fod bylchau bwriadol wedi eu gadael yn y llawysgrif wreiddiol ac wedi eu cadw yn ôl pob golwg yn Ll.G.C. 4581 (e.e. ar tud. 42a, tud. 42b a tud. 44a). Ond a oes mwy na manion heb ei gwblhau? Y mae 343 o benodau yn *De Historia Stirpium*, ond 148 ohonynt sydd wedi eu cyfieithu neu eu haddasu yn y llysieulyfr. Heblaw am ychydig eithriadau y mae penodau'r llysieulyfr yn dilyn trefn penodau ffynonellol *De Historia Stirpium*. Dyma'r rifau'r penodau o *De Historia Stirpium* a droswyd i'r llysieulyfr (yn nhrefn eu hymddangosiad yn y llysieulyfr):

1-2, 5-6, 8-41, 48, 79-80, 82-84, 88, 90-93, 110, 112-113, 118, 122, 125, 128, 132-133, 142, 144, 146-147, 149, 152, 154-156, 159, 161-164, 167-168, 173-174, 176, 178-179, 181-182, 187, 191-192, 194, 196-197, 204-205, 212-215, 222, 224, 226-227, 231, 7, 235-236, 238-237, 240, 244-245, 248, 250-251, 253, 255-256, 259-260, 262-265, 272-273, 275-276, 278, 282, 289, 291, 293-294, 302, 305-307, 309, 311<sup>r</sup>-312, 316, 318, 320, 322-323, 325, 327-329, 332-333, 336, 342.

Anodd ydyw dehongli pam i Salesbury gynnwys bron bob 'llysieuyn' o 1 i 41 gan gynnwys dim ond un rhwng 41 a 78. Noder ymhellach hyn:

Ll.G.C. 4581 (tud. 64b):

"Ac y dal fyrru y llyseun hŵn a wna/r/vn gyfaredd ar Gentian; grym yr hŵn a gephir yn ei lle priodol./"

Ond pennod 74 ydyw pennod y gentian yn *De Historia Stirpium*. Nid oes trosiad o'r bennod honno yn y llysieulyfr. Gwn mai cyfieithu o'r Lladin a wna'r dyfyniad uchod, ond digon o waith y byddai Salesbury yn ei gynnwys heb iddo fwriadau rhoi pennod ar y gentian.

Ychwaith nid oes sail i gredu fod y detholiad o lysiau a geir yn y gwaith yn rhai a ddewiswyd yn un swydd gwaith am bod y Cymry'n gynefin â hwy. Ar un llaw ceir penodau ar lysiau dieithr megis "Ammi.18/", "Spinach./114./" a "March yscall garddae./130./" tra bo penodau ar lysiau cwbl gyfarwydd heb eu trosi e.e. grug, erwaint, llyisiau Llywelyn<sup>6</sup>. Ni fedraf esbonio pam y detholwyd y rhai a ddetholwyd. Ac er bod penodau wedi eu tynnu'n gyson a gwastad o *De Historia Stirpium*, y mae'r un bwlch a nodais a'r dyfyniad a geir uchod yn arwyddo i mi, mai gwaith anghyflawn sydd yma.

Hefyd ni cheir rhagymadrodd i'r gwaith. O gofio arfer Salesbury a'i oes yr oedd rhagymadrodd yn rhan anhepgor o waith gorffenedig o unrhyw faint sylweddol. Noder hefyd fod ôl brys ar y llysieulyfr yn ôl Stanton Roberts<sup>8</sup> drwy fod enwau Lladin mewn cyflwr gwrthrychol fel "spinam albam" yn lle'r enwol *spina alba*, a changyfieithu ffigys yn "carwy".

A fwriadwyd cyhoeddi'r gwaith? Mae'n amhosibl dweud dim am hyn, ac eithrio dweud na byddai hynny'n annhebygol o gofio pwy oedd yr awdur.

A ddylid ystyried y llysieulyfr yn wreiddiol? Nid ydys mwyach yn synio yr un fath am weithiau llenyddol ag a wneid yng nghyfnod

Salesbury. Ysytirir hi'n hanfod bellach i waith fod yn wreiddiol. Yn ôl safonau heddiw ychydig o'r llysieulyfr sy'n wreiddiol. Lloffwyd y deunydd bron i gyd o ddwy brif ffynhonnell<sup>8</sup>. Ond wedyn yr oedd y ffynonellau hynny wedi gwneud yn union yr un peth ac wedi cyniwair trŵch eu deunydd o weithiau eraill, yn enwedig rhai clasurol. Nid ydys serch hynny yn trafod y ffynonellau hynny ond fel gweithiau gwreiddiol. Yn yr un modd y mae'r llysieulyfr yntau'n wreiddiol, yn gyfuniad unigryw o'r ffynonellau a nodir uchod, gyda rhannau bychain cwbl wreiddiol. Ceir y rhannau hynny o raid yn adrannau "Yr enwae" pan fo raid cael enw Cymraeg ar llysieuyn<sup>9</sup>. Hefyd fe'i ceir yn achlysurol yn adrannau "y lle" pan fo sôn am fan arbennig lle tyfai planhigyn e.e. ysgawlys yn Elsmer (Ll.G.C. 4581, tud. 26b), a gwallt y forwyn ar y Bont Faen ar Lugwy (Ll.G.C. 4581, tud. 167b)<sup>10</sup>. Dilyn patrymau Leonard Fuchs a William Turner a wna yn hyn o beth e.e. tyf math ar wenith ger Tubinga yn ôl Fuchs (Ll.G.C. 4581, tud. 136a) a'r gwir acantha yng ngardd Dug Somerset yn ôl Turner (Ll.G.C. 4581, tud. 22b)<sup>11</sup>. Mewn dau le ychwanegwyd dyfyniadau barddonol : cwpled gan Ddafydd ab Edmund (Ll.G.C. 4581, tud. 66b) ac englyn i'r gelynen (Ll.G.C. 4581, tud. 134a). Awydd sydd yma i ddangos cyfoeth barddoniaeth Gymraeg, yn enwedig gan fod Fuchs yn sôn am feirdd "Germania" (Ll.G.C. 4581, tud. 133b) ac mewn man arall yn dyfynnu Fferyll (Ll.G.C. 4581, tud. 102a).

Prin ydyw'r sylwadau gwreiddiol 'gwyddonol'. Ond y peth pwysicaf am y rhain ydyw eu bod yna o gwbl. Drwy hyn y mae Salesbury yn fwy na chyfieithydd gwaith llysieuol, try wedyn yn llysieuwr ei hun, yn dilyn Fuchs a Thurner yn barod i ddadansoddi

drosto'i hun. Sylwais ar bum sylw yn arbennig, a chan fy mod yn teimlo eu bod yn bwysig, teg ydyw crybwyll bob un.

Rhestrir nifer o rywiogaethau gwahanol o wenith (Ll.G.C. 4581, tud. 135b), rhai na chofnodwyd gan Fuchs. Cadarnheir fod nifer helaeth o flodau suran y gog yn arwydd o dywydd gwlyb (Ll.G.C. 4581, tud. 119a). Sylwasai Salesbury ei hun nad oedd yn "Ynys Brytain" ond dau rywogaeth o surianbren (Ll.G.C. 4581, tud. 91b). Dosbartha'r greulys (Ll.G.C. 4581, tud. 68b) yn wryw a benyw, a dywed y'i ceir yn tyfu mewn "hen vathrfae gar llaw tai a rhyd muroedd priddlyd ac ar hen do braenllyd" : ef piau'r ychwanegiadau hynny. Ond yn sicr pennod "Yr Vchelfa" (Ll.G.C. 4581 tud. 73a-74a) sy'n dangos orau feddwl dadansoddol annibynnol. Dywedir yno fod Fuchs yn honni nad oes flodau i'r planhigyn hwn, ond meddai Salesbury: "mi welwn arno cibae gwynion gweigion val maint pys yr rhein yr oeddwn yn tybieid mae ei vlodae oeddynt". Nid "cibae gwynion" ydyw blodau'r llysieuyn, eto y mae gan y planhigyn flodau, sy'n rhoi Salesbury yn nes ati na Fuchs ar un wedd. Dywed hefyd fod Leonard Fuchs yn dweud y tyf y planhigyn "yn enwedig ar y dderwen", ac meddai "yr hyn ni welais i etto". Yma y mae'n bwrw amheuaeth gwbl ddilys ar wybodaeth Fuchs. Dilyn camddehongliad ar draddodiad clasurol yr oedd Fuchs wrth iddo gysylltu'r uchelfa â'r dderwen fel hyn a gwelir Salesbury yn derbyn y camddenhongliad hwnnw yn ddigwestiwn mewn man arall (Ll.G.C. 4581, tud. 61b). Peth anghyffredin ydyw i'r llysieuyn hwn dyfu ar dderwen, ond gynt pan wnâi ystyrid fod iddo ryw rin neilltuol. Camddehonglwyd hynny i olygu y tyfai'r uchelfa'n gyffredin ar dderil<sup>2</sup>.

Cyn cloi'r bennod hon trof at un peth arall. Dywed Alun

Mathias<sup>13</sup> y gallai Salesbury Gymraeg, Saesneg a Lladin yn drylwyr a bod ganddo wybodaeth gyflawn o Hebraeg a Groeg a syniad go dda am Ffrangeg ac Almaeneg. Gellir dehongli adrannau "Yr enwae" fel math ar gadarnhad o hyn, drwy fod enw Cymraeg, Saesneg a Lladin bron bob tro ym mhob un, ac nid yn anfynych ceir enw Groeg hefyd tra bo enghreifftiau prin iawn o enwau Ffrangeg neu Almaeneg neu Eidaleg. Ond credaf fod peth mwy arwyddocaol i'w gasglu yma na'r nifer o ieithoedd y medrai Salesbury eu trafod. Y mae agwedd ar ei feddylfryd yn dangos yn yr enwau y dewisodd eu cynnwys. Yn *De Historia Stirpium* ym mhob pennod rhoddir enw Groeg, Lladin, Almaeneg a bron bob tro un Ffrangeg (argraffiadau Paris). Ceir patrwm cyffelyb gan William Turner yn ei weithiau, ond bod ganddo enw Saesneg yn gynwysedig. Felly yr oedd enw Almaeneg a Ffrangeg yn hysbys bron yn ddieithriad i Salesbury hyd yn oed os nad oedd yn gwbl rugl yn yr ieithoedd hynny. Ond fel y dywedais ni cheir 'mohonynt yn y llysieulyfr. Felly ni thybiai Salesbury fod yr ieithoedd hynny o gymaint pwys i'r Cymry chwedl na'r Saesneg. Sonia ddwywaith am ddysgu Saesneg yn rhagymadrodd *Oll Synnwyr Penn ...* a thrachefn yn *A briefe and<sup>a</sup> playne introduction* (tud. Eib) ac yn ei ragymadrodd i'w eiriadur gwelir ganddo'r datganiad taclus hwn:

"Saesnec iaith heddyw vrddedic o bob rhyw oreuddysc iaith gyflawn o ddawn a buddygoliaeth ac iaith nid chwaith anhawdd i dyscy vegys y may pop nassiwn yn i hyfedyr ddyscy eb edrych yn llygat y boen nar gost ac yn angenrheitiach i ni'r Kymbry no neb wrthei er esceuluset genym am y peth".

Y mae'r llygedyn yma o sôn am agwedd Salesbury at Saesneg yn agoriad i drafodaeth helaeth ar egin cenedlaetholdeb Lloegr; y mynegiant Protestannaidd o hynny : "ffydd Saeson"; dyheadau crefyddol/ gwleidyddol Salesbury<sup>14</sup> a'i ddefnydd o'r Gymraeg fel

cerbyd cenedlaetholdeb Seisnig; Prydeindod Cymru (cynhenid a newydd) a'r holl effeithiau hanesyddol hyd heddiw a ddeilliodd o'r meddylfryd 'Salbri'add'. Y mae trafodaeth o'r fath yn un rhy sylweddol i allu gwneud cyfiawnder â hi heb draethu'n faith tu hwnt i ffiniau uniongyrchol y llysieulyfr.

- 1 Gw. *Y Traddodiad Rhyddiaith*, [1], Geraint Bowen (gol.), "William Salesbury - ei Fywyd a'i Weithiau", W. Alun Mathias, tud. 27-54.
- 2 Gw. isod yn y drafodaeth ar lunio rhestr enwau llyisiau am y deunydd llysieuol hynaf.
- 3 Gw. "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 234-76.
- 4 Gw. *Wales and Medicine*, John Cule (gol.), "Meddygon Myddfai", Howard E.F. Davies a Morfudd E. Owen, tud. 156-67.
- 5 E.e. ceir nifer helaeth iawn o enwau llyisiau gan Domos ap Wiliam ym Mheniarth 228. Yr oedd gan Siôn Dafydd Rhys hefyd ddiddordeb mewn enwau llyisiau, a cheir rhai o'r enwau a gasglodd yn y *Dictionary Duplex* yn y "Botanologivm" yn ogystal â rhestr yn llawysgrif Caerdydd 18. Ond hwyrach mai'r unig waith o sylwedd y gellid cymharu'r llysieulyfr ag ef ydyw "llysieuwr" Elis Gruffudd (yng C.M. 1). Y mae hwn hefyd yn ffrwyth y dadeni ac yn rhagflaenu'r llysieulyfr o tua deg mlynedd ar hugain. Eto y mae cryn wahanïaeth ansawdd ac arddull rhwng y ddau waith.
- 6 *De Historia Stirpium*: tud. 89b: "DE ERICA"; tud. 64a: "DE BARBA CAPRI"; tud. 60b: "DE VERONICA". Cofier hefyd am gyffyrddiad ag erwaith yn Hafod 26-gw. II.
- 7 *Llysieulyfr Meddyginiaethol*, tud.li-lii.
- 8 Gw. III uchod.
- 9 Gw. V isod.
- 10 Gw. y mynegai enwau llefydd yn yr atodiad.
- 11 Gw. y mynegai enwau llefydd yn yr atodiad.
- 12 Gw. *The Englishman's Flora*, Geoffrey Grigson, (St Albans, 1975), (argraffiad cyntaf: 1958), tud. 217.
- 13 "Astudiaeth o Weithgarwch Llenyddol William Salesbury", tud. 19-20.
- 14 E.e ystyrier "Damcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd", Saunders Lewis, *Efrydiau Catholig*, II, tud. 36-55.



## V ENWAU LLYSIAU YN Y TESTUN AC YN GYFFREDINOL

Deuthum at yr ymchwil hwn oherwydd fy mod â'm bryd ar astudio enwau llyisiau Cymraeg. Drwy dderbyn Ll.G.C. 4581 yn graidd i'm traethawd yr oedd ffin gyfleus i astudio o'r fath. Er mai enwau y testun yn unig a oedd o bwys uniongyrchol i mi, ni ellid anwybyddu enwau eraill, nac enwau o ffynonellau eraill. Rhaid oedd edrych ymhellach i weld patrwm cyffredinol enwau Cymraeg yn ogystal â gweld ai gwreiddiol ai peidio oedd enwau neu ffurfiau ar enwau a geir yn y testun. I'r perwyl hwnnw yr euthum ati i ffurfio casgliad o enwau llyisiau Cymraeg o ffynonellau eraill y gwelir ei atodi isod.

Sylwais fod enwau llyisiau'n dosbarthu yn nifer o ddulliau dyfalu yn disgrifio nodweddion planhigyn neu nodweddion a briodolir neu a ddychmygir iddo. Ceir dyfalu person/creadur (e.e. *palf y Gath Bali, llyisiau Taliesin, pwrs y bugail, llyisiau Cadwgan*); rhyw (e.e. *cegiden fenyw, ysgall gwryw*); corff (e.e. *crafanc yr iâr, caldrist, cedor y wrach*); swyddogaeth (e.e. *esgorlys, pesychlys*); gwlad/cenedl (e.e. *cyrainj Ffrainc, llyisiau Gwyddelig*); gerfydd llysieuyn arall (e.e. *rhosyn y mynydd, meryw*); anifail (e.e. *dant y llew, palf yr wydd*); crefyddwedd (e.e. *cyfrdwy, cribau San Ffraid*); gwrthrych di-fyw (e.e. *bwtjas y gog, mynawyd y bugail*); nodweddion fel lliw, maint, siap/cyflwr, mân tyfu (e.e. *wermod lwyd, dail surion bach, panog, eithin y mynydd*). Gwelir fod llawer enw'n ffitio i fwy nag un dosbarth.

Ar ôl astudio enwau llyisiau am ysbaid deuir yn fuan i ymwybod â chyd-berthynas ieithoedd a'r dyledion mynych sydd gan un iaith i iaith arall. Lleiafrif ydyw'r enwau y gellir eu hystyried yn

gynhenid Gymreig; y mae'r rhelyw o enwau'n ddyledus i iaith arall un ai drwy fenthyg neu gyfieithu. Hefyd gallai fod llawer o enwau cynhenid yn tynnu ar lēn gwerin a allai fod yn hŷn na'r iaith. Ac ar lawer achlysur amhosibl ydyw dweud ai cyfieithu ynteu dyfalu cytras sydd wrth wraidd enw.

Un nodwedd arall y mae cystal tynnu sylw ati ydyw : y mwyaf y pren yn y planhigyn y mwyaf y siawns fod iddo enw cysefin. Hynny ydyw, hynaf y bydd byw planhigyn, hynaf yr enw arno. Dyna reol gyffredinol y sylwais i arni. (Cymharer ag enwau nodweddion parhaol fel afonydd a mynyddoedd chwedl na llefydd yn gyffredinol).

Pan fo dyled fenthyg/cyfieithu i'r Lladin a'r Saesneg y mae'r ddyled honno bob tro bron. Efallai bod y cysylltu uniongyrchol a fu yng nghyfnod y Norman a'r Ffrangeg wedi esgor ar fenthyg syth o'r iaith honno. Ond pe bai enw wedi ei fenthyg felly, y mae'n debycaf iddo gael ei fenthyg o'r Saesneg yn ogystal. Y mae trawslofffa o'r fath hefyd yn fynych yn achos enwau Lladin a ddaeth i'r Gymraeg. Hwyrarf y benthyg/cyfieithu, mwyaf ydyw'r siawns i hynny ddigwydd, a mwyaf y siawns i enw Lladin gael ei fenthyg drwy'r Saesneg. Engreifftiau:

o'r Lladin:

benthyg : *brytwn, eidral,*

cyfieithu : *dant y llew, llygaid y dydd (<oculus die),*

o'r Saesneg:

benthyg : *saitj, bwltws, wermod, rhyg,*

cyfieithu : *pelydr Spaen, pidyn y gog,*

o'r Ffrangeg:

benthyg : ? *lafant,*

drwy drawslofffa o Ladin a Saesneg : *rhos/rhosyn/rhosod*, ?  
*sanigl*,

drwy drawslofffa o Ffrangeg a Saesneg : ? *lafant*, ?*fioled*,  
?ferfaen.

Un iaith arall y mae olion prin o fenthyg uniongyrchol ohoni ydyw'r Wyddeleg. Ni wn a fu cyfieithu ohoni : geill fod enghreifftiau o hynny. O'r iaith honno y cafwyd *bresych* (o'r Lladin drwy'r Wyddeleg) ? *tryw*, ? *cachwlyn* (y *mêl*) a *mwcog* (<*muchog* 'mochyn bach' cymh. ag *eirin y moch*) ? *syfi*. Ni feddaf ar ragor o enghreifftiau.

Rhydd llysieulyfr Wiliam Salesbury ddimensiwn arall ar enwau llyisiau Cymraeg. Ceir ynddo nifer helaeth o gyfieithiadau newydd o'r Lladin/Groeg ac amryw o fenthyciadau, llawer cyfieithiad o'r Saesneg a rhai benthyciadau ac un neu ddau o gyfieithiadau o Ffrangeg ac Almaeneg<sup>2</sup>. Y mae cyd-destun dysg yma'n dwyn cysylltu ieithyddol ehangach o lawer na fyddai wedi codi o dreigl 'arferol' yr iaith. Enghreifftiau:

o'r Lladin:

benthyg : *lampsan, carwy, platan*,

cyfieithu : *llyseun tylloc, bywfyth*,

o'r Groeg:

benthyg : *spinach*,

cyfieithu : *esgörlÿs, teircell, gwynddail*,

o'r Saesneg:

benthyg : *galingal, daphodyl*,

cyfieithu : *phlwr melfed purpur, gau saphran*,

o'r Ffrangeg:

cyfieithu : *danatl Groec, saeds gwylltion, saeds y mynydd*,

o'r Almaeneg:

cyfieithu : *ceidwad y ffordd, llysaе yr blaidd.*

Peth anghyffredin iawn ydyw i Salesbury ddyfeisio enw o'i ben a'i bastwn ei hun. Y mae'n debyg fod hyn oherwydd nad ystyrid enw gwreiddiol o gymaint dilysrwydd. Hyn a welais i oedd o waith Salesbury ei hun : *cawl crych, cawl crympogoc, gwden y coed, march yscall y garddae/march yscall dof.* Ond y mae'r enghreifftiau o'i adffurfiannau o enwau benthyg (ac ambell enw cynhenid) yn fynych<sup>3</sup>. Canllaw'r adffurfio ydyw ffurf glasurol/hynafol, e.e. *fficus* dan ddylanwad y Lladin *ficus*, *cicut* dan ddylanwad y Lladin *cicuta*, *phenicul* dan ddylanwad y Lladin *feniculum*, a *redic* dan ddylanwad yr hen 'Gymraeg' *redic* (Cernyweg mewn gwirionedd, neu'n hytrach air benthyg Cernyweg o'r Saesneg).

Yn sicr yr oedd gan Salesbury awydd i gysylltu'r Gymraeg â'r ieithoedd clasurol er dyrchafu bri y Gymraeg. Sylwer:

Ll.G.C. 4581 (tud. 61b):

"Ac ef allei mae llediaith Groec yw Dâr o bleit Drys yw yr gair Groec am Dderwen."/

Mewn ambell le ceir cip ar ei feddylfryd wrth fenthyg enwau.

Dyma'r esiampl orau, im tyb i:

Ll.G.C. 4581 (tud. 142b):

"Spinacia yn Llatin, Spynache yn Saxonaec a dewised Cambero yr vn a vynno ai lledieithy gyd ar Groecwyr ai alw Spinach ay gyd ar Llatinwyr ai ddoedyt Spinac ay o gyfneseifrwydd cymydogoeth y gyd ar Saeson ei enwi Spinaeds."/

Teg ydyw dal sylw mai *spinach* a ddewiswyd ganddo yn bennawd.

Nodwedd arall bur amlwg ydyw awydd Salesbury i ehangu geirgylch y Gymraeg drwy roi nifer o amrywiol ffurfiau ar rai enwau e.e. *daphodel/daphodyl, danatl/danetl, ellyriat/llyriad/llyriat, escarlys/escorlys/yscarlys.*

Hefyd ceir tuedd ar adegau ganddo i arddel enw a oedd i'w gael mewn iaith/ieithoedd Ewropaidd o bwys heblaw am yr ieithoedd clasurol. Drwy fod ffurf ar henban i'w gael mewn Saesneg a Ffrangeg, dewis henban ac nid llewyg yr iair (yr enw Cymreiciach). A chymer *plantan* ar draul (*er*)*llyriad* o gael bod hwnnw yn Saesneg a Ffrangeg (ac yn hanu o'r Lladin o ran hynny)<sup>4</sup>.

Fel y dywedais uchod, rhoddir sylw canolog i enwau Saesneg yn y testun. Yng ngweithiau Turner y cafodd Salesbury hyd i'r rhain i gyd bron. Ar ddau eithriad y sylwais i: *mawort* (Ll.G.C. 4581, tud. 24b) a *spyder worte* (Ll.G.C. 4581, tud. 42a-42b). Nid oes sôn am *mawort* yn yr *Oxford English Dictionary* ond fe'i ceir yn y *Middle English Dictionary* a Ll.G.C. 572 (tud. 63a)<sup>5</sup>. Gwelais *spiderwort* yn yr *Oxford English Dictionary*, ond yno cyfeirio at blanhigion gwahanol a wna, ac y mae'r cofnod cynharaf ohono yn ddiweddarach na'r llysieulyfr. Y mae'r enwau hyn yn sicr yn arwydd o gynefindra Salesbury â'r Saesneg.

Dychwelaf at drafod benthg o'r ieithoedd clasurol. Un pwynt pwysig i'w nodi ydyw fod Salesbury wedi benthg llawer o'r ieithoedd hynny na bu i'r bethyciadau hynny erioed gael eu cydnabod. Yn ystod yr union un cyfnod benthgiwyd llawer o'r un geiriau i'r Saesneg, a bellach fe'i hystyrir yn enwau Saesneg cwbl dderbyniol. Y mae'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn yn rhannol yn seiliedig ar athroniaeth benthg wahanol y ddwy iaith. Nid ydyw Saesneg yn gyndyn o fenthg yn ddi-draul tra bo teithi'r Gymraeg â thuedd ynddynt i ofyn am dreulio gair neu ei gyfieithu o'i elfennau cyn bod yn barod i'w dderbyn<sup>6</sup>. Sylwer i'r testun roi'r enwau hyn i'r Gymraeg:

"Abrotanum lleiaf"\*, "Absynthiū Santonicū", "Acantha"\*, "Acantha

gwyllt"\*, "gwir Acantha"\*, "Aconiton", "Aconitum", "Aconitum  
 Lycoctonon", "Aconitum Pardalianches", "Aegilopa"\*, "Aegilops"\*,  
 "Agnus castus", "gwir Agnus castus", "Angelica", "Albucus"\*,  
 "Alisma"\*, "Amaranthos", "Amaranthos melyn", "Amaranthus purpur",  
 "Amarisca rubra", "Androsaemon"\*, "Anthericum"\*, "Aristolochia",  
 "Aristolochia benyw", "Aristolochia gwr ryw", "gwir Aristolochia  
 rotunda", "Aristolochiae", "Aron", "Artemisia", "iawn Artemisia",  
 "Ascyron"\*, "Atriplex"\*, "Atriplex gwyllt"\*, ("Caucalis"\*),  
 "Cichoream"\*?, "Cichorium"\*?, "Clematitidis"\*, "Cnicus"\*,  
 "Consolida regia"\*, "Crassula minor"?, "Cyclaminum"?, "Chamaeleon  
 gwŷn", "Dawcus"\*, "Dracunculus"\*, "Elichryson"\*, "gwir  
 Elichryson"\*, "Eruca"\*, "Vermicularis minor"\*?, "Volubilis  
 maior"\*, "Garyophylli Indi"\*, "Halicacabum"\*, "Halicacabum  
 estran"\*, "Halicacabus"\*, "Hedypnois"\*, "Heliotropium",  
 "Illecebra"\*?, "Isatis"\*?, "ixia", "Labrwsca"\*, "Lenticula"\*,  
 "Lentilla"\*, "Leucoium"\*, "Lychnitis"\*, "Magistrantia"\*,  
 "Melanthiwm"\*, "Mewm", "Narcissus", "Nardus", "Opium", "Oppiū",  
 "palma Christi", "Picris"\*, "Portulaca sylvestris"\*, "Rapum"\*,  
 "Sampsuchus"\*, ("Scala coeli"), "Seriphium"\*, "Sisymbrium",  
 ("Sium"\*), "Smilax", "Solanum dof", "Spinam albam"\*, "gwir Spinam  
 albam"\*, "Tagetes India", "Tagetes Indianvs", "Tagetes o India"\*,  
 "Thryallis"\*, "Xiphium"\*, "Xyris"\*7.

Golyga cromfach am enw iddo gael ei fenthyg yn rhan B. Ystyr  
 gofynnod ydyw y gellid ei ystyried yn fenthyg : edrycher ar ei  
 gyd-destun. A gosodais seren ger enw na chafodd 'mo'i fenthyg  
 i'r Saesneg neu a fenthyciwyd ar ôl i'r testun ei fenthyg i'r  
 Gymraeg. Cofnodion cynharaf yr *Oxford English Dictionary* ydyw fy  
 nghanllaw yn yr achos hwn. Noder hefyd i'r testun fenthyg y

Saesneg *woad*, a chofnodi'r benthg o *walwort* a *trick madam/pric madam*.

Ni chynhwyswyd y rhain ymhlith yr enwau yr ymdriniais â hwy, gan na allwn ychwanegu dim at yr hyn a nodais uchod yn achos pob un. Hynny, wrth gwrs, ac eithrio yr hyn y byddai rhywun yn gallu ei dyrchu o eiriaduron safonol am dras sylfaenol yr enwau.

Soniais yn barod fod llawer o enwau llyisiau Cymraeg yn hanfod o'r llysieulyfr (yn yr un modd ag y gwelir enwau Saesneg yn hanfod o weithiau William Turner<sup>8</sup>). Gwelir yr enwau hynny wedyn yn cael eu derbyn yn nhraddodiad dysg Cymru<sup>9</sup>. Darfu i'r broses honno ddigwydd drwy i'r enwau gael eu cynnwys ym Mheniarth 228 (Geiriadur Tomos ap Wiliam, Trefriw) 1604-7. Ar y geiriadur hwnnw y seiliwyd rhan Ladin-Cymraeg *Dictionary Duplex*, John Davies, 1632. Bu hwnnw, yn enwedig y "*Botanologivm*", o ddylanwad sylweddol ym maes enwau llyisiau, a cheir nifer o lawysgrifau o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen yn copïo hwnnw<sup>10</sup>. Cafodd hwnnw effaith ar y Morrisiad, William Morris yn arbennig. A dywedir fod dyled i'w waith yntau yn y *Welsh Botany*, Hugh Davies, 1813, sef sylfaen modern enwau Cymraeg ar blanhigion. Trywydd arall, llai pwysig, i'r enwau fu o'r llawysgrif wreiddiol i gasgliad enwau Robert Dafis Gwysanau: casgliad a atgynhyrchwyd yn ail argraffiad llysieulyfr Gerard, 1633<sup>11</sup>.

Prin tu hwnt ydyw'r dystiolaeth i rai o enwau Salbrïaidd y llysieulyfr gyrraedd yr iaith lafar. Yn wir gellid dadlau pe ceid enw Salbrïaidd honedig ar lafar ar raddfa helaeth, byddai'n rheswm cryf i dybio nad Salesbury a oedd yn gyfrifol amdano, gan na byddai'r iaith lafar a iaith dysg yn cyfarfod mor rhwydd yn y maes yma. Gwnaeth Gwenllïan Awbery ymchwil ar enwau llafar ar

blanhigion. Gyrrais innau ati restr o enwau yr oeddwn yn synied i Wiliam Salesbury eu llunio. Gofynnais a oedd rhai ar lafar. *Milddail* oedd yr unig enw ar fy rhestr a oedd a defnydd llafar helaeth iddo. Darbwyllodd hynny fi ynndo'i hun i ystyried nad Salesbury a'i ffurfiodd. Ond y mae'n sicr mai Salesbury a luniodd ysgaw *Mair* ac y mae'n debygol mai ef piau tagaradr a *cancwlwm*, ac yr oedd gan Wenllian Awbery gofnod llafar cyfyng o'r rheiny.

- 1 Am seiliau manylach y dosbarthu edrycher yn VI isod.
- 2 Gw. *Y Testament Newydd Cymraeg 1551-1620*, Isaac Thomas, (Caerdydd, 1976), tud. 239-41.
- 3 Gw. *Y Testament Newydd Cymraeg 1551-1620*, tud. 238 am enghreifftiau eraill o adffurfio cyffelyb.
- 4 Cyffyrddir â geiriau "cydwladol" fel y rhain yn *Y Testament Newydd Cymraeg 1551-1620*, tud. 241.
- 5 Llawysgrif Saesneg o tua 1500.
- 6 E.e. cymharer â'r modd y benthyciwyd termau rhethreg i'r Saesneg o'r ieithoedd clasurol tra bu i'r Gymraeg eu trosi fesul elfen neu eu llunio o'r newydd. Gw. "Geirfa Rhethreg 1552-1632", R. Brinley Jones, *Ysgrifau Beirniadol*, IX, J. E. Caerwyn Willimas (gol.), tud. 118-46, a gw. yn benodol tud. 141-2.
- 7 Gw. y mynegai enwau llyisiau am y tudalennau lle ceir yr enwau hyn.
- 8 *The Englishman's Flora*, tud. 22.
- 9 Dilyner yr enwau yn y rhestr enwau llyisiau yn yr atodiad.
- 10 E.e. Llansteffan 142 a L1.G.C. 718B.
- 11 Gw. *Y Gwyddonydd*, cyfrol 17, rhifyn 2, Mehefin 1979, "Rhestr Gynnar o Enwau Planhigion<sup>yn</sup>Gymraeg", Dorian Williams, tud. 73-8.



## VI YMDRIN AG ENWAU LLYSIAU CYMRAEG Y LLYSIEULYFR

Isod âf ati i drafod pob enw Cymraeg sydd yn y llysieulyfr ac eithrio y benthyciadau a nodais uchod ym mhennod V. Gwneuthum hynny mewn 255 o adrannau. Ceisiais fod yn gryno a chael cyn lleied â phosibl o adrannau, ac felly pe bai un ymdriniaeth yn tueddu i fod yn ddrych o un arall cyfunais y ddwy yn enwedig pe gellid cyfiawnhau hynny ar seiliau perthynas fotanegol llyisiau neu oherwydd fod cyswllt yn nhras yr enwau. Y mae elfen o synnwyr y fawd yn y cyfuno, a gellid bod wedi cyfuno rhagor ambell dro, neu medrid dadlau y byddai ymdriniaeth unigol yn well mewn achos arall. Beth bynnag, trawsgyfeiriwyd yr enwau i hwyluso cael hyd i drafodaeth berthnasol, ac y mae'r enwau oll yn dilyn trefn y mynegai a geir yn yr atodiad. Hefyd defnyddiwyd dull lled gyson o osod allan y gwaith yn ogystal â nifer helaeth o dalfyriadau. Weithiau ceir dau dalfyriad yn dynodi yr un peth. Deillia hynny o fod gennyf i dalfyriad gwahanol i'r un a ddefnyddia *Geiriadur Prifysgol Cymru*. A chan fy mod yn dyfynnu yn rheolaidd o'r geiriadur hwnnw teg oedd nodi llawer o'i fyrfoddau yntau hefyd yn y rhestr sy'n dilyn:

a.	: ansoddair, ansoddeiriol.
A	: <i>The Book of Aneirin</i> , J. Gwenogvryn Evans (gol.), 1908.
adff	: adffurfiad.
adff.io	: adffurfio.
aff.	: affeithiad, affeithiedig.
Alb.	: Albaneg <sup>t</sup> .
Alm.	: Almaeneg.
amh.	: amheus.
amr.	: amrywiad(au).
anh.	: anhysbys.
ans.	: ansoddair, ansoddeiriol.
ardd.	: arddodiad.
arf.	: arferol.
arg.	: argraffiad.
AWG	: <i>A Welsh Grammar</i> , John Morris-Jones, 1913.
b.	: berf/benywaidd.

B : *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 1921-73, *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd / Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 1974-.

bach. : bachigol.

ben. : benyw, benywaidd.

bf. : berf(au).

bl. : blaenorol.

bnth. : benthyc.

bnth.ir : benthycir.

bnth.wyd : benthycwyd.

Brth. : Brythoneg.

Brut B : ? Brut y Brenhinedd, Sieffre o Fynwy. Ni nodir yng GPC mai hynny ydyw.

c./g. : canrif/ganrif.

C. : Cymraeg neu Canol pan fo'n dilyn enw iaith.

c.c. : cofnod cyntaf hysbys.

C.M. : Cwrt Mawr (llawysgrif).

C[aerfyrddin] : *The Black Book of Carmarthen*, J. Gwenogvryn Evans (gol.), 1906.

cf. : cymharer.

cfdds. : cyfaddasiad.

cfn. : cyfuniad.

cfns. : cyfansoddair.

cft. : cyfatebol.

clas : clasurol, h.y. o'r traddodiad Groegaidd a Lladinaidd.

Clt. : Celteg.

C.O. : Canol Oesoedd.

Crn. : Cernyweg.

ctr. : cytras.

cyf. : cyfieithu.

cyf.iad : cyfieithiad.

cyf.iedig : cyfieithiedig.

cyf.odd : cyfieithodd.

cyf.wyd : cyfieithwyd.

cyff. : cyffredin.

cyff.ol : cyffredinol.

Cym. : Cymraeg.

cymh. : cymharer.

D.D. : *Dictionary Duplex*, John Davies, 1632.

d.g. : dan y gair/geiriau.

d.ll. : deunydd llysiuol (h.y. y defnyddiau Cymraeg ar lysiau 1400-1700).

D.N. : *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, T. Roberts ac Ifor Williams (gol.ion), 1923.

dan ddyl. : dan ddylanwad.

DELG : *Dictionnaire Etymologique de la Langue Grecque*, Émile Boisacq 1916.

DEPN : *A Dictionary of English Plant-Names*, James Britten a Robert Holland, 1886.

DEPN (GG) : *Dictionary of English Plant Names*, Geoffrey Grigson, 1974.

DFB : *Dictionnaire Français-Breton*, Le Gonidec (ychwanegiadau gan La Villemarqué) 1847.

DGG : *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, Ifor Williams a T. Roberts (gol.ion), 1914; 1935.

DHS : *De Historia Stirpium*, Leonard Fuchs, 1542 (defnyddiwyd argraffiad 1546 gennyf).

Diw. : Diweddar.

diwyg. : diwygiedig.

DLF : *Dictionnaire de la Langue Française*, É. Littré, 1881-5.

drll. : darlleniad.

dyl. : dylanwad.

e.e. : er enghraifft.

e.p. : enw person.

E.T. : Evan Thomas, Cwm Chwilfod.

EBLlCh : *Casgliad o Enwau Blodau Llysfiau a Choed*, Meirion Parry, 1969.

EEW : *The English Element in Welsh*, T.H. Parry-Williams, 1923.

EF : *The Englishman's Flora*, Geoffrey Grigson, 1958 (defnyddiwyd argraffiad 1975 gennyf).

engh. : enghraifft.

engh.iau : enghreifftiau.

engh.io : enghreifftio.

enghrau : enghreifftiau.

Eid. : Eidaleg.

elf. : elfen.

Ell. : Ellmynaid

Ell.eg : Ellmyneg.

est. : estynedig.

VVB : *Vocabulaire vieux-breton*, J. Loth, 1884.

ff. : ffurf.

ff.iau : ffurfiau.

ff.iant : ffurfiant.

Ff. : Ffrangeg.

Ffr. : Ffrangeg.

g. : gwryw.

G.W.S. : *Geiriadur Wiliam Salesbury: A Dictionary in Englyshe and Welshe*, William Salesbury, 1547.

Gael. : Gaeleg.

Gal. : Galeg.

GDG : *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, Thomas Parry (gol.), 1963.

GEL : *A Greek-English Lexicon*, Liddell, Henry George a Robert Scott, 1843 (defnyddiwyd argraffiad diwygiedig 1864 gennyf: pumed argraffiad).

gen. : genidof.

GGL : *Gwaith Guto'r Glyn*, J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams, 1939.

gl. : glos.

GNP : *Gaelic Names of Plants*, John Cameron, 1909.

GO:Gw : *Gwaith Gutun Owain, L'Oeuvre Poétique de Gutun Owain*. Traethawd mewn llawysgrif gan E. Bachellery.

gol. : golygydd.

gol.ion : golygyddion.

Goth. : Gotheg.

GPC : *Geiriadur Prifysgol Cymru*, R.J. Thomas, Gareth Bevan (gol.ion), 1950-.  
 Gr. : Groeg.  
 gw. : gweler.  
 GWLL : *Barddoniaeth Wiliam Llŷn...*, J.C. Morrice, 1908; y geirlyfr.  
 gwr. : gwryw.  
 Gwydd. : Gwyddeleg.  
 gwyr, : gwyrriad.  
 H. : Hen (o flaen enw iaith).  
 h.y. : hynny ydyw.  
 Heb. : Hebraeg.  
 HEFD : *Harrap's English-French Dictionary*, Mansion, (gol.) 1962.  
 Hist.Brit. : *Historia Brittonum*: ni chyfeiria GPC at y testun a ddefnyddiodd o'r gwaith hwn.  
 HMSS : *Hengwrt Manuscripts*, R. Williams (gol.) 1876-92.  
 I. : Iesu (llsgr. Coleg yr Iesu).  
 I.E. : Indo-Ewropeg.  
 I.W. : Ifor Williams,  
 IGE : *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, H. Lewis, T. Roberts, ac I. Williams (gol.ion) 1925, 1937 (ail arg.).  
 Is-Alm. : Is-Almaeneg.  
 J.M.J. : John Morris-Jones.  
 (Juv) : *Englynion Llawysgrif Juvenus*, yn B vi, tud. 101-10.; tud. 205-24.  
 L : *Luibhleabhran*, F. Edmund Hogan, John Hogan, John C. MacErlean, 1900.  
 L.F. : Leonard Fuchs.  
 LGC : *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, Tegid a Gwallter Méchain (gol.ion), 1837-9.  
 LL : *The Text of the Book of Llan Dâw*, J. Gwenogvryn Evans a J. Rhys (gol.ion), 1893.  
 ll. : lluosog.  
 Ll. : Lladin.  
 Ll.B. : Y Llyfrgell Brydeinig.  
 Ll.G.C. : Llyfrgell Genedlaethol Cymru, (llsgr.).  
 LLA : *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, J. Morris-Jones a John Rhys (gol.ion), 1894.  
 Llad. : Lladin.  
 Llan. : Llansteffan (llsgr.)  
 LLDW : *Y Llyvyr Du or Weun, Facsimile of the Chirk Codex of the Welsh Laws*, J. Gwenogvryn Evans (gol.), 1909.  
 LLEG : *Llawysgrif Ellis Gruffyth ym Mos 158*.  
 LLM : *Llysieulyfr Meddyginiaethol a briodolir i William Salesbury*, E. Stanton Roberts, 1916.  
 (L1SC) : *Book of St. Chad yn rhagymadrodd LL*.  
 llsgr. : llawysgrif.  
 ll. : lluosog.  
 Llyd. : Llydaweg.  
 Llyfr Coch : *Llyfr Coch Hergest* (llsgr. Coleg yr Iesu 101).  
 (MC) : *Glosau ar y Martianus Capella yn llyfrgell Corff Crist, Caergrawnt*.

MED : *Middle English Dictionary*, Hans Kurath, Sherman M. Kuhn (gol.ion), 1956-.  
 Mos : Mostyn (llsgr.).  
 NH : *A new herball...*, Wylliam Turner, 1551, 1562, 1568.  
 NHHP : *A Nievve Herball or historie of Plantes*, Rembert Dodoens (cyfieithwyd gan Henry Lyte), 1578, (argraffiad 1586 a ddefnyddiwyd gennyf).  
 HMSS : *Hengwrt Manuscripts*, R. Williams (gol.), 1876-92.  
 NOH : *The Names of Herbes*, William Turner, 1548 (argraffiad 1881 a ddefnyddiwyd gennyf, James Britten (gol.)).  
 OED : *Oxford English Dictionary*, Murray, Bradley, Craigie, Onions (gol.ion), 1970.  
 OLD : *Oxford Latin Dictionary*, Glare (gol. IV ymlaen) 1968-82.  
 (Ox 1) : *Glosau yn Oxoniensis Prior a Oxoniensis Posterior yn Llyfrgell Bodley*, Rhydychen.  
 PEN. : Peniarth (llsgr.).  
 prs. : person, personol.  
 R : *The Poetry in The Red Book of Hergest*, J. Gwenogvryn Evans (gol.), 1911.  
 R.M. : Roger Morris, Coed y Talwrn.  
 RC : *Revue Celtique*, 1870-1934.  
 Rh. : y rhestr enwau llyisiau a atodir, neu drwy ymgynghori â hi.  
 S. : Saesneg.  
 S.R. : Evan Stanton Roberts.  
 (SG) : *Ystoryaeu Seint Greal*, ym Pen. 11.  
 sGPC : slipiau GPC: slipiau a gedwir gan olygyddion y geiriadur yn y Llyfrgell Genedlethol.  
 T : Y testun sy'n dilyn o lysieulyfr Salesbury: testun o Ll.G.C. 4581.  
 T.ap W. : Tomos ap Wiliam/Thomas Wiliems, Trefriw.  
 T.N. : *Testament Newydd ein Arglwydd Iesu Christ*, cyfiethiad Wiliam Salesbury, Richard Davies a Thomas Huet, 1567, (argraffiad 1850 a ddefnyddiwyd gennyf).  
 taf. : tafodiaith.  
 taf.ol : tafodieithol.  
 T[aliesin] : *The Book of Taliesin*, J. Gwenogvryn Evans (gol.), 1910.  
 terf. : terfyniad.  
 terf.au : terfyniadau.  
 trf. : terfyniad.  
 trn. : troednodyn.  
 tud. : tudalen.  
 un. : unigol.  
 W.L.B. : *A Welsh Leech Book*, Timothy Lewis, 1914.  
 W.S. : Wiliam Salesbury.  
 W.T. : William Turner.  
 WB : *Welsh Botany*, Hugh Davies, 1813.  
 WM : *The White Book Mabinogion*, J. Gwenogvryn Evans, (gol.), 1907.

YBH : *Ystoria Bown de Hamtwn* (Pen. 5), Morgan Watkin  
(gol.) 1958.  
YCM : *Ystoria de Carolo Magno*, T. Powel (gol.), 1883;  
argraffiad newydd: S.J. Williams (gol.), 1930.  
yst. : ystyrier.

Yn yr ymdriniaeth sy'n dilyn defnyddir bylchu dwbl i'm geiriau  
uniongyrchol i, tra bo dyfynnu a lled ddyfynnu mewn bylchu sengl.

AFAL, AFAL ORETS, AFALAE, EFYLL PRENN

c.c. (GPC) (afal) : 13g. A, 13g. WM  
c.c. (GPC) (afal orets) : 1450-80 DN

GPC:  
"afall [H. Gym. *abal* Crn. a Llyd. *aval* : < \**abalo-*,  
ctr. S. *apple*]"

OED:  
d.g. *Apple* : Rhestrir nifer o ff.iau ieithoedd  
Celtaidd a Slaf ac Ell. sy'n perthyn i'w gilydd. Ni  
wyddys sut y perthynant ac ni wyddys ai cyfeirio at unrhyw  
ffrwyth crwn cnodiog ynteu at y ffrwyth a addnabyddir  
bellach yn *afal* y defnyddiwyd yr enw gyntaf.

d.g. *Orange* : Daeth i'r S. o'r Ff. ond ni ddynodir yn  
eglwyr o le y daeth i'r Ff.. Gosodir Gogledd India fel man  
cychwyn y gair, gan mai yno y tyf y ffrwyth ohono'i hun.

Bnth. o'r S. ydyw *orets*, fel y gwelir drwy'r -*ts* yn  
cynrychioli'r sain S. a cyf.'r S. *orange-apple* (gw. OED d.g.  
*Orange*) a roddodd *afal orets*.

2

ALAW

c.c. (GPC) : 13g. WM

GPC:  
"alaw! [*al-* hŵyrach fel yn *alarch* o'r gwr. \**el-*,  
\**ol-*; cf. hefyd enw'r afon *Alaw*]"

Ar yr un pwyll â GPC, gellir nodi enwau afonydd eraill sy'n  
meddu ar yr elfen *al-* : *Alun*, *Aled* ac o bosibl yr un ydyw'r *el-*  
yn *Elwy* ac *Elai* ac enw'r llysiuyn *elestr* (gw. 98). Rhaid mai  
'dŵr' neu rywbeth cysylltiedig fyddai ystyr yr elf. hon.

3

ALEXANDER, ALISANDR, ALIXANDYR

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *alisandyr*)

OED:

d.g. *Alexanders* : Nodir y ff. Ll.C. *petroselinum alexandrinum* a'r Ff. *alexandre*. Ymysg y ff.iau S. ceir *alisaunder*.

OLD:

d.g. *alexandrinus* : Yn perthyn i, neu'n nodweddiadol o, *Alecsandria*.

Nid ydyw'r OED yn trafod perthynas y ff.iau Ll. Ff. a S.. Y Ll. ydyw'r ffynhonnell hynaf mae'n debyg. Ymddengys i mi i'r ff.iau C. hanu o'r S., cymh. ff. HAFOD 16 a'r ff. S. *alisaunder*.

4

ALMOND, ALMONS, PRENN ALMOND

c.c. (Rh) : T, W.L.B. (ff.: uchod, *almons*)

OED:

d.g. *Almond* : Gair a ddaeth o'r Gr. *ἀμυγδαλή* drwy'r Ll., drwy'r ieithoedd Ll.aidd cynnar i'r Ff. ac wedyn i'r S.. Rhoddir y ff.iau *almon*, *almond* ymhlith eraill.

Bnth. o'r S. ydyw ff.iau C., ac *almons* yn cadw y llu. S., -s.

5

AMMI, GWIR AMMI, ANET, ANETH, ANIS, ANIS, CUCUMER GWYLLT, MARIERWM, MARIERWN [sic]



c.c. (Rh) (ami) : T  
c.c. (Rh) (gwir ami) : T  
c.c. (Rh) (anet/aneth) : T  
c.c. (Rh) (anis) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff.: *anis*, *anys*)  
c.c. (Rh) (marierwm) : T  
c.c. (Rh) (cucumer) : T  
c.c. (Rh) (cucumer gwyllt) : T

OED:

d.g. Ammi: O'r Ll. *ammi* o'r Gr. *ἀμμι* a gysylltir gan rai â *ἀμμος* 'tywod'.

d.g. Anet: Drwy'r Ff. *anet*, *aneth* o'r Ll. *anethum* o'r Gr. *ἀνηθου* 'anis'.

d.g. Anise: O'r Ff. *anis* o'r Ll. *anisum* o'r Gr. *ἀνισον*. Ceir nifer o amrywiadau ar y ff. Gr.. Cyfeiria'r rheiny heb wahaniaethu rhwng y ddau blanhigyn. Yn Ll. yr aethpwyd i wahaniaethu a gosod *anethum* yn enw ar un planhigyn ac *anisum* ar y llall.

d.g. Marjoram: Nodir y ff. arno : *marierum*. O'r Ff. i'r S. ac o'r ieithoedd Ll.aidd i'r ieithoedd Ell. Y mae ansicrwydd ynglŷn â thras y gair ac ai o'r Ll./Gr. yr hanodd yn wreiddiol.

GPC:

"cucumer,... [*cucumer*, bnth. dysg. diw. o'r Llad. *cucumer-* (*cucumis*)...]".

OLD:

*cucumis* : tras anhysbys.

T (tud. 39):

"Ammi yn Groec a Llatin. Ameos yn Llatin lygredic a mal na cheisioedd ieithoedd eill or mefyrto enw newydd iddo ac mór hawdd ydyw adrodd y gair ninne aei gadwn yn Ammi./".

T (tud. 15):

"Anethum yn Groec a Llatin, Anet neu Dyll yn Saesonaec ac ni wnn i arno anyd Anet yn Camberaec./".

T (tud. 190):

"Maiorana yn Llatin, Marierum gentle yn Saesonaec ac nid oes anid benphygy[sic] yr vn gair Marierwm ir Camberaec./".

Er bod cysylltiad rhwng *anet* ac *anis* crynhoais yma hefyd

ydriniaeth ag enwau arall heb gyswllt mwy na bod iddynt yr un math ar dras. Bnth. o'r S. neu drawslofffa o'r Ll. a'r S. a roddodd *anis*. A dengys y tri dyfyniad o'r T gyfrifoldeb W.S. am bnth. yr enwau eraill. Daeth *ammi* o'r Gr./Ll., a chan gofio am *anethum*, cymerodd *anet* o'r S. tra bo *aneth* yn amrywiad nes at y gwreiddiol. Gwelir mai o'r S. y daeth *marierwm*, ond diau ei fod yn swnio'n ddigon cywir Ll.aidd gan W.S.. O DHS y cafwyd y ff. est. *gwir ammi* (gw. T tud. 39). W.S. hefyd ydyw'r cyntaf i bnth. *cucumer* i'r C., a hynny wrth reswm yn syth o'r Ll., yn y ff. est. uchod (DHS tud. 33a).

6

#### AMRANWEN

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.:  
*amranwen, amranwen, amranwen*)

GPC:

*amranwen, amranwyn* [*amrant + gwen, gwyn, H. Lyd. abranquaenn*]"

ANET ... : gw. 5.

ANIS ... : gw. 5.

7

#### ARChEWRAIDd

c.c. (Rh) : L1.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.:  
*gorchwyreit, golchwreint / golchwryeit / golchwyreit,*  
*erchwreid / gorchwreid*)

Mae dryswch mawr yn y ff.iau yma, a dyma rai amrywiadau  
pellach o'r Rh: *arichraidd* (PEN. 326), *erchwyreidh* (LLAN.  
10), *golchebraid* (PEN. 326), *golcheuraid* (D.D.).

GPC:

"*gorchwraidd, golchwraidd* [ ? *golch-* (> *gorch* +  
*gwraidd*)]".

Geill hyn fod yn iawn, ond oni allai *gorch-*yntau fod yn  
llygriad ar *golch*? Noder mai'r engh. fwyaf niferus o bell yn y Rh  
ydyw *golchwraidd*: ceir 17 engh.. Efallai felly y dylid rhoi rhyw  
bwys i'r ff. hon, yn enwedig o ystyried y gwneid trwyth o  
wreiddiau'r llysiuyn i wella doluriau (gw. T tud. 268-9 a EF  
tud. 224-5 d.g. Sanicle). Ond geill fod mwy nag un ff. wedi  
cordeddu ar draws ei gilydd i greu'r dryswch hwn, (-yst. y  
cyfuniadau posibl : elf. gyntaf : *golch* 'trwyth'; *gorch*  
'gorchudd'; *erch* 'llwydilas'; ail elf. : *gwraidd*; *gwyreint*,  
'grymus, egnïol').

8

ARUOC, ARÛOC

c.c. (Rh) : T

Cyfansawdd o *arf* + terf. ans. -og : disgrifiad sy'n hanu o  
siap picellog y codau (*sinapsis arvensis*). Ni chanfûm gyfateb  
dyfalu mewn iaith arall. Am y defnydd o'r terf. ans. -og gw. 69.

AUR VANADL : gw. 9.

AUR GAMAEMIL, AUR GAMAMIL gw. 39.

9

BANADL, BANADL PIGOC, BANADLEN, BANATLOS, AUR VANADL

c.c. (GPC) (banadl) : 12g. LL  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

GPC:

"banadl, banal [H. Grn. *banathel*, gl. *genesta*, Crn. C. *banal*, Llyd. C. *balazn*, Diw. *balan*, *banal* : < Brth. \**bǎnǎtlo-* ]".

DHS (tud. 76b):

"DE GENISTELLA. ...".

NOH (tud. 84-5):

"*Genistella*.

... It maye be called in englishe Thorn-broume or prickly broume."

T (tud. 77):

"...yn Llatin *Genestella* yn Saesonaec Thornebrome nei Pryckie brome ac yn Camberaec y Banatlos, y Banadl pigoc..."

Cyf. iad o'r Ll. *genistella/genestella* o NOH a DHS ydyw *banatlos*, tra bo *banadl pigoc* yn cyf. enwau S. (W.T.) *Thorn-broume* a *prickly broume*. Enw ar *genista anglica* ydyw *banadl pigoc*. Enw ar *genista tinctoria* ydyw *aur vanadl*. Gall *banatlos* fod yn enw ar y ddau ohonynt. Bu cymysgu rhwng yr enwau ar y llwyni hyn, nes bod *aur vanadl*, *banatlos* a *banadl pigoc* yn yr un bennod. Ond ceir *aur vanadl* mewn pennod arall hefyd.

Ychwanegiad diweddarach ydyw yn y bennod lle ceir y tri enw. Ni ddylai fod yno. Un o ddefnyddiau'r aurfanadl oedd llifo, fel y dengys yr enw *lliwlys* (gw. 146). Lliw melynnaidd a ddaw ohono (cymh. â'r enw *S. yellows* (DEPN tud. 502)). Dyna sydd y tu ôl i'r enw. Enw ydyw a luniodd W.S. yn ôl pob golwg.

BANOC, BANOGYN : gw. 193.

BARF Y GATH : gw. 123.

10

BASIL

c.c. (Rh) : T

OED:

d.g. Basil : I'r S. o'r Ff. *basile* o'r Ll. *basilica* o'r Gr. *βασιλικὸν* 'brenhinol'. Cododd elf. o ddryswch ynglŷn â'r enw Ll. *basilisca*, drwy ei fod yn debyg i *basiliscus*, enw ar fath ar sarff neu anghenfil. A daethpwyd i dybio fod y llysieuyn yn feddyginiaeth i wenwyn y creadur hwnnw. Ymhlith y ff.iau ceir *basil*.

Cyf. *Ocymum* (DHS tud. 38b) a wna *basil* yn y T.

NOH (tud. 56):

"*Ocymum*

*Ocymum* is called in englishe Basyl...the Poticaries cal it Basilicon...".

O'r S. uchod y byddwn yn amau i W.S. gael y ff. *basil* ond ei fod wedi dewis y ff. efo -i- ynnddi i gyd-dynnu'n well â'r ff. clas..

## BAUM, BAWM

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *bawm*)  
 c.c. (EEW) : 1346 L1A

GPC:  
 "bawm [bnth. S.C. *baume, bawme*]"

EEW (tud. 67,82,216):  
 Sonnir mai bnth. o'r S. ydoedd y ff.iau *balm, bawm, a bôm*.

OED:  
 d.g. Balm : I'r S. o'r Ff. *basme* o'r Ll. *balsamnus*.  
 Ceir y ff.iau *bawm(e)* a *baum* a nodir i'r -l- gael ei  
 gwthio i sillafiadau S. drwy ymwybod fod -l- yn y ff.Ll..

d.g. Balsamum : O'r Ll. *balsamum* o'r Gr. *βάλσαμον*  
 sef 'coeden bôm' neu 'sug coeden fôm'. Daeth hwnnw o dras  
 Semetaidd, cymh. â'r Heb. *besem, basam*.

NOH (tud. 14):  
 "*Apiastrum*  
 ... in english Baume,..."

T (tud. 141):  
 "...Baum yn Saesonaec ac ani venthygiwn e vydd eisieu enw  
 ar y llyseun hwn yn Camberaec ac od gan y Saeson y dygwn  
 venthic, Bawm y galwn : ..."

Yr oedd *bawm* o edrych ar y c.c., wedi ei bnth. o'r S. cyn i  
 W.S. ei bnth. am yr eildro (o'r NOH).

## BEATUS, BEATWS, BEATWS DUON, BEATUS DUY, BEATWS GWYNION, BIÁTWS

c.c. (Rh) (*beatws*) : Ll.B. 14912 (ff.: *beatws*)  
 c.c. (Rh) (*beatws du(on)*) : T  
 c.c. (Rh) (*beatws gwynion*) : C.M. 1 (ff.: *bitis gwynnion*)

OED:

d.g. Beet : O'r Ll. *beta*. Noder fod bwlch yn y cofnodion o'r ff.iau S. rhwng 1000 a 1400.

OLD:

d.g. *beta* : Tras anhysbys.

Diau fod yma bnth. o ff.(iau) S. nas cofnodir : yn perthyn i'r cyfnod na fedd yr OED ar engh.iau ohono. Cynrychioli terf.iau ll. S. a wna'r -us a'r -ws (am engh. arall o'r -ws gw. 29).

DHS (tud. 272a):

"DE TEVTLO...

GENERA.

...candidam & nigram..."

Y rhain a roes y ff.iau est..

13

BEDWEN, BEDWEN ChWERW

c.c. (GPC) (bedwen) : 12-13g. C[aerfyrddin]

c.c. (Rh) (bedon chwerw) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR  
COCh (ff.: *bedon chwerw, bedon chwerw, bedon chwerw*)

GPC:

"bedw, -en [H. Grn. *bedewen*, gl. *populus*, Llyd. C. *bezuenn*, Gwydd. C. *bethe* : < Clt. \**betu-* o'r gwr. \**guet-* 'ystor, rhwsin', fel yn y Llad. *betulla, bitumen*]"

"bedon, beton [bnth. S.C. *betone, betan* 'betony']".  
Nodir y fedon (*fedwon, fedwen*) chwerw fel cyfuniad.

OED:

d.g. Betony ; O'r Ff. *betoine* o'r Ll. diw. \**betonia* sef ff. ar *betonica*. Dywedai Pliniws iddo gael ei enw ar ôl y Fettones, un o lwythau Gâl a ddarfu ddarganfod y llysieuyn. Nodir y ff.iau *betone, betan*.

Fel y gwelir o gysondeb y ff.iau hynaf, tyb gwlad a ystumiodd

*bedon yn bedwen - sy'n cadarnhau GPC.*

BENGALET : gw. 199.

14

BEIDIOC LAS, BEIDIOC LWYD

c.c. (Rh) (beidiog) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
(ff.: *beidawc, beidiawc, beidawc*)  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : LLYFR COCh

Yn rhagymadrodd W.L.B. (tud. vii) dywedir mai enw cyff. ol ar *lanceolata* ydyw *beidiog*. Honnir yno hefyd mai cyf. iad o'r S. *spearwort* ydyw'r enw. Ond ni welaf pam na allai hwn fod yn cyf. yn uniongyrchol y Ll. *lanceolata* ar yr un patrwm â'r trosi S. ohono yn *spearwort*. Y mae'r enw yn ddigon hen i hynny fod wedi digwydd.

BENFELEN : gw. 199

15

BERWR, BERWR Y COET, BERWR Y DWFYR

c.c. (GPC) (berwr) : 13g. T[aliesin] (ff.: *berwr*)  
c.c. (GPC) (berwr y dŵr) : Ll.B. 14912 (Collwyd o'r Rh gennyf)  
c.c. (Rh) (berwr y coed) : T

GPC:

"berwr<sup>2</sup>, berw [H. Grn. *beler*, Llyd. *beler*, Gwydd. *C. biror, bilor, Gal. berula*]"



Rhydd y GNP (tud. 7-8 d.g. *Nasturtium officinalis*) *biorar-bior-fheir* 'berwr y dŵr'. Y mae i'r *S. water-cress* 'berwr y dŵr' hefyd ei ff.iau ctr. Alm. ac Is-Alm..

DHS (tud. 244a):  
"DE SISYMBRIO. ...  
EX PLINIO.  
...Syluestre...".

Cyf. y Ll. o'r fan hon a ildiodd *berwr y coet*.

BIATWS : gw. 12.

16

BLEIDDdDAC, BLEIDD DAC, BLEIDDdDAC, BLEIDD-DAC, LLYSAE YR BLAIDD,  
LLEWPARD-DAC

c.c. (Rh) : T

T (tud. 54):  
"Deuryw *Aconitum* y sydd vn a elwir yn Groec *Pardalianches* sef *Llewpar-dâc*. Yr ail a elwir yn Groec *Lycoctonon* sef y *Bleidd-dâc* nei *Lysae yr blaidd*".

NOH (tud. 8-9):  
"*Aconitum*.  
There are ij kindes of the herbe called *Aconitum*, the one kynde is called *Pardalianches* whiche we may call in englishe *Libardbayne*...The other kynde is called *Lycoctonum*, & in englishe it maybe called *wolfes bayne*".

DHS (tud. 33a)  
"DE ACONITO. ...  
GENERA.  
...Germanis... *Vvolffsuurtz*...".

OED:  
d.g. *Wolf's-bane*; Tarddodd drwy cyf. y Ll. *lycoctonum* a ddaeth yn ei dro o'r Gr. *λυκοκτόνον*. Yr ystyr ydyw

'lladdwr blaidd'.

GEL:

d.g. Παρδαλις : llewpard.

Cyf. ff.iau clas. gan W.S. a roes *bleidd-dac* a *llewpard dâc*.  
Lluniwyd hwy yn dilyn y ff.iau S. *wolf's-bane* a *libard's-bane*.  
Ymddengys mai cyf. yr Alm. *Vvolffsuurtz* (DHS) a wna *llysae* yr  
*blaidd* T (tud. 54), tra bo'r un enw mewn man arall yn y T (tud.  
206) yn trosi'r Ll. *lupinus*, (*lupus* 'blaidd').

17

BLODAE AMOR, PhLWR AMOR MELYN, PhLWR MELFET PURPUR

c.c. (Rh) : T

T (tud. 61) :

"...Fflour amor yn Saesonaec. Blodae amor yn Camberaec ./  
... yn Saesonaec Yellow flour amor sef y Phlwr amor melyn.  
... yn Saesonaec Purple veluet floure, sef y Phlwr melfet  
purpur./".

NOH (tud. 11):

"*Amarantus*.

There are two kindes of *Amarantus*,... The other kynde is  
called here in Englande of some purple velvet floure, of  
other flouramore."

DHS (tud. 38a-38b):

"DE AMARANTO....

GENERA.

... hodie *Flos amoris vulgè*, & Germanis *Flor amor*,..."

W.T. ydyw ffynhonnell y tri enw S. a geir yn y T. Ceir yr un  
nas gwelir uchod yn y NH. Cyf.'r Ll. *flos amoris* a'r Alm. *flor*  
*amor* (DHS) a'r S. *flour amor* (NOH) a roes *blodae amor*. Cyf. o'r  
S. uchod a roddodd y ddau enw arall.

Daw *amor* o'r enw *amarantus* fel y gwelir o'r NOH.

OED:

d.g. Amarant(h: yn wreiddiol o'r Ll. *amarantus* o'r Gr.  
<sup>2</sup> *ἀμαραντος* 'bythol', Llygrwyd y gair dan ddyl. y Gr.  
<sup>2</sup> *ἀνθος* 'blodyn'.

18

BLONEC Y DDAEAR, BLONEC Y DDAYAR

c.c. (Rh) : T

Cymh. â'r enwau *bogal* y *ddaeear*, *bustl* y *ddaeear* a *mwg* y *ddaeear* (gw. 20,28,184). Gwelir fod y rheiny yn cyf. ff.iau clas.. Y mae'r enw hwn yn ffitio'n daclus i'r un patrwm dyfalu. 'Rwy'n amau felly mai cyf. ff. clas. a roes hwn, a dichon mai W.S. sy'n gyfrifol am hynny (o ystyried y c.c.). Ond methais â chael hyd i'r ff. wreiddiol dybiedig yn unman.

Efallai mai o'r byd clas. y cafwyd y dyfalu 'daear'. Gwelir i'r Ll. *fel terrae* 'bustl y ddaear' esgor ar ff.iau cyf.iedig yn S., Gwydd. a C. (gw. 28). (Ni wn ai cyf., dyfalu ctr. ynteu dyfalu bnth. a roes yr enw Gwydd. *Subh talmhan* 'sug y ddaear' (gw. 232)).

19

BOCS, PRÉN BOCS

c.c. (GPC) : 14g. R, 14g. IGE.

GPC:  
"bocs<sup>l</sup>, bocys [bnth. S. box]".

OED:  
d.g. Box : o'r Ll. *bux-us* o'r Gr. *πύξος*.

GEL:  
d.g. *πύξος* : Ni sonnir am dras pellach.

20

BOGEL Y DdAYAR

c.c. (Rh) : T

NOH (tud. 32):  
"Cyclaminus.  
Cyclaminus otherwyse called...vmbilicus terre...".

DHS (tud. 156a):  
"DE CYCLAMINO.  
NOMINA.  
... Rapum & tuber vmbilicusque terrae Latinis,...".

Cyf.iad yn amlwg o'r Ll. *umbilicus terrae* ydyw hwn. Ac o'r ddwy ffynhonnell uchod y'i cafwyd yn ddiâu. Am y dyfalu ei hun gw. 18.

21

BRESSYCh, BRESYCh, BRÉSYCh DOFION

c.c. (GPC) (bresych):tua 1200 L1DW  
c.c. (Rh) (bresych dofion) : T

GPC:  
"bresych,... [bnth. drwy'r Gwydd. C. *braisech* 'cabaets; cawl', Diw. *praiseach* o'r Llad. *brassica*; ...]".

OLD:

d.g. brassica: Ni wyddys ei dras.

DHS (tud. 143a-143b):

"DE CRAMBE SATIVA....

VIRES EX DIOSCORIDE.

Brassica sativa...".

Dyma a roddodd y ff. est. dan sylw.

22

BRIALLY MAIR, DAIL Y PHION PhRWYTh, FFION PhRWYTh

c.c. (GPC) (briallu) : 13g. T[aliesin]

c.c. (Rh) (briallu Mair) : Ll.B. 15045

c.c. (GPC) (ffion) : 9g.(MC)VVB

c.c. (Rh) ((dail) ffion y ffridd) : Ll.B. 14912, LLYFR

COCh (ff.: *fiol y frudd, ffiol y ffrudd*)

GPC:

"breilw, breila, breilen [H. Grn. *breilu*, gl. *rosa* a gamddyfynnwyd o'r *Vocabularium Cornicum* gan y geiriadurwyr fel H. Gym.]".

"ffion, ffuon [H. Lyd. *fionauc*, gl. *rosarium*, Gwydd. C. *sian* 'bys coch', Llad, *spiōnia* 'a kind of grape vine' < IE. \**spījion*]".

DFB:

d.g. DIGITALE : *brulu*.

d.g. PRIMEVÈRE : *briallo*.

WB (tud. 31):

"*P[arnassia] palustris*;...*Brial y gors*."

WB (tud. 160):

"BRIAL; *Parnassia Palustris*...".

(Byddwn yn amau mai'r WB sy'n gyfrifol am yr enw *brial y gors*, ac am roi'r enw *brial ar parnassia palustris*).

Hawdd gweld yma i ddau gynair blethu drwy'i gilydd oherwydd agosrwydd eu hystyr, nes gweld yn yr ieithoedd Celtaidd (a enghreifftir uchod) swyddogaethau ychydig yn wahanol i ddisgynyddion c. y ddau gynair hynny. Ai at rosyn ynteu at y lliw coch (lliw rhosyn) y cyfeiriai y cyneiriau hynny'n wreiddiol? Pe derbynnid canllaw datblygiad cyfatebol Gr. y mae'n debycaf i'r lliw ddyfod yn gyntaf (gw. 220).

Yn achos y defnydd C. o ddynodi'r planhigyn *primula* â'r enw *briallu*, rhaid dwyn i gof yr enw Ll.C. *prima rosa* (gw. OED d.g. Primrose), sef 'rhosyn cyntaf'. Y mae hwn yn arwydd o hynafrwydd y dyfalu o weld *primula* fel math ar rosyn. Methais â chael cyfateb i'r enw *briallu Mair* mewn iaith arall. Am ddyfalu Mair gw. 52.

Parthed â *ffion* y *ffridd*, sylwer i dyb gwlad lurgunio'r enw i ddau gyfeiriad: *ffion* > *ffiol*, a *ffridd* > *ffrwyth*, (gw. Rh). Fel y gwelir o'r c.ion c. yr oedd yr elf. gyntaf wedi troi'n *ffiol* yn gynnar. Y T ydyw'r c.c. i roi *ffion* fel elf. gyntaf. Felly ymddengys yn debygol mai W.S. sy'n gyfrifol am edfryd *ffion* yma.

23

#### BRIWIC

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: briwic)

*Briw* + terf. ans., -ig : efallai oherwydd fod y planhigion yn briwio'n hawdd y'i galwyd yn hyn, neu'n debycaf am iddo gael ei ddefnyddio at friwiau. (Cymh. â'r S. *woundwort* 'llys y briw' (DEPN tud.500)).

## BRONWYS, LLYSIAU'R BRONNAU

c.c. (Rh) : T

Noder mai ychwanegiad yn llaw E.T. ydyw *llyisiau'r bronnau*. Serch hynny y mae'n goleddfu'r enw arall. Ymddengys fod *llyisiau'r bronnau*'n cyfeirio at ddefnyddio'r planhigion at ryw anhwylder ar y bronnau. Ni welais gyfeiriad at ddefnydd o'r fath yn unman. Ond mae'n hysbys y'i defnyddid at glwyf y marchogion, oherwydd fod siap y gwreiddiau fel gwythiennau chwyddedig y clwyf hwnnw (EF tud. 50). Byddai'r gwreiddiau hynny'n cymharu'n llawn cystal â thethi. Felly awgrymaf mai *bron + gwst* ydyw *bronwys* [gwst 'clefyd, clwyf', cymh. â *cymalwst*], *llyisiau'r fronwst* fyddai'r ff. wreiddiol, ond i'r enw gael ei dal fyrru fel y digwyddodd yn achos *llyisiau'r hychgrug* > *hychgrug*.

## BRWYN, BRWYN GARANOT, BRWYN NADD, LLAFRWYN, TOSTFRWYN

c.c. (GPC) (brwyn) : 12-13g. C[aerfyrddin]  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

GPC:

"brwyn<sup>2</sup> [H. Grn. *brunnen*, gl. *iuncus*, *scirpus*, Crn. C. *bronnen*, Llyd. *bröenn* (-enn): < Clt. \**brugno*- o'r ff. \**bhrugh-no*- 'cangen, coesyn', fel yn yr H.S. *brogena*, gl. *frondium*]"

T(tud.94):

"...yr llall ac a gymerir i orlyfny saethae a chrybae ne vanolwaith all ac am hynny y gelwir rhai brwyn nadd./"

Enw a gododd o ddefnydd arbennig gan hynny ydyw *brwyn nadd*. Y

mae enw Gwydd. *liobhag* yn ôl GNF<sup>5</sup> (tud. 129 d.g. E[quisetum] hyemale) yn hanfod o *liobh* 'llyfn, cabol' ac yn amlwg felly'n cyfeirio at yr un arfer. Hefyd, cymh. â nifer o enwau S. megis *shave-grass* 'gwellt eillio' (NOH tud. Fiiiij, gw. hefyd DEPN d.g. *EQUISETUM HYEMALE*).

Llafn + brwyn ydyw *llafrwyn*, ac er na tharewais ar gyfateb union iddo mewn iaith arall, y mae o'r un dyfalu â'r S. *blade of grass* 'llafn gwelltyn'. Trosi *thyrs* (DHS tud. 15b) a wna yn y T, *Juncus* ydyw yn y D.D., a *Juncus articulatus* yn EBL1Ch (tud. 86, d.g. Rush, Jointed).

Yr un planhigyn ydyw *tostfrwyn* (*tost* 'llym' + *brwyn*) a *brwyn garanod* yn cyf. *cyperid-* (DHS tud. 277b). Ni welais ddim enwau cyfatebol i'r rhain. *scirpus lacustris* a ddynodir (gw. WB tud. 239 d.g. TOSTFRWYNEN).

26

#### BRYTWN

c.c. (Rh) : L1.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *brytwn, bryton, brytwn*)

GPC:

"brytwn, bryton, brytan' [bnth. diw. Llad. *abrotonum*]"

GEL:

d.g. ἀβρότονον : *Artemisia abrotonum*, ni nodir tras pellach.

Ni cheir sôn am yr enw Ll. yn yr OLD. Yn sicr yr un ydyw a'r Gr. ἀβρότονον .



## BULWC

c.c. (Rh) : Ll.B. 15045, LIAN. 10 (ff.: *bvlwc Frengic, bullwc*)

GPC:

"bulwg [*bu2 + elf. llwg, fel yn golwg a llygad, cf. Gr. βοῦφθαλμον 'ox-eye, chrysanthemum segetum'*]"

Y mae nifer eraill o engh.iau o'r un dyfalu gan gynnwys *llygad llo* a'r Ff. *oiel de boef* a'r Ll. *oculus bouis* (DHS tud. 54b). Dynodi *papaver* neu *chrysanthemum* a wna, hyd y gwn, gan fod canol unlllygeidiog i'r blodau hynny.

## BUSTUL Y DdAEAR, BUSTYL Y DdAYAR

c.c. (Rh) : T

c.c. (GPC) : W.L.B. (Collais y cofnod hwn o'r Rh).

Yn yr EF (tud. 297 d.g. Centaury) nodir enwau cyfystyr S. *earthgall, gall of the earth*. Nodir yno ac yn yr OED ff.iau H.S. ar yr enwau hyn (c.c. (OED) yn perthyn i tua'r flwyddyn 1000). Dywed EF hefyd mai cyf.iad o'r Ll. *fel terrae* ydoedd. Ceir *ffel terrae* yn y T (tud. 105). Ond o edrych ar y Rh a GPC (d.g. bustl) a gweld bod y ff. yn ymddangos ym PEN. 206 a'r W.L.B., dangosir nad cyf.iad newydd W.S. ydyw. Nid ydyw'n amhosibl, serch hynny, i hwn hanu drwy'r S. o'r Ll. o weld hynafwydd y cyf.iad S. o'i gymharu â diweddarwch ymddangosiadol yr enw hwn yn C.. Cymh. hefyd â'r Gwydd. *serrach talmhan 'bustl y ddaear' sef fumaría*. Am y dyfalu 'daear' gw. 18.

## BWL TWS, MWL TWS

c.c. (Rh) : T

## OED:

d.g. Bolt : 'bollt' ydyw'r ystyr, ond fod nifer o ystyron datblygiedig. Rhif 13 ydyw y defnydd o'r gair yn enw ansathredig a lleol ar blanhigion. Y mae y planhigion hynny oll yn nheulu *ranunculaceae*. Daw'r c.c. o 1597 sef o lysieuelyfr John Gerard ac y mae yn y ff. lluu.

Bnth. sicr o'r S. uchod ydyw hwn (nid ydyw'r ff. yn cychwyn ag m-, yn ddim heblaw amrywiad rheolaidd). Cynrychiola'r -ws terf. lluu. S., a gwelir fod y c.c. S. hefyd yn lluu.. Cofier hefyd mai un o Gaer, sef am afon Ddyfrdwy â Sir Dinbych ydoedd John Gerard. Felly hawdd fyddai i'r gair fod wedi cael ei bnth. i dafodiaith y Gogledd-Ddwyrain. Y mae ystyr y dyfalu S. gwreiddiol yn amlwg: y mae'r planhigion dan sylw yn meddu ar flodau sy'n gnapiau crynion fel pennau bolltiau.

## BWY T Y LLYPH AINT

c.c. (Rh) : T

Y mae'r dyfalu yn meddu ar amrywiadau eraill e.e. caws llyffant, bwyd y broga. Cymh. hefyd â'r S. toadstool 'stôl llyffant' a'r Gwydd. balg losgain 'cwd llyffantod' (L d.g. Mushroom) a'r Llyd. kabel-dousek 'mantell llyffant' (DFB d.g. CHAMPIGNON), gan roi ond rhai engh.iau : dyfalu (? ctî.) hynafol.

## BYDdARLLYS

c.c. (Rh) : L1.B. 14912, HAFOD 16

Rhaid y bu i'r llysieuyn hwn (*sempervivum tectorum*) gael ei ddefnyddio i liniaru bydderi. Ond methais â chael hyd i ddim yn unman yn dynodi hynny; nac ychwaith enw cyfatebol i *byddarllys* mewn iaith arall.

## BYSEDD COChION, BYSEDD YR ELlyLLION, MENIC YR ELlyLLION, MENIC ELlyLLION

c.c (Rh) : T

Datgela'r EF (tud. 323-8) nifer helaeth o enwau S. ar y *digitalis purpurea*, a llaweroedd ohonynt yn ymwneud â dyfalu 'bys/llaw/maneg'. Hynny sydd y tu ôl i'r enw Ll. *digitalis* 'yn ymwneud â bysedd' a dywed OED a EF mai L.F. yn DHS oedd dyfeisiwr yr enw Ll.. Tynnai yntau ar yr un dyfalu, sydd hefyd ar gael yn yr Alm. *fingerhut* 'gwniadur' (gw. OED d.g. *Digitalis*). Rhydd yr EF engh.iau o ddyfalu cyfanian mewn Gwydd., Alb., S. a C.. Yst. y S. *fairy gloves* 'menyg tylwyth teg' a *bloody fingers* 'bysedd gwaedlyd' (EF) - y mae'r rhain fel y gwelir yn cyfateb yn agos at yr enwau C. dan sylw. Er hynny efallai nad cyf. sy'n gyfrifol am yr agosrwydd ond dyfalu ctr.. Yn EF ceir cyfeiriadau at gysylltu y llysieuyn hwn â thylwyth teg ac ellyllon.

BYWFYTh, BYWFYTh VWYAF, BYWFYTh GWYLIT, BYWFYTh LEIAF, .BYWFYTh  
LEIAF VENYW, BYWFYTh LEIAF WR RYW, BYWLYS

c.c (Rh) (y cwbl uchod) : T

DHS (tud. 12b):

"DE AIZOO. ...

NOMINA.

... Semperuiuum Latine nominatur...

GENERA.

...Sedum maius ...Sedum minus ... mas [is-rywogaeth]

...Alterum foemina [is-rywogaeth]...Aizoo syluestre...".

Cyf.iad W.S. o *semperuiuum* ydyw *bywfyth* a'i addasiad arno ydyw  
*bywllys*. A gwelir o'r dyfynnu uchod o le cafodd y ff.iau est..

CABAETS

c.c (Rh) : T

OED:

d.g. Cabbage : Wedi dyfod i'r S. o'r Ff. ac i'r Ff.  
o'r Ll.. Y tarddiad Ll. ydyw *caput 'pen'*, sy'n dynodi fod  
y planhigyn yn ffurfio clap o ddail fel pellen.

Gwelir yn y -ts ymgais amlwg at gyfleu sain y S. -ge.

CACAMWCCI, CACAMWCKI, CACAMWCI

c.c. (Rh) : T

Erbyn hyn ar lafar ceir y ff. *caci mwnci* neu gyffelyb. Ond  
fel y dengys pob cofnod ohono yn y Rh, *mwci* ydyw'r ail elf..

Rhydd y WB (tud. 171) yr enw *cloffrwm y mwcci* (*convulvulus sepium*). Ymddengys mai yr un elf. ydyw ail elf. yr enw hwn hefyd. Gellid yn hawdd ei hesbonio fel amrywiad ar *bwci*, yn enwedig drwy fod 'bwgan' yn digwydd fel elf. ddyfalu : *blodyn bwgan* (*succisia pratensis*-Llŷn). Am yr elf. gyntaf, *caca* - y mae'r WB (tud. 157) drwy roi'r ff. *baw mwcci* (ar yr un planhigyn â *cacamwci*) yn dangos dehongli *caca* fel 'cachu'. Mae'n debyg mai ff. barchusaidd y WB ydyw'r *baw mwcci*; nis gwelais yn unman arall ac nis clywais ychwaith. Efallai fod y WB yn gywir yn ei ddehongli. Foddbynnag er taclused y ffitia'r darnau hyn, yr wyf am awgrymu posiblwydd arall; sef fod yma air bnth. o S., nas cofnodwyd. Gallai hwnnw yn ei dro fod wedi cael ei ystumio gan dyb gwlad cyn cael ei gofnodi. A allai fod yma gyfansawdd o'r geiriau *cacchen* 'cydio, cipio, glynu' a *mwkke* 'baw, ysgarth, cachu' (gw. MED d.g. *cacchen* a *muk*)?

36

#### CAHWLYN Y MEL, COLYN Y MEL, CÓLYN Y MÊL

c.c. (Rh) (*cachwlyn/cahwlyn*) : PEN. 326 (ff.: *kachwlyn*)  
 c.c. (Rh) (*cachwlyn/cahwlyn/colyn y mêl*) : T

Ar bigyn hirfain y mae blodau'r llysieuyn hwn - byddai 'colyn' yn ddisgrifiad purion ohono. Ond wedyn y mae'r ff.iau *cachwlyn* a *cahwlyn* yn difetha'r esboniad hawdd yma, ac yn arwyddo'n gryf mai tyb gwlad a luniodd *colyn*. Nid oes gennyf finnau amcan beth fyddai tras *cachwlyn/cahwlyn*; heblaw fy mod yn reddfól amau o sŵn y gair y gallai fod yma bnth. o'r Gwydd.. Gw. 244, lle'r

ydddengys fod enw arall ar yr union blanhigyn hwn yn bnth. o'r Gwydd..

37

CALDRIST, CALDRIST VANYW, CALDRIST WR RYW, CELIAE [sic] Y CI, CEILLIAE Y CI BANYW, CEILLIAE Y CI GWR RYW, LLYSAE'R NEIDR, LLYSAE'R NEIDR BANYW, LLYSAE'R NEIDR GWR RYW

c.c. (Rh) : T

T (tud. 153):

"Cynosorchis yn Groec a Llatin sef yw hynny Ceiliae[sic] yr ci, Adders grasse yn Saesonaec a hynny ydyw llysaе'r neidr yn Camberaеc./".

Dengys hyn dras dau o'r enwau. Cymh. *ceilliau'r ci* â'r S. *dogstones* 'ceilliau ci' a *cullions* 'ceilliau'. Yn yr OED (d.g. *Cullions*) nodir y ff. Ff. *couillon de chien* 'ceilliau ci'. A gwelir yn yr OED (d.g. *Dogstones*) i hwnnw gael ei cyf. i'r S. o ff. clas., ar ôl i'r T ei cyf. i'r C.. (Am ddyfalu 'cŵn' gw. 109). Yn sicr o dras clas. y mae'r enwau hyn - oll wedi ei seilio ar y gair Gr. *ορχις* 'caill' (gw. hefyd 239).

Ar ddiwedd yr un adran â'r un lle ceir *ceilliau'r ci* a *llysiau'r neidr* daw'r frawddeg fer:

T (tud. 154):

"A hwn im tyb i yw'r galdrist".

Y mae'r tybio yn iawn. Byddwn yn amau mai yn wreiddiol enw ar *orchis mascula* a'i debyg ydyw *caldrist*. Yn EF (tud. 462 d.g. *Early Purple Orchid*) gwelir peth mwtredd o enwau S. ar *orchis mascula*. Yn eu plith ceir *cock flower* 'blodyn y gal' a *cuckoo cock* 'cal y gôg' ynghyd â thipyn go lew o rai eraill yn ymwneud â

phethau rhywiol yn uniongyrchol neu drosiadol. Crybwyllir *adder's grass* hefyd, a dichon y gallai fod is-ystyr rhywiol i neidr (gw. 87). Dywed y T (tud. 154) am y llysieuyn "y cynhyrfa e vn i analladrwydd" a chadarnheir y defnydd ohono i berwyl felly gan EF. Sonnir yn EF am ddulliau'r Groegiaid ac eraill o'i ddefnyddio fel grymusydd chwant (gw. hefyd 217). Sylwer fod enwau cyfanian Manaweg a Gwydd. (GNP tud. 102 d.g. 0[rchis] *masculata*) e.e. Gwydd. *magairlin meireach 'y ceilliau llawen'*. Dywed EF, mai tras clas. sydd i'r syniad am werth y planhigyn fel cymhellydd serch; serch hynny fod y syniad wedi ei seilio ar lèn gwerin hŷn. Yr hyn a gymhellai'r syniad, ydyw fod i'r llysieuyn ddau ewin yn y ddaear fel dwy gaill.

Ymddengys i mi fod *caldris* (sef *cal + trist 'llipa'*) efallai'n wreiddiol C. er ei fod yn hanfod o hen syniad a grybwyllwyd eisoes. Efallai i enw o'r fath darddu oherwydd tebygrwydd y blodau i gal lipa neu oherwydd y'i defnyddid yn 'feddyginiaeth' ar gyfer hynny, h.y. i gymell min.

DHS (tud. 192a):

"DE ORCHI....

GENERA.

Orcheos duo esse genera... Mas... foemina...".

Hyn a roes y ff.iau est. i gyd.

38

CALIOD, CALIODR

c.c. (GPC) : 14g. R (ff.: *kallawdyr*)

Nid ydyw GPC (d.g. callod) yn gallu goleuo dim ar hanes y ff.iau hyn. Ni allaf finnau wneud hynny ychwaith.

CAM WENYLLYS : gw. 125.

39

CAMAEMIL, CAMAEMIL GWYN, CAMAMIL, CAMAMIL GWYN, CAMAMIL MELYN,  
CAMAMIL Y GWANWYN, CAMEMIL CAMOMIL, AUR GAMAEMIL, AUR GAMAMIL

c.c. (Rh) (camamil) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff.:  
*camomil, camamyl*)  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

OED:

d.g. *camomile*, *cham*: O'r Ff. *camomille* o'r Ll. *chamomilla* ff. ar *chamaemelon* o'r Gr. *Χαμομήλον* sef *Χαμαί* 'daear' + *μήλον* 'afal', oherwydd yr arogl afal ar y planhigyn.

Bu mymryn o drawslofffa o'r S. a'r Ll. yn achos y ff.iau ar yr enw hwn. O'r Ll. y cafwyd *camamilla* (Ll.G.C. 5280) ond yn sicr o'r S. y cafwyd mwyafrif ff.iau'r Rh (gw. amrywiadau S. yr OED d.g. uchod). Dan ddyl. y ff. clas. yr adff.iodd W.S. yr enw i gael *camaemil*.

Trosi o'r Gr. a roes y ff.iau est. (gan gofio *λευκός* 'gwyn', *ἔαρ* 'gwanwyn', *χρῦσεος* 'aur'):

T (tud. 12):

"*Leucanthemon* sef y Camamil gwyn.",

"*Chrisanthemon* sef yr aur gamamil nei/r/Camamil melyn.",

"*Heranthemon* sef Camamil y Gwanwyn".



40

CANCWLWM

c.c. (Rh) : T

DHS (tud. 208b):  
"DE POLYGONO MARE....  
NOMINA.  
...Centumnodia...".

Cyf. *centumnodia* uchod a esgordd ar yr enw dan sylw - cyfiad  
W.S.. Am ddyfalu cant gw. 42.

41

CANRI GOCh, GANRHI GOCh

c.c. (Rh) (*canrhi(n)*) : PEN. 27. PEN. 204, PEN. 205 (ff.:  
*canrin, canrrin, canrrin*)  
c.c. (Rh) (*canrhi(n)* goch) : T

GPC:

"*canrhi, canri, canrhin, cenrhi* [cfdds. o'r Llad. Diw. *centaurea, -ia* 'planhigyn meddyginiaethol a ddarganfu Chiron y Centawr', dan ddyl. *can(t)*<sup>5</sup> + *rhif*; am *canrhin*, ? dyl. *rhin* arno]". [Gwall am *cant*<sup>1</sup> ydyw *can(t)*<sup>5</sup>, mi dybiwn.]

Ni welais gyfateb mewn iaith arall i'r ff. est. dan sylw.  
Digon hawdd ei hesbonio fel dull i wahaniaethu â *canrhi(n)* *felen*.  
Gw. 42 am ymdrin â dyfalu 'cant'.

42

CANWRAIDD, CANWRAIDD LWYD, CANWRAIDD LYDANDDAIL, IAWN GANWRAIDD,  
GANWRAIDD LWYD

c.c. (Rh) (*canwraidd*) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh

c.c. (Rh) (canwraidd lwyd) : LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

Pa mor ddyledus i'r byd clas. ydyw'r dyfalu 'cant' fel a geir yma (*cant* + *gwraidd*)? Gwelir nifer go dda o eiriau Ll. yn cychwyn â'r elf. *cent* 'cant' e.e. (o'r D.D.) *centiceps*, *centies*, *centifolius*, *centigranus*, *centimanus*. Fel y dangoswyd eisoes yn y ddwy adran sy'n syth o flaen hon, y mae *canawlwm* a *canri* mewn dyled i ff.iau Ll.. Gellir enghio hyn ymhellach: *centies* > *canwaith*, *centipeda* > [*neidr*] *gantroed* a'r Gwydd. *ceadbileach* 'can deilen' sydd mae'n debyg yn cyf.'r Ll. *centifolium*. O ystyried y gair *cantref* gwelir fod nifer o gyfatebion iddo. Un ohonynt ydyw'r S. *hundred*, sydd o dras annelwig a hynafol yn ôl yr OED. Ac yn y D.D. d.g. *cantref*, yr unig air a geir ydyw cyfystyr Gr. *εκατόμηποις*. A ydyw hyn yn arwydd fod y C. (a'r S.) yn ddyledus yn y pen draw i'r crebwyll clas. am y dyfalu 'cant' ynteu a ydyw yn ctr. yn achos *cantref* a *hundred*, a bod yma ddyfalu cysefin wedi ei gryfhau â bnth. o'r Ll.? Y mae'r erthygl D. Ellis Evans "Some Celtic Forms in *cant*- ", B,XXVII (tud. 235-45) yn arwyddo fod dyfalu *cant* â gwraidd cysefin. Rhestrir ganddo nifer helaeth o enwau personol cysefin â'r elf. hon ynddynt.

Gan droi rŵan at *canwraidd*, byddwn i'n chwannog i dybio y gallai'n hawdd fod yn cyf.iad uniongyrchol o ff. Ll. megis \**centiradix*. Ond wedyn ni welais y faith ff. nac enw cyfatebol i *canwraidd* mewn unrhyw iaith arall. Cafodd planhigion o amrywiol rywiogaethau yr enw *canwraidd*. Datblygiad i wahanaethu *artemisia vulgaris* oddi wrth y lleill ydyw atodi *llwyd*, (cymh. â *wermod lwyd* gw. 247).

T (tud. 23):

"Y rhyw a elwir yn Llatin *Artemisia latifolia*, sef y Ganwraidd lydanddail...".

Dyna dras *canwraidd llydanddail* - cyf.iad W.S. o'r Ll..

T (tud. 24):

"Mastr Wiliam Turner sy yn escriffenny nad yr iawn *Artemisia*...".

A dyna ddangos mai o S. W.T. y daeth y ff. est. arall.

43

CANWYLL YR ADAR, TAPER DUNOS, TAPR DUNOS

c.c. (Rh) : T

T (tud. 240-241):

"...Taper dunos yn Camberaec./ ...ac eill ai geilw Canwyll yr adar, Ac ei gelwir ganwyll mewn ieithoedd eill o bleit rhyw rei a ei trocha mewn gwêr ne vraster all ac a ei cymmer yn rheit canwyll./".

Cadarnheir yr hyn a ddywed y T yn EF (tud. 317-8), sef y defnyddid y llysieuyn hwn fel taper neu gannwyll. Ymhlith yr enwau S. sy'n arwyddo hyn y mae *king's taper* 'taper y brenin' (cyf. meddir o'r Ll. *candela regia*), *candle-wick* 'wic kannwyll'. Enw Ll. cysylltiedig, ydyw *candelaria* 'canhwyllog'. Cymh. hefyd â'r enw Alb. *bo-choinneal* 'cannwyll y fuwch' (GNP tud. 70 d.g. *Verbascum thapsus*). Y mae'r arfer arbennig o ddefnyddio'r llyisiau hyn i wneud canhwylloau o raid wedi esgor ar yr enwau dan sylw. Ni wn yn lle na pha bryd y cychwynnodd yr arfer hwnnw. Ni welaf ychwaith fod yr enwau C. hyn yn cyf. dim enw o iaith arall. Y maent yn dwyn eu hysbrydoliaeth o'r un ffynhonnell â'r enwau cyfanian eraill a grybwyllwyd.

## CARWY

c.c. (Rh) (car(a)we) : C.M. 1 (ff.: karwe)  
 c.c. (Rh) (carwy) : T

## OED:

d.g. Caraway : O'r Ll.C. *carui* (neu ff. gyffelyb o un o'r ieithoedd Ll.aidd) o'r Arabeg *al-carawi-ia* (*al-karawiya*, *al-karbuiya*), cymh. y rheiny â'r Gr. *Κάρων*, *Καρπειών* ff.iau na allesid bod wedi eu hesgor arnynt yn uniongyrchol o'r ff.iau Arabeg. Nodir ymhlith yr amrywiadau S. *carway*, *caruway*.

Yn sicr bnth. o'r S. ydyw'r ff. *karwe* (C.M. 1). Mi fedrai *carwy* fod yn hynny hefyd, ond ymddengys i mi mai bnth. uniongyrchol W.S. o'r Ll. *carui* ydyw.

CAS GAN ARDdWR, HUB[sic] YR YChEN, HWB YR YChEN, TAGARATR,  
 DAGARATR

c.c. (Rh) (y cwbl) : T

DHS (tud. 21b) :

"DE ANONE. ...  
 NOMINA.  
 ... Restam bouis...Remoram aratri...Germanis...  
*Ochsenbrech*..."

O ystyried y c.ion c. ymddengys i mi mai W.S. sy'n gyfrifol am *hwb yr ychen* a *tagaratr*; sef cyf.iadau o'r Ll./Alm. ac o'r Ll. a ddyfynnir uchod. (Nid ydyw'n amhosibl mai Alm. neu iaith gyffelyb ydyw ffynhonnell y Ll. i gychwyn). Dichon fod cyfatebion niferus mewn ieithoedd eraill i'r dyfalu dan sylw e.e. y S. *rest-harrow*. Hefyd drwy ystyried y c.c. 'rwy'n amau mai

gwaith W.S. ydyw *cas gan arddwr* yn ymestyn ar yr un syniad ac yn dilyn hen batrwn o ddyfalu: *cas gan ...*, gw. 46.

46

CAS GAN GYThRAUL, CÂS GAN GYThRAUL, CAS GAN GYThRAUL BANYW, CAS GAN GYThRAUL GOGWYDdEDIG, CAS GAN GYThRAUL GWRRYW, CAS GAN GYThRAUL VNION, CAS GAN GYThREUL

c.c. (Rh) (*cas gan gythraul*) : LIAN. 10  
c.c. (Rh) (*ff.iau est.*) : T

Y mae'r enwau eraill ar y planhigyn hwn (*verbena officinalis*) : *llyisiau'r hudol*, *y dderwen fendigaidd*, yn arwydd purion y tybid fod iddo ryw rin neu angerdd neilltuol. Traethir am yr angerdd hon yn EF (tud. 336-9). Dyfynnir cerdd S. yno yn sôn am rym y llysieuyn yn erbyn y Diafol. Llysieuyn arall y tybid ei fod yn meddu ar yr un math ar gynneddf oedd *hypericum perforatum*. Sonia GNP (tud. 16-4) a EF (tud. 84-9) am hwn fel *fuga daemonum* 'un a barai i'r diafol ffoi'. A nodir yn EF fod enw Ff. *chasse-diable* 'erlidiwr diafol' ar *hypericum perforatum* a bod enw cyfanian S. ar *hypericum hirsutum* sef *Devil's bane* 'difethwr y Diawl'. Daw'n ddigon hysbys felly mai traddodiad Ewropaidd am rinwedd ddaionus *verbena officinalis* fel *fuga daemonum* ydyw gwraidd yr enw *cas gan gythraul*. Yn y pen draw daw'r syniad am werth y llysieuyn o'r byd clas. (gw. EF tud. 336). Er hynny nid ymddengys fod *cas gan gythraul* yn union cyf. dim o iaith arall. O ran ei gystrawen cymh. â *cas cuawg*, *cas gan ednogyn*, *cas wenwyn/caswenwyn*. Cymh. hefyd â'r arfer Gwydd. o ddefnyddio *fuath* 'cas' mewn enwau llyisiau e.e *fuath muice* 'cas [gan] foch' (*endymion non-scriptus*) (EF tud. 439).

DHS (tud. 200b):

"DE PERISTEREONE. ...

GENERA.

Dua Verbenacae ... rectam & supinam ... marem & foeminam ...".

Dyna dras y ff.iau est..

47

CASWENWYN

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912

Ni ddeuthum o hyd i enw cyfystyr â hwn mewn iaith arall. Ond hawdd gweld ei fod yn tynnu o'r traddodiad Ewropaidd a syniai am y planhigyn hwn fel un tra rhinweddol a bendithiol. Y cyfryw draddodiad a roddodd yr enwau *tamaid y Cythraul* a *tamaid y Diafol* (gw. 236) ar lysieuyn agos ei berthynas. Hefyd gw. 46 am gip ar yr un traddodiad ac am ff.iant yr enw.

48

CAWL, CAWL CRYCh, CAWL CRYMPOGOC, CAWL PhRENCIC, CAWL GWYN

c.c. (GPC) (cawl) : 13g. RC

c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

GPC:

"cawl [bnth. Llad. *caulis*' stick or stem of a plant, cabbage-stalk, cabbage', H. Grn. *caul*, gl. *caula vel magdulans*, Llyd. *kaol*, Gwydd. *cál*]"

OED:

d.g. Cole : O'r Ll. *caul*-is 'coesyn bresych' sydd wedi rhoi hefyd y ff.iau a geir yn yr ieithoedd Ll.aidd, Ell. a Cheltaidd gan gynnwys *cawl*.

DHS (tud. 143a) :  
"DE CRAMBE SATIVA. ...  
GENERA.  
...Brassicam albam, & caules albos...".

Oddi yma y cafwyd cawl gwyn.

Yn DHS (tud. 143a) disgrifir yr ail rywogaeth o'r cawl â'r ans. *rugata* 'crych' (yn ôl y D.D.). Cyf.wyd hyn yn y T ac eir gam ymhellach drwy alw'r ail fath hwn yn *cawl crych*.

T (tud. 117):  
"Y pedwerydd [rhyw] sy ... a mal daswrn o grympogae wedi ymbanny yn ei gilydd...".

Hyd y gwelaf o gymharu'r T â DHS, y mae'r disgrifiad uchod o'r pedwerydd rhywogaeth o'r *cawl* yn wreiddiol i'r T. Gwreiddiol felly ydyw'r datblygiad ohono i roi'r enw *cawl crympogoc*. Methais yn y DHS â chanfod dim a fyddai wedi rhoi *cawl Phrengic*. Ond y mae ff. Ll. *caulis gallica* a gyfiethai i'r enw hwnnw. Ceir honno yn LL.G.C. 572 (44b) : "*Caulis gallica caboche or ffranchenworten*". Ac yn y D.D. (*Botanologivm*): "*Cawl Ffrengig, Caulis Gallica*". Felly cyf. enw Ll. a wnaeth W.S. yma, ond un nas cafodd yn y DHS. Am ddyfalu 'Ffrainc' gw. 59.

49

CECUT, CECYTEN, CICUT<sup>2</sup>

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, (ff.iau: *kegyt, kegit*)

GPC:  
"cegidl [Crn. *ceges*, H. Lyd. *cecitou* [diwyg.], gl. *intiba*]".

Amheuais mai bnth. o'r Ll. *cicuta* oedd yr enw hwn. Yn sicr ymddengys fod W.S. yn tybio hynny, yn *cecut* adferir -*cut* am y terf. -*gyd*/*-gid* ac yn *cicut* ceir y gair ymron yr un â'r Ll. *cicuta*. Ond mewn nodyn gan I.W. yn erthygl I.A. Richmond ac O.G.S. Crawford "The British Section of the Ravenna Cosmography", *Archæologia*, (cyfrol XCIII, tud. 28, d.g. CICUTO) nodir y Llyd. *cocitou* a'r C. *cegid*, ill dau hyd y gwelaf yn ctr. â'r Ll. *cicuta*. Ceir yno hefyd yr enw lle, *Cegidfa*, sydd yn hanfod meddir o'r ff. \**Cocitomagos*.

50

CEDOR Y URACH[sic], CEDOR Y WRACH, CEDOWRACH

c.c. (Rh) (cedor y wrach) : G.W.S.  
c.c. (GPC) (cedowrach):14g. R, 14g. IGE

GPC:  
"cedowrach, codowrach [*cedor + gwrach > cedor(r)wrach*]"

Clywais ddefnyddio'r enw hwn ar *equisetum* ac *arctium pubens*.  
*Equisetum* ydyw yn y T. A oes dyfalu clas. y tu ôl i'r enw hwn?

51

CEIDWAD Y PhORDd, CICHORI, SICORI

c.c. (Rh) (ceidwad y ffordd) : T  
c.c. (Rh) (sicori, cicori) : C.M. 1 (ff.: *cicoroei*[sic])

OED:  
d.g. Cichory, a d.g. Succory : Ceir fod y ddau ff. yma wedi cyrraedd S. o gyfeiriadau gwahanol. Y blaenaf o'r Ff. a'r olaf o'r Is-Alm.. Daw y ddau ynghynt o'r Ll. a'r



Ll. o'r Gr..

OLD:

d.g. *cichoreum* : O'r Gr. *κίχορα* , *κίχόρολον* .

DELG:

d.g. *κίχορα* : Tarddiad anhysbys.

Cymreigiad o'r S. *succory* ydyw *sicori*, mi dybiwn, ff. a oedd yn bod cyn adeg W.S., tra bo *cichori* yn adff. iad W.S. arno i gyfateb yn nes i'r Ll. *cichoreum*.

DHS (tud. 229b):

"Vulgus herbariorum & officinae Cichoream vocant, Germani Vveguarten, quasi viarum custodem,...".

Felly cyf. iad o'r Alm. *Vveguarten* ydyw *ceidwad y phordd*.

CEILIAE[sic] Y CI ... : gw. 37.

52

KELYN MAIR, CELYNEN, CELYNEN, MÔR GELYN, MORGELYN

c.c. (GPC) (celyn) : 13g. T[aliesin]

c.c. (Rh) (celyn Mair) : T

c.c. (Rh) (morgelyn) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh

GPC:

"celyn [H. Grn: *kelin*, gl. *ulcia*, Llyd. *kelen*, Gwydd. *cuilenn* : < Clt. *\*kolino-* cf. S. *holly*, taf. *hollin*, o'r gwr. *\*gel* - 'pigo, gwanu']".

Yn erthygl I.A. Richmond ac O.G.S. Crawford "The British Section of the Ravenna Cosmography", *Archaeologia* (cyfrol XCIII, tud. 29, d.g. COLANCIA) ceir nodyn gan I.W.. Sonia fod *celyn*,

*cullenn* a *holly* ill tri o'r un bôn *gel-*, hefyd y Gr. *Κολωνός*; 'bryn', Ll. *collis* 'bryn' a S. *hill* 'bryn'.

Y mae cyfystyr S. *sea-holly* i *môr gelyn* y ceir ei c.c. yn ddiweddarach na'r ff. C. yn y NOH (gw. OED d.g. *Sea-holly*). Rhydd y GNP (tud. 39) enw cyfatebol Gwydd./Alb. *cuiliom tràgha* 'celyn traeth'. Nid ydyw'n annhebygol bod tras Ll. y tu ôl i'r rhain. O ran ff.iant yr enw, nid adlewyrchu'r S. ans. + enw a wna *môr gelyn* o ysytyried yr hen enwau cyffurf, *morhesg*, *morddanadl* a *morwiaail*.

Ni chanfŷm gyfateb i *kelyn Mair* mewn iaith arall. Felly y mae lle i dybio y gallasai dyfalu *Mair* fod yma'n gweithredu fel dyfalu bnth. cynhyrchiol. Gwyddys i hynny ddigwydd yn achos *ysgaw Mair* (gw. 250). Y mae'n ddyfalu cyff. ar draws gogledd-orllewin Ewrob (o leiaf) a tharewais ar engh.iau ohono yn ystod fy ymchwilio mewn Alm., Is-Alm., S., Gwydd., Alb., Llyd., Ff. a Ll. - gellid engh.io am hydoedd (gw. 22, 113, 117, 127, 165, 217, 219, 228, 235, 249, 250, 251). Crebwyll Ll. yr oesau tywyll/canol oesoedd sydd, mae'n debycaf, yn gyfrifol amdano. Hwn ydyw'r poblogeiddiaf o bell o'r dyfalu crefyddwedd, er y ceir nifer o rai eraill e.e. dyfalu *Pedr* (gw. 53), dyfalu *Crist* (gw. 251), dyfalu *Cythraul/Diafol/Y Gŵr Drwg* (gw. 236). Sutbynnag ymddengys fod olion dyfalu crefyddwedd yn C. cyn bnth. ohoni y dull hwn: yst. e.e. *dyfrdwy* (*osmunda regalis*) < *cyfr* 'llwyr' + *dwy* 'duw' (cymh. *À rhedyn Crist* (*osmunda regalis*) a *fern of God* 'rhedynen Duw' (*pteridium aquilinum*) (GNP tud. 125)) a *cribau San Ffraid* (gw. 69). Gellir gofyn a fu i'r dyfalu hwn (ac eraill o'r un dras) danseilio tipyn ar ddyfalu mwy cysefin Celtaidd, gan gofio'r disodli rhannol a fu ar y seintiau brodorol yn ystod oes

y Norman.

53

CENIN Y BRAIN, CENNIN, CENNIN PAWR, KENNIN PEDER, CĒNINÉN BAWR,  
CENNINEN BĒN, CENNINÉNBAWR, CĒNINÉNBENN, CENNINENBENN, CĒNINENDÓR

c.c. (GPC) (cennin) : 10g. (ox 1) VVB  
c.c. (Rh) (cennin y brain) : Ll.B. 15045  
c.c. (Rh) (cennin Pedr) : I. 10  
c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

GPC:

"cennin [H. Grn. *kenin*, Llyd. *kinnen* 'winwyn', Gwydd.  
*C. cainnenn* 'cenhinen']".

T (tud. 175):

"...Porrum capitatum Cenninenbenn y gelwir vn, am vod ei gwreiddyn yn tyfy yn benn crŵn, ys all a elwir yn Llatin Porrum sectium, CĒninendór ne CĒninén bawr o bleit torri ei dail a wnair val y bo rhaid wrthynt".

OLD:

d.g. capitatus : CAPVT + ATVS, sef efo pen neu'n ffurfio pen.

d.g. sectius : SECO + IVVS - math ar genhinen y bwyteid ei phen yn unig. Torrid y planhigyn cyn i'r bôn dwchu.

Hyd yn oed heb edrych ar yr OLD, y mae'n gwbl amlwg o'r T mai cyf. o'r Ll. a roes *cenhinen ben* a *cenhinen bawr/cenhinen dor*. Er hynny y mae *cenhinen bawr* yn ehangu fymryn ar ystyr y Ll.. (O edrych yn yr OED gwelir i'r un Ll. gael ei cyf. i'r S. i roi ff.iau cyfatebol : *cenhinen bawr/dor cut-leek*, *cenhinen ben headed-leek/set-leek*. Cyf.wyd y ff. flaenaf ar ôl cyfnod y T, a'r ddwy ff. arall tua'r un adeg : pe derbynnid tystiolaeth y c.ion c.).

OED:

d.g. Crow-leek : Enw ar *scilla nutans* gan Gerard ac ysgrifenydd diweddarach. Ynghynt enw oedd ar y *crow-garlic*. c.c. tua 1000.

d.g. Crow-garlic : *allium vineale*

EF: (tud. 442):

d.g. Crow Garlic : Cymh. â'r Alm. *krajelook* a'r Is-Alm. *kraailook*.

Y mae'r ffaith fod ctr.au Ell. i'r enw S. *crow-garlic* yn arwyddo'n ddiweddarach mai cyf. o'r S. a roddodd *cennin y brain*. Ychwanegiad ydyw yn y T, gan law anhysbys, a'r planhigyn a ddynoda ydyw *scilla nutans*. (Gwelir cyf. *crow-garlic* yn y T : gw. 119).

Ceir dwy engh. o'r enw *cennin Pedr*. Mae'r ddwy wedi eu hatodi'n ddiweddarach. Daw un o gyfnod lled gyfoes i gopi R.M.. Ychydig hŷn felly ydyw y c.c. yn I. 10. Nid ydyw dyfalu 'Pedr' mor cyff. â hynny yn C.. Nid ydyw'n cyff. iawn yn S. ychwaith, er y ceir dyrnaid da o engh.iau rhwng yr OED a'r DEPN. Gallai fod tras Ll. i'r enw hwn. O dras Ll. y daw dyfalu 'Pedr' yn sicr fel dyfalu 'Mair' (gw. 52). Ond methais â chael hyd i enw Ll. nac enw unrhyw iaith arall yn cyfateb i'r enw *kennin Peder*.

54

CERFOIL, PIGDDANT CERFOIL, SERFEL

c.c. (Rh) (cerfoil/cerffoil) : HAFOD 16 (ff.: *kerffoel*)

c.c. (Rh) (pigddant cerfoil) : T

c.c. (Rh) (serfel) : T

OED:

d.g. Cerfoil : Gair ansathredig a phrin, a ddaeth i'r S. o'r H.Ff. *cerfoil* o'r Ll. *caerrefolium* o'r Gr.

Χαιρεφυλλον.

d.g. Chervil : O'r H.S. *caerfille*, *cerfille*, *cerfelle*  
o'r Ll. *chaer(e)phylla* llu. *chaerephyllum* o'r Gr.  
Χαιρέφυλλον: yr ail elf. Φύλλον 'deilen', gyda'r elf.  
gyntaf o bosibl Χαιρ 'llawenhau'.

Mae yma ddwy ff. wedi eu bnth. o'r S.. *Serfel* ydyw'r un a  
ymddengys yng nghorff y T, tra bo *cerfoil* i'w gael yn yr  
'atodiad' sy'n trosi o'r NHHP. Yn hwnnw hefyd gwelir y ff. est.  
sy'n cyf. *toothpick cheruill* (NHHP tud. 908).

CICUT : gw. 49.

CICHORI : gw. 51.

55

CLAFRLLYS, CRĀMENNOC

c.c. (Rh) (*clafrlllys*) : Ll.B. 14912

c.c. (Rh) (*cramennog*) : T

T (tud. 206):

"... a da yn bendifadde ydyw y iachau *crāmenae* ar peswch  
Ac o bleit yr rhinwedd y gelwir yn Llatin *Scabiosa* sef yw  
hynny y *Grāmennoc*".

OLD:

d.g. *scabo*: *crafu*.

Hawdd ydyw gweld mai cyf. W.S. o'r Ll. *scabiosa* a roddodd  
*crāmennog*. Gallai *clafrlllys* fod yn cyf.iad/addasiad o'r un ff.  
Ll. hefyd. Ond gan y defnyddid y llysieuyn i drin clafr, ni  
byddai'n anodd i'r enw ymesgor yn annibynnol ar y Ll..

## CLORIA / ? GLORIA

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *glorya* (Ai ff. dreigledig ydyw?))

Anodd ydyw dweud ai c- ynteu g- ydyw'r llythyren gysefin ar y cychwyn. Yn y Rh gwelir yr enw dan g. Dosberthais ef felly heb ymwybod. Efallai fy mod yn methu yn hynny. Eto efallai fod fy ngreddf yn gywir ac mai g- ydyw'r llythyren gyntaf yn y gair.

GPC:

"cloria<sup>2</sup>, gloria [? yr un à'r gair bl.; dichon mai camgymryd y ff. dreigledig am y gysefin a gyfrif am y ff. *gloria*]".

Dyma'r gair blaenorol:

"cloren [cf. Gwydd. C. *cail* 'gwaywffon', *celtair* 'blaen gwaywffon', H. Norseg *hali* 'blaen gwaywffon; cynffon', Gr. *κῆλον* 'saeth' o'r gwr. \**kel-* 'gwaywffon, saeth']".

Mae'r cysylltu hwn yng GPC yn un digon dethau, a hynny o ystyried yr enw S. *gladden* (ar yr un llysieuyn) a'r Ll. *gladiolus*.

OED:

d.g. *Gladden* : O dras niwlog. Awgrymir y gallai hanu o'r Ll. *gladina* ystumiad ar y Ll. *gladiolus* 'lili cleddyf'.

Cystal sylwi hefyd ar y gair *cylor*.

GPC:

"clôr, cylor [Llyd. C. *coloren* 'cneuen ddaear', Diw. ll. *kéler*, H. Wydd. *cularán*, gl. *cucumer*, Diw. *curar* 'cnau daear']".

Y mae i'r llysieuyn (*iris foetidissima*) gnapiau o wraidd. A ydyw'n amhosibl felly y gallai fod cyswllt rhwng yr enw dan sylw

Â *cyllor*? Ond wedyn nid ydwyf ddim yn teimlo'n gwbl fodlon efo'r cysylltu uchod. Beth sydd i gyfrif am yr -*ia* ar y diwedd? Nis gwn. A ydyw'n arwydd o bnth. o'r Ll. neu'r S.? Byddai hynny wedyn yn ei gwneud yn fwy posibl mai *gloria* ac nid *cloria* ydyw'r enw. Rywsut yr wyf yn chwannog i ochri.â'r syniad hwn, er nad oes gennyf ddim o sylwedd yn cefnogi'r syniad. Tybed a oes perthynas â'r S. *glar/glaur* 'llysnafedd, llaid' o gofio bod llaid a'r llysieuyn hwn yn ddrewllyd?

57

CLOS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff.: *klovs, clovs*)

OED:

d.g. Clove sb<sup>2</sup> : Talfyriad o *clove-gillyflower* a luniwyd yn S. ar batrwm cyffelyb i'r Ff. *clou de girofle*. Cyfetyb *clove* i 'ewin'. Defnyddid rhan yn unig o'r llysieuyn - 'ewin' ohono. Daethpwyd wedyn i hepgor *gillyflower* o'r enw *clove-gillyflower* gan ddefnyddio *clove* ar ei ben ei hun.

Bnth. felly o'r S. sydd yma - o'r ff. llw..

58

CLUST/R/EWIC, CLUST YR EWIC, CLUST Y VUWCh, CLUST Y LYGODEN,  
CLUST Y LLYGODEN, CLUSTIAE/R/DdERW, CLUSTIAE YR DERW

c.c. (Rh) (*clust(iau) (y) llygoden*) : Ll.B. 14912, HAFOD  
16

c.c. (Rh) (*clust yr ewig*) : HAFOD 26

c.c. (Rh) (*y ddau ff. arall*) : T

Gosodwyd yr enwau hyn efo'i gilydd am eu bod o'r un math ar

ddyfalu.

Cyf.'r Ll. *auricula muris* a wna clust y llygoden. Yn'L (d.g. *Mouse-ear (creeping)*) ceir y Gwydd. *cluas luch*, ac yn y DHS (tud. 206b) ceir yr Alm. *meuszoerlin*. Y mae'r Gwydd. Alm. a'r S. a grybwyllwyd ill tri'n gyfystyr â'r Ll. *auricula muris*. Ni allaf ddweud a ydyw'r Ll. mewn dyled i iaith megis yr Alm. am y dyfaliad hwn. Ond y mae'n bosibl mai'r Ll. ydyw tras y dyfalu 'clust' ei hun.

Ni chefais gyfateb mewn iaith arall i *clust yr ewic*. Gallai'n hawdd fod ff. Ll. y tu ôl i'r enw, ac hefyd i *clust y vuwch*. Ond y mae *donkey's ear* (EF tud. 317) yn amlwg yn perthyn i'r enw *clust y vuwch*.

Parthed â *clustiae/r/dderw*, yr enw agosaf ato ar yr un planhigyn, y deuthum i o hyd iddo, ydyw'r S. *lung's of oak* 'ysgyfaint y derw' (DEPN d.g. STITCA PULMONACEA).

59

CNAU COLIEN, CNAU COLIEN COED, CNAU COLIEN COET, CNAU COLIEN GARDdAE, CNAU PhREngIC, CNAU PhREncIC, COLIEN, COLIEN PhRANGAEC, COLIEN PhRANCEC, COLIEN PhYLBERD, COLIEN GOET, COLIEN Y GERDDI, PhYLBERDS

c.c. (GPC) (cnau) : 1346 L1A  
c.c. (GPC) (cnau collen) : ? 15g. DGG  
c.c. (Rh) (cnau collien coed) : T  
c.c. (Rh) (cnau collen gerddi) : T  
c.c. (Rh) (cnau Ffrenging) : L1.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (GPC) (coll(en)) : 9g. (MC) VVB  
c.c. (Rh) (collen Ffrengig) : HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (collen ffilberd) : T  
c.c. (GPC) (collen ffilberd) : W.L.B.  
c.c. (Rh) (collen goed) : T  
c.c. (Rh) (collen y gerddi) : T  
c.c. (Rh) (ffilberds) : L1.G.C. 5280, G.W.S.



GPC:

"cnau [Crn. *knofen*, *know*, Llyd. C. *cnouenn*, Diw. *kraouenn*, ll. *kraouñ*, taf. Vannes *keneu*, Gwydd. C. *cnú* :< Clt. \**knoŷ*-]".

"coll2 [H. Grn. *colwiden*, gl. *corillus*, H. Lyd. *limn-collin*, gl. *tilia*, Gwydd. *coll* : < Clt. \**kosl-*, cf. Llad. *corilus*, S. *hazel*]".

DHS (tud. 138b):

"DE CARYO PONTICO. ...

GENERA.

Vna enim est syluestris...Altera verò vrbana seu domestica...".

Dyna a roddodd *cnau collen coed* a *cnau collen gerddi*. 0

droi at y *cnau Phrengic*:

OED:

d.g. Walnut : Dywedir mai'r elf. gyntaf ydyw'r hyn a ddaeth o'r H. Ell. *walxo-z* drwy'r H.S. *wealh*. Yr un elf. ydyw â'r hyn a geir yn y gair *welsh* 'estron'. Dynodir i'r enw hanu o'r gwledydd Almeinig ar y tir mawr - dynodai y gneuen estron a berthynai i'r gwledydd Ll.aidd (Gâl a'r Eidal) o'i chymharu â'r gneuen gollen frodorol. I gadarnhau hyn ymhellach, gwyddys fod disgynnydd geiriol yr enw Ll. *nux*, 'cneuen', yn Ffrainc a'r Eidal, yn golygu *cneuen Ffrengig* pan y'i defnyddir heb gymhwysiad. Yn H.Ff. Normanaidd ceid yr enw *noix gauge*, *gauge*. Cyf.iad o'r Ll. *nux gallica* oedd hwnnw. yr oedd yr enw Ll. hwnnw yn ei dro yn cyf. o un o'r ieithoedd Ell..

Mi dybiwn fod yr OED uchod yn goleuo tras yr enwau *cnau Phrengic/collen Phrengic*. Cyf.iadau ydynt o'r Ll. (neu Ff. Normanaidd efallai) o enw a oedd yn y pen draw yn hanu o'r ieithoedd Ell.. Ond ar un achlysur y mae W.S. yn cyf. o'r Ff. i gael yr enw:

T (tud. 111) :

"...phylberds yd y geilw y Saeson wy: y Phrancot ai geilw *Auellane franche*, sef yw hynny Cnau Phrengic, eithr rhyw amgenach yw hwnnw i ein iaith ni./".

Ac fel y gwelir o'r un dyfyniad uchod o'r S. y daeth *ffilberd*.

Fel S. y'i defnyddir uchod, ond mewn man arall ar yr un tud. fe'i defnyddir fel petai'n C..

OED:

d.g. *Filbert* : Bnth. o'r Ff. *noix de fibert*.  
Talfyriad ydyw *filbert* o *Philibert* : sant a'i ddydd gŵyl ar Awst 22 pryd yr aeddfeda'r cnau hyn,

O droi'n ôl at ddyfalu 'Ffrainc'/'Ffrengig', mi dybiwn bod tras *collen Ffrengig* uchod ynddo'i hun yn dangos tras tebycaf yr arfer hwn i ddynodi rhywbeth estron. Ymddengys mai dull Ell. ydyw'n wreiddiol ac i hwnnw gael ei bnth. i'r C. drwy'r Ll. a'r S.. Fel y gwelwyd drwy'r Ll. y daeth *collen Ffrengig* a thrwy'r S. y daeth *ffa Ffrengig* (gw. 108). Ac fe'i ceir o bosibl e.e. yn achos *moron Ffrainc* (gw. 181) a *cyrainj Ffrainc* yn ddull dyfalu cynhyrchiol C. yn cyfeirio at rywbeth estron nad oedd o raid yn perthyn dim i Ffrainc.

COCh Y MAES, COCh MAWR COCh SEISNIC : gw. 123.

60

COLWMBIN, TROED CŴLŴMEN

c.c. (Rh) (*colwmbin*) : LLYFR COCh (ff.: *colwmbina*)  
c.c. (Rh) (*troed y 'golomen*) : PEN. 326

OED:

d.g. *Columbine* : O'r Ff. *colombin* o'r Ll. *columbinus* sef 'yn perthyn i golomen', 'o liw colomen' : *columba* 'colomen'.

O'r Ll. y daeth yr enw *colwmbin* yn achos y c.c. a'r T. Ond o'r

S. y daeth ff.iau eraill ohono a welir yn y Rh.. Ceir cymysgwch o S. a Ll. yn y ff. *kolwmbeina* (PEN. 326) efo terf. Ll. ac ôl ynganu S. yn cael ei gynrychioli gan yr -ei-, tra bo *columbein* (W.L.B.) o'r S.. Sylwer hefyd i dyb gwlad ystumio'r enw i roi *cwlwmbin* a *cwlwmbein* a hyd yn oed *cwlwnbind* a *cwlwmbeind*. Yr un dyfalu sydd tu ôl i'r enw *troed y golomen*. Ceir y cyfystyr yn S. *dove's-foot* ar yr yn llysieuyn (DEPN d.g. *AQUILEGIA VULGARIS*), a gwelir y Gwydd. cyfatebol yn *cosa colaimbe* (L d.g. *Columbine*). O'r Ll. y cyf.wyd y cyfan mae'n sicr. A digwyddais daro ar engh. o'r ff. Ll. yn y DHS (tud. 72b) sef *pes columbinus*, (ond yma'n dynodi planhigyn arall).

COLYN Y MEL, CÓLYN Y MÉL : gw. 36.

COLLEN ... : gw. 59.

COMMIN ... : gw. 71.

61

#### CORIANDEr CORIANDR

c.c. (Rh) (coriandr) : Ll.G.C. 5280, C.M. 1 (ff.: *koriander, koriandr*)  
c.c. (Rh) (coliandr) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
(ff.: *coliandr, coliandrwm, koliandrwm*)

#### OED:

d.g. Coriander : O'r Ff. *coriandre* o'r Ll. *coriandrum* o'r Gr. *Κορίανδρον* a oedd ynddo'i hun yn bnth. i'r Gr.. Ceir hefyd yr amrywiad cynnar Ll. *coliandrum*.

Yn achos y T hefyd ymddengys i *coriandr* ddyfod o'r Ll. a *coriander* ddyfod o'r S.. Y mae *coriandr* (tud. 59, 159), yn hanu o'r enw Ll. *coriandr-* (DHS, tud. 31a, tud. 198a); tra bo *coriander* (tud. 213) yn hanu o'r S. *coriander* (NH, tud. bv). Ymddengys mai trawslofffa o'r fath a roes y ff.iau C. eraill a nodir uchod.

62

#### CORN Y CARW

c.c. (Rh) : PEN. 326 (ff.: *korn y karw lleia*)

Y mae cyfystyr S. yn enw ar yr un planhigyn: *stag's horn*. C.c. hwnnw'n ôl OED a DEPN (GG) ydyw 1741. Gallai fod Ll. cyff. y tu ôl i'r rhain. Nid ydyw'n hollol amhosibl i'r enwau fod wedi ymesgor yn annibynnol ar ei gilydd, neu hyd yn oed fod y ff. C. yn cyf. y ff. S., er gwaethaf y c.ion c..

63

#### COWSLOP

c.c. (Rh) : Ll.B. 15045, C.M.1

OED:

d.g. Cowslip : Tarddodd o H.S. *cú-slyppe*. *cú* bellach ydyw *cow* 'buwch', golyga *slyppe* rywbeth soeg llysnafeddog ac y mae yr amrywiadau *slop* a *sloppe* i'r gair. Ysytir y gyfuniad ydyw 'cachu/piswail buwch' : drwy fod y planhigyn yn tyfu yn yr ysgarth hwnnw mae'n debyg.

Bnth. yn ei grynswth o'r S. ydyw hwn o ff. nas defnyddir bellach.

## CRA, CRA DYNION

c.c. (Rh) (craf) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
 c.c. (Rh) (craf dynion) : G.W.S.

GPC:

"craf, cra [cf. Gwydd. C. *crim*, gen. *crema*, S. *ramsons* 'wild garlic', H.S. *hramse*, Gr. *κρέμμυον*, *κρόμμυον*, Gal. *Cremona*, enw tref yn yr Eidal]".

Ni welais ffynhonnell heblaw un Salbrïaidd yn crybwyll y ff. est.. Ni allaf ei hesbonio, ond awgrymu bod llurgunio tyb gwlad ynglŷn â hi.

## CRAFANC Y VRÂN

c.c. (Rh) (crafanc y fran) : PEN. 204  
 c.c. (Rh) (troed y fran) : HAFOD 16

Trosi *ranunculus* DHS a wna'r enw hwn. Cyf.iad ydyw o'r enw Ll. *pes corvi*, y gwn i mi ei weld rywle yn y d.ll. wrth i mi hel yr enwau i lunio'r Rh, (nis nodais am mai enwau C. y chwiliwm amdanynt). Foddbynnag mewn man arall yn DHS ymddengys *pes corui* (tud. 58b). Trosyd yr enw i'r S. hefyd i roi *crowfoot*, ac yn ôl pob golwg i'r Fanaweg : *spag sfeeach* 'crafanc y gigfran' (GNP, tud. 2, d.g. *Ranunculus*).

## CRAFANC YR ERYR

c.c. (GPC) : G.W.S. (ff: *krafanc yr eryr*) (Drwy amryfusedd o'm rhan, collwyd y c.c. hwn o'r Rh)

Yng G.W.S. rhoddir enw S. cyfystyr wrth yr enw hwn : *the egle foote*. Dichon y gallai'r enw S. hwn fod wedi ei cyf. i roi yr enw C. dan sylw, neu dichon y gallai fod enw Ll. yn darddiad cyff. i'r ddau enw. Ond methais â dyfod o hyd i engh. o enw cyfystyr mewn iaith arall, nac, o ran hynny, engh. arall o'r enw S. yn unman. Noder mai cyf. *cinquefolium* DHS a wna'r enw hwn (gw. 197). *Ranunculus sceleratus* ydyw *crafanc yr eryr* W.B. (a GPC).

CRĀMENNOC :gw. 55.

67

CREULYS, CREULYS VANYW, CREULYS VAWR, CREULYS VECHAN, CREULYS VENYW, CREULYS WR RYW, GREULYS, LLYSAE/R/ GWAEDLIN, LLYSAE YR GWAEDLIN

c.c. (Rh) (creulys) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCH

c.c. (Rh) (llyisiau'r gwaedlin) : C.M. 1

c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

GPC:

"creulys, creflys [*craul* + *llys* 'llysieuyn']."  
[*craul* 'gwyar, gwaed'].

OED:

d.g. Blood-wort : *blood* 'gwaed' + *wort* 'llysieuyn'.  
Enw a roddwyd ar nifer o blanhigion yn meddu ar ddail neu wreiddiau cochion, neu a dybid fod iddynt y gallu i geulo neu dynnu gwaed.

Y mae *blood-wort* felly'n gyfystyr â *creulys*, ac y mae *llyisiau'r gwaedlin* yn amlwg yn tynnu ar yr un dyfalu. Ceir yr

enw *gwaedlys* hefyd. Gwelir o edrych ar OED, EF a DEPN fod *blood-wort* yn gallu cyfeirio at nifer o blanhigion. Yn eu plith mae *llysiau'r gwaedlin* (*achillea millefolia*). Ac yn enw Alb. ar yr un planhigyn gwelir enw cyfystyr *lus na fola* (GNP tud. 60). Anodd ydyw dweud yn ddiamwys at ba lysieuyn y cyfeiria *creulys* a *gwaedlys* yn y d.ll.. At deulu *senecio* y cyfeiria *creulys* W.S. (ni chefais engh. o *blood-wort* wedi ei arfer i ddynodi y llysiau hyn). Tu ôl i'r enwau hyn y mae hen ddyfalu, a allai fod wedi ymesgor yn annibynnol mewn llefydd gwahanol.

T (tud. 89):

"... a ninnae y Cymbry ai dosparthwn i wr ryw a benyw."/".

Dyna esbonio dau o'r ff.iau est.. Eto gallai'n hawdd fod yna wraidd Ll. dros i'r 'Cymbry' ddsbarthu'r rhyw ogaethau fel hyn, ond methais â dyfod o hyd iddo.

Y mae'r ddau ff. est. arall yn cyf. o'r S. "great Groundswell" a "lesser Groundswell" (NHHP tud. 656).

68

CRIBAE/R/BLEIDDIAE, CRIBAE YR BLEIDDIAE, LLYSAE/R/CRIBAE, LLYSAE YR CRIBAE

c.c. (Rh) : T

*Crib y pannwr* ydyw un o'r enwau eraill ar y llysieuyn hwn, gan y'i defnyddid i gribo defnydd. Cymh. yr enwau dan sylw â'r S. *brushes and combs*, 'brwshis a chribau', *clothier's brush*, 'brwsh y pannwr' *gipsy's comb* 'crib y sipsi' (EF tud. 384). Ond ni welais union gyfystyron i'r enwau dan sylw.

## CRIBAE SAN PhRED, CRIBE SAN PhRED, DANNOCEN .S. PhRED

c.c. (Rh) (cribau San Ffraid) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
 c.c. (Rh) (danhogen) : HAFOD 16, LLYFR COCh  
 c.c. (Rh) (danhogen San Ffraid) : LLYFR COCh  
 c.c. (Rh) (dannedd San Ffraid) : HAFOD 16

## GPC:

"danhogen dannog [*dant* + *-og* (+ *-en*), H. Grn. (*les*)  
*denshoc* [*diwyg.*], gl. *betonica*]"

Gan gofio fod i grib ddannedd, gellir ystyried yr enwau uchod fel amrywiadau ar yr un dyfalu. Yr oedd y llysieuyn hwn (*betonica officinalis*) yn un o'r llyisiau meddygol mawr yn y traddodiad clas.. Traethir am hynny yn yr EF (tud. 346-8). Yn annibynnol ar y traddodiad hwnnw, neu'n fwy tebyg yn deillio ohono, gwelir fod tipyn o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r llysieuyn hwn yn y d.ll. C.. Hwyrach mai adlewyrchu'r parch hwnnw ydyw cysylltu y planhigyn <sup>^</sup> Ffraid. Ond o raid, y mae sylfaenu dyfalu arni hi yn beth na all fod ond yn Geltaidd. Cymh. <sup>^</sup> a'r enw Manaweg *bollan Vreeshey* 'llysieuyn Ffraid' (GNP tud. 83 d.g. P[lantago] *maritima*), a'r enw Alb. *bearnan Bride* (GNP tud. 50 d.g. *Taraxacum dens leonis*). Y mae'r gair *bearn* yn golygu 'bwlch, toriad'. Gwelir felly fod *bearnan* fwy na heb yn gyfystyr <sup>^</sup> a *danhogen*. Gan hynny gellir cyf. *bearnan Bride* fel 'danhogen Ffraid'.

Noder ymhellach erthygl gan J. Lloyd-Jones ym B, XI (tud. 126-7): "Nodiadau Cymysg: dannawg, danhogen". Rhoddir yr un dras <sup>^</sup> a GPC uchod i'r enw, a thynnir sylw at yr arfer mynych o ddefnyddio'r terf. ans. *-og* mewn enwau planhigion e.e. *arfog* (gw. 8) *panog* (gw. 193). Cymherir hynny <sup>^</sup> a'r arfer Ll. o ddefnyddio



terf. au ans. i'r un perwyl: -ālis, -āris, -ārins, -ātus, -ōsus ac  
yn arbennig -āceus e.e. *pastināca*, *portulāca*, *verbenāca*.

CUMIN : gw. 71.

CUCUMER GWYLLT : gw. 5.

70

CWARCH, CWARCH DOF, CWARCH GWYLLT

c.c. (GPC) (cywarch) : 13g. B  
c.c. (Rh) (cywarch gwyllt) : C.M.1  
c.c. (Rh) (cywarch dof) : T

GPC:

"cywarch [Llyd. (Gwened) *coarch*, H. Lyd. *coarcholion*,  
gl. *canabina*: < Clt. \**ko-yer-k-* o'r gwr. \**yerg-* 'gwnïo,  
brodio']".

DHS (tud. 137a):

"DE CANNABE. ...  
GENERA.  
... *sativo* ... *syluestris* ...".

Dyna darddiad y ff.iau est..

71

CŴMIN GWYLLT, COMMIN, COMYN, CŴMIN

c.c. (Rh) (cwmin) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff.: *kwmyrn*,  
*cwmin*)  
c.c. (Rh) (cwmin gwyllt) : T

OED:

d.g. Cumin, cummin : Daeth y ff.iau S.C., sef *cumin*, *comin* un ai drwy Ff. *cumin* neu *comin* neu o'r H.S. *cymen*. Daeth yr H.S. a'r Ff. o'r Ll. *cumīn-um*, a hwnnw o'r Gr. *Κύμινον*. Gair bnth. fyddai'r gair Gr. o iaith Semitig (yn ctr. â'r Heb. *cammôn* a'r Arabeg *cammân*).

Gwelir amrywiaeth o ff.iau rhwng y T a'r ddau c.c.. Y mae nifer helaeth o ff.iau cyffelyb yn y Rh.

Nid oes dichon dweud hanes y gair yn union. Ymddengys yn sicr fod trawslofffa o'r Ll. a'r S. (ac efallai o'r Ff.) wedi bod yn hanes yr enw. Y mae'r ff.iau sy'n cynnwys *-yn* a rhai ag *-o-* ynddynt o dras S., mae'n debycaf, tra bo ff.iau eraill o'r S. a'r Ll.. Y mae'r ff. yn HAFOD 16 e.e. yn ddigon posibl o'r Ll. yn uniongyrchol.

DHS (tud. 246a):

"DE STRATIOTE MILLEFOLIA. ...  
FORMA.  
... Cumino syluestri ...".

Cyf. y Ll. uchod a wnaethpwyd i gael y ff. est..

72

CYCCLYNYDD, CYNLENNYDD

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCH  
(ff.: *ceglynnydd*, *cynglennydd* vawr, *cynglennydd*)

GPC:

"cynglennydd, cynglennydd [ ?*cynglyn* + *-ydd* neu *cy(ng)-* + *glennydd* ]".

(Sylwer mai cywiriad ydyw (? glos) *cycclynydd* yn y T; y ff. wreiddiol ydoedd *cycclenydd* (gw. trn. iii, tud. 179)).

T (tud. 178):

"Dail meddalion sy iddo yn cycglyny yn ei gilydd...".

- dyna ddisgrifiad o'r llysieuyn hwn. Awgryma'r defnydd o'r ferf *cycglyny* yma, mai dyna y tybiai W.S. oedd hanfod yr enw. Eto y mae cysondeb yr -e yn y ff.iau yn y Rh yn pwyso o blaid tybio bod *glennydd* yn sail i'r enw.

CYFOC : gw. 149.

73

CYNgA, CYNgA/R/CAEOT, CYNgA Y CAEOET

c.c. (Rh) (cyngaf) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh

c.c. (Rh) (cyngaf y caeod) : T

GPC:

"cyngaf, cyngaw [*cy(ng)-+bôn gafael*]".

Disgrifio nodwedd y llyisiau hyn o gydio, a wna'r enw. Y mae'n enw cyffelyb o ran ystyr a'r S. *bur*, a ddefnyddiwyd hefyd i ddynodi'r un llyisiau. *Cyngaf mân* ydyw enw cyff. y d.ll. ar *gallium aparine*, a cheir un engh. o *cyngaf y coed*. Ni chredaf mai ff. ar *coed* ydyw *caeot/caeotet*. Nid oes engh. arall o'r enw hwn, ac ni allaf gynnig beth ydyw *caeot/caeotet* oddieithr mai rhyw llu. prin/ffug i'r gair *cae* ydyw a bod gan W.S. law yn ei lunio.

74

CYNNAFON

c.c. (GPC) (yn ystyr berthnasol) : 13g. WM (ff.: *canawon*  
(*godrwyth*))

Rhydd y DEPN enwau cyfanian *S. cats and kittens* 'cathod a  
chenawon (cathod)', *cats and dogs* 'cathod a chŵn', *cat's tails*  
'cynffonau cath': y mae'r cyntaf a'r ail yn dynodi blodau'r  
helyg, tra bo'r trydydd yn gallu dynodi blodau'r gollen hefyd.  
Blodau helyg, collen neu flodau coed o ff. gyffelyb a ddynodir  
gan *catkins*.

OED:

d.g. *Catkin* : Wedi ei bnth. o'r Is-Alm. gan Henry Lyte  
o'r enw *kattekin* 'cath fach'. Rhoddir yma hefyd y Ff.  
*chaton* yr Alm. *katzchen* a Ll. yr 16g. *catulus* sydd i gyd  
yn cyfateb i hwn.

Hen ddyfalu sydd yma, ac yn llydan ei ddefnydd. Ond ni  
theimlaf mai ei bnth. a wnaeth y C. yn enwedig o edrych ar y  
c.c.. Dengys hwn y gallai *cenau* ddynodi unrhyw dyfiant bychan  
ifanc, gan nad ydyw'r *codrwth* ('cod' + 'rhwth' sef *silene*  
*vulgaris*) yn flewog. Yn yr un maes dyfalu yst. *gwyddau bach*,  
*cathod bach*, *cynffonau ŵyn bach*.

75

ChWERLYS, ChWERLYS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912  
c.c. (GPC) : 14g. R

GPC:

"chwerlys, chwerlys [*chwerw* + *llys*...]".

GNP:

d.g. *A[rtemisia] absinthium* : Ceir yr enw Alb.  
*searbh luibh* 'chwerw lys'.

Y mae'r dyfalu ctr. Alb. yn dangos hynafrwydd yr enw. Diau iddo hefyd ddynodi'n arferol gynt yr *artemisia absinthium* (o dderbyn patrwm yr Alb.) cyn cael ei ddisodli gan *wermod*.

76

#### Chwysigēnol

c.c. (Rh) : T

T(tud. 200) :

"...Halicacabum ne Vesicaria .s: Y Chwysigēnol dros ei vod yn dwyn petheu y chwysigenny, nei ynte am ei vod yn dda rhac cerric yn y chwysigen."/

OLD:

d.g. uēsīca : Un o'r ystyron a roddir ydyw 'pledren' 'chwysigen'.

Cyf.iad W.S. sydd yma felly.

77

DAPHODEL GWR RYW, DAPHODYL, DAPHODYL BENYW, DAPHODYL GWR RYW  
(cywirwyd o DAPHODIL GWR RYW)

c.c. (Rh) : T

OED:

d.g. Daffodil : Amrywiad ar affodil na ellir yn foddhaol esbonio dŷfodiad *d*- o'i flaen. Ceir damcanu am hynny, a dywedir i'r *d*- gyrraedd S. yn yr 16g.. Daw'r c.c. o NOH.

d.g. Affodil : O'r Ll.C.O. *affodillus* o'r Ll. Diw. \**asfodillus*, \**asphodillus* o'r ff.iau Ll. clas. *asphodilus*, *asphodelus* o'r Gr. ἀσφοδελός.

d.g. Asphodel : O'r Gr. ἀσφύδελ-ος na wyddys ei dras.

Ni cheir pennawd ar bennod y llysieuyn hwn, ac nid oes enw C. iddo yn adran "yr enwae". Ni cheir yno ond enw Ll. a'r enw S. *daphodyl*. Ond yn adran "y rhywiae" defnyddir yr union enw hwnnw fel un C.. Y mae'r T yn ddo'i hun felly'n dangos o ble daeth yr enw (T tud. 71). Fel y gwelir uchod y mae ar gael yn y NOH - oddi yno y cafwyd ef gan W.S..

DHS (tud. 43a):  
"DE ASPHODELO...  
GENERA  
Duo esse ... marem ... & foeminam ...".

Dyna a roes y ff.iau est..

DAGARATR : gw. 46.

78

DAIL POTES, DAIL POTTES, LLYSAE POTTES

c.c. (Rh) : T

Trosi *pot herbes* (NHHP tud. 696) a *pothherbes*, (NHHP, tud. 706) a wna *dail potes*. Trosi *sinapis* DHS (tud. 272a) a wneir gan *llyisiau potes*. Termau cyff. ol ydynt. Dynodant unrhyw ddail neu lysiau a ddefnyddid mewn *potes*. Gan mai *cawl/bresych* a ddefnyddid fynychaf datblygodd y geiriau hynny i olygu *potes*. Erys *cawl* â'r ysytyr hwnnw. Nid rhyfedd felly i *sinapis* gael ei drosi fel *llyisiau potes*, (*sinapis*, 'mwstard, cawl, bresych').

## DAIL Y VENDIGAID, DAIL Y VENDIGAIT

c.c. (Rh) (dail y fendigaidd) : C.M. 1  
 c.c. (Rh) (bendigeidlys) : PEN. 326

Yn bendant dyfalu crefyddwedd yr oesoedd canol sydd wrth wraidd yr enw hwn. Priodolid nodweddion bendigaidd i lysiau o blith yr *hypericum* fel y gwelir o'r enwau *ysgol Crist* ac *ysgol Fair* a'u cyfatebion mewn ieithoedd eraill (gw. 251). Yst. hefyd *dail y Beiblau* (EBL1Ch tud. 107 d.g. Tutsan) a *Bible leaf, Bible flower* (EF tud. 83 d.g. Tutsan). Dryswyd rhwng y planhigyn hwn (*hypericum androsaemum*) â phlanhigyn o'r byd clas. *agnus castus* 'oen diwair'. Sonnir am hyn yn y T (tud. 45) a EF (tud. 84), eto pery'r dryswch yn y T (tud. 271), mewn tameidyn a atodwyd at gorff y gwaith. Byddai'r cyswllt ag *agnus casts* wedi cryfhau y syniad fendigaidd am y llysieuyn, drwy fod hwnnw meddid yn cymell purdeb a diweirdeb.

DAIL Y MEFYS : gw. 170.

## DAIL Y MELFED

c.c. (Rh) : T

Cyfeirio at flewogrwydd y llysieuyn a wna'r enw (gw. 193). Cymh. hefyd â'r *hesg melfedog* (gw. 134). Ceir enwau *S. velvet dock* 'tafolen felfed' a *velvet poppy* 'pabi melfed' (EF tud. 317)

yn enwau ar yr un llysieuyn. Tybio digon teg felly fyddai amau mai cyf. o'r S. a roes yr enw hwn (ar lafar ac nid gan W.S.).

DAIL Y PHION PhRWYTh : gw. 22.

DAIL Y SYFI : gw. 232.

81

DAMSEN

c.c. (Rh) : Ll.G.C. 5280 (ff.: *damsons*)

T (tud. 113):

"... y Damsen a han yw o ddinas Damasco yngwlad Siria ...".

DHS (tud. 139b):

"... Damascena in Damsaco Syriae...".

OED:

d.g. Damson : Daeth i'r S. o'r Ll. *damascenum* sef talfyriad o *prunum Damascenum* 'eirinen Damascus'. Ymhlith y ff.iau ceir *damsen*.

Gwelir mai cyfateb i *damascena* (DHS) a wna *damsen*. Ac y mae'r hyn a ddyfynnir o'r T ac o DHS, yn arwyddo tras y gair fel ei dangosir yn yr OED. Sylwer fod y ff. a geir yn Ll.G.C. 5280 yn dangos ddylêd i'r S., efo'r llu -s. Gall *damasen* hefyd fod yn bnth. o'r S. eto gall fod W.S. wedi dewis y ff. honno gan ei bod yn nes at y Ll. *damascena*.



DANATL, DANATLEN, DANATLEN DdALL, DANATLÉN VARW, DANATLEN WÉN,  
 DANATLEN WENN, DANETL, DANETL BECHAIN, DANETL CYPHREDIN, DANETL  
 GROEC, DANETL LLAI, DANETL LLEIAF, DANETL LLYFYN, DANETL MAWR,  
 DANETL MEDDAL, DANETL MWY, DANETL MWYAF, DANETL RHUFEIN, DANETL  
 RHUFEINQL, MÔR Ddanat, MORDANAT

c.c. (GPC) (danadl): 13g. T[aliesin] (ff.: *danat*)  
 c.c. (Rh) (danadl marw/danhadlen farw) : C.M. 1  
 c.c. (Rh) (morddanad) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
 c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

GPC:

"danadl, danad, dynad, dynadl [H. Grn. *linhaden* ( $n > 1$   
 drwy ddadffathiad a thrwy ei gysylltu â *lin + had*), gl.  
*urtica*, Llyd. *linad*, Gwydd. C. *nenaid*, Gael. *deanntag* : <  
 Clt. \**ninasati-* neu \**ninati-* (a'r *n-* > *d-* drwy ddadffathiad  
 yn Gym.), cf. y S. *nettle*; lluniwyd y ff. lenyddol *danadl*  
 drwy ychwanegu -l mewn cydweddiad â *banadl*]"

NOH (tud. 46):

"*Lamium*.  
 ... dead nettle or whyte nettle, ... Ortie morte..."

DHS (tud. 162b):

"DE LAMIO....  
 NOMINA.  
 ...[Gallicè *Ortie morte, ou ortie blanchẽ*]..."

Gwelir yn y ddwy ffynhonnell uchod, enwau S. a Ff. cyfystyr â  
*danatlen varw* a *danatlen wen*. Gallai'r enwau C. yn y T fod yn  
 cyf.iadau blaenorol o'r Ll. neu'r S. neu yn hanu o'r ffynonellau  
 uchod. Dengys y c.ion c. fod *danatlen varw* eisoes yn C. yn C.M.  
 1. Daeth hwnnw felly'n debycaf o'r S..

Naill ai cyf.iad o ff. Ll. na tharewais arni neu cyf.iad o'r  
 S. *blind-nettle* (EF tud. 350 d.g. *White Dead-nettle*) ydyw  
*danatlen ddall*. Hwyrach mai oddi ar lafar y cafodd W.S. yr enw.

Y mae'n bosibl bod *môr ddanat* yn enw o dras Ll. ond geill fod  
 yn hen enw C. ar batrwm *morgelyn, morwiall* (gw. 52).

T (tud. 66):

"... Vrtica Greca siue Romana sef y Danetl Groec nei Ddanetl Rhufein ... Vrtica mollis sef y Danetl meddal nei yr llyfyn./ ... Vrtica maior y Danetl mwy yr all Vrtica minor y Danetl llai: ac o ei ddywedyt yn ol yr iaith gyphredin y Danetl mwyaf ar lleiaf nei yr Danetl mawr ar bechain."

DHS (tud. 40a-40b):

"DE ACALYPHE. ...

GENERA.

... Romana ... [Gallicè *Ortie griesche*]...mollem ... maius

... minus ...

LOCVS.

... vulgares ...".

Dyna dras y gweddill o'r ff.iau est.: oll o'r Ll. ac un o'r Ff..

DANNOCEN S. PhRED : gw. 69.

83

DANT Y LLEO, DANT Y LLEW

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

T(tud. 195):

"...Gan ryw rei eill y gelwir yn gyphredin Dens Leonis, Dant y llew nid amgenach nac am fod emylae yr dail val dannedd ne yscithraint y Lleo."/

Cyf.iad o'r enw Ll.<sup>a</sup> nodir uchod ydyw hwn. Fel y gwelir o'r ddau c.c. yr oedd wedi ei hen arddel erbyn oes W.S.. Yn ogystal â dangos tras yr enw, ceir yr eglurhad dilys drosto yn y dyfyniad uchod. Cymh. â'r Ff. *dent de lion* (a'r bnth. S. ohono *dandelion*).

## DAR, DÂR, DERW, DERWEN

c.c. (GPC) (dâr) : 12g. LL  
 c.c. (GPC) (derw(en)) : 8g. (11SC) LL

## GPC:

"dâr [H. Grn. *dar*, Gwydd. Diw. *dair*: < IE \**der-*  
 neu \**dər-* o'r gwr. \**deru-* 'pren bychan']".

"derw! [*derw* + (-*en*), Llyd. *derven*, ll. *dero*, e.p.  
 Gal. *Dervus*, Brth. *Derventiō*: < Clt. \**derw-*, cf. Goth.  
*triu*, S. *tree*, o'r gwr. \**derw-* 'pren']".

## DAU WYNEP DAN YR UN COKWLl

c.c. (Rh) : T

Awgryma S.R. (LlM tud. 19, trn. 14) mai tras Ll. sydd i'r enw a dyfynna ddisgrifiad L.F. yn DHS o'r llysieuyn hwn: *consolida regalis* : "herba est quam quidam Monachellam, siue Capuciarium vocant à cucullo haud dubie monachorum, quem flores illius herbae referunt, nomen imponentes...". Efallai mai hyn sydd wrth wraidd yr enw yn y pen draw, yn enwedig o gofio am y dryswch rhwng *cwcwll* a *chwcwallt* (gw. 203). Ond dengys gogwydd y T (tud. 12) mai enw a gafwyd ar lafar ydyw hwn. A cheir yn y S. ddau enw bron yn gyfystyr ag ef : *two faces under a hat* (DEPN d.g. *AQUILEGIA VULGARIS*) a *two faces in a hoode* (NOH tud. Hv d.g. *Trinitaria*). 'Rwy'n amau felly mai cyf.iad o enw S. ydyw hwn, er y gall fod Ll. y tu ôl i'r S..

## DAWC

c.c. (Rh) : T

## OED:

d.g. Dauke : Gair prin ac ansathredig yn hanu o'r  
Ll. *daucus, daucum* 'moronen'.

Bnth. o'r *daucus* (DHS, e.e. tud. 80a) gan W.S. ydyw  
*dawc*.

DERW ... : gw. 84.

DIL : gw. 90.

DORL1WYD : gw. 240.

## DRAGANS

c.c. (Rh) : HAFOD 16

## OED:

d.g. Dragons : Ø'r S.C. *dragance* o'r H.Ff. *dragance*  
o'r Ll. *dracontia* o'r Gr. *δρακόντιον* 'draig'.

Bnth. o S.C. ydyw hwn. Enw ar rywogaeth o *arum* ydyw. Dyfalu  
rhywiolwedd clas. sydd yma o gofio ff. y blodyn. Math ar neidr  
ydyw draig (cymh. y S. *dragonfly* Å'r enw cyfatebol C. *gwas neidr*)  
ac fel yr awgrymais yn 37 symbol ffalig ydyw neidr. Am yr un

cyfeiriad dyfalu yn enw ar yr un planhigyn gw. 203.

88

DRINGOL

c.c. (Rh) : L1.B. 14912 (ff.: *dringon*)

Noder hefyd y ff.iau *tringan*, *tringion*, *tringon* (PEN. 204) a *tringol* (I. 10). Y mae ff.iau yn y Rh yn chwannog i awgrymu mai t- ydyw'r llythyren gyntaf gysefin.

GPC:

"dringol<sup>2</sup>[bôn y f. *dringaf* : *dringo* + -ol]".

Yr unig eglurhad a allaf i ei gynnig ar fod y ferf *dringo* yn hanfod yr enw hwn, ydyw am fod natur cerdded yn y llysieuyn. Ond nid wyf yn gytôn ag eglurhad GPC. Wedyn ni allaf gynnig un arall fy hun.

89

DRYS

c.c. (GPC) : 9-11g. (Juv) VVB

GPC:

"drysi, drys [*dyrys*, *drys* + *i*, H. Grn. *dreis*, gl. *uepres*, Llyd. *drez* 'mieri', H. Wydd. *driss* 'draenllwyn' : < Clt. \**drits*- o'r gwr. \**der*- 'holhti']".

DYFRBERSLI GWYLLT : gw. 202.

DYL, DÝL, DIL

c.c. (Rh) : C.M. 1

OED:

d.g. Dill : Rhoddir nifer o ff.iau .ctr. mewn ieithoedd  
 Ell. ond ni wyddys ei dras.

Bnth. amlwg o'r S..

EDERAL, EIDRAL

c.c. (Rh) : HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *eidral*, *eidral*)

[Y mae'r holl engh.iau o'r enw yn y Rh ac eithrio un, yn  
 cychwyn ag *ei-*].

GPC:

"*eidral*, *eidrol* [? bnth. Llad. *hederula* 'eiddew'r  
 ddaear']".

Yn sicr y mae cynnig GPC yn gywir o gofio mai *hedera* 'eiddew'  
 ydyw gwraidd *hederula*, a bod *hedera terrestris* 'eiddew'r ddaear'  
 yn enw arall ar y llysiuyn (gw. 93). Yn ieithegol rhaid fyddai  
 bod ff. neu ff.iau llwgr ar *hederula* i alluogi i'r gair hwnnw  
 newid yn *eidral*: \**eidrula* > *eidrol*. Efallai mai dan ddyl. y  
 syniad mai'r Ll. *hederula* ydoedd gwraidd y gair y ceir y ff.  
*edral* gan W.S..

EFYLLI PREN : gw. 1.

## EGROES, GWYDD YR EGROES

c.c. (GPC) : 13g. T[aliesin], 13g. YBH

GPC:

"egroes [cf. Llyd. C. *agroasenn*, *amgros*, Llyd. Diw. *amgroaz* 'ffrwyth y rhosyn gwyllt']".

EIDRAL : gw. 91.

EIDdEORWC, EIDdEW, EIDdEW BANYW, EIDdEW BYChAN, EIDdEW DUY,  
EIDdEW GWR RYW, EIDdEW GWYN, EIDdEW GWŶN, EIDdEWGYN, EIDdEWGYN  
BYChYDIG, EIDdEW Y DdAEAR, EIDdEW Y DdAYAR

c.c. (Rh) (eiddiorwg) : HAFOD 16, LLYFR COCh

c.c. (GPC) (eiddorwg) : 14g. R

c.c. (GPC) (eiddew) : 13g. T[aliesin]

c.c. (Rh) (eiddew y ddaear) : Ll.B. 14912, HAFOD 16,  
LLYFR COCh

c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

GPC:

"eiddiorwg, eiddorwg [*eiddew*, *eiddo2* + elf. *anhysbys*]".

"*eiddo2* [gw. *eiddew*]".

"*eiddew*, *eiddo2* [Crn. *idhio*, Llyd. *ilio*, Gwydd. *edenn*, *eidhean*: < Clt. *\*edenno-* < IE. *\*ped-enno-* o'r gwr. *\*ped-* 'rhwymo, clymu, rhwystro']".

"*eiddewgyn* [*eiddew* +-*cyn*]".

Ni allaf ychwanegu dim at hyn, ac eithrio gofyn ai'r "elf. *anhysbys*" sydd yn *eiddiorwg* ydyw yr enw *iorwg*, ac a oes cyswllt rhwng hwnnw â'r S. *ivy* (OED d.g. *Ivy* : rhoddir ff.iau taf. arno *ivory*, *ivery*)? Y mae temptasiwn hefyd i weld cyswllt rhwng rhai

o'r ff.iau Celtaidd â rhai o'r ff.iau Ell. yn yr OED e.e. Alm.  
epheu, eto ni fynn y geiriaduron grybwyll unrhyw gyswilt:

T (tud. 119):

"... Eiddew gwýn ... a hwn a eilw Plinius yn vanyw ... Ar  
ail rhyw ydyw y duy ... a hwn a eilw Plinius yn wr ryw ...  
Hederula sef yw hynny Eiddewgyn ne yr Eiddew bychan."

DHS (tud. 145b-146a):

"DE CISSO. ...

GENERA.

... Candida ... haec foemina à Plinio vocatur ... Altera  
nigra ... haec Plinio mas nominatur ... hederula".

Yn amlwg cyfiad o *hederula* ydyw *eiddewgyn* ac *eiddew bychan*.  
Oddi yma hefyd y daeth yr holl ff.iau est. heblaw am *eiddew y*  
*ddaear*.

T (tud. 250):

"*Hedera terrestris* yn Llatin, *Grounde Ivie* yn Sasonaec ...  
*Eiddew y ddayar* ... yn *Camberaec./*".

Cyf. o'r Ll. *hederula terrestris* roddodd *eiddew y ddaear* (cymh.  
â'r S. *ground ivie*), ond fel y dengys y c.c. nid W.S. sy'n  
gyfrifol am ei lunio.

94

EIRIN AMLIWIOC, EIRIN DOFION, EIRIN DUON, EIRIN GWYLITION, EIRIN  
GWYNION, EIRIN MELYNION, EIRINBREN, EIRINBRÉN, EIRINBRÉN DOF,  
EIRINBRÉN GWYLLT, EIRINBREN Y COET, PRÉN EIRIN, PRÉN EIRIN DOF,  
PRÉN EIRION GWYLLT

c.c. (Rh) (eirin) : HAFOD 16, LLYFR COCh

c.c. (Rh) (eirin y coed) : LLYFR COCh

c.c. (Rh) (eirin bren) : G.W.S.

c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T



GPC:

"eirin [Llyd. C. *irin*, *irinenn* : < Clt. \*agrīn-, cf. Cym. *aeron*, Gwydd. *áirne* 'eirin duon bach', o'r gwr. ðg-, \*øg- 'tyfu; ffrwyth, grawn, aeron']".

AWG (tud. 220):

Nodir mai llw. ar aren ydyw eirin ac i aren gael llw. newydd ac eirin gael un. newydd.

DHS (tud. 139b):

"DE COCCIMELEA. ...

GENERA.

Vnum satiuorum ... nigra ... candicantia, versicoloria, cerea hoc est candido in luteum pallescantia, ... Alterum sylvestris...".

Dyma'r o'u cyf. a roddodd y ff.iau est..

95

EIRINLLYS, EREINLLYS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *erinllys* / *erinllys* Gadwallon, *eirinllys* Gadwallawn / *erinllys* / *erinllys* mawr, *erinllys*)

Gwelir drwy'r ff.iau uchod a ff.iau eraill y Rh mai *erinllys* ydyw'r ff. hynaf.

GPC:

*eirinllys*, *erinllys*, *eurinllys* [?*eirin+llys* 'llysieuyn'; dichon fod y ff. *eurinllys* yn deillio o'r gred fod yr enw'n cyfeirio at liw'r blodau]".

Dichon fod GPC yn gywir am y ff. *eurinllys*. Ond nid oes gennyf fawr o feddwl o'r awgrym mai *eirin* ydyw'r elf. flaen. Fel y nodwyd *erinllys* ydyw'r ff. fwyaf dilys. Ond ni wn innau ychwaith beth ydyw'r *erin-* yma. A allai fod a wnelo ag *arddwn*, *ardduno*, *ardduniant*, *erdduniant*? A allai fod yr enw'n \**erddunllys* > \**erunllys* > *erinllys*, ac felly'n golygu 'llysieuyn

hyglod'? Byddai hynny'n gwneud synnwyr o ystyried y bri a roddid ar y llysieuyn hwn a'i debyg - *dail y fendigaid, ysgof Fair ac ysgol Crist* (gw. 79, 251).

EISOP : gw. 252.

96

EITHIN YR IAIR, EITHIN YR IEIR

c.c. (GPC) (eithin) : 12g. LL  
c.c. (Rh) (eithin yr ieir) : G.W.S.

GPC:

"eithin [H. Grn. *eythinen*, gl. *ramnus*, Crn. C. *eithin*, H. Lyd. *ethin*, H. Wydd. *aittenn*: < Clt. \*ak(s)tīno- o'r gwr. \*ak- 'llym, miniog']".

Yn amlwg y mae dryswch ynglŷn â pha blanhigyn ydyw *eithin yr ieir* yn y T. Dynoda'r enw *ononis spinosa* (tud. 54) a *genista anglica* (tud. 77), a cheisiwyd dileu ail ymddangosiad yr enw gan rywun. Y mae enw S. cyfystyr ar gael : *hen gorse*. Cyfeiria at ddau llysieuyn yn S. yn ôl y DEPN (d.g. Gorse, Hen) ac EF (d.g. Restharrow tud. 141 a Red Bartsia tud. 333) sef *ononis repens* ac *odonites verna*. Gwelir fod y ddau lyfr yn gytŷn mai enw taf. ol Gogledd Lloegr a Sir Gaer ydyw, a dywed EF ei fod yn enw ar gael yng Nghanolbarth Lloegr hefyd. Ni chanfŷm gyfateb mewn iaith arall i'r enw hwn, y mae hynny ynddo'i hun yn ei gwneud yn llai tebygol fod ff. Ll. cyff. y tu ôl i'r ddau enw. Yr wyf felly'n am honni mai cyf. iad o'r S. ydyw *eithin yr ieir*, a bod ystod ddaearyddol y gair S. yn arwyddocáu hynny. Hawdd y gallai hwn

fod wedi ei bnth. i C. rhanbarth W.S. (cymh. â 29). Sylwer foddbynnag fod c.c. *eithin yr ieir* yn dipyn hŷn na 'c.c. *hen gorse*. Ni cheir sôn am *hen gorse'* yn yr OED. O dderbyn hyn o ddadl, noder mai *ononis spinosa* fyddai'r *eithin yr ieir* gwreiddiol, gan na ddynoda *hen gorse y genista anglica*.

97

#### ELEBOR DUY, ELLEBOR, HELEBOR

c.c. (Rh) (elebor/elebwr/helebor) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff. : *elebwr, elebre du / elebwr, elleborum album / elleborum nigrum / helleborus*)

c.c. (Rh) (elebor du/elebur du/helebor du) : HAFOD 16 (ff. : gw. uchod)

GPC:

"elebor, elebwr [bnth. S.C. *elebore, elebur 'hellebore'*]"

OED:

d.g. *Hellebore* : O'r Ll. *elleborus* a ddaeth o'r Gr. *ἐλλέβορος*. Dan ddylannad y ff. Gr. adferwyd *h-* ar flaen y gair. Ymhlith yr amrywiadau S. ceir *elebre, elebur, elebor, helebore*.

Bu trawslofffa o'r S. a'r Ll. i gael y ff.iau C. ar yr enw hwn. E.e. gwelir fod *elebre* yn ff. o'r S. tra bo'r ff.iau yn y Llyfr Coch yn bnth. yn ddi-draul o'r Ll.. Yn unol ag arfer S. ei gyfnod, ac yn ymwybodol o'r rheswm pam, mae W.S. mewn un achos yn edfryd yr *h-* ar flaen yr enw. Nid ydyw *ellebor* ychwaith ond bnth. syth o'r Ll. *ellebor-* (DHS tud. 76a, 121a) ac *elebor duy o elebor[um] nigr[um]* (DHS tud. 16b).

## ELESTR, ELESTR THYRSIN

c.c. (GPC) (elestr) : 13g. T[aliesin]  
 c.c. (Rh) (elestr thyrsin) : T

## GPC:

"elestr, gelestr [H. Grn. *elestren*, gl. *carex*, Crn. *elestren*, *elester*, H. Lyd. *elestr*, gl. *hibiscum*, Llyd. C. *elestren*, ll. -nou, Gwydd. *aileastar*; yn *gelestr*, &c., gwelir g- wedi tyfu fel yn *gerfydd*, *erywdd*, a *gonest*, *onest*]"

Oni allai'r *el-* yn y gair fod yn un â'r *al-* sy'n *alaw* (gw. 2)  
 o gofio fod *iris* a *carex* yn tyfu mewn tir gwlyb.

## T (tud. 29):

"Had gohir sy iddo melyn o liw ac yn benn ac Elestr Thyrsin".

## DHS (tud 19a):

"DE ACANTHO. ...  
 FORMA.  
 ... Semen illi est oblōgum, luteum, caput thyrsi specie..."

Dyna'r T a'r hyn y troswyd ohono. Y mae "caput thyrsi specie" 'pen rhywogaeth o thyrsus' yn troi'n "yn bennac Elestr Thyrsin". Ond cyf. *ir thyrsus* yn *llafrwyn* (gw. 25) ar un achlysur, a nodi'r D.D. mai "paladr planhigyn" ydyw *thyrsus*. Ni allaf yn lân â gweld sut y daw *elestr* i'r fantol yma o gwbl, ac eithrio bod *elestr* hefyd yn gallu cyfeirio at *carex* fel y gwelir y gair *ctr.* Crn. yn ei wneud. Beth bynnag y mae'n amlwg mai bnt. W.S. ydyw'r ff. *thyrsus*, ond ni welaf yr angen am y gair.

ELLEBOR : gw. 97.

## ELLYRIAT, LLYRIAD, LLYRIAT, LLYDAN Y PhORDd

c.c. (Rh) (erllyriad) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR  
COCh

c.c. (Rh) (llydan y ffordd) : HAFOD 16

GPC: *llyriad*  
"erllyriad, [er-, ar- + llwrw + iad, trf. prs.,  
&c. ']"

GPC:  
"henllydan [*hen* (? neu *hynt*) + *llydan*, H. Grn.  
*enlidan*, gl. *plantago*, H. Lyd. *haentletan*, Llyd. Diw.  
*he(d)ledan*; cf. H.S. *wegbraede*]"

OED:  
d.g. Waybread, waybred : Ystyr yr enw ydyw y planhigyn  
llydanddail a dyf ar y ffordd, [sef way 'ffordd' + *broad*  
[â rhoi y ff. fodern] 'llydan']. Rhoddir ctr.au mewn  
llawer iaith Ell. e.e. Alm. *wegebrente*, Daneg *vejbred*.  
Daw'r c.c. o'r ff. S. o tua'r flwyddyn 700.

Y mae *llydan y ffordd*, *henllydan* (a'r ff.iau eraill Clt.) a  
*waybred* (ynghyd â'r ff.iau eraill Ell.) yn gyfystyron ac y mae i  
*erllyriad* elf. o'r un dyfalu ynddo. Cyfeiria'r cyfan at yr un  
llysieuyn (*plantago maior*). Y mae yma hen ddyfalu ctr. (?)  
hynafol.

## ENDIF, ENDIF DOF, ENDIF GWYLLT

c.c. (Rh) (endif) : PEN. 204  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

OED:  
d.g. Endive: O'r Ll. *intibus* cafwyd y ff. \**intybea*  
a roddodd *endive* yn Ff. a esgorodd ar y ff. S..

Ni chyniga yr OED na'r OLD darddiad pellach na'r ff. Ll. i'r gair a dywed y ddau y gallai'r ff. Gr. gyfwerth fod wedi hanu o'r Ll.. .

T (tud. 194):

"... Endive yn Sasonaec, a bentygy yr vn gair ir Gamberaec: ...".

DHS (tud. 229b):

"DE SERIDE. ...  
GENERA.

... satiuam & syluestrem...".

Gwir ydyw honiad y T ynglŷn â thras yr enw. Ac fel y gwelir, o rywogaethau DHS y daw'r ff.iau est..

EREINLLYS : gw. 95.

101

ESCARLYS CRWNN, ESCARLYS GRONN, ESCARLYS HIR, ESCORLYS CRWN,  
YSCARLYS BYCHAN

c.c. (Rh) (ff.iau i gyd) : T

Yn yr OED (d.g. Birthwort) gwelir mai W.T. yn y NH a luniodd *birthwort* drwy drosi'r Gr. ἀριστολόχεια. Ar ddelw hynny lluniodd W.S. *escarlys/escorlys*.

( GEL:

ἀριστος: y math gorau, o'r rhinwedd fwyaf.

λοχεία: genedigaeth, esgor ar blentyn.)

DHS (tud. 34a):

"DE ARISTOLOCHIA. ...  
GENERA.

... rotunda ... longa ...".

Dyna dras y ff.iau est.. Ar yr un tud. uchod o DHS disgrifir llysieuyn o'r enw *clematitis* yn "... *minimè genuina est* ...": hyn a barodd i W.S. lunio *y scarlys bychan*.

102

ESMALAEDS, SMALAETS, SMALETS

c.c. (Rh) (smaletj) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff: *smalae*s, *smalae*ch)

c.c. (Rh) (esmaletj) : PEN. 204 (ff.: *esmalai*ge)

OED:

d.g. Smallage: *small* 'bychan' + *ache*.

d.g. Ache : Drwy'r Ff. *ache* o'r Ll. *apium* o'r Gr. <sup>ἄπιον</sup> sef 'persli' neu blanhigyn o'r un ael.

GEL:

d.g. <sup>ἄπιον</sup> : Ni chynigir tarddiad pellach.

OLD:

d.g. *apium* : < *apis*l.

d.g. *apis*l : Gwenynen neu haid o wenyng.

Afraid ydyw dweud mai bnth. o'r S. ydyw'r enw hwn, a gwelir yr anhawster o gyfleu y S. -age yn yr amrywiadau C. ar y sillafu. Cymreiciad W.S. o air bnth. ydyw'r ff. *esmalae*ds. Ychwanegodd lafariad brosthetig ar batrwm yr y- yn *ychwaneg* a'r e- yn *enifer*; cymh. ag *escorpion* (T tud. 6) ac *esparag* (gw. 103).

103

ESPARAG, ESPARAG CYPHREDIN, ESPARAG DOF, ESPARAG GWYLLIT, ESPARAG PIGOC

c.c. (Rh) (ff.iau i gyd) : T

OED:

d.g. Asparagus: O'r Ll. o'r Gr. *ἄσπαραγος* o dras ansicr. Ceir ff. Ll.C. *sparagus, sparagi*. Ymhlith y ff.iau S. nodir *asparage, sparage, sperage*.

Dwy engh. a geir o'r enw yn y Rh : *sperage* (W.L.B.), *sperag* (PEN. 228): y ddwy yn sicr yn bnth. o'r S.. Ac er nad ydyw W.S. yn goleddfu y ff. C. sydd ganddo, ymddengys iddo'i chael drwy adff.io enw eisoes yn y C., sef drwy ychwanegu e- brosthetig (gw. 102) a chan ddewis *spar-* yn hytrach na *sper-*, er mwyn cadw'n nes at y gwreiddiol.

NOH (tud. 17):

"asparagus altilis, or asparagus alone ... The other is named in latin *Corruda* or *asparagus sylvestris* ... it may be called in englishe prickly *Sperage* ...".

T (tud. 32-3):

"... *Corruda nei Asparagus sylvestris* sef yr *Esparag gwyllt* ...  
Yr *Esparag gwyllt nei yr pigoc* ...".

NOH ydyw ffynhonell y T uchod. O'r S. felly y daeth *esparag pigoc*. Hyd y gwelaf, nid ydyw'r ddau ff. est. arall yn ddim amgen na dosbarthu W.S. er mwyn dynodi rhywogaeth a dyfai mewn gerddi chwedl na rhywogaeth wyllt.

104

EUPHRAS, LLYSAE EPHROS, LLYSAE EUPHRAS

c.c. (Rh) : HAFOD 16

OED:

*Euphrasy* : O'r Ll. *euphrasia* a hwnnw yn ei dro o'r Gr. *ἔϕραστ-ια* 'sirioldeb', c.c. 1475.

Bnth. o'r un ff. Ll. ag a nodir uchod ydyw'r ff.iau hyn.



EULUN PERSLI : gw. 202.

105

VALERIAN, VALERIAN VAWR, VALERIAN GYPHREDIN

c.c. (Rh) : PEN. 204, LLAN. 10 (ff.: *valeriana*, *valerian*)  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

OED:

d.g. Valerian: Daeth i'r S. un ai drwy'r Ff. neu'n uniongyrchol o'r Ll. *valeriana*. Hanodd y Ll. o'r enw personol *Valerius*.

Parthed â'r enw hwn y mae'n fwyaf tebygol i'r C. drawslofffa o'r Ll. a'r S.. Yn achos PEN. 204 y mae'n amlwg mai'n uniongyrchol o'r Ll. y daeth y ff.. A chyda'r Ll. mewn cof hefyd y cafodd W.S. yntau y ff. sydd yn y T.

DHS (tud. 288b):

"DE PHV GERMANICO. ...

GENERA. ...

Valerianam maiorem ... Valeriana ... vulgaris."

Oddi yma a cafwyd y ff.iau est..

106

VERVEN

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *verueyn*)

OED:

d.g. Vervain : Drwy Ff. Lloegr o H.Ff. o'r Ll. *verbena* y daeth.

OLD:

d.g. uerbēna : < \*uerbes-na. Ni chynygir ystyr  
pellach.

Honna GPC i'r gair ddyfod o'r S.. Eto nid ydyw'n amhosibl i'r  
C. fod wedi trawslofffa o'r Ff. a'r S..

107

VIOLET

c.c. (GPC) : PEN. 5, 1346 L1A

OED:

d.g. Violet : Daeth i'r S. o'r H.Ff. violete,  
violette sef ff. ar y Ll. viola.

OLD:

d.g. uiola : Ni chynigir tarddiad.

O'r Ff. y daeth yr enw hwn i'r C., ond anodd ydyw dweud ai  
drwy'r S. ynteu drwy drawslofffa o'r S. a'r Ff.. Y mae c.c S.  
(OED) yn dyddio o'r un cyfnod a'r c.c. C..

VRONWYS : gw. 24.

VYWFYTh : gw. 33.

108

PhA, Ffa, PhA PhRENCIC, PhAEN, FfaEN

c.c. (GPC) (ffa) : 14g. R, 14g. YCM, 14g. GDG

c.c. (Rh) (ffa) : HAFOD 16  
c.c. (Rh) (ffa Ffrengig) : T

GPC:

"ffa [Crn. Diw. *fāf*, *fā*, Llyd. C. *fāff*, Llyd. Diw. *fav*, *fao*, bnth. Llad. *faba*]"

OLD:

d.g. *faba* : Ni chynigir tarddiad pellach.

Cyf.'r S. *French beans* a wnaethpwyd i gael "ffa Ffrengig", a chafwyd hwnnw yn y NH yn ôl y LLM (tud. 228, trn. 7). Am ddyfalu 'Ffrainc' gw. 59.

109

PHENICL, FFENICL, PHENICUL, PHENICUL Y CŪN[sic], PHENICUL Y CŪN, FFENICUL Y CŪN, PHENUGROEC

c.c. (GPC) (ffenigl) : 14g. GDG  
c.c. (Rh) (ffenigl y cŵn) : LLAN. 10, Ll.G.C. 5280  
c.c. (Rh) (ffenugroeg) : T

GPC:

"ffenigl, ffanigl, ffan(n)ugl [H. Grn. *fenochel*, gl. *feniculum*, Gwydd. Diw. *finéal*, bnth. Llad. Diw. *\*fenic'lum* < *fēniculum*]"

OLD:

d.g. *faeniculum* : Wedi tarddu o *faenum* + *culum*

d.g. *faenum* : 'gwair'.

d.g. *culus* : terf. bach..

OED:

d.g. *Fenugreek* : Dywedir i'r gair hwn ddyfod i'r S. drwy'r Ff. o'r Ll. *faenugraecum* a ddaeth o *faenum Graecum* 'gwair Groeg'.

Y mae'r ff.iau *ffenicl* a *ffenicul* yn amlwg yn adff.iadau gan

W.S. o'r ff. arferol *ffeniġl* y'i gwelir yn y c.ion c.. Y mae *ffeniġl* yn edfryd yr -c- a *ffenicul* yn edfryd -cu- y Ll. *feniculum*.

Ffurfiant W.S. o'r Ll. ydyw *phenugroec*. Yn DHS (163a) *foenigraecum* ydyw'r ff. gyfatebol. Felly cyf.odd yr ail elf. a chan wybod mai'r un oedd yr elf. gyntaf a'r elf. gyntaf yn *ffeniġl*, ceir ganddo *phenu-*: yr -u- yn edfryd yr -u- o *faenum*. Efallai hefyd fod delw y S. *fenugreek* wedi gadael ei ôl ar yr enw.

Am y ff. est. *ffeniġl* y cŵn, y mae cyfystyr S. *dog's-fennel*. Gan fod y c.c. C. o tua'r un cyfnod, y tebygrwydd ydyw i'r ff.iau S. a C. hanu o ff. Ll. megis *feniculum canis*: ff. na lwyddais i ddod o hyd iddi.

Noder fod dyfalu 'cŵn' yn dynodi math salach ar rywbeth, cymh. â *cyrainj* y cŵn, (*rumex acetosa / acetosella*) *bresych* y cŵn (*mercurialis perennis*). Gwelir nifer o engh.iau o hyn yn S. (gw. OED d.g. Dog). Ymddengys mai o'r byd clas. y daeth y dyfalu hwn, yst. e.e. *rosa canina*, *testiculus canis*, cymh. hefyd â dyfalu 'march', gw. 166.

110

PHICUS, FFIGUS, PHICUS DOFION, PHICUS GWYLLT, FFIGUSBREN,  
PHICUSBREN, PHICUSPRĒN, PHICUSPREN DOF, PRĒN PHICUS

c.c. (Rh) (fficus) : HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *figys*,  
*ffigys*)

c.c. (Rh) (ffigysbren gwyllt) : TN (ff.: *fficuspren*  
*gwyllt*)

c.c. (Rh) (ff.iau est.eraill) : T

GPC:  
"figys [bnth. S.C. *figes*]".

OED:  
d.g. Fig : O'r Ll. *figus* drwy'r Ocitaneg drwy'r Ff.  
i'r S..

OLD:  
d.g. *figus* : Bnth. o iaith anhysbys. Ni nodir ystyr  
pellach.

Y mae'r ffaith mai llu. ydyw *ffigys* yn dangos yn eglur mai o'r  
S. y'i bnth.wyd ac mai llu. S. -es sydd wedi rhoi yr -ys. Eto ni  
rwystrodd hynny i W.S. goluro ychydig ar y ff. gan dwyn i gof y  
Ll. un. *figus* a throi y gair yn *fficus*. Ond ni allai ddisodli'r  
arfer mai llu. ac nid un. oedd *ffigys/fficus*.

DHS (tud. 253b):  
"DE SYCE. ...  
FORMA.  
*Ficus sativa* ... "

NH (tud. 2)  
"...wilde and the garden figge ...".

Y rhain a roes y ff.iau est..

FfION PhRWYTh ... : gw. 22.

111

PhLOWR DE LfS, PhLWR DE LIS

c.c. (GPC) : 14g. GDG, 14g. lGE

GPC:

"fflwr-dy-lis, fflowr-dy-lis, &c. [bnth. Ffr. *fleur-de-lis* 'blodau'r lili' drwy'r S. *flour-de-lyce*]" .

Rhannol gywir y byddwn yn rhoi GPC yma. Yn sicr yr oedd W.S. yn ymwybodol o'r ff. Ff., ac yng ngoleuni honno y ceir y ff.iau hyn. Am yr elf. 'lis' gw. 139.

PhLUR AMOR MELYN : gw. 17.

PhLWR DE LIS : gw. 111.

PhLUR MELFET PURPUR : Gw. 17.

PhYLBERDS : gw. 59.

112

GALENGAL, GALENGAL SEISNIC, GALINGAL

c.c. (Rh) (galengal) : HAFOD 16  
c.c. (Rh) (galengal Seisnig) : T

OED:

d.g. Galingal : Daeth yr enw o'r Jeiniëg drwy'r Bersieg drwy'r Arabeg drwy'r Ff. i'r S.. Yn y Tjeiniëg gwreiddiol *Co-liang-ciang* sef 'sunsur gwan o [dalaith] Co'.

Rhaid cytuno â EEW a GPC mai drwy'r S. y daeth *galengal*. Y mae'r ff.est. hithau yn cyf. o'r S., *english galengal*. Yn ôl yr OED ceir y c.c. o'r ff. hwnnw yn NHHP, ond y mae'r OED yn ei methu

hi yma gan y ceir *Englyshe Golangal* yn y NH (tud. vi(b)). Hwn y cafodd W.S. ei afael arno (gw. hefyd EEW tud. 139).

GANCWLWM : gw. 40.

GANRHI GOCh : gw. 41.

GANWRAIDD LWYD : gw. 42.

113

GARLEC, GARLEC CYPREDIN, GARLEC Y GARDDAE, GARLEC GWYLIT, GARLIEC, GARLIEC CYPREDIN, GARLIEC GWYLIT, GARLIEC MAIR, GARLIEC Y BRAIN, GARLIEGOC, GARLIEGOL

c.c. (Rh) (garlleg) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (ff.iau eraill) : T

GPC:

"garlleg [bnth. S.C. *garlec*]".

EEW (tud. 73):

d.g. *garlleg* : O'r S.C. a'r S.Diw *garlec*,  
*garlek(e)* (gw. hefyd tud. 109, 241).

OED:

d.g. *Garlic* : O'r H.S. *garleac* sef *gare* 'gwaywffon' +  
*leek* 'cenhinen'.

Efallai mai ymwybod o dras y gair sy'n gyfrifol am y ff. *garlec*. Y mae'n digwydd yn rhy aml i fod yn wall lle gallai R.M. fod wedi anghofio rhoi dotyn o dan yr -l~.

DHS (tud. 248a):

"DE SCORODO. ...

GENERA.

... Vnum hortense & satium domesticumve ...  
syluestre ... Allium hortense ...".

Yn amlwg dyma dras dau o'r ff.iau est., tra bo *garllec cyphredin* yn enw a luniodd W.S. i drosi'n gryno y rhywogaeth a ddynodir â'r geiriau "*hortense & satium domesticumve*" (uchod).

Cyf.'r *S. crow garlyke* NH (tud. bv) a wna *garllec y brain*. Ac o'r *S.* hefyd y daw *garllec Mair* o dderbyn mai yn Sir Gaerhirfryn y cafodd W.S. yr enw (gw. T. tud. 212). Ond noder yr enw Alb. *garlag Mhuire 'garlleg Mair'* (GNP tud. 107 d.g. A[llium] vineale). Am ddyfalu '*Mair*' gw. 52.

T (tud. 65):

"... *Alliaria* sef ... y *Garllegol*."

Dyna esbonio *garllegol* a'r amrywiad *garllegog* : cyf. o'r Ll..

GAS WENWYN : gw. 47.

GAU SAPHRON : gw. 225.

114

GELLIIC, GELIYC PREN, GELIYCPRÉN

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *gelllic*)

c.c. (GPC) : 14g. R (ff.: *gelllic*)

GPC:

"*gell* [Llyd. C. *guel*, *guell*, 'rhuddgoch', cf. H. Wydd. *gel*. 'gwyn, teg, disglair', Llad. *helus* 'bresych', *helvus*



'lliw mêl', S. *yellow* o'r gwr. \**ghel-*, *ghel-* 'melyn, gwyrdd, llwyd neu las']".

Yr wyf yn cynnig bod *gelllic* yn hanfod o'r gair uchod: sef *gell* + *-ic* (bellach *-ig*). Byddai'r *-ig* un ai'n terf. ans. (cymh. â *deheuig*, *bwyteig*) neu'n terf. bach. (cymh. â *orig*, *oenig*). Un fyddai *gelllic* yn wreiddiol ond drwy droi'n *gellyg* cydweddai i fod yn llu. gan gael ei ddad-affeithio i lunio un. newydd: *galleg* (cymh. â *tafarn-tefyrn*, *angel-engyl*). Yn cadarnhau hyn, nid oes engh. o'r ff. *gallec* yn y Rh ac eithro un, a'r pryd hynny gall fod yn ddim amgen na *ga[r]llec* (*allium*).

115

#### GENTIAN

c.c. (Rh) : L1.B. 14912, HAFOD 16 (ff.: *gencian*, *gensyn*)

GPC:

*gensian*, *gensyn*, *gentian* [bnth. S.C. *gencian*, *gentian*]".

OED:

d.g. *Gentian* : Daeth i'r S. o'r Ll. *gentiana*. Yn ôl Plinius cafodd ei enwi ar ôl *Gentius*, brenin Ilyria. Ceir y ff.iau S. *gencian* a *gencyan(e)*.

Y mae GPC yn iawn wrth honni mai bnth. S.C. ydyw y ff.iau *gensian* a *gensyn*. Eto nid cywir dweud mai o'r S. y daeth y *gentian* sydd yn y T. Bnth. ydyw o *gentiana* DHS (tud. 83b).

116

#### GLASWELITYN, GWELITGLAS

c.c. (GPC) (glaswellt(yn)) : 14g. B, 1346 L1A, 14g. (SG)  
HMSS, 14g. DGG  
c.c. (Rh) (gwelltglas) : C.M.1, G.W.S., W.L.B.

GPC:

"glaswellt [*glas*<sup>1</sup> + *gwellt*]".

"gwelltglas [*gwellt* + *glas* [sic]]".

"gwellt [Crn. *gwels* H Lyd. *gueltiacion* gl. *fenosa*,  
Llyd. Diw. *gēot*, *gwelt* (Ouessant), H. Wydd. *gelt* 'porfa',  
*geltboth*, gl. *pabulum*: o'r gwr. \**uel-*, *uelθ-* 'gwallt,  
gwlan', neu o'r Clt. \**gelt-* → \**gellt* a ddisgwyliid yn  
rheolaidd yn Gym. (fel a welir yn enw'r cantref *Buellt*,  
sef *bu+gellt* h.y. 'porfa gwartheg']".

GLORIA : gw. 56.

117

GOLD MAIR, GOLT MAIR, LLYSAE MAIR

c.c. (Rh) (gold Mair) : PEN. 27, LLAN. 10  
(Ceir golt yn Ll.B. 14912, sydd o bosibl yn cyfeirio at yr un  
llysieuyn)

c.c. (Rh) (llyisiau Mair) : Ll.B. 14912

OED:

d.g. *Marigold* : *Mary* 'Mair' + *gold* 'aur'. Rhoddir  
engh.iau o enwau yn tynnu ar yr un dyfaliad o blith  
ieithoedd Ell. eraill e.e. Alm. isel C. *Marienblome*  
'blodyn Mair'.

Cyf.iad o'r S. *marigold* gan bnth. hefyd y gair *gold* ydyw *gold*  
*Mair* (cymh. â *gold* y *gors* (*caltha palustris*) lle gwelir hefyd  
bnth. y gair *gold*). Sylwer fod Gwydd. cyfystyr *ó*r *Mhuire* (L d.g.  
*Marygold*). Y mae *llyisiau Mair*, mae'n debyg, yn hanu o ff. Ll. a  
fyddai'n dras hefyd i'r enwau Ell. a grybwyllir yn yr OED, yn  
ogystal â'r Gwydd. cyfystyr *lus Muire* 'llys Mair' (L.d.g.

Marygold) / herba Mariae. Am ddyfalu Mair gw. 52.

GRAMANDI : gw. 130.

118

GRAP, GRÂP, GRAPS

c.c. (GPC) : 1445-75 GG1

GPC:

"grâb, grâp [bnth. S.C. *graap* 'grape']".

OED:

d.g. Grape : O'r H.Ff. *grape*, *grappe* sef 'grawn swp'. Newidiodd ei ystyr wrth gael ei bnth. i'r S., yn ôl pob golwg oherwydd i'r gair gael ei bnth. yn y llu.. Rhoddasai hynny yn ei dro syniad wahanol o'r un. a syniwyd am un ffrwyth fel un. wedyn, yn hytrach na chlwstwr ohonynt fel uned. Tarddodd y gair ei hun mae'n debyg o'r ferf *graper* 'hel' a seiliwyd yn ei thro ar y gair *grape* 'bachyn'.

O ran ystyr rhaid fod hwn yn bnth. o'r S., ac y mae'r gair *graps* yn cynnwys llu. S.. Gw. ymhellach EEW (tud. 102, 240).

119

GRAWNWIN

c.c. (GPC) : 14g. R

OED:

d.g. Wine-grape : *wine* sbl 'gwin' + *grape* 'un gronyn grawnwin'. Ceir c.c. hwn o tua 1250, ond y mae'r gair bellach yn un nas defnyddir.

Yr un yn hollol ydyw *grawnwin* sef 'grawn' + 'gwin', a *wine-*

*grape*. Efallai bod tras Ll. cyff. i'r ddau, neu gallai'r C. fod yn cyf.iad o *wine-grape*. Efallai'n pledio'r bnth. o'r S. ceir fod y ff. *gwin-rawn* ar gael. Traetha'r D.D. (d.g. Grawnwin) mai hwn oedd y ff. gynharaf ond i *grawnwin* ei ddisodli oherwydd ei fod yn haws i'w ddweud.

GREULYS : gw. 67.

GUENITH[sic] : gw. 123.

GUENYNOC[sic] : gw. 125.

120

GWAEW Y BRENHIN

c.c. (Rh) : T

T (tud 71):

"... Hastula Regia sef Gwaew y brenhin ...".

Trosi'r Ll. a wna'r enw hwn, pe byddai wedi cyf.'r Ll. yn union gwayw *brenhinol* a geid.

121

GWALIT GWENER, GWALIT Y DDAYAR, GWALIT Y VORWYN

c.c. (Rh) (gwallt Gwener, gwallt y ddaear) : T  
c.c. (Rh) (gwallt y forwyn) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

T (tud. 50):

"Adianton yn Groec a Llatin, Venus heare yn Saesonaec sef Gwallt Gwener yn Camberaec./ Ef ellir (os rhy ddieithyr yr enw vchod) ei Gambereico yn ol yr enw Llatin a'll sef Capillus terrae aei ddywedyt Gwallt y ddayar."

T (tud. 225):

"Capillaris yn Latin, Mayden hayre yn Sasonaec, a Gwallt y vorwyn yn Camberaec./".

DHS (tud. 30b):

"DE ADIANTO. ...  
NOMINA.

... Terrae capillus ... Capillum Veneris ... *Frauenhar* ...".

NOH (tud. 9):

"*Adiantum*.

Adiantum is called in greke Adianton, in duche iunkfrawen hare, of the herbaries Capillus veneris & groweth not in englād for it that is takē here for Adiantum is trichomanes in Dioscorides ... it may be named in englishe Venus heir or Colōder maidens heir."

Y mae'r T ei hun yn dangos mai cyf.iad o'r Ll. ydyw gwallt y ddaear. Y mae hefyd yn dangos mai drwy'r S. o'r Ll. y daeth gwallt Gwener, (o'r NOH mae'n debyg). Peth rhyfedd ydyw i W.S. cyf. hwnnw o'r S. a'r ff. Ll. *capillum Veneris* o'i flaen yn DHS.

Ni raid craffu llawer i weld mai'r un dyfalu sydd tu ôl i'r ff. hŷn gwallt y forwyn, sy'n cyfateb i'r ff.iau Ell. a welir uchod. Daw y cwbl, mae'n debycaf, o ff. Ll. nas gwelais < ? \**capillus virgis*. Y mae NOH uchod hefyd yn egluro y dryswch a fu rhwng *adiantum* a *trichomanes*. Bellach gwallt Gwener a gwallt y ddaear ydyw *adiantum capillus-veneris* a gwallt y forwyn (rhywogaeth y T) ydyw *asplenium trichomanes*.

## GWDEN Y COED

c.c. (Rh) : T

T (tud. 206):

"... Gwden y coet y galwaf vi ani chaphwy enw mwy cyfaddas iddei o bleit yr amplet y cephir ei gwelet yn rhwymo yr caeae ni vedrais i ddyscy gan nep etto vn enw priodol iddei".

Dyna ddangos mai enw gwreiddiol ydyw hwn. Wrth gwrs y mae nifer o enwau cyfanian ar y llysieuyn hwn a rhai eraill sy'n dringo e.e. *cwlwm y coed*, *cwlwm y gwydd*.

GWELLTGLAS : gw. 116.

GUENITH[sic], GWENITH, GWENITH CAMBEREIC, GWENITH GWYN BACH, BARF Y GATH, COCH MAWR, COCH SEISNIC, COCH Y MAES, L1WYT CWTTA, MOELWYN MYNYD[sic], POLARDLIWD

- c.c. (GPC) (gwenith) : 9g. NENNIUS : Hist. Brit.
- c.c. (Rh) (gwenith Cymreig) : T
- c.c. (GPC) (gwenith gwyn) : 1445-75 GG1
- c.c. (Rh) (gwenith gwyn bach) : T
- c.c. (Rh) (barf y gath) : T
- c.c. (GPC) (gwenith coch) : 1455-85 LGC
- c.c. (Rh) ([gwenith] coch mawr) : T
- c.c. (Rh) (gwenith Seisnig) : Ll.G.C. 5280
- c.c. (GPC) (gwenith coch Seisnig) : 16g. (L1EG) Mos 158
- c.c. (Rh) ([gwenith] coch y maes) : T
- c.c. (Rh) ([gwenith] llwyd cwta) : T
- c.c. (Rh) ([gwenith] moelwyn mynydd) : T
- c.c. (Rh) (gwenith polard) : Ll.G.C. 5280
- c.c. (Rh) ([gwenith] polardlwyd) : T

GPC:

"gwenith [Crn. gwaneth (hŷn gwenith), Llyd. Diw. gwinizh (cf. Gwydd. C. cruithnecht 'ŷd,grawn' Gwydd. Diw.

*cruithnea* ht 'ŷd, gwenith') : < Clt. \**uonikto-* (h.y. yr hyn a ddisgyn wrth nithio) o'r gwr. \**neik-* 'nithio grawn', fel yn y Cym. *nithio*, Llyd. *niza*; tebyg mai o olygu 'grawn', y lledodd y gair *gwenith* i olygu 'ŷd sy'n tyfu', yn union fel y datblygodd y S. *wheat* 'grain' (o'r un gwr. â *white*) i olygu 'ŷd ar ei dyfiant'. Am y cynnig i gysylltu *gwen* 'white' â'r elf. flaenaf yn y gair, y mae absenoldeb *nn* ynddo braidd yn erbyn hynny]".

Ceir y S. *white wheat* a *red wheat* yn cyfateb i *gwenith gwyn* a *gwenith coch*; hwyrach fod fynhonnell Ll. yn cyff. iddynt. Estyniad arnynt ydyw *gwenith gwyn bach*, *coch mawr*, *coch y maes*, *coch Seisnig*, ond ni lwyddais i ganfod cyfatebion i'r rhain mewn ieithoedd eraill. Bnth. o'r S. *pollard wheat* ydyw *gwenith polard*. Ystyr *pollard* ydyw 'moel' sef 'heb gol'. Estyniad C. arno ydyw *polardllwyd*. Ac enw gwreiddiol C., hyd y gwelaf, yn cyfleu yr un nodwedd, sef 'heb gol', ydyw *moelwyn mynydd*. Mae'n debyg mai cyf. iad o'r cyfystyr S. *catlocks* (DEPN d.g. *ERIOPHORIUM VAGINATUM*) ydyw *barf y gath*. Methais â chael hyd i ddim yn cyfateb i'r ff.iau eraill. Am y gair *llwyd* yn *llwyd cwta* a *polardllwyd*, rhaid cofio mai 'brown' fyddai'r cyfatebol arferol cyfoes amdano yma (cymh. â *papur llwyd*). Y mae *gwenith Cymreig* o ran ei ystyr, yn cynnig ei hun fel ff. wreiddiol C.. Am ymdriniaeth ychwanegol gw. LLM (tud. 168-169).

124

#### GWENITH Y GŌG

c.c. (Rh) : T (trn.), D.D.

Rhan o'r un dyfalu ydyw hwn ag a berthyn i'r enw *gwenith y brain* (*sedum anglicum*). Ac yn ateb i hwnnw Ceir yr enw Ff. *pain*

*d'oyseau* (DHS tud. 12b) a'r *S. bird's bread* (DEPN d.g. SEDUM ACRE) - dau ff. o'u cyf. sy'n rhoi 'bara'r aderyn'. Yn bendifaddau y mae hyn yn awgrymu i mi bod ff. Ll. cyff. yn hanfod i'r enwau hyn. Enw ydyw hwn ar *ranunculus ficaria*. Y mae ei 'wreiddiau' yn gnapiâu bychain fel grawn gwenith nid yn amhebyg i 'ddail' *sedum acre/anglicum*.

125

GWENYNDdAIL, GWENYNLLYS, CAM WENYNLLYS, IAWN WENYNLLYS, GUENYNOC, GWENYNOC

c.c. (Rh) (gwenynllys) : Ll.B.14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (y gweddill) : T

T (tud. 141):

"*Apiastrum* yn Llatin, ... ac os ynte yn ol ystyr a synwyr y gair Groec ne'r Llatin yr enwn y Gwenynllys neir Gwenynddail neu Guenynoc[sic] y gallwn ei alw./".

Trosi synwyr yr enw clas. felly a wnaeth W.S. i gael yr enwau hyn. Yn amlwg ni wyddai i hynny gael ei wneud eisoes i roi yr enw *gwenynllys*. Fel y dengys y T (tud. 141-142) yn dilyn W.T. y lluniwyd y ddau ff. est..

126

GWINWYDd, GWINWYDdEN, GWINWYDdEN DduY, GWINWYDdEN RYWIOC, GWINWYDdEN WENN, GWINWYDdEN WENN

c.c. (GPC) (gwinwydd) : 13g. T[aliesin]  
c.c. (Rh) (ff.iau eraill) : T

GPC:

"gwinwydd,-en [gwin + gwŷdd(en)]".



T (tud. 51):  
"Vitis vinifera ... Y Winwydden rywioc yn Camberaec./".

T (tud. 58):  
"Vitis alba ... y winwydden wenn ... yn Camberaec./".

T (tud. 60):  
"Vitis nigra ... Y Winuydden[sic] Dduy yn Camberaec./".

Cyf.'r ff.iau Ll. a nodir uchod (o DHS) a wneir ym mhob achos.

GWIR ... : gw. dan yr ail elf..

127

GWLYDD, GWLYDD MAIR

c.c. (GPC) (gwlydd) : 14g. GDG  
c.c. (Rh) (gwlydd Mair) : T

GPC:

"gwlydd<sup>2</sup> [yr un yw'r tarddiad â gwlydd<sup>1</sup>, Crn. glêdh (Lhuyd), H. Lyd. *gul(a)ed*, Llyd. Diw. *gleizh*, *glueiz*, *gleys*, *gley* 'pimpernel', H. Wydd. *flid* 'chickweed']".

"gwlydd<sup>1</sup> [ < Brth. \**ylido-* o'r un gwr. \**uel-*, *ulei-* 'dymuno, dewis' ag a welir yn *gwledd* ac yn yr e.p. Gal. *Vlido-rix*, cf. yr e.p.b. *Rieingulid* ( $\equiv$  *Rhieinwlydd*) 'regina pudica', VSB [194]]".

*Stellaria media* ydyw gwlydd y T. Hwn hefyd ydyw'r planhigyn a ddynodir â'r ctr. Gwydd. *flid* (sef *chickweed* GPC). Dengys gogwydd y T (gw. tud. 9) na bu gan W.S. law yn llunio'r ff. est. gwlydd Mair. Methais innau â dyfod o hyd i unrhyw gyfateb i'r enw mewn iaith arall. Am ddyfalu Mair gw. 52.

GWREIDDYN : gw. 215.

GWYDD Y MEFYS : gw. 170.

GWYDD Y SYFI : gw. 232.

GWYDD YR EGROES : gw. 92.

128

GWYDDWYDD

c.c. (Rh) : LLYFR COCh

GPC:

"gwyddwydd [g<sup>w</sup>ydd<sup>3</sup> + gw<sup>ŷ</sup>ddl]".

"g<sup>w</sup>ydd<sup>3</sup> [ <\*g<sup>w</sup>wydd, H. Grn. *guit-* yn *guitfil*, gl. *fera*, H. Lyd. *guoid*, *guoed* 'gwyllt', Llyd. C. *goez*, Llyd. Diw. *gouez* 'gwyllt', H. Wydd. *fiad* 'anifeiliaid gwyllt, ceirw; tir heb ei drin', *fiata* 'gwyllt, heb ei ddoffi' : < IE. \**uei-d-* o'r un gwr. \**uidhu-* 'gwydden, coeden' ag a welir yn gw<sup>ŷ</sup>ddl]".

"gw<sup>ŷ</sup>ddl [H. Grn. *guiden*, gl. *arbor*, Crn. C. *guethen*, *gueyth*, H. Lyd. *guid*, Llyd. C. *gwezenn*, *gwez*, Llyd. Diw. *gwezenn*, *gwez*, H. Wydd. *fid* 'pren, coeden; coedwig', Gwydd. Diw. *fiodh*, Gal. *Vidu-casses*, o'r gwr. \**uidhu-* 'coeden' fel a welir yn S. *wood*]".

Yn y pen draw felly yr un elf. ddwywaith sydd yma. Ceir enw tebyg yn y Gwydd. sef *cas fa chrann*, 'yr un sy'n plethu o gwmpas y coed' (GNP tud. 47 d.g. *Lonicera periclymenum*). Hefyd ceir enw S. sy'n golygu yn union yr un peth â'r enw Gwydd. hwnnw sef *woodbine*, *woodbind* ac yn yr OED d.g. hwnnw rhestrir ff.iau ctr.

mewn ieithoedd eraill Ell. e.e. Daneg, Norwyeg.

129

#### GWYNDdAIL

c.c. (Rh) : T

T (tud 241) :  
"... Leucophyllon sef y Gwynddail...".

( GEL :  
d.g. λευκός : gwyn.  
d.g. φύλλον : deilen. )

Cyf.iad syml sydd yma felly.

130

#### HAD Y GRAMANDI

c.c. (Rh) : G.W.S. (ff.: had y grymandi)

Yn bur sicr cofnodi ff. lafar a wneir yma. Yr enw clas. ar y llysieuyn ydyw *lithospermon* (gw. T tud. 140). Yn δl yr OLD y Gr. gwreiddiol ydyw *λιθόσπερμον* sef (yn δl GEL) λιθός 'carreg'+σπερμον 'had'. (Cyf. y ff. hon a roes *maenhad* : gwaith T. ap W. (PEN. 228) yn δl pob tebyg).<sup>2</sup> Mi gredaf mai'r σπερμον hwn rywfodd, a ychwanegodd yr *had* at y *gramandi*. Ond ni allaf synio beth ydyw tras *gramandi*. Byddwn yn greddfoll dybio o'r sain mai gair bnth. o'r S. neu drwy'r S. ydyw (cymh. â *grwndi*). Diau mai'r un elf. ydyw'r *gram-* a'r S. *grom-* yn *grom(w)ell*, ond ni ŵyr yr OED (d.g. *Gromwell*) beth ydyw'r elf. honno.

## HAIDD, HAIDD COLIOC, HAIDD MERLYS

c.c. (GPC) (haidd) : c.1200 L1DW  
 c.c. (Rh) (haidd coliog) : Ll.G.C. 5280, G.W.S.  
 c.c. (Rh) (haidd merlys) : T

## GPC:

"haidd [Llyd. *heizen(n)* 'gronyn haidd', *heiz*: < IE. \**sasjo-* 'cynnyrch y meysydd', Sans. *sasyā-m* 'cynnyrch y meysydd']".

Hefyd gw. "Notulae Etymologicae Cymricaе" ym B, XXVIII (tud. 213-7).

Yn Ll.G.C. 5280 ceir *haidd coliog* yn y rhan o'r llsgr. sy'n cyf.iad o'r *Book of Husbandry*, Fitzherbert, (Llundain, ? 1523). O edrych ar y *Book of Husbandry* gwelir fod *haidd coliog* yn cyfateb i fath ar haidd a elwir yn *longe-eare* 'hir-dywysen'. Hawdd gweld felly nad cyf. o'r S. a roes y ff. hon. Ac felly ymddengys fod *haidd coliog* yn enw cysefin C.. Ac â'r T i'r drafferth i egluro y rheswm dros yr enw:

## T (tud. 125):

"Y rhyw yn Gwynedd a elwir yn haidd colioc erwydd im tyb vod yn hwy ac yn arwach ei col."

Am yr ail ff. est. daw'n hysbys o'r T (tud. 125-126) nad ffurfiant W.S. 'mohono gan ei fod yn dweud fod yr enw yn cael ei ddefnyddio'n 'gyphredin'.

## D.D. :

"Merlys, *Herba aquatica*."

Yn y D.D. ymdrinir ymhellach â'r elf. *mer-* (gw. 175). Dywedir mai at bethau hylifol y cyfeiria. Sut bynnag ni deuthum o hyd i

gyfateb mewn iaith arall i'r ff. est. hon. Ni allaf ddweud ychwaith beth yn hollol a olygir â'r gair *merlys* yma.

HANERPÁN : gw. 193.

HELEBOR : gw. 97.

132

HELYGEN

c.c. (GPC) : 12g. LL

GPC:

"helyg<sup>l</sup> [H. Grn. *heligen*, gl. *salix*, Llyd. *haleg(enn)*, H. Wydd. *sail* (gen. *sailech*), Llad. *salix* o'r gwr.\**sal(i)k-* 'helygen']".

Gellir ychwanegu'r *S. sallow* at hyn.

133

HENBAEN, HENBAN, HENBÂN, HENBAYN, HENBAYN DUY, HENBAYN GWŶN, HENBAYN MELYN, LLEWYC YR IAIR

c.c. (Rh) (henban) : PEN. 204, PEN. 326

c.c. (Rh) (llewyg yr ieir) : T

c.c. (Rh) (ff.iau e'ist.) : T

OED:

d.g. Henbane: Gair cyfansawdd o *hen* 'iâr' a *bane* 'lleiddiad'.

Y mae'r Ff. yn bnth. yr enw hwn o'r *S.* yn ogystal â'r *C.* (gw. DLF d.g. HANEBAE). Ac y mae'n ddigon posibl mai cyf.iad o

*henbane* ydyw *llewyg yr iair*. Eto nid ydyw'n cyf.'n hollol. Gall yn hawdd fod yn enw annibynnol yn disgrifio'r un nodwedd ar y planhigyn (yst. y Ff. *la morte aux poule*). Beth bynnag nid dyfais W.S. 'mo *llewyc yr iair*, fel y gwelir o ogwydd y dweud yn y T.:

T (tud. 236):

"Eithyr ei geilw rhei o ein iaith ni yn *Llewyc yr iair*: ...".

DHS (tud. 281a):

"DE HYOSCYAMO. ...

GENERA.

*Niger Hyoscyamus. Flauus. Albus. [ar yr ymyl]*".

Am y ff.iau est., y maent ill tri fel y gwelir yn hanfod o DHS.

134

HESC MELFEDOC

c.c. (GPC) (hesg) : 12g. LL

c.c. (Rh) (hesg melfedog) : T

GPC:

"hesg [H. Grn. *heschen*, Llyd. Diw. *hesk*, Gwydd. *seisc*, *seisceann*, ? o'r gwr. \**sek-* 'torri' (oherwydd y dail miniog, cf. H.S. *secg* 'sword; sedge')]

Dyfalw digon dealladwy, ond ni chanfom gyfateb o gwbl mewn iaith arall (cymh. â'r enw arall ar yr hesgen hon : *coc melfed* (ar lafar)). Fodd bynnag y mae yn y S. enwau sy'n defnyddio *melfed* (gw. 80). A gallai hynny awgrymu mai o'r S. y daeth y syniad tu ôl i'r enw os nad o'r iaith honno y daeth yr enw ei

hun.

135

HOCKYS, HOCKYS BENDIGAID, HOCKYS DOF, HOCKYS DOFION, HOCKYS GARDdAE, HOCKYS GERDdI, HOCKYS GWYLTION [sic], HOCKYS GWYLT, HOCKYS GWYLT ADDWYN, HOCKYS GWYLT ISEL, HOCKYS GWYLTION, HOCKYS GWYLTION VChEL, HOCKYS Y DWFYR, HOCKYS Y GARDdAE, HOCKYS Y GARDdAE, HOCKYS Y GORS, HOCKYS Y MÔR, HOCKYS YR MÔR, HOLIHOK

c.c. (Rh) (hocys) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (GPC) (hocys) : 14g. R  
c.c. (Rh) (hocys bendigaïd) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (Rh) (hocys y môr) : Ll.B. 14912  
c.c. (Rh) (holihoc) : Ll.B. 14912  
c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

GPC:

"hocys [bnth. S.C. *hockes* 'mallows' ( > S. Diw. (*holly*) *hock(s)*); Gwydd. (*h*)*ocas*, *acas*]".

OED:

d.g. *Hock* : O'r ff. H.S. *hoc* o darddiad anhysbys, a nodir mai o llu. hwnnw, sef *hockes* y tarddodd y ff. C. *hocys*.

d.g. *Hollyhock* : Enw cyfansawdd o *holy* 'sanctaidd' + *hock* 'hocys' i'w cymh. â'r ff. C. *hocys bendigaïd* sy'n ymddangos yn cyf.iad o Ll.C. *malva benedicta*.

Ni welaf le i amau barn yr awdurdodau uchod. Ond ni allaf faddau rhyfygu awgrym pellach, er prinned fy .ngwybodaeth, ac er perycled hynny.

OED:

d.g. *Oak* 'derwen' : Ymhlith y ff.iau ceir *ooc*, *ok*, *ook*, *hoke*, *hooke*.

Sylwer ar ff.iau *hocys*, yn Ll.B. 14912 sef *okys* ac *okys bendigeit*. (Bûm yn anghyson wrth eu gosod yn Rh, rhoddais "[h]" o flaen yr ail yn unig). Sylwer hefyd fod yr elf. *derwen* yn elf.

drosiadol mewn enwau planhigion. Ceir e.e. *derwen fendigaid* (*verbena officinalis*) a *ceginderw* (*veronica chamaedrys*) a'r enw S. cyfatebol *ground oak* (*veronica chamaedrys*) a'r enw cyfatebol Gr. *χαμηλόβυσ* (*veronica chamaedrys*) (gw. OED d.g. Germander sy'n rhoi y tras hyn iddo: *Χαμικύ* 'daear' + *βύσ* 'derwen'). Oni ellid felly dybio mai'r un gair ydyw'r geiriau S. *hock* ac *oak* yn y pen draw?

Ô.N. Tybiais y gellid casglu rhyw gysylltiad rhwng *derwen fendigaid* a *hollyhock* a'u bod er nad ydynt yn cyfeirio at yr un llysiuyn o dras cyff. megis \**quercus benedictus*. Byddai hynny'n gadarnhad pellach o'm damcaniaeth mai'r un ydyw *hock* ac *oak*. Eto y mae c.c. *derwen fendigaid* yn Ll.B. 15045 (sef tua 1500) yn rhy ddiweddar i'r ddamcaniaeth mae'n debyg, ac felly'n dueddol i awgrymu y gallai fod *derwen fendigaid* un ai o dras cwbl wahanol i *hollyhock* neu'n gam-cyfiad ohono.

O droi at y ff.iau est. y mae c.c. *môr* yn dangos fod hwn ar gael cyn y T. (Ni wn a oes tras pellach Ll. iddo).

DHS (tud. 174a):

"DE MALACHE. ...

GENERA.

... Vna enim hortensis, altera sylvestris Malua dicitur."

Dyna o'u cyf. a roes *hocys dof*, *hockys dofion*, *hockys garddae*, *hockys gerddi*, *hockys gwyllt*, *hockys gwylltion*.

DHS (tud. 175a):

"Sylvestris altior folio magis lacinato nascitur ...

Sylvestris pumila ... Arborescens auté ..."

Dyna yn eu trefn y ff.iau Ll. a roes o'u cyf. *hockys gwyllt addwyn*, *hockys gwyllt isel*, *hockys gwyllt uchel*.



NOH (tud. Avij):

"*Althea*.

... marish mallowe or water mallowe, ...".

Yma y cafwyd *hockys y gors* a *hockys y dwfyr*.

136

HORHOWND

c.c. (Rh) : T, W.L.B., PEN.207

OED:

d.g. Horehound hoarhound: Gair cyfansawdd *há*r  
'blewog' + *hune* 'llysieuyn'. Ystumiodd tyb gwlad yr ail  
elf. yn *hound*.

Bnth. S. yn ei grynswth, ac eithro am droi -u- yn -w-.

HUB[sic] YR YChEN ... : gw. 45.

HYSSOP : gw. 252.

IAWN ... : gw. dan yr ail elf..

137

LAUAND BENYW, LAUAND GWR RYW, LAUAND LIEIAF, LAUAND SPEIK,  
LAUANDER COTTON, LAUANDR, LAUENDL [cywirwyd LAUANDL]

c.c. (Rh) (lafandr) : L1.B. 14912, HAFOD 16 (ff:  
*lauander/lavender, lauandyr*)

c.c. (Rh) (lafant) : L1AN. 10 (ff.: *lauent*)

c.c. (Rh) (lafender coton) : T, W.L.B.

c.c. (Rh) (ff.iau eraill) : T

148

OED:

d.g. Lavender: Daeth i'r S. o Ff. Lloegr *lavandre* o'r H.Ff. *lavandre*. Daeth hwnnw yn ei dro o'r Ll.C. *lavendula / lavandula / livendula / livendola*. (Nodir yma ff. Ff. arall *lavande*). Y mae ansicrwydd yn glŷn ag union darddiad ac ystyr yr enw. Nodir damcaniaeth sy'n honni y gallai fod cyswllt rhwng y gair a'r Eid. *lavanda* 'golchi'; ond nis derbynnir. Sonnir hefyd am berthynas posibl â'r ferf Ll. *livere* 'bod yn llwydlas'. Rhoddir pump o ff.iau S. ar yr enw: *lavendre, lavendere, lavender, lavender, lavand*.

Nid ydyw'n hawdd dweud yn hollol fod y cyfan o'r ff.iau C. wedi ei bnth. o'r S.. Dim ond un cofnod hŷn sydd o'r gair yn yr OED na'r c.ion c. uchod, a *lauendre* ydyw hwnnw. Yn sicr geill fod y terf. *-der/-dyr* yn cynrychioli bnth. S., er hynny y mae'n hŷn yma nag mewn unrhyw gofnod o *lavander/lavender* yn yr OED. Y mae posibl rwydd bod mymryn o ddylanwad Ff. (Ff. Lloegr) yma, ac y bu trawslofffa yn hanes y gair/geiriau o'r S. a'r Ff.. Y mae'n amhosibl dweud yn iawn.

Bnth. syth o'r S. ydyw *lauandr cotton*, gwelir yr enw fel S. ac fel C. ar tud. 5.

T (tud. 251):

"... Pseudonardum marẽ sef y Lauand gwr ryw : Llatinwyr y dom ar llysewyr cyphredin ai lleisenwant *Spicam* sef Lavand speik ... Pseudonardum foemininum[sic] sef y Lauand benyw./ ... Lauandulam, y Lauendl/".

DHS (tud. 301a):

"DE PSEUDONARDO. ...  
GENERA.

Pseudonardum mareꝑ ... vulgus herbariorum Spicam ...  
nominant ... Alterum ... Pseudonardum foeminam ...".

Yma y cafwyd y tri ff. est.. Ni allaf esbonio ychwaith pam y dewisodd W.S. ddefnyddio *speik* Seisnig yn lle *spic*.

## LAMPSAN

c.c. (Rh) : T

DHS (tud. 224b):  
 "DE RAPHANO. ...  
 FORMA.  
 ... ad lampsanę formam ...".

Bnth. uniongyrchol o'r Ll. gan W.S..

LEWGWŶN[sic] : gw. 144.

LENS : gw. 213.

LETUS : gw. 249.

## LILI

c.c. (GPC) : 13g. Brut B, 1346 LLA (ff.: *lylyum*, *lili/lilys*)

c.c. (Rh) : HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *lilys*, *liliwm*)

OED:

d.g. Lily : Bnth. o'r Ll. *lilium* a ddaeth yn ei dro o'r Gr. *λείριον*. Ni chynigir tras pellach i hwnnw. (Dywedir i'r gair gael ei bnth. o'r Ll. i bron y cyfan o ieithoedd Ewrob).

OLD:

d.g. *lilium* : Fel y Gr. *λείριον* o dras y tu allan i I.E. yst. y Coptig *hrêri*, *hlêli*.

GEL:  
d.g. λείριον : Nodir perthynas y ff.iau Gr. a Ll..

DELG:  
d.g. λείριον : Efallai'n bnth. o'r Ll. *lilium*.

Nodais ddau c.c. o'r Rh hefyd uchod er eu bod yn ddiweddarach na c.ion c. GPC. Gwneuthum hynny er mwyn ychwanegu'r dystiolaeth fod yma drawslofffa wedi bod o'r S. a'r Ll.. Fel y gwelir y mae dwy engh. uchod yn cynnwys llu. S., a dwy yn cynnwys terf. Ll.. Eto rhaid dweud mai o'r S. y daeth y dylanwad cryfaf o bell yn achos yr enw hwn. Sylwer mai y llu. arferol mewn C. modern ydyw *lilis*. Am drafodaeth ar y bnth. hwn o'r S. gw. EEW (tud. 135, 140, 231).

140

LOUAEDS, LOUAETS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *louage*)

T (tud. 216):  
"... Louage yn Sasonaec ac ni wn i ddim anid Camberaec venthic mal y mae'r ieithoedd yr eill y gan ei gylydd".

Dyna ddangos traſ y gair, ond gwelir o'r c.c. ei fod wedi bnth. ymhell cyn oes W.S..

OED:  
d.g. Lovage : Daeth y gair drwy lawer o ystumio ieithyddol drwy'r Ff. o'r Ll. *levisticum*. Credir mai llygriad ydyw hwnnw o'r enw *ligusticum*; enw yn seiliedig ar enw lle, Liguria.

## LORYF

c.c. (Rh) (loryf) : T  
 c.c. (Rh) (lori) : PEN. 326

## OED:

d.g. *Laury* : ? o'r Ll. *laurea* (ff. ben. *laureus*)  
 sef ans. yn cael ei ddefnyddio i ddynodi'r goeden.

Bnth.wyd y S. *laury* fel y dengys PEN. 326. Aeth W.S. ati i'w adff.io drwy edfryd -y ac ychwanegu -f ato; cymh. â *bof* am *bo* (T tud. 19) a *daf* am *da* (T tud. 214). Yn ôl AWG (tud. 178) ffug-arfer llenyddol a godasai o'r ynganiad *tre* am *tref*, ydyw ychwanegu -f fel hyn.

## LUPIN, LUPINES, LUPINES DOF, LUPINES GWYLIT

c.c. (Rh) (lwpin) : C.M. 1 (ff.: *lupinus*)  
 c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

## OED:

d.g. *Lupine, lupin* : O'r Ll. *lupin-us, lupin-um*.

## OLD:

d.g. *lupinus*<sup>1</sup> : Rhywbeth a wnelo â blaidd.

O'r Ll. y cafwyd y c.c. fel y gwelir o'i terf. Ll.. Ac yn sicr o'r Ll. y daeth *lupin* y T (tud. 206). Ond nid hynny 'mo'r achos gyda'r gair *lupines* sy'n cynnwys llu. S. ynddo:

T (tud. 107-8):

"... yn Saesonaec *lupines* ac yn Gamberaec nid oes gan i  
 †n henw arrall etto".

Atodiad ydyw pennod y *lupine*- (tud. 107-9) gan law ddiweddarach (hanner cyntaf yr 17g.). Heblaw am y dyfyniad uchod, cyf.iad ydyw o'r NHHP. Oddi yno felly y cafwyd y ff.iau est..

LAETH[sic] YSCALI ... : gw. 249.

LIAFRWYN : gw. 25.

143

LIAULYS, POERLYS, POERLLYS

c.c. (Rh) : T

T (tud. 220):

"... Herba pedicularis et Pitintaria[sic] yn Llatin sef y Llaulys ne y Poerlys ydyw yr geiriae hynny yn Camberaec: ...".

( OLD:

d.g. pediculus : lleuen.

d.g. pituita : poer. )

O'r Ll. felly y cafwyd y rhain.

144

LLEWGWYN, LLEWGWŶN, LLEWGWYN DOF, LLEWGWYN GWYLLT, LEWGWŶN[sic]

c.c. (Rh) (llygwyn) : Ll.B. 14912 (ff.: *llygwyn*)

c.c. (Rh) (llewgwyn) : PEN. 326 (ff.: *llew gwynn*)

c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

Tyb gwlad, hyd y gwelaf, sy'n gyfrifol am y ff. *llewggwyn*.  
*Llyggwyn* ydyw'r ff. ddilysaf. Yn sicr *gwyn* ydyw ail elf..  
Awgrymaf mai *llug/lleu* ydyw'r elf. gyntaf, yr un elf. ag yn  
*golau, lleufer, llygad, golwg, amlwg, bulwg*, (gw. AWG tud. 157) a  
cymh. â *llygaeron (vaccinum oxycoccus)*. Felly dwy elf. led agos  
eu hystyr fyddai yma. Cofier mai planhigyn ydyw â'i ddail oddi  
tanynt yn llwydaidd, ac y mae math ar bowdriach gwelw hyd-ddo.

DHS (tud. 45a):  
"DE ATRAPHAXI. ...  
GENERA  
... *satinua seu hortensis, & sylvestris* ...".

Oddi yma y cafwyd y ff.iau est..

LLEOPARD-DAC : gw. 16.

LLEWYC YR IAIR : gw. 133.

145

LIIN, LIINDRO, LINHAD

c.c. (sGPC) (llyn) : c.1200 L1.D.W. (ff.: *llyn*)  
c.c. (sGPC) (llindro) : G.W.S.  
c.c. (Rh) (linhad) : HAFOD 16, LLYFR COCh.  
(Collwyd o'r Rh y *llindro* yng G.W.S.)

OED:

d.g. Line : Hanodd o'r Ll. *linum* neu y mae'n ctr. ag  
ef. Rhoddir engh.iau o'r un gair yn ymddangos mewn nifer  
o ieithoedd Ell. eraill.

OLD:

d.g. *linum* : Ctr. â'r Gr.  $\lambda\lambda\upsilon\upsilon\upsilon$  , ond nid oes tras

pellach yn hysbys.

Ymddengys i mi bod y gair C. *llin* yn meddu ar yr un tras â'r S. *line* sef ctr. â'r Ll. *linum* neu'n hanu ohono. Y mae'r enw *llindro* sef *llin+tro* yn disgrifio'r anian sydd gan y llysieuyn hwnnw o estyn llinynnau o dyfiant i wau amdan y planhigyn a rydd fagwraeth iddo. (Erbyn heddiw byddwn i'n arfer yr enw *llindro* ar *spergula arvensis*).

146

LIIWLYS, LLYSAE LLIW

c.c. (Rh) : T

T (tud. 230):

"Tinctorius flos yn Llatin ... y Lliwlys ne yr Llysae lliw yn Camberaec."/

( OLD:

d.g. tinctura : llifo.

d.g. flos : blodeuyn. )

Gan hynny cyf. o'r Ll. a roes yr enwau hyn.

LlWYD Y DfN : gw. 240.

147

LlWYNHYDYDD

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *llwynhidell* / *llwynhidydd* / *llwynhydydd*)



Hawdd ydyw dehongli'r elr. gyntaf *llwyn*, gydag ystyr ychydig yn ehangach na'r hyn ydyw bellach. Am yr ail elf. anodd ydyw gwybod pa ff. sydd nesaf ati. *Hidydd* ydyw'r mwyaf cyff. yn y Rh, ac er nad ydyw *hydydd* yn cyff.y mae gyda'r hynaf, ac y mae *heiddid/heiddid* yn eithaf hen. Y mae'r enw hwn yn fyw ar lafar i mi, mewn ff. wedi ei llygru gan dyb gwlad : *dail llwyn hidil*. Enw ydyw ar *plantago coronopus*, gyda'r dyb fod y dail sy'n fforchiadau mân yn gwneud siap hidl. O edrych ar y T (tud. 19) sylwir mai *plantago lanceolata* y cyfeirir ato â'r enw. Yn EBL1Ch (tud. 79, 84) ceir yr enw hwn ar y ddau blanhigyn. 'Dau enw S. ar *plantago coronopus* ydyw *buck's horn plantain* a *hart's horn plantain* 'plantan corn yr hydd'. O sbio ar yr enwau yma, ydyw rhywun yn bell o'i le yn gweld y gair *hydd* yn *hydydd*? (O dderbyn hynny rhaid fyddai derbyn mai *plantago coronopus* fyddai'r *llwynhydydd* gwreiddiol).

148

LLYM Y LLYGAID

c.c. (Rh) : Ll.B. 15045, PEN. 326

Cyfeiriad amlwg ydyw'r enw at arfer sug y planhigyn at glefydau llygad. Sonnir am ei werth yn y maes hwnnw yn y T (tud. 248).

Llyriad ... : gw. 99.

LlYSAE CYFOC, LlYSAE/R/CYFOC, LlYSAE YR CYFOC, LlYSEU YR GYFOC,  
CYFOC

c.c. (Rh) : PEN. 326, Ll.B. 15045 (ff.: *llysse i beri kybod, llysier kyvod*)

T (tud. 130):

"Y rhinweddae

Chwech nei saith or grawn o chymerir ar ddiod ne ei llyncu yn oerion gyd a Carwy ne ei bwyta ac yfed dwfr yn ei ol a garthant y boly./ Wy garthant allan hefyd y phlem ar dwfr afiach."/

Ceir yn y T (tud.129) hefyd yr enw S. *spurge* ar y llysieuyn.

OED:

d.g. *Spurge* sb<sup>l</sup> : Bnth. H.Ff. *espurge*.

d.g. *Spurge* vb<sup>l</sup> : Drwy'r Ff. o'r Ll. *expurgare*.

OLD:

d.g. *expurgo* : Glanhau, carthu, puro.

Dengys hwn y rheswm dros yr enw a bod enw cyfanian iddo yn S. a Ff.. Mae'r enw mae'n debyg yn tarddu o arfer y byd clas..

LlYSAE EPhROS ... : gw. 104.

## LlYSAE GWYDdELIC

c.c. (Rh) : HAFOD 16

Anodd ydyw egluro'r enw hwn. Ni welaf sut y byddid wedi cysylltu'r llyisiau ag Iwerddon. Y mae defnyddio *Ffranic/Ffrengig* yn ddyfalu mynych yn achos rhywbeth estron (gw. 59). Oni allai *Gwyddelig* fod yn derm hefyd i ddynodi rhywbeth estron? (Yst.

*bwyta fel Gwyddel sef bwyta'r pwdin o flaen gweddill pryd h.y. gwneud rhywbeth estronol).*

151

#### LLYSAE IEUAN

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *llyssiewyn Ieuan*)

T (tud. 24):

"... llysaе Ieuan nid amgenach na'r llysaе a seing y merchet nos wyl Ieuan ym bondo y tai er mwyn rhyw hen goec ddefot./".

DHS (tud. 16b):

"DE ARTEMISIA. ...  
NOMINA.

... Germanis ... S. Iohans gurtel ... Gallicè ... *l'herbe de saint Iehan* ...".

GNP (tud. 54):

d.g. *Artemisia vulgaris* : Rhoddir yr enw Manaweg *bollan feaill-Eoin* 'llysieuyn Gwyl Ifan'. Dywedir y'i defnyddid rhag grymoedd drwg ar nos Wyl Ifan, drwy ei wisgo yn daleithiau ar bennau pobl ac anifeiliaid.

Y mae'r enw C. a Manaweg yn ogystal â'r enwau Ff. ac Alm. (o DHS), yn gwbl gyfanian. Yn yr EF rhoddir engh.iau pellach ar yr un trywydd : Ff. *couronne de Saint-Jean*, Alm. *Johannis-kraut*. Traethir yno hefyd am gysylltu'r llysieuyn yng Nghymru, Lloegr ac Ynys Manaw â swyngyfaredd. Enw Ll. sy'n hanfod cyff. iddynt yn bendant. Er na welais 'mo hwnnw gellir amcanu mai rhywbeth megis *herba Iohanis* oedd. (Cofier hefyd y gallai'r enw S. *St-John's wort* fod yn perthyn i'r rhain. Ond enw ar blanhigyn arall ydyw hwnnw).

LlYSAE LLIW : gw. 146.

152

LlYSAE LlWYD, LlYSAE LlWYDION

c.c. (Rh) : PEN. 204, PEN. 326, Llan. 10

Ceir enw cyfystyr yn yr Alb. a'r Gwydd. : L (d.g. *Mugwort*):  
*liathlus*; GNP (tud. 54, d.g. *Artemisia vulgaris*): *liathlus*.

LlYSAE MAIR : gw. 117.

153

LlYSAE PENNAE/R/TAI

c.c. (Rh) (llyisiau'r tai) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (Rh) (llyisiau pennau'r tai) : PEN. 204 PEN. 205

Yn yr EF (tud. 198 d.g. *Houseleek*...) sonnir fod yr hen awduron clas., Theophrastus a Dioscorides, yn cyfeirio at blannu'r llyisiau hyn ar do. Yst. yr enwau *Manaweg lus-y-thie* (GNP tud. 37 d.g. *Sempervivum*[sic] *tectorum*) a'r S. *homewort* (DEPN d.g. *SEMPERVIVUM TECTORUM*), ill dau yn gyfystyron (fwy na heb) i *llyisiau'r tai*. Noda EF hefyd bum iaith Ell. heblaw'r S., sy'n meddu ar yr elf. tŷ mewn enwau ar y llysieuyn hwn.

LlYSAE POTTES : gw. 78.

LLYSAE/R/CRIBAE : gw. 68.

154

LLYSAE/R/CRYMAN

c.c. (Rh) : HAFOD 16

Y mae *sickle-wort* yn gyfystyr S. i'r enw hwn. Efallai mai cyf. hwnnw a wnaethpwyd, neu hwyrach fod Ll. cyff. yn gychwyn i'r ddau enw. Am gyfeiriadau at yr enw S. gw. yr OED, EF (tud. 346 d.g. *Self-heal*) a DEPN (tud. 430).

LLYSAE/R/CYFOC : gw. 149.

LLYSAE/R/GWAEDLIN : gw. 67.

155

LLYSAE/R/HITL, LLYSAE YR HITL

c.c. (Rh) : PEN. 326

T (tud. 27):

"Bugeilieit hefyd gynt a arferai o hitlo llaeth drwyddo ac am hynny y galwyt Llysae yr hitl./".

NH (tud. Diii):

"The shypherdes vse it in the stede of a strayner to pull oute heres of the mylke".

Noder bod gwahaniaeth rhwng y T a NH, er bod y T yn ymwybodol o'r NH. Gwelir fod y T yn trafod yr arfer o hidlo yn y

gorffennol. Hefyd dengys y c.c. nad W.S. a luniodd yr enw. Dywed yr EF (tud. 369) fod Dioscorides yn dweud y defnyddid y planhigyn i hidlo : felly mae'n sicr mai o dras clas. y daw'r enw hwn.

L1YSAE/R/NEIDR ... : gw. 37.

156

L1YSAE[sic] 'R PARLYS

c.c. (Rh) : T

T (tud. 241):

"... Herba paralysis, sef Lysae[sic]'r parlys, ...".

Fel y gwelir cyf. o'r Ll. a roddod y ff.. Yn yr EF (tud. 286) nodir yr enw S. *Herbe Paralysis* a ddefnyddir yn *The Grete Herball*, 1526. A dywedir fod y llyfr *Regimen Sanitatis Salernitanum* (llyfr o'r oesoedd canol) wedi cymeradwyo'r llysieuyn hwn (*primula veris*) at y parlys. Awgryma EF ymhellach, mai cryndod blodau'r planhigyn oedd efallai'n gymhelliad i ystyried y planhigyn fel meddyginiaeth at y cyfryw glefyd.

157

L1YSAE / R / WENNOL, L1YSAE YR WENNOL

c.c. (Rh) : Ll. B. 14912, L1YFR COCh

OLD:

d.g. Chelidonium : bnth. o'r Gr..

GEL:

d.g. ΧΕΛΙΔΟΝΙΟΣ : gwennol.

d.g. ΧΕΛΙΔΟΝΙΟΝ : llyisiau'r wennol.

Enw Ll. y T ar y llysieuyn ydyw *chelidonium maius* (tud. 247).  
Yn amlwg hen cyf. o ff. clas. sydd yma, (hefyd cymh. â'r S.  
*swallow-wort*).

158

LLYSAE SIMEON

c.c. (Rh) : T

T (tud. 49) :

"... Herba Simeonis sef Llysaе Simeon./".

Cyf.iad o'r Ll. ydyw felly.

LLYSAE YR BLAIDD : gw. 16, 142.

LLYSAE YR CRIBAE ... : gw. 68.

LLYSAE YR CYFOC : gw. 149.

LLYSAE YR GWAEDLIN : gw. 67.

L1YSAE YR HITL : gw. 155.

L1YSAE YR NEIDR : gw. 37.

L1YSAE YR TRYW : gw. 244.

L1YSAE YR WENNOL : gw. 157.

159

L1YSAE YR YSCYFAINT

c.c. (Rh) : T

T (tud. 178):

"... y mae y Llatinwyr yn ei alw Pulmonariam sef yw hynny  
llysaе yr yscyfaint".

Enw sydd yma wedi ei lunio o hanfod y gair *pulmonaria* (sef o  
*pulmo* 'ysgyfaint') : gwaith W.S..

L1YSEU YR GYFOC : gw. 149.

160

L1YSEUN TYL1OC

c.c. (Rh) : T



T (tud. 235):

"Herba perforata sef y Llyseun tylloc y gelwir y llyseun hwn y gyd ar llysewyr cyphredin ...".

( OLD:

d.g. perforo : tyllu. )

Dyma cyf. o'r Ll. felly.

LLYSIAU'R BRONNAU : gw. 24.

161

LLYSSE SIOPAE

c.c. (sGPC) : 1470 GO:Gw

Trosi swete *spice* (NH tud. Aiiii(b)) a wneir â'r enw hwn. Ond ymddengys mai enw cysefin C. ydyw i ddynodi math ar berlyisiau estron na cheid 'mohonynt ond mewn siopau.

162

MAIP, NEP GWYLLT

c.c. (Rh) (maip) : HAFOD 16 (ff.: *meib*)

c.c. (Rh) (nep gwyllt) : T

OED:

d.g. Neep : O'r H.S. *næp* 'meipen' o'r Ll. *napus*. Ceir y ff. *neip* hefyd.

OLD:

d.g. *napus* : Bnth. o'r Gr.  $\nu\alpha\pi\tau\upsilon$  'mwstard'.

Ymddengys i mi mai o'r Ll. *napus* y daeth *maip/meib*. Gallai

fod y ff. sy'n y c.c. fod wedi hanu yn uniongyrchol o'r llu. *napi tra bo maip* yn bnth. drwy'r H.S. uchod. Sutbyñnag rhaid oedd i  $n > m$ . (Y mae engh.iau o'r cytseiniaid hynny'n ymgyfnewid e.e. *macyn* < *S. napkin* (gw. EEW tud. 76)). Yn sicr cyf.iad o'r *S. wild neep* ydyw *nep gwylt*. Ac yr wyf.yn chwannog i amau mai W.S. sy'n gyfrifol am y ff., wedi iddo gael y *S. wylde Neppe* yn y NOH (tud. Bvi).

163

### MAMLYS

c.c. (Rh) : LLYFR COCh

T (Tud. 24):

"... *Matricaria* sef y *Vamlys*..."

Er bod dyfyniad o'r T yn peri i rywun feddwl mai trosiad W.S. o *matricaria* ydyw cychwyn yr enw hwn, dengys y c.c. (a nifer eraill o engh.iau o'r enw) i'r gwrthwyneb. Ond nid oes amheuaeth mai'r ff. Ll. *matricaria* neu gyffelyb a cyf.wyd i roi *mamlys*, (yn ogystal â'r S. cyfystyr *motherwort*). Dywed yr EF (tud. 410) i'r llysieuyn hwn drwy Ewrob gael ei adnabod fel *mater herbarium* 'mam y llyisiau'. Ceir yr enwau *mam y llysseoedd* (PEN. 326) a *mam yr holl lyssieu* (PEN. 184). Ni lwyddais i gael hyd i'r rheswm dros yr enw. Y tebycaf ydyw, i hwn fod yn un o brif lysiau meddyginiaeth ar un adeg, a phriodolid iddo nodweddion lledrithiol. Goleddfir hyn yn yr ymdrin â'r enw arall ar yr un planhigyn gw. 151.

## MANNA

c.c. (Rh) : T

OED:

d.g. *Manna* : O'r Heb. drwy'r Aramäeg drwy'r Gr. drwy'r Ll. *manna* i'r S.. Crybwyllir damcaniaeth draddodiadol ynglŷn â'r ystyr sef ei fod yn hanu o *man hw?* sef 'beth ydyw?' yn Heb., oherwydd fod *manna*'n disgyn yn ddirybudd. Ond gwrthodir y ddamcaniaeth hon.

Cyf. o'r Ll. yr oedd W.S. yn y fan lle ceir *manna*. Y ff. Ll. yno ydyw *manna* (DHS tud. 216a). Bnth. syml ac uniongyrchol o'r Ll. sydd yma felly.

## MANTELL FAIR

c.c. (Rh) : I.10

(Yn y T nid yn llaw R.M. ond mewn llaw arall (o hanner cyntaf yr 17g.) yr ymddengys yr enw hwn).

Cyf.iad ydyw o ff. Ll.. Ni welais 'mo'r ff. honno. Amcanwn mai rhywbeth cyffelyb i *mantellum Mariae* fyddai. Cyf.wyd y Ll. i roi'r S. *Lady's mantle* a'r Alm. *Frauen mantel*, *Marien mantel* (OED d.g. *Lady's mantle*) a'r Alb. *fàlluing Mhuire* (GNP tud. 30 d.g. *Alchemilla vulgaris*). Am ddyfalu Mair gw. 52.

MARCH VEILLION : gw. 171.

MARCh YSCALl GARDdAE, MARChYSCALl, MARChYSCALl DOFION,  
MARChYSCALl Y GARDdAE

c.c. (Rh) : T

T (tud. 222):

"Carduus yn Latin, ne Cinara : Archichok y Sasonaec, a Marchyscall y garddae y galwa vi ef yn Camberaec./ O bleit defot y Groegwyr ar Cambry ydyw dody march ar beth anveidrol ei veint : O bleit y tafol mwya a alwant wy Hyppolapathon, y Mieri mowrion a alwn ninnae y Marchfieri. Ac velly pa am na allwn ni alw yr yscall rhagorawl o veint yn Varchyscall?/ Ar gair yma garddae a roddeis yn estyn yw gohany wy o y wrth yr yscall gwyllt ac y ddwyn cof na cheisierddim hanyn yn tyfy yn y meysydd".

O'r ymresymu uchod gwelir fod yma fathu gan W.S.. Ac y mae'r honni ynglŷn â'r defnydd o'r gair *march* yn gywir (yst. *gwenyn meirch, meillion y meirch* a'r engh.iau a geir yn y GEL d.g.  $\gamma\mu\pi\theta\sigma$ ). Ond hefyd fe'i ceir mewn ieithoedd eraill e.e. S., Alm. a Ll. (gw. OED d.g. Horse) ac Alb. a Gwydd. (gw. 168 a 171). Hawdd gweld y rheswm dros y dyfalu hwn: mae rhywbeth a wnelo â cheffyl yn fwy (h.y. yn fwy chwedl na rhywbeth a wnelo â dyn). Dynodi math mwy ar rywbeth a wna yn yr ieithoedd a grybwyllwyd. Byddwn i'n tybio'n gryf mai bnth. o'r byd clas. (o'r Gr.) ydyw y dyfalu hwn yn yr ieithoedd eraill, ac iddo gyrraedd y C. drwy'r Ll. yn gyntaf ac wedyn drwy'r S., cymh. â dyfalu 'cŵn' 109.

Am ymdriniaeth ag *yscall* gw. 249.

MARChALAN

c.c. (Rh) (marchalan) : PEN. 27, PEN. 204, PEN. 326  
c.c. (Rh) (alan) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LIYFR COCh (ff.:  
*alanhan/alanon, alannon, aiannon*)

GPC:  
"alan [H. Lyd. *alan*]".

GNP:  
d.g. *Inula Helenium* : Enw Alb. *ailllean*.

L:  
d.g. *Elecampane* : *meacan aillinn, meacan eillin*  
ydyw dau o'r ff.iau Alb./Gwydd. a roddir.

DHS (tud. 84b):  
"DE ELENIO. ...  
NOMINA.  
... *Germanis Alant* ...".

OED:  
d.g. *Elecampane* : Tarddodd o'r Ll.C. *enula campana*.  
Daw'r elf. *enula* o'r ff. clas. *inula* daethpwyd i gysylltu  
hwn â'r planhigyn o'r enw *helenium*.

Gellir ystyried yn enwau ctr. y ff.iau Celtaidd ac yn ddiamau  
y mae'r Alm. o'r un tras, y tebygrwydd ydyw felly fod un  
ffynhonnell gyffredin i'r enwau. Awgrymaf fod ff. LL. ddiweddar  
wedi ei seilio ar *elenio* yn wraidd i'r rhain. Gw. 166 am drafod  
dyfalu 'march'.

MARChFIERI : gw. 182.

168

MARChREDYN Y DERW

c.c. (Rh) (marchredyn y derw) : PEN. 204, PEN. 205, L1AN.  
10  
c.c. (Rh) (rhedyn y derw) : PEN. 326  
c.c. (Rh) (marchredyn) : PEN. 27

Am ddyfalu 'march' gw. 166 ac am *rhedyn* a *derw* gw. 233 ac 91.

OED:

d.g. Oak-fern: Cyf.iad ydyw o'r Ll. *dryopteris* a ddaeth o'r Gr. *δρυοπίτερις* a gyfeiriai at fathau ar redyn a dyfai ar fonion deri a choed eraill. Defnyddid ef yn S. gynt i ddynodi *polypodium vulgare* [sef y rhedynen y cyfeiria *marchredyn* y *derw* ati].

HEFD:

d.g. Fern : ... *polypode du chène*....

GNP (tud. 124):

d.g. L[astrea] *filix-mas* : Rhoddir yr enw Gwydd. ac Alb. *marc raineach* 'march-redyn'.

Ymddengys i mi fod *marchredyn* yn wreiddiol yn dynodi *dryopteris filix-mas* fel y cyfystyr Alb./Gwydd., nes bod hynny'n egluro'r gofyn am yr estyniad y *derw* i ddynodi rhywogaeth wahanol : *polypodium vulgare*. Dyfalu clas. sydd wrth wraidd y cwbl yma, ond y mae'n amhosibl dweud a fu gan y S. le o gwbl yn y trosglwyddo o'r Ll. i'r C..

MARIERWM ... : gw. 5.

169

MASARN

c.c. (Rh) : HAFOD 16  
c.c. (sGPC) : 13g. R

EEW (tud. 59):

d.g. *basarn* (*masarn*) : wedi hanu o'r S.C. *maser mazer* a'r ff. ddiweddarach *masar*.  
(gw. hefyd EEW tud. 89, 230, 250).

OED:

d.g. *Mazer* : Gair o'r H.Ff. ond yn y pen draw o dras Ell.. Y gwraidd meddir ydyw, \**mas* \**maès* 'brychyn' neu 'sug'. Nodir hefyd fod y ff.C. *masarn* yn hanu o'r gair S. hwn.

Yn y pen draw tybed a ellir cysylltu gwraidd y gair hwn â gwraidd *mes*? (gw. 176).

170

MEFUS, MEFYS, DAIL Y MEFYS, GWYDD Y MEFYS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *mefus*)

Rhydd y pedwar cofnod hynaf *mefus*. Yn y Rh ceir 9 engh. yn gorffen ag *-us*, tra bo 7 efo *-ys* ar y diwedd. Felly y mae'n ymddangos mai *-us* ydyw'r terf. dilysaf. Yn cadarnhau hyn ymhellach, sylwer nad ydyw'r llafariad yn yr ail sill yn newid yn y dywyll wrth ychwanegu sill. Mae hyn yn pwysu yn erbyn ystyriaeth mai llw. S. (fel yn *mintys*) ydyw'r terf., a chasglaf felly mai terf. ans. sydd yma (cymh. â *chwantus*, *heintus*). A allai'r *-ef* yma a'r *-af* ym *mafon* fod yr un un? Ac ai yr un *-af* sydd yng *cyngaf* (gw. '73), sef bôn y ferf *gafael*. O edrych ar yr enw S. ar y *mafon* : *raspberries* gellid amau fod *rasp-* yma'n golygu 'crafu'. Drwy hynny byddid yn cadarnhau y math ar synnwyr a awgrymaf i'r enw *mafon*. Ond ni chadarnheir hyn o gwbl gan yr OED. Yn achos *mafon* y mae'n ystyrlon cysylltu a'r ferf *gafael* gan fod i'r planhigion fachau mân. Y mae'r ffrwyth ei hun hefyd

yn glwstwr o ronynnau yn ymafael yn ei gilydd. Y mae hynny hefyd ym wir am hadau'r *mefus*.

Gwahaniaeth rhwng *fragum* a *fragaria* sy'n esgor ar y ff.iau *mefus* a *dail/gwydd y mefus* (gw. T tud. 244). Yma y mae dilyn W.T. yn y NOH (tud. Dij d.g. *Fragaria*) sy'n mynd ati i nodi'r gwahaniaeth yn yr un modd.

171

MEILLIONAE[sic], MEILLION, MEILLION GWNION, MEILLION MELYNION, MEILLION Y MEIRCh, MARCH VEILLION

c.c. (sGPC) : 13g. C[aerfyrddin], 13g. T[aliesin] (ff.:  
*meillion, meillion*)  
c.c. (Rh) (meillion gwynion) : T  
c.c. (Rh) (meillion melynion) : T  
c.c. (Rh) (meillion y meirch) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
(ff.: *meillon meirych, meillon y meirch*)  
c.c. (Rh) (march feillion) : T

Ceir ctr.au Llyd. : *melchen* (llu.), *melchon* (llu.), *melchenen* (un.), *melchenennou* (llu.) (DFB d.g. TRÈFLE). Cysyllta I.W. (B, cyfrol X, tud. 41) gnewyllyn y gair â'r gair *mellt* sef 'mwyn, hyfryd' ctr. â'r Gwydd *mell* : ystyrlon o gofio, mai planhigion melog porfa fras ydyw *meillion*.

DHS (tud. 276b):

"DE TRIFOLIO PRATENSI. ...  
GENERA.

*Trifolium pratense candidum ... Luteum*".

Oddi yma y cafwyd *meillion gwynion* a *meillion melynion*.

Y mae *meillion y meirch* yn hen ff. est., fel y dengys y ddau c.c.. Cyfystyr Gwydd. ydyw *each-sheamais* (L tud. 87 d.g. *Clover (horse)*). Yn canlyn L, tybiais fod ff. S. *horse clover*, ond nis



gwelais yn unman arall. Efallai fod ff. Ll. y tu cefn i'r enwau hyn. Am ymdriniaeth â'r dyfalu 'march' gw. 166.

T (tud. 231):

"Y cyntaf o naddynt a elwir Meillion y meirch ond mi a debygwn mae yr March veillion y dyleit ei galw yn iawnach./".

Adff.io W.S. felly a roes *march feillion*.

172

#### MELILOT Y GWEYNYDD

c.c. (Rh) : T

OED:

d.g. *Melilot* : O'r H.Ff. o'r Ll. diw. *melilōtos* o'r Gr. *μελίλωτος*, -ον sef *μέλι* 'mêl' + *λωτός*.

GEL:

d.g. *ΜΕΛΙ* : mêl.

d.g. *ΛΩΤΟΣ* : math ar feillion. Ni roddir tras pellach.

T (tud. 34):

"... *Melilot y gweynydd* sef *Loti pratensis*..."

Trosiad W.S. o *loti pratensis* yn amlwg sydd yma. Ceir *melilotus* yn DHS (tud. 181b).

173

#### MELYN GWANWYN, MELYN Y GWANWYN

c.c. (Rh) : T

Ni chanfôm ddim cyfateb i'r enw hwn mewn iaith arall.

172

MENIC ELIYLION : gw. 32.

174

MERCURI, MERCURI BANYW, MERCURI GWR RYW, GWIR VERCURI, IAWN  
MERCURI[sic]

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *mercury*)

OED:

d.g. Mercury : Yn S. yn unig y daethpwyd i ddefnyddio enw'r duw Rhufeinig hwn yn enw ar blanhigyn, a hynny drwy ddylanwad y Ll. [*herba*] *mercurialis*.

O'r S. y daeth c.c., ac yn fwy na hynny o'r S. (yn ôl yr OED) y daeth yr arfer o ddefnyddio'r enw i ddynodi'r planhigyn hwn. Eto rhaid fod W.S. dan ddyl. y Ll. *mercurialis* (T tud. 136) wrth ysgrifennu'r ff. dan sylw.

DHS (tud. 164b)  
"DE LINOZOSTE. ...  
GENERA.  
... mas & foemina ...".

Oddi yma yn ôl yr arfer y cafwyd dau o'r ff.iau est.. R.M. sy'n gyfrifol am y llall wrth drafod *sowdl* y *crydd* fel enw ar yr un llysieuyn (T tud. 136-7), tra bo iawn *mercuri* yn trosi o honiad W.T.. Wrth gwrs ni ddylid ystyried y ddau ff. est. hynny'n enwau go iawn.

175

MERYW, MERYW LLEIAF, MERYW MWYAF

c.c. (Rh) (y cyfan) : T  
c.c. (Rh) (ywen) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

GNP (tud. 100):

d.g. Juniperus : Nodir tri enw Gwydd., sef *iubhar-beinne*, 'ywen y bryniau', *iubhar-thalmainh*, 'ywen y ddaear', *ubhar-chraige*[sic] 'ywen y graig'.

Math ar ywen felly ydyw *juniperis* yn ôl dyfalu'r Gwydd.. Y mae hyn yn gymorth i honni mai'r un ydyw'r ail elf. -yw ym *meryw*. Arwyddir hynny ymhellach drwy enw C. arall ar y llwyn hwn: *eithinfyw* sef *eithin* + *yw*. Yma ymwthiodd -f- efallai drwy dyb gwlad, gan hwyluso'r ynganu (cymh. â *llefydd*).

OED:

d.g. Yew : Olrheinir tras y gair yn ôl i H. Ell.eg. Honnir fod perthynas bellennig rhwng y ff.iau Ell. â'r ff.iau Clt.; sef H. Gwydd. *eo*, C. *ywen*, Crn. *hivin*, Llyd. *iven*, yn hanu o'r Gelteg \*ivos. Nodir ff.iau ctr. hefyd yn yr ieithoedd Slafaidd e.e. Lithiwaneg, *jeva*.

O droi at yr elf. flaenaf *mer-*; ceir traethu helaeth ar yr elf. hon yn y D.D.:

"Merydd ... *Mêr fortè est Humor, liquor; unde* Gofer, goferu, diferu, dadmer, meiriol, merlys, merllyn, merhelyg, merolaeth, merwerydd, merddrain, meryw, merinwr, merddwr, merllyd ... Cymmer". [Nodir hefyd ctr.au honedig Hebraeg ac Arabeg a S. (*mere* 'llyn')].

Gwaith anodd fyddai trafod y cysylltu yma i gyd. O ymgynghori â staff GPC awgrymwyd i mi nad dilys oedd cysylltu'r cwbl o'r rhain. O droi'n ôl at y llwyn dan sylw sonnir am y "dacre gwm a ddel o honawallan" yn y T (tud. 48). Gan gofio hynny dyfarnaf mai ystyr ddatblygedig ar *mêr* sef 'sudd, nodd' ydyw'r *mer* sydd yn yr enw hwn.

DHS (tud. 28b):

"DE ARCEVTHO. ...  
GENERA.  
... maior & minor ...".

Oddi yma y daeth y ff.iau est..

176

MES, MES AVALAE, MESEN

c.c. (sGPC) (mes) : 13g. T[aliesin]  
c.c. (Rh) (mes afalau) : T

DFB:

d.g. GLAND : *mez* (llu.), *mezen* (un.), *mezennou* (llu.).

Yn *Archaeologia* (cyfrol XCIII, 1949, tud. 41, d.g. MESTEVIA);  
noda I.W. y C. *mes* a'r ctr. Llyd. *mes* 'mes' a'r S. *mast* 'mes' a'u  
bod yn hanfod o'r bôn *mess-* neu *mest-*.

DEPN (tud. 326):

d.g. *Mast* : 1) Ffrwyth *fagus sylvatica*.  
2) Ffrwyth *quercus robur*.

OED:

d.g. *Mast* sb2 : Nodir nifer o ctr.au yn yr hen  
ieithoedd Ell., (Alm. modern *mast*). Y maent oll yn hanu  
o'r gwraidd cyn- Ell. \**mazdo-* o'r ff. *maddo-* (cymh. â'r  
Sanscrit *mēda* 'tew') a gwraidd I.E. *mēd-* 'bod yn dew',  
'llifo', gan hynny y ceir y Ll. *madēre* 'bod yn wlyb' a'r  
Gotheg *mat-s* 'bwyd' gw. *Meat*. Enw torfol ydyw *mast* ar  
ffrwyth y ffawydd; y deri a'r castenwydd yn ogystal â  
choed eraill yn enwedig ffrwyth a fyddai'n borthiant moch.

d.g. *Meat* : Ceir ctr.au Ell. a'r gwraidd *med-* fel d.g.  
*mast*. Golyga'r gair rywbeth bwydadwy gan gynnwys y rhan  
fwytadwy o ffrwyth yn ogystal â chig.

A oes cyswllt rhwng hanfodion gwreiddiol y geiriau hyn ag â  
*masarn* (gw. 169)?

Am *afalau* gw. 1. A pharthed â'r gyfuniad *mes avalae* efallai  
mai cyf. o ff. Ll. a roddodd y ff. hon neu mae'n bosibl mai  
cyf.iad o'r cyfystyr S. ydyw : *oak-apples*.

175

177

MILDDAIL

c.c. (Rh) : T

T (tud. 209):

"Stratiotes millefolia yn Llatin, Mylfoyle yn Saxonaec ... a Milddail yn Camberaec./".

OED:

d.g. Milfoil : I'r S. drwy'r Ff. o'r Ll. *milifolium*, *millefolium*, *mīli/mille* 'mil' + *folium* 'deilen' yn cyfateb i'r Gr. cyfystyr *χιλιόφυλλος*.

Nid oes anhawster gweld mai cyf.iad o'r Ll. ydyw'r enw hwn. Byddai'n deg amau, gan gofio'r c.c., mai W.S. sy'n gyfrifol amdano. Eto nid ydyw'n cael ei arddel yn brif enw'r bennod berthnasol, ac yn ôl Gwenllian Awbery y mae'r enw ar lafar mewn llawer ardal. Y mae hynny, mi dybiwn, yn arwydd go bendant nad W.S. a'i lluniodd. Y mae'n bosibl mai dyfalu clas. ydyw dyfalu 'mil', cymh. â dyfalu 'cant' (gw. 42).

178

MILFYW

c.c. (Rh) (milfyw) : G.W.S.

c.c. (Rh) (milfydd) : Ll.B. 14912 (ff.: *milfyd*)

Ymddengys i mi y gallai fod dau ff. ar yr un enw ym *milfydd* a *milfyw*. Gallai fod enw Ll. y tu ôl i'r enwau, ond ni ddeuthum o hyd iddo. Efallai mai'r rhif *mil* sydd yma. Gw.177 am ddyfalu

'mil'.

Ond ceir cynnig arall yn Hafod 26 (tud. 164.). W.S. ei hun biau'r cynnig, mi dybiwn (gw. pennod II trn. 19 uchod):

"mil, anival hen air Camberaec ... ac ir mil hwn y cyfansoddir llawer eiriaŵ arveredic megis milrhith, milgi, y vilfyw *Gr*..."

179

MINTYS, MINTYS GARDdAE, MINTYS Y DWFYR, MINTYS Y GATH, MINTYS Y MEIRCh, MYNTYS YR YD

c.c. (Rh) (mintys) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (Rh) (mintys gardd/gerddi) : LLAN. 10  
c.c. (Rh) (mintys (y) dŵr) : PEN. 204  
c.c. (Rh) (mintys y gath) PEN. 204  
c.c. (Rh) (mintys y meirch) Ll.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (Rh) (mintys yr ŷd) : T (mewn llaw arall o hanner cytaf yr 17g.)

OED:

d.g. Mint sb2 : O'r Ll. *menta*, *mentha* o'r Gr.  
*μίνθη*, *μίνθος*.

Hawdd ydyw dweud mai bnth. o'r S. ydyw *mintys* drwy fod -ys ynddo yn cynrychioli llu. S -es. Cadarnheir hyn gan yr EEW (tud. 99) (cymh. A'r Gwydd. *mionntus*). Gweler hefyd yr EEW, tud. 101 a 140.

DHS (tud. 244a):

"DE SISYMBRIO. ...  
FORMA.  
... hortensi Menthae ..."

Hwn a roes y ff. *mintys y garddae* y T. Gallai ff. Ll. gyffelyb fod wedi rhoi y ff. yn y c.c.. Eto y mae S. cyfystyr *garden mint*. Ac y mae cyfateb S. i bob un ff. est. arall a geir

uchod sef : *water mint, cat mint, horse mint, corn mint*. Ceir cyfystyron hefyd i *mintys gardd, mintys y meirch a mintys yr ŷd yn y Gwydd. sef : mionntus gairdín, mionntus each a mionntus am arbhair* (L. tud 103 d.g. *mint (garden), mint (horse) a mint (corn)*) a'r Alb. (GNP tud. 74). Yn sicr y mae tras Ll. yn y pen draw i bob un o'r rhain e.e. *mentha aquatica* 'mintys y dŵr'.

OED:

d.g. Catmint : Rhoddir i'r enw hwn gyfatebion Ff., Is-Alm. ac Alm. ynghyd â'r ff. Ll.C. *herba catti, cattaria*.

Gallai *mintys y gath* fod yn cyf. y S. *catmint* neu'n cyf. ff. Ll.. Gallai y ff.iau est. eraill hefyd hanu o'r S., neu o'r Ll.. Ac eithrio *catmint* y mae c.ion c. y ff.iau est. S. yn ddiweddarach na'r c.ion c. o'r ff.iau est. C. cyfatebol. Ar seiliau hynny ymddengys *mintys y meirch* (yn enwedig) yn cyf.iad o ff. Ll.. Am y dyfalu 'march' gw. 166.

MOELWYN MYNYD[sic] : gw. 123.

MÔR DdANAT : gw. 82.

MÔR GELYN : gw. 52.

MORDANAT : gw. 82.

MOREL, MOREL CWSC, MOREL CYNDdEIRIOC, MOREL DUY, MOREL ESTRAN,  
 MOREL GARDdAE, MOREL HUNGAR, MOREL MARWOL. MOREL Y GARDdAE, MOREL  
 Y GERDDI, MOREL Y MŌR

c.c. (Rh) (morel) : HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *morel*,  
*morella*)

c.c. (Rh) : (ff.iau est.) : T

OED:

d.g. Morel sb<sup>1</sup> : Drwy'r Ff. o'r Ll. *morella*. Am  
 dras y gair cyfeirir at *morel* a..

d.g. Morel a. : Efallai'n hanu o'r Ll. *morum* sef  
*morus nigra*, o bosibl cymh. â'r Gr. *μαύρος* 'du'.

T (tud. 199):

"... Morel yn Sasonaec ac velly y gelwir yn gyphredin  
 yn Camberaec./".

Dyna awgrym posibl mai drwy'r S. y daeth yr enw i'r C.. Hynny  
 ydyw'r gwir am y rhan fwyaf o'r ff.iau C. ond dengys ff. y Llyfr  
 Coch uchod bnth. uniongyrchol o'r Ll..

DHS (tud. 232a-232b):

"DE STRYCHNO. ...

GENERA.

... hortense ... Nigrum ... somnificum Halicacabum  
 peregrinum ... Solatrum dormitorium vel marinum ...  
 furiosum ... mortale ...".

FORMA.

Peregrinum...".

Dyna yr ansoddeiriau neu enwau a roddodd o'u cyf. yr holl  
 ff.iau est.. (Parthed â *morel estran*, mae hwnnw'n cyfateb i  
*Halicacabum peregrinum* yn un lle a *Peregrinum* mewn lle arall .

MORGELYN ... : gw. 52.



MORON, MORON DOFION, MORON PhRAINc, MORON PhRAINc GWYLIr, MORON PhREngIC GWYLIr, MORON PhREINC, MORON GARDdAE, MORON GWYLIr, MORON MAES, MORON MEYSYDd, MORON Y GARDdAE, MORON Y MAES, MORON Y MEYSYDd

c.c. (Rh) (moron) : C.M. 1 (ff.: *moronen*)

c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

MED:

d.g. Mor(e) : Enw ar wraidd bwytadwy, llu.: *moren*.

OED:

d.g. More : Ymhlith yr ystyron ceir gwreiddiau o fathau gwahanol. Tardda o'r H.S. *more*, *moru* ac ynghynt o'r H. Ell.eg \**murhon*-. Rhoddir ctr.au Alm. *mhore* yn ogystal â rhai Rwsieg a Lithiwaneg : ystyr y ctr.au hynny oll ydyw *moronen*.

GNP:

d.g. *Daucus carota* : Enw Alb. *muran*.

L:

d.g. *Carrot* : *miúrán*, *murán*.

Er bod ff.iau o'r un tras â *moron* yn yr Alb. a'r Gwydd. y mae tystiolaeth yr OED yn ddigonol i ddangos nad tras Celtaidd sydd i'r gair. Yn achos y C. y mae'r c.c. i'r gair yn ddiweddar. Yn ôl pob golwg felly bnth. ydyw hwn o'r S.C., nid o'r un. *mor(e)* ond o'r llu. *moren*, nes bod un. newydd *moronen* yn cael ei ff.io. (Ymddengys mai bnth. Gogleddol yn unig ydyw h.y. o edrych ar ffynonellau yr engh.iau ohono yn y Rh).

MOYAR, MARChFIERI, MIERI MOWRION

c.c. (sGPC) (mwyar) : 14g. YCM  
c.c. (sGPC) (mieri) : 14g.-15g. IGE  
c.c. (Rh) (marchfieri) : G.W.S.  
c.c. (Rh) (mieri mowrion) : T

DFB:

d.g. MÛRE : *mouar*.

DLF:

d.g. MÛRE : O'r Ll. *mora*.

OLD:

d.g. *morum* : Cymh. â'r Gr. *μόρρον* sef '*morus nigra*', 'mwyar duon' neu ffrwyth cyffelyb.

OED:

d.g. *Morel* : Efallai o'r Ll. *morum*, cymh. â'r Gr. *μαύρος* 'du'.

AWG (tud. 101):

Honnir i'r ddeusain -oi- a oedd yn yr H.C. *moiar* droi yn -wy- i roi *mwyar*, ac i'r wy o'i symud i'r sill cyn y goben droi'n -i- a rhoi *miaren*. Nodir y ctr. Gwydd. *smēr* 'mwyaren ddu' a honnir i'r gair hwnnw a *mwyar* hanu o'r ff. \**smi*iar ac i hwn ddyfod o \**smi*oro-. Ctr. meddir ydyw'r Gr. *μόρον / μωρον* (μ- <\**smi*-?) a'r Ll. *mōrum* sydd o bosibl yn dyfod o'r Gr..

Dull o esbonio *marchfieri* ydyw *mieri mowrion* gan W.S., ac efallai na ddylid ei ystyried fel enw pwrpasol. (Am yr elf. *march* gw. 166). Y mae cyfystyr S. i *marchfieri* : *horse-bramble*. Ond nid ydyw'n enw cyff. iawn. (enw taf.ol o Ddwyrain Lloegr yn ôl yr EF (tud. 173) a'r DEPN (tud. 268)). Dynoda'r enw S. hwnnw yr un planhigyn. Dichon y gallai fod ff. Ll. y tu ôl i'r enwau C. a S..

183

MUSTARDT, MWSTARD, MWSTART

c.c. (Rh) : HAFOD 16, LLYFR COCh

OED:

d.g. Mustard : I'r S. o'r Ff. yn tarddu o ff. cyff. yr ieithoedd Ll.aidd *moste*, gw. *must sb<sup>l</sup>*. Cyfeiria'r enw'n wreiddiol at y gymysgfa a wneid â hadau'r llysieuyn dan sylw. Datblygodd yr enw yn enw ar y llysieuyn wedyn.

d.g. Must sb<sup>l</sup> : O'r Ll. *must-um* sef 'newydd' 'îr'.

Daeth o'r S. uchod.

184

MWC Y DAYAR , MWC Y DdAEAR, MWC Y DdAYAR

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh

Hen cyf.iad o'r Ll. *fumus terrae* ydyw'r enw hwn (fe'i gwelir e.e. yn y DHS (tud. 116a)). Y mae'r S. *fumitory* yn llygriad o'r Ll. hwnnw drwy'r H.Ff. *fumeterre* (gw. OED d.g. *Fumitory*). Cyf.iad o'r Ll. ydyw'r enwau Alb. a Gwydd. *lus deathach thalmhuinn* a *deatach thalmhuinn* (GNP tud. 5 d.g. *Fumaria officinalis*). Damcanieithir parthed â'r rheswm dros yr enw hwn yn yr EF (tud. 60 d.g. *Fumitory*). Parthed â dyfalu 'daear' gw. hefyd 18.

MWLTWS : gw. 29.

185

MWSOGL(OC)

c.c. (Rh) : Y.Lh.H.(ff.: *mwsswg*)  
c.c. (sGPC) : C.M.l (ff.: *mysogl*)  
(Collais hwn o'r Rh)

182

OED:

d.g. Moss : Nodir nifer fawr o ctr.au mewn ieithoedd Ell., hefyd yr H. Slafeg *muchic* 'mwsogl' a'r Ll. *muscus* 'mwsogl'. Yn dras rhoir yr I.E. \**mus*. Dadleuir na ellir dweud ai ystyr wreiddiol y gair hwn oedd 'mwsogl' ynteu 'tir gwlyb'.

Yn amlwg y mae *mwsogl* hefyd o'r un dras. Tybiaf fod yma elf. o'r un ff.iant iddo ag i'r gair *chwibanogl*:

GPC:

"chwibanogl [*chwiban* + *-og* + *-l* ar ddelw *tymestl* & c....]".

Y mae *mwsog* ar lafar, a hynny a geir hefyd ym *Pen. 228. D* dynnu'r terf. ans. *-og*, *mws-* yn unig a erys. Cymh. hwnnw â *mws* 'blas hen' (AWG tud. 239). Ac mewn nodyn geiriol ar *gormwyth*, B, XIII (tud. 198) gan I.W. ceir \**meu* 'gwlyb, budr' yn wreiddyn i *mws* a *mwsogl*. Ctr. ydynt meddir â'r Ll. *mucus* 'llysnafedd' ac *emungo* 'chwythu trwyn' yn ogystal â'r gair *mign* 'cors' a'r elf. *mwyth* 'llysnafedd' sy'n *gormwyth*.

186

MYRR, MYRh

c.c. (sGPC) : 1346 L1A (ff.: *mirr*)

OED:

d.g. Myrrh<sup>1</sup> : 'I'r S. o'r Ll. *murra*, *myrrha*, *myrrha* o'r Gr. *μύρρα* o dras Semetaidd.

Y mae'n debycaf mai o'r Ll. y daeth yr enw yn achos y c.c., ac yn sicr o'r Ll. y daeth yng nghyswllt y T a'r T.N..

## MYRT

c.c. (Rh) : T

Ymddengys y gair ddwywaith yn y T, ar y ddau dro yn y cyfuniad "oleo myrt". Cyf. *myrtin[us]* (DHS tud. 30b, 269a) a wna.

OED:

d.g. Myrt : O'r Ll. *myrt-us* o'r Gr. *μύρτος*.

Er y gallai hwn fod yn air bnth. o'r S., o ff. nas cofnodwyd, cyn adeg W.S., nid ydyw'r llwyn dan sylw na brodorol na chyfarwydd. Y tebygrwydd felly ydyw i W.S. bnth. yr enw yn syth o'r Ll. *myrtus*.

MYRh : gw. 186.

NEP GWYLLT : gw. 162.

## OINION, OINION COCHION, OINION CRYNION, OINION GWYNION, OINION HIRION, OYNION

c.c. (Rh) (y ff.iau' i gyd) : T

OED:

d.g. Onion : O'r Ff. *oignon* a ddaeth o'r Ll. *unio*, *union-em* 'undod' - enw yn wreiddiol ar berl fawr.

OLD:

d.g. *uniō<sup>3</sup>* : Ansicr ydyw'r tarddiad. Ar adegau cysylltir ag *uniō<sup>2</sup>*.

d.g. ūniō<sup>2</sup> : perl fawr.

Bnth. sicr o'r S. ydyw *oinion*, ac *oynion*, (? cymh. â bnth. hŷn uniongyrchol o'r Ll. *union-em* sef *wynwyn*).

DHS (tud. 149a):

"DE CROMMYO. ...

GENERA.

... *cepa longa* ... *rotunda* ... *flavus* ... *candida* ...".

: dyna yr ans.iau y'u troswyd i roi y lliwiau sydd i'r ff.iau est.. (Sylwer fod *flavus* 'melyn' yn cael ei drosi fel *coch*).

189

OLEWYDD, OLIF, PREN OLIF

c.c. (Rh) (oliwydd) : PEN. 204 (ff.: *oliwidd*)

c.c. (Rh) (olewydd) : T.N.

c.c. (sGPC) (olif) : C.M. 1

c.c. (Rh) (pren olif) : T

OED:

d.g. Olive : O'r Ff. *olive* o'r Ll. *oliva*. Ceir y ff.iau *olife*, *olyf*, *oliff*, 'olewydd' neu 'olif'.

Bnth. o'r S. ydyw *olif*. Y mae rhai o'r ff.iau yn y Rh yn cadarnhau hyn e.e. *oliff* (PEN. 184, Ll.G.C. 8499) ac *olifs* (W.L.B.) sy'n cynnwys llu. S.. Derbyniwyd hwn gan W.S., yn enwedig gan na byddid wedi cael ff. wahanol pe byddid wedi bnth. yn syth o'r Ll.. Yn yr OED (d.g. Oil 'olew') ceir fod amrywiad S. *oli* ar y gair. Hwn a bnth.wyd i'r C. ac a gyfunwyd i wneud yr enw *oliwydd*. Gwelir hwnnw uchod (PEN. 204) a cheir *oliwydden* yng G.W.S.. Foddbynnag erbyn adeg y T.N. (a'r T) ymddengys nad oedd W.S. yn fodlon ar y ff. honno. Felly aeth ati i bnth. yn union-

gyrchol o'r Ll. *leum* 'olew' i gael *olewydd* (? ac *olew* o ran hynny).

190

### ONNÉN

c.c. (sGPC) : 12g. LL

Yn yr AWG (tud. 136), ceir fod yr enw hwn yn ctr. â'r Gwydd. *huinn-ius*, ac ill dau yn hanu o \**os-n-*. Ac yn ctr. â hwy rhoddir y Ll. *ornus* 'onnen' < \**osinus* a'r H. Uchel Alm. *as-k* a'r S. *ash* 'onnen'.

ORETS : gw. 1.

191

### ORIGAN

c.c. (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *origan*)

OED:

d.g. *Origan* : O'r Ff. *origan* o'r Ll. *origanum*.

d.g. *Origanum* : O'r Ll. *origanum* o'r Gr. ὀρίγανον  
-ος sef ὀρος 'mynydd' + ἄνος 'disgleirdeb,  
llawenydd, balchder'.

Yn y Rh gwelir *origany* (Rh. 32975) yn ogystal ag *origanwm* (C. 2.9730) sy'n dystiolaeth o drawslofffa o'r S. a'r Ll.. Ond o'r Ll. yn ddiau y daeth y ff. sy'n y T.

## ORPIN, ORPIN GWRIDOC, ORPIN GŴYN

c.c. (Rh) (orpin) : PEN. 27, PEN. 326  
 c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

## OED:

d.g. Orpine, orpin : O'r Ff. *orpin* sef addasiad ar  
*orpiment*

d.g. Orpiment : Drwy'r Ff. o'r Ll. *aurpimentum*  
 'llifydd aur'.

Bnth. drwy S. ydyw hwn (y mae'r c.c. yn rhy ddiweddar mae'n  
 debyg i'r gair hanu o'r Ff.).

## DHS (tud. 270b):

"DE TELEPHIO. ...  
 GENERA.  
 ... *Telephium album* ... *Telephium purpurascens*...".

Y rhain ydyw'r enwau a cyf.wyd i roi *orpin gŵyn* ac *orpin*  
*gwrldog*.

OYNION : gw. 188.

PALF YR WYDD : gw. 243.

PANOC, PANOC DUY, PANOC GWYN GWR RYW, PANOC WEN VENYW, PANOC  
 WYLLT, PANOGIEIT, PANOGYN, BANOC, BANOGYN, HANERPÁN, TEW BANOC

c.c. (Rh) (y cwbl) : T

Pán sef 'blew' neu 'ffwr' + terf. ans. -og sydd yma; yn



disgrifio nodwedd flewog dail y planhigyn. Cryfheir yr un syniad yn *tewbannog*. Amrywiad pellach ar yr un dyfalu ydyw *hanerpán* sef *hanner* + *pán*. Cymh. yr enwau hyn â'r Alm. *Vuullkraut* 'llysieuyn gwlanog' (DHS tud. 286a). O'r modd y mae'n trafod *hanerpán* (T tud. 241) fel un o'r nifer o enwau ar y llysieuyn teimlaf nad gwaith W.S. ydyw'r enwau hyn, ac nad trosi *Vuulkraut* sydd yma. Am gyfeiriad at ddefnyddio'r terf. ans. -og mewn enwau llyisiau gw. 69.

DHS (tud. 285b-286a):

"DE PHLOMO. ...

GENERA.

... Candidum ... nigrum ... Candidum rursus in marem & foeminam ... syluestre ... "

Cyf. o'r ff.iau est. yn DHS uchod roddodd yr holl ff.iau est..

194

PAPI, PAPI COCh, PAPI, DOF, PA[P]I DÔF, PAPI DUY, PAPI GWŶN

c.c. (Rh) (pabi) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *pabi/paby/papi, pabi/papi, pabi*)

c.c. (Rh) (pabi du/papi gwyn) : LLAN. 10

c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

OED:

d.g. *Poppy* : Rhoddir nifer o amrywiadau ar yr enw gan gynnwys *papy*. Daeth drwy Ell.eg y Gorllewin (esgoriaith y S.) o'r Ll. poblogaidd \**papav-um*, \**papau-um* ff. ar y Ll. *papaver*.

OLD:

d.g. *papauer* : Tarddiad anhysbys.

Bnth. o'r S. sydd yma. Cadarnheir hyn gan yr EEW (tud. 42, 233). Noda'r EEW y ff.iau H.S. *papig, popaeg, papoeg* a roes .

*pabi*. Sylwer foddbynnag bod W.S. yn edfryd yr ail -p- i ymdebygu at *papaver*, yn sicr yr oedd honno wedi hen droi yn -b- fel y dengys y rhan fwyaf o'r engh.iau yn y c.ion c..

DHS (tud. 177a):  
"DE MECONE RHOEADE. ...".

DHS (tud. 178a):  
"DE MECONE SATIVO. ...  
GENERA.  
... album ... nigrum ...".

Dyna dras y pedair ff. est. yn achos y T.

195

PARETLYS, PARIETORI, PARITORI, PELITORI, PELITORI o YSPAEN

c.c. (Rh) : (paredlys) : T  
c.c. (Rh) : (parietori/paritori) : T  
c.c. (Rh) : (pelitori/pelitori o Spaen) : C.M. 1

OED:

d.g. *Pelleter*<sup>1</sup>, *Peletre*<sup>2</sup>, *Pellitory*, *Parietary*: Ymddengys y ff. *pellitory* yn gyntaf yn yr 16g.. Cyfeiria at ddau blanhigyn gwahanol : *parietaria diffusa* a *peucedanum ostruthium*. Oherwydd y tebygrwydd rhwng y ddau enw S. ar y planhigion hynny, dryswyd hwy â'i gilydd, gan lunio'r un enw newydd i'r ddau : *pellitory*. (1) Yr oedd yr enw *pelleter* ar *peucedanum ostruthium*. Tarddodd o'r Gr. ΠΥΡΕΘΡΟΝ (yst. ΠΥΡΕΤΟΣ 'twymyn') drwy'r Ll. *pyrethrum*, *pirethrum* drwy'r Ff. i'r S.. Addaswyd terf. hwn i gael *pellitory*. (2) Yr oedd yr enw *parietary* ar *parietaria diffusa*. Daeth hwnnw o'r H.Ff. *pariataire* o'r Ll. *parietarie*, sef *herba pariataire* [OLD d.g. *parietarius* 'rhywbeth a wnelo â phared']. Addaswyd r...r yn yr enw hwn yn l...r a throwyd hwnnw hefyd yn *pellitory*.

Bnth. o'r S. felly ydyw *pelitori*, a hefyd y ff.iau *parietori* a *paritori*. Cyf.iad o NH ydyw'r rhan o'r T sy'n cynnwys *pelitori* o Yspañ: *Pyllytorye of spayne*. Gellir bod yn o sâff mai o'r un

ff. S. yma y daeth y c.c. hefyd.

Trosiad W.S. o'r Ll. *pariataria* (DHS tud. 97b) ydyw *paretlys*.

196

#### PAWEN YR ARTH

c.c. (Rh) : T

T (tud. 28):

"... Branke vrsine ... yn Saesonaec. Pawen yr arth ... yn Camberaec."

NOH (tud. 8):

"*Acanthus*.

... in englishe Branke vrsin, in duche welshe bearenklawe, in frenche branke vrsine, branca vrsina [Lladin] ... some erre sore whiche abuse for thys herbe berefote." (Herlleborus niger ydyw berefote W.T.).

DHS (tud. 18a-19a):

"DE ACANTHO. ...

GENERA.

... Germanis Vvelsh bernklauu ... Germanis ... Bernclauu ..."

OED:

d.g. *Brank-ursine* : Daw o'r Ll.C.O. *branca ursina* 'pawen yr arth'.

Nid camp ydyw gweld mai o'r Ll. *branca ursina* y daeth yr enw. Cafodd W.S. y Ll. hwnnw yn y NOH. Yn y NOH gwelodd iddo gael ei cyf. i'r Is-Alm. ac yn DHS gwelodd iddo gael ei droi i'r Alm.. Ni cyf.wyd y Ll. i'r S. gan W.T., gan fod eisoes yn S. lysieuyn o'r enw *bearfoot*. Felly yn ymwybodol o'r ff.iau Alm. ac Is-Alm. trosodd W.S. y Ll. i'r C..

## PEMP DALEN, PEMPDALLEN

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

## OED:

d.g. Cinquefoil, cinqfoil : Daeth o'r Ff. \**cinkfoil* neu ff. debyg. Cyfetyb hwnnw i'r Ll. *quinquefolium* sef *quinque* 'pump' + *folium* 'dalen'.

Yn DHS (tud. 212a) ceir *quinquefoli[um]*. Troswyd hwn â'r enw *pempdalen* (T tud. 174). Heb ymdrech gwelir mai cyf.iad o'r Ll. *quinquefolium* ydyw'r enw hwn. Gwelir uchod yn OED i'r un peth ddigwydd yn Ff. ac yn GNP (tud. 26 d.g. *Potentilla reptans*) iddo digwydd yn yr Alb. *cùig bhileach* 'pum dalen'.

## PEMPGEWYN, SEITHGEWYN

c.c. (Rh) (y ddau enw) : T

T (tud. 19):

" ... yn Groec Pentaneuron sef y Pempgwyn".

T (Tud. 19):

" ... ef a eilw y Groegwyr hepta pleuron sef y seithgwyn ...".

Cyf. o'r Gr. sydd wedi rhoi y ddwy ff. felly.

## PENFELEN, PENGALET, PENLAS, PENLAS WÉN

c.c. (Rh) (penfelen) : PEN. 205  
c.c. (Rh) (pengaled) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (penlas) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (penlas wen) : PEN. 204

Gwelir fod cyfateb (bron yn gyfystyr) *S. yellow heads* i'r enw *penfelen* (EF tud. 391 d.g. Groundsel) sy'n cyfeirio at yr un llysieuyn. Hefyd y mae cyfateb (bron yn gyfystyr) i *pengaled* yn *S. hardheads* (EF tud. 420 d.g. Knapwedd). Gwelir yn yr EF nodi enw Alm. cyfystyr: *hardkopp*. Ac yn gyfystyr â *penlas* y mae'r *S. blue cap* (EF tud. 419 d.g. Bluebottle). Ni welais gyfateb *S.* i *penlas wen*. Ceir *penngaled* yn Llyd. (*Hor Yezh*, 104, *miz Gwengolo* 1975) sy'n amlwg yr un peth â'r enw *C. pengaled*, ond *chenopodium album* ydyw yn Llyd.. O'r c.c. gellir amau mai cyf.iad o'r *S.* ydyw *penfelen*. Rhyfygus fyddai dweud hynny am yr enwau eraill - yn sicr y mae yma hen ddull dyfalu.

200

#### PERAN

c.c. (EEW) : diwedd 15g. PEN. 67

Yn yr EEW (tud. 31-3) trafodir bnth. o gyflyrau gwan *S.*. Awgrymir y gallai *peran* fod yn bnth. a berthyn i'r dosbarth hwn, a bod yr -an yn terf. cyflwr traws (fel *hosan*, *tarian* a *cusan*). Nodir y ff. H.S. *pere* a S.C. *pere*, *peore*, *peere*.

OED:

d.g. *Pear* : O'r Ll. diw. *pira*, *pēra*. Ni chynigir ystyr pellach i'r enw.

## PERNEL

c.c. (Rh) : T

DEPN (tud. 37b d.g. *Pernel*):

Yn *Halliwel's Dictionary of Archaic and Provincial Words* dywedir mai *anagallis arvensis* ydyw *pernel*. Eto y mae'r dyfyniad sy'n goleddfu hynny yn awgrymu nad y planhigyn hwnnw ydyw.

Mae hyn yn ddigon o arwydd mi fuaswn yn meddwl, i ddangos mai bnth. o ff. S. taf.ol ydyw *pernel* yn C.. Talfyriad o *pimpernel* ydyw, am yr enw hwnnw gw. 212.

PERSLI, PERSLI CYPHREDIN, PERSLI DYFRLYD, PERSLI GWYLLT, PERSLI MAWR, PERSLI MYNYDDIC, PERSLI O MACEDONIA, PERSLI OR ARDD, PERSLI OR ARDD, PERSLI YR DWFR, PERSLI YR DWR, PERSLI YR DWR BYCHAN, PERSLI YR DWR MAWR, PERLSI YR GORS, DYFRBERSLI GWYLLT, EULUN PERSLI

c.c. (Rh) (persli) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCH  
(ff.: *persly*, *persli*, *persli*)  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

OED:

d.g. Parsley : Tarddodd y S. drwy drawslofffa o'r Ff. a'r Ll.. Daeth y ff. H.Ff. *peresil* hithau yn ei thro o'r Ll. diw. sef *petrosilium* altrad ar y Ll. clas. *petroselinum*. Daeth hwnnw o'r Gr. ΠΕΤΡΟΣΕΛΙΝΟΝ, hanfod o ΠΕΤΡΑ 'craig' + ΣΕΛΙΝΟΝ 'persli'. Ymhlith y ff.iau ceir *persly*, *perslie*. Ni ddywedir beth ydyw hanfod

Bnth. o'r S. yn sicr ydyw hwn (gw. EEW, tud. 118, 136).

NHHP:

"garden Parsely" (tud. 696); "Marish Parsely, March or Smallach" (tud. 697); "Mountaine Parsely" (tud. 698), "stone Parsely" (tud. 699); "great Parsely or Alexander"

(tud. 700); "wilde Parsely" (tud. 701); "mater Parsely" (tud. 703); "bastard Parsely" (tud. 704):

Y rhain o'u cyf. a roes y ff.iau est. oll.

203

PIDIN Y GOC, PIDIN Y GÔC, PITIN Y COC

c.c. (Rh) : PEN. 326

T (tud. 40):

"... Coochow pyntle ... Wake Robin ... yn Saesonaec ..." .

Uchod wele ddau enw S. a roddir ar y planhigyn yn y T (cafwyd hwy mae'n debyg yn NOH). Yn yr EF (tud. 466 d.g. Lords and Ladies ...) ceir yr enwau hynny ynghyd ag ugeiniau o enwau S. ar yr un llysieuyn. Dëellir fod y ddau yn tynnu ar yr un dyfalu rhywiolwedd sylfaenol. Y mae *cuckoo pintle* yn gyfystyr â'r enw dan sylw a *wake Robin* yn drosiadol olygu cal wedi codi min. Gwelir fod nifer helaethaf yr enwau S. ar *arum maculatum* yn hanfod o ddyfalu rhywiol. Yn ôl yr EF bu i dyb gwlad ddrysu rhwng 'cwcw', 'cwcwallt' a 'cwcwll'. Yr oedd y gog rywiolffrydig yn gwneud cwcwallt o adar eraill [yn ôl hen dyb], tra bo offeiriaid dan gwcwll yn gwneud cwcwallt o wŷr priod. Hyn meddir sydd wrth wraidd enwau fel *parson's billycock*, *priest's pintle* ac enwau cyfanian Mananeg, Ff., Alm., Is-Alm., Daneg, Swedeg a *cuckoo pintle*, ac felly *pidin y gôc*. Y mae'r ffaith fod cynifer o enwau S. ar y planhigyn hwn ar y thema rywiol yn ogystal â chyfatebion mewn llawer o ieithoedd Ell. yn awgrymu y gallai fod y dyfalu perthnasol wedi ei gael o'r cyfeiriad hwnnw i'r C. er ei

fod i'w gael mewn Manaweg a Gwydd, (gw. L d.g. *Ar n*). Ond yn y pen draw y mae'n sicr mai o'r byd clas. y cafwyd y syniad cychwynnol am gysylltiadau rhywiol y planhigyn hwn (gw. 87 a gw. hefyd 37). Gan anghofio dyledion am y dyfalu, mae diweddarwch c.c. yr enw C. dan sylw, a bodolaeth yr enw S. *cuckoo pintle*, yn awgrymu'n gryf mai cyf.iad o'r S. hwnnw ydyw'r enw C.. Hefyd pe derbynnid eglurhad Lesley Gordon, *A Country Herbal* (tud. 66), rhaid fyddai i'r enw dan sylw fod o'r S.. Esbonia ef yr enw S. fel *cucu* 'bywiog' + *pintle* 'cal', ac felly nid 'cog' fyddai ystyr yr elf. gyntaf o gwbl.

204

#### PIONI BENYW

c.c. (Rh) (pioni) : Ll.B. 14912 (ff.: *pioni*)  
 c.c. (Rh) (pioni benyw) : T

#### OED:

d.g. Peony : Trawsloffwyd y gair gan y S. o'r Ll. a'r Ff.. Daw'r ff. Ff. hithau o'r Ll. *paeonia* a'r Ll. o'r Gr. *Παίωνα*, wedi ei enwi meddir ar ôl *Παίων* meddyg y duwiau; cymh. â *Παίωνος* 'mendio, meddygol'. (Nodir y ff. S.C. *pione* a'r Ff. Gogleddol *pione* y daeth ohono, yn S. y 15g. arferid ff.iau a gynhwysai *piony*).

Y mae ff.iau'r Rh ar y gair yn rhoi : *pioni* (7 gwaith), *piony*, *peione*, *peioni*, *paeoni* (un engh. o bob un). Ac eithrio *paeoni* (PEN. 228) sy'n amlwg dan ddyl. y Ll., daw'r gweddill o'r S., er y gallai fod dylanwad y Ff. ar y c.c..

DHS (tud. 268a):

"... Paeoniae foeminae ...".

Cyf. y ff. Ll. hon a roes *pioni benyw*.



205

PLANTAN, PLANTAN BYCHAN, PLANTAN LLEIAF, PLANTAN MAWR, PLANTAN MWYAF, PLANTAN Y DWFR, PLANTAN Y DWFYR, SOWDL CRIST, SOWDL Y CRYDD, SOWDYL Y CRYDD

c.c. (Rh) (plantan) : HAFOD 16, LLYFR COCH (ff.:  
*plantaen/planten, plantaen*)  
c.c. (Rh) (enwau eraill) : T

OED:

d.g. Plantain : O H.Ff. *plantain, plantein* o'r Ll.  
*plantagin-em* (cyflwr enwol: *plantago*) : hanfod o *planta*  
'sowdl'. Nodir y ff.iau S. *plantan, planten, plantain,*  
*plantayn.*

Yn amlwg nid *plantan* a fyddid wedi ei gael pe byddai'r gair C. wedi ei esgor arno yn syth o'r Ll.. Nid ydyw'n amhosibl fod dylanwad Ff. ar y ff.iau hynaf ond o'r S. yn sicr y cafwyd mwyafrif y ff.iau.

T (tud. 19):

"... *Plantago maior* y *Plantan mawr* ... *Plantago minor,*  
y *Plantan lleiaf*...".

Dyna dras pedwar o'r ff.iau est. : o'r Ll..

Cyf. o'r Ll. *plantago aquatica* a roddodd *plantan* y *dŵr* ar ddelw'r S. *water plantain*. Cafodd W.S. y ff.iau S. a Ll., o bosibl, yn *Libellus de Re Herbaria Novvs* (W.T.).

Parthed â *sowdl Crist* a *sowdl y crydd* (a'r cyfystyr S. *shoemaker's heel* (EF tud. 103)) mae'n bur debyg mai cyf.iadau ydynt o enwau Ll. o gofio'r dyfalu Ll. *plantago* < *planta* 'sowdl'.

## PLATAN, PREN PLATAN

c.c. (Rh) : T

OED:

d.g. platan : O'r Ll. *platan-us*.

OLD:

d.g. platanus : O'r Gr. Πλάτανος.

GEL:

d.g. Πλάτανος : Yn hanfod o Πλάτανος 'llydan', oherwydd y dail llydain a'r gosgedd lydan sydd i'r goeden.

Bnth. uniongyrchol o'r Ll. sydd yma, o *plantan[us]* (DHS tud. 33b a 233a).

POERLYS ... : gw. 143.

POLARDLIWYD : gw. 123.

## PORSLAN, PORTULAC, PORTULAC DOF, PORTULAC GWYLLT, PWRSLAN

c.c. (Rh) (porslan/pwrslan : HAFOD 16 (ff.: *pwrslyn*)

c.c. (Rh) (ff.iau eraill) : T

OED:

d.g. Purslane : O'r H.Ff. *porcelaine* o'r Ll. *porcil(l)āca* sef ff. Pliniws ar enw arferol Ll. y planhigyn *portulaca*. Rhoddir yma y ff. S. *purslyn*.

OLD:

d.g. portulaca: portula + terf. aca.  
d.g. portula : giat fechan, porth bychan.

Gwelir mai bnth. o'r S. ydyw *porslan/pwrslan*, a bod *portulac*  
yn enw bnth. syth o'r Ll.: drwy gyfrwng W.S..

DHS (tud. 42a):

"DE ANDRACHNE. ...  
GENERA.  
... vnam hortensem, & alteram syluestram ...".

Dyna o'u cyf. a esgorodd ar y ff.iau est..

PREN ... : gw. dan yr ail elf..

208

PRYFETLYS, PRYFETLYS BENYW, PRYFETLYS GWRRYW

c.c. (Rh) : T

T (tud. 17):

"Y Llatinwyr coegion aei geilw *Vermicularis* sef y  
pryfetyls ...".

(D.D.:

"*Vermiculus*, i, *Pryfyn*, *prÿf bychan*.)

Trosi o'r Ll. a roes hwn felly.

DHS (tud. 12b):

"DE AIZOO. ...  
GENERA.  
... mas ... foemina ...".

O'r DHS uchod y daeth y ff.iau est..

## PUM ARCHOLL, PUMPARChOLL

c.c. (Rh) : T

(Noder mai atodiad at y gwaith sy'n rhoi'r enw hwn. Llaw ydyw a berthyn i hanner cyntaf y 17g..)

T (tud. 268):

"a Sug y llysiewyn hwn syn meniciaethu[sic] ac yn iachau pob briw ag archoll...".

Dengys y dyfyniad y rheswm dros gysylltu archollion â'r planhigyn (gw. hefyd yr EF (tud. 224-5 d.g. Sanicle)). Y mae'r rheswm dros yr enw yn hawdd i'w weld o gofio fod pum rhan i ddeilen y planhigyn ac o gofio am bum archoll Crist. Diau y gallai ff. Ll.C.O. fod wedi esgor ar yr enw hwn. Ond nis gwelais yn unman. Ni ddeuthum o hyd ychwaith i gyfateb i'r enw hwn mewn iaith arall.

## PUPER, PUPYR GWŶN, PYPER GWŶN, PYPR, PYPYR

c.c. (Rh) (pupur/pupur gwyn) : Ll.B. 14912 (ff.: *pypyr / pyper gwynn*)

OED:

d.g. Pepper : O'r H.S. *pipor* drwy'r Ell.eg Orllewinol cyff. o'r Ll. *piper* sy'n cyfateb i'r Gr.  $\pi\acute{\iota}\pi\epsilon\rho\upsilon$ , cymh. â'r Sanscrit *pippali*. Nodir y ff.iau *peopur*, *pepyr*.

Os nad ydyw hwn yn bnth. diweddar o'r Ll. rhaid mai o'r H.S. *pipor* (neu ff. gyffelyb y cafwyd ((?) *pipor* > *pipur* > *pupur/pypyr*). Dichon mai ôl-ddylanwad y Ll. a adferodd -e- yn yr ail sill, yn y S., ac efallai'n annibynnol ar hynny yn y C..

Cyf. *piper album* (DHS, tud. 85a) a *pipere candido* (DHS, tud. 288a) a wnaethpwyd i gael y ff. est. yn y T.

211

PWRS Y BIGAIL, PWRS Y BUGAIL

c.c. (Rh) : HAFOD 16, LLYFR COCh

T (tud. 171):

"Pastoria bursa yn Llatin, Shephards purse yn Saesonaec:  
Pwrs y bugail yn Camberaec."/

Dangosir yma yn y T, dri enw cyfystyr. Rhydd yr OED (d.g. Shephard's purse) enwau cyfystyr Ff., Alm. ac Is-Alm.. A dywed yr EF (tud. 67) fod enwau cyfystyr ar gael ar draws Ewrob o Wlad yr Iâ i Rwsia. Y mae'n eglur felly fod yma ddyfalu hynafol; na ellir yn hawdd wybod ei ddarddle. A phe na bai wedi hanu o'r Ll., mae'n siŵr y bu i'r iaith honno le pwysig yn ei ledaenu.

PWRSLAN : gw. 207.

212

PYMPERNEI, PYMPYRNEL, PYMPYRNEL BENYW, PYMPERNEI GWR RYW

c.c. (Rh) : HAFOD 16, (ff.: *pimpyrnol*)

c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

OED:

d.g. Pimpernel : O'r Ff. o'r Ll. *pinpinella*. Yn wreiddiol enw ar *sanguisorba officinalis* a *poterium sanguisorba*. Cynigir felly y gallai'r enw fod yn llygriad o *bipinella* ff. fachigol o'r enw *bipinnula*, gair sy'n tarddu o *bipenis* 'dwy-adenog'. Ni wyddys pam y gosodwyd

yr enw ar yr *anagallis*. Gwyddys i hynny ddigwydd yn Ll. o leiaf cyn gynhared â'r 15g..

Y mae'n debyg felly nad at yr un llysieuyn â'r T y cyfeirir ato yn HAFOD 16 â'r enw *pimpyrnol*. O ran y planhigyn y dynoda yn unig, gellir dweud mai bnth. o'r S. ydyw'r enw hwn. Efallai hefyd mai'r T ydyw'r cyntaf i roi'r enw hwn ar *anagallis* yn C., gan ddilyn W.T. (NOH).

NOH (tud. 12):  
"Anagallis.  
... The male ... the female...".

DHS (tud. 8a-8b):  
"DE ANAGALLIDE. ...  
GENERA.  
... Mas ... foemina...".

O'r Ll. (DHS) ar ddelw y S. (NOH) y cafwyd y ff.iau est..

213

PYS, PŶS, PYS Y CEIRW, PYS Y LLYGOT, LENS

c.c. (Rh) (pys) : Ll.B. 14912, HAFOD 16  
c.c. (EEW) (pys) : 14g. YCM  
c.c. (Rh) (pys y ceirw) : Ll.B. 14912  
c.c. (Rh) (pys y llygod) : C.M. 1, G.W.S  
c.c. (Rh) (lens) : T

Mae'r EEW (tud. 127) yn gofyn ai o'r S. ynteu o'r Ll. yr hanodd y gair *pys* (Nodir ff.iau H.S. *pise* a S.C. *pese, pyse*). Gellid bod wedi trawsloffa o'r ddwy iaith. Sylwer, mai o air llu. y bu'r bnth., nes bod gofyn ychwanegu'r terf. i gael un..

OED:

d.g. Pease : O'r Ll. *pisa* (llu. *pisum*) sef 'pysen' o'r Gr.  $\pi\iota\sigma\sigma\upsilon$  'pysen'.

GEL:

d.g.  $\pi\iota\sigma\sigma\upsilon$  : Efallai'n hanu o  $\pi\tau\iota\sigma\sigma\omega$ .

d.g.  $\pi\tau\iota\sigma\sigma\omega$  : Tynnu'r peiswyn oddi ar y grawn, [o'i ddatblygu'n golygu deor pys].

L:

d.g. Vetch : *pegsair na luch*.

GNP:

d.g. V[icia] cracca : *peasair nan luch*.

Hor Yezh, 136, (miz Kerzu, 1980):

d.g. Gesse : *piz-logod*.

EF:

d.g. Hairy Tare (tud. 151) a d.g. Meadow Vetchling (tud. 153) : Mouse Pea.

DEPN

d.g. *LATHYRIS MACORORRHIZUS*, a *LATHYRUS PRATENSIS* : Mouse Pea.

Dyma enwau o bedair iaith sy'n gyfystyron (yn fwy na heb) â *pys y llygod*. Awgryma hyn y gallai fod ffynhonell Ll. cyff. iddynt. Eto sylwer ar y manau lle cofnodwyd yr enw *S. mouse pea* : EF : Iwerddon; DEPN : Yr Alban, a'r rhan o Loegr yn ffinio â'r Alban. Felly y mae'n bosibl mai cyf. iad ydyw'r enw *S.* o'r Gwydd./Alb. a bod yma' ddyfaliad Celtaidd. Gellid gwrthbrofi hyn, wrth gwrs, pe ceid hyd i enw cyfatebol yn yr ieithoedd Ell. eraill neu'r ieithoedd Ll.aidd. Methais â chanfod unrhyw gyfateb i *pys y ceirw*.

Bnth. uniongyrchol o'r Ll. gan W.S. ydyw lens.

RADIS ... : gw. 215.

214

RASINES, RESYNS

c.c. (Rh) : HAFOD 16

OED:

d.g. Raisin : O'r H.Ff. o'r Ll. poblogaidd \**racim-um*  
o'r Ll. *racēm-um*.

(OLD:

d.g. *racemus* : clwstwr.)

Hawdd gweld mai bnth. o'r S. ydyw'r enwau hyn yn enwedig o  
weld y terf. llu. S. -s.

215

REDIC, REDdIC, REDdIC DOFION, REDdIC VWYAF, REDdIC GWYLLTION,  
REDdIC LLEIAF, GWREIDdYN, RADDIC, RADIS, RUDDIC

c.c. (Rh) (*reddig*) : T

c.c. (Rh) (*ff.iau est. reddig*) : T

c.c. (Rh) (*gwreiddyn*) : T

c.c. (Rh) (*raddig*) : T

c.c. (Rh) (*radis*) : PEN. 204, C.M.1

c.c. (Rh) (*ruddig*) : T

c.c. (Rh) (*raffan*) : LLYFR COCh

c.c. (Rh) (*rhuddug(y)l*) : L1AN. 10, PEN. 204, PEN. 326,  
(ff.: *hvddigyl, hvddigyl, rrvddvgyl*)

T (tud. 188):

"... acgan y llysewyr cyphredin y caant ei galw Radix sef  
y Reddic ne'r Gwreiddyn am ei vod yn vwy no gwraidd eraill  
...".

OLD:

d.g. *radix* : 'gwraidd'.



OED:

d.g. Radish : Ceir dwy ael o ff.iau S.. Yr hynaf ohonynt (c.c. tua 1000) yn hanfod o'r Ll. *radic-em* [cyflwr gwrthrychol *radix*]; yn eu plith *redic*, *raedic*, *radik*, *raddyk*. Yr ail ael ael ydyw'r un a gynnwys *radish*, *radissh*: bnth. o'r Ff. *radis* (15g.), y ff. Ff. o'r Brofensaleg neu'r Eid. ac i'r ieithoedd hynny o'r Ll. *radic-em*.

Gwelir mai cyf. iad W.S. o'r Ll. ydyw *gwreiddyn*, tra bo *radis* yn bnth. o'r ff.iau S. o'r ail ael y cyfeirir ati gan yr OED. Y mae cyfnod y bnth. yn ymddangos yn rhy ddiweddar i fod wedi ei bnth. o'r Ff. - diau mai estronedd *-sh* sydd i gyfrif am debygrwydd y ff. C. i'r ff. Ff.. Nodais uchod ddau enw arall perthynol i'r llysieuyn : *raffan* a *rhuddug(y)l*. Bnth. diw. o'r Ll. *raphanus* ydyw *raffan*. Cynigaf fod *rhuddug(y)l* yn bnth. o ff. Ll. fachigol *\*radiculus/\*rudiculus*. Mi dybiwn fod y ff. hon yn hŷn nag yr arwydda y c.c., ac efallai fod y cam-rannu i yr *huddugyl* yn arwyddo hynny. Sutbynnag y ff.iau hyn ynghyd â *radis* sydd ar gael yn y d.ll.. Mae hyn yn arwydd go gryf mai ff.iau W.S. ydyw *raddic*, *redic*, *reddic*, *ruddic*. Arwydd pellach ydyw mai yn y T y ceir y c.ion c. o'r ff.iau hynny. O droi at B, XI (tud. 1-12, 92-100) ceir ymdriniaeth gan I.W. â'r *Vocabularium Cornicum* : geirfa Crn. (diwedd 12g. - dechrau 13g. l'lsgr. Cotton Vesp.A - y Llyfrgell Brydeinig). Dywedir mai llsgr. Ll.-S. wedi ei throsi i fod yn Ll.-Crn. ydyw. Fel gair bnth. o'r S. cyfeiria I.W. at *redic*: "665 raphanum : redic".

Ymhellach gwyddys i T. ap W. a R.M. ymhel â chop'iau o'r eirfa hon, gan dybio mai Brythoneg oedd y Crn. : "*Lib. Land.*" ym PEN. 228. Y mae'n dra thebygol felly i W.S. hefyd weld copi o'r eirfa hon. Ar sail hynny yr wyf yn cynnig mai oddi yma y cafwyd *redic*, *reddic* gan W.S.: gair Crn. a gam-dybiai mai Hen Gymraeg/Brythoneg

oedd ac yntau mewn gwirionedd yn ddim amgen na gair bnth. o'r S.. Amrywiadau pellach ganddo ar *redic*, *reddic* fyddai *raddic* a *ruddic* y naill dan ddylanwad y Ll. *radix* a'r llall dan ddylanwad yr enw C. arddeliedig *rhuddug(y)l*. Sylwer hefyd yr ymddengys y gallai fod W.S. yn ceisio defnyddio *ruddic* i ddynodi'r rhywogaeth wyllt o'i chymaru â'r lleill (gw. T tud. 188).

DHS (tud. 224b):

"DE RAPHANO. ...

GENERA.

... *satiui* & *syluestris* ... *minor* ... *maioré* ... "

Dyna a roes y ff.iau est..

216

REÍŚ, RIS

c.c. (Rh) : Ll.B. 14912 (ff.: *ris*)

T (tud. 197):

"... *gronynnae* a eilw y Sason *Reís.*/"

OED:

d.g. *Rice* : O'r H.Ff. *ris* drwy'r Eid. o'r Ll. *orizum* o'r Gr. *ὀρυζα* o dras Dwyreiniol mae'n debyg.

Arwydda y dyfyniad o'r T mai o'r S. yr hanodd y ff. *reis*. Fodd bynnag y mae c.c: *ris* yn ei gwneud yn bosibl iddo naill ai gael ei bnth. o'r S. neu drwy drawslofffa o'r S. a'r Ff..

RESYNS : gw. 214.

REW : gw. 221.

RIS : gw. 216.

ROS... : gw. 220.

217

ROSMARI

c.c. (Rh) : LLAN. 10, PEN. 57, PEN. 326

OED:

d.g. Rosemary : Altrad o *rosemarine* o'r Ll. *ros marinus* sef 'gwlith y môr'. Ystumwyd yr enw yn S. ac mewn ieithoedd eraill Ell. gan dyb gwlad i olygu 'rhosyn Mair'.

O'r S. y daeth hwn; yn ff. sy'n cynnwys yr ystumiad S. ar y Ll..

RUT : gw. 221.

218

RHEDEGOT Y DERW

c.c. (Rh) (rhedegog/od) : LLYFR COCh (ff.: *redegawc*)  
c.c. (Rh) (rhedegog/od y derw) : T

Ceir dwy engh. arall ym PEN. 204 sydd hefyd yn rhoi -awc yn drydedd sill : terf. ans.. Gall -od fod yn terf. llu., ond -og

mae'n debyg ydyw'r terf. dilysaf. Yn sicr ar y ferf *rhedeg* y gosodwyd yr enw; a hynny oherwydd tueddy llysieuyn i ymledu neu gerdded (?). Ni chanfôm gyfateb i'r enw mewn iaith arall. Ond y mae enw S. yn cysylltu y llysieuyn â derw gw. 58.

219

RhEDYN, RhEDYN BENYW, RhEDYN CYPHREDIN, RhEDYN GWR RYW, RhEDYN GWRRYW, RhEDYN MAIR, RHYDYNEN

c.c. (sGPC) : 12g. LL (ff.: *(kil)redin/retin*)  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

DFB:

d.g. FOUGÈRE : *radenen* (un.) *raden* (llu.),  
*radenennon* (llu.).

GNP (tud. 123):

d.g. Filices : Ceir yma'r Alb. *raineach*, *roineach*,  
Gwydd. *raith*, *raithne*, *raithneach*, *reathnach* a Manaweg  
*rhenniaght*. Cynigir y gallai'r enwau hyn fod yn seiliedig  
ar *reath* 'rhod' nei rat 'symud', oherwydd tro cylchol y  
dail wrth iddynt daflu.

Efallai mai'r elf. *rhed-* fel sy'n *rhedeg* a geir yma, yn  
cyfeirio at natur *pteridium aquilinum* i ledaenu : cymh. â  
*rhedegod* (gw. 218).

DHS (tud. 202b):

"DE PTERIDE. ...  
GENERA.  
... mas ... & foemina ...".

Y fan hyn a esgorodd ar y dosbarthu 'gwryw' a 'benyw'.

Rhydd y GNP (tud. 125 d.g. *Athyrium filix foemina*) yr enw  
Gwydd./Alb. *raineach Mhuire* 'rhedyn Mair'. Ac yn y S., ar yr un  
redynen, mae'r enw'n dynodi'r un peth: *Lady fern*. Am ddyfalu

Mair gw. 52. Ymddengys mai enw W.S. i hwyluso disgrifio, ydyw rhedyn cyphredin.

220

RhOS, RhÔS, RhOS CAMPE, RhOS DOFION, RhOS GWYLLTION, RhÔS GWYLLTION, RhOSYN, ROS, ROS YR EGROES

c.c. (EEW) (rhos) : 1346 L1A  
c.c. (sGPC) (rhosyn) : 1455-8 LGC  
c.c. (Rh) (ff.iau est.) : T

EEW (tud. 183):

d.g. *rhos* : O'r S. *rose* ynteu o'r Ll.?

OED:

d.g. *Rose* : O'r Ll. *rosa* a'r Ll. mae'n debyg o'r Gr. *ῥόδῆα*.

GEL:

d.g. *ῥοῦθῶν* : Cynigir y gallai fod yn perthyn i *ε-ῥουθῶν*, Alm. *roth*, S. *red ruddy*, 'coch', 'cochlyd'.

d.g. *ῥεϋροπος* : coch [ctr. *rhudd?*].

(Y mae'n debygol, i ddatblygiad cyffelyb ag a awgrymir iddo ddigwydd yma yn achos Gr., ddigwydd yn yr ieithoedd Celtaidd - gw. 22).

Mi gredaf ei bod yn eithaf hawdd ateb cwestiwn EEW a dweud yn syml y bu trawslofffa o'r S. a'r Ll. yn gyfrifol am ff.iau C. ar *rosa*. Hawdd ydyw dangos bnth. o'r S. drwy gyfeirio at ff.iau sy'n cynnwys llu. S. -es e.e. *roses* C.M. 1, *rosys* W.L.B.. Eto y mae *rhos* yn air llu.. Gwelir hynny heb fynd ymhellach na'r T, sef *rhos dofion* a *rhos gwylltion*, ac y mae digonedd o engh.iau eraill yn y Rh. Yn cadarnhau ymhellach mai gair llu. ydyw, rhoddwyd y terf. -yn ar ôl y gair i ff.io un.. Gan hynny, pe bai

*rhos* yn hanfod o'r S. r se, rhaid fyddai iddo fod wedi bod yn un.. O'r herwydd casglaf mai o'r Ll. y daeth; o'r Ll. ll. *rosae*. I grynhoi : bnth.wyd *rhos*, a hanfod y ff.iau diweddarach *rhosyn*, *rhosynnau* yn wreiddiol o'r Ll., tra bo *rhosys* o'r S. a'r ff. ddiweddarach *rhosod* efallai'n dangos dylanwad yr un. S. *rose* nes bo gofyn cadarnahu'r lluosogi.

(Ymddengys mai yng nghyfnod y T, yr oedd yr *rh-* yn sefydlu ei hun ar ddechrau'r gair yn lle *r-*. Dengys y ff.iau uchod hynny a ff.iau y Rh hefyd).

DHS (tud. 223a):  
"DE ROSA. ...  
GENERA.  
*sylvestris* ... *domesticas* ...".

Dyna dras dau o'r ff.iau est..

Am yr elf. *egroes* gw. 92.

OED:

d.g. *Rose-campion* : *rose* 'rhosyn' + *campion*<sup>2</sup>.

d.g. *Campion*<sup>2</sup> : Nodir enwau Gr. a Ll. y *rhos campau* sef *ΛΥΧΝΙΣ ΣΤΕΦΑΝΩΜΑΤΙΚΗ* a *lychnis coronaria*, ystyr y ddwy ail elf. ydyw 'yn gyfaddas i lunio coron/talaith/torch'. O'r herwydd amcenir mai yr un ydyw *campion*<sup>2</sup> & *campion*<sup>1</sup>.

d.g. *Campion*<sup>1</sup> : campwr, pencampwr.

Y mae amcanu yr OED yn cael ei gadarnhau o bosibl, gan y bnth. C. dan sylw yma. Nid *rhos campan* ydyw ond *rhos campe* ac yn y D.D. ceir *rhos campau*. Ymddengys mai ll. *camp* ydyw *campe* yma, sef *gorchestion*, ac mai 'rhosyn y gorchestion' ydyw'r ystyr.

RhUDDIC : gw. 215.

221

RhUT, REW, RUT, RŪT, RUW

c.c. (Rh) (rhut) : HAFOD 16, LLYFR COCh (ff.: *rut, rut*)  
c.c. (Rh) (rhuw) : PEN. 27, PEN. 205, PEN. 326 (ff.: *ruw, rvw, rvw*)

OED:

d.g. *Rue* : O'r Ff. *rue* o'r Ll. *ruta* o'r Gr. *ῥῦτή*.  
Ymhlith yr amrywiadau S. ceir *rew*.

GEL:

d.g. *ῥῦτή* : Enw o'r Peloponesis. Ni chynigir tras  
pellach iddo.

Y mae'n hawdd gweld o'r ff. ac o gyfnod y tri c.c. mai o'r S. *rue* y daeth *rhuw*. Y mae *rhut* yn ymddangos yn bnth. o'r Ll. *ruta* - ond bnth. diweddar heb i'r -t- feddalu.

222

RhYC, RhŶC

c.c. (Rh) : LLYFR COCh (ff.: *ryc*)

DFB:

d.g. SEIGLE : *ségal*.

GNP (tud. 119):

d.g. *Secale cereale* : Enw Gwydd. ac Alb. arno : *seagal*, (Gr. *Σεχάλη* ).

Credaf fod hyn yn ddigon o arwydd mai o dras clas. y tarddod yr enwau ar y llysieuyn hwn yn Llyd., Gwydd., ac Alb. yn ogystal

À Ff..

OED:

d.g. Rye : *secale cereale*. Nodir y ff. H.S. *ryge* a rhoddir ctr.au mewn nifer o ieithoedd Ell. gan gynnwys H.Norseg, Daneg, Swedeg ceir cyfatebion hefyd yn yr ieithoedd Balto-Slafaidd e.e. H.Brwsieg, Lithiwaneg. Tybir mai o ddwyrain Ewrob yr hanodd yr enw ac iddo gael ei bnth. i'r ieithoedd Ell..

Afraid dweud mai bnth. o'r S. a roddodd yr enw hwn. Ac y mae i'w weld i mi'n bnth. o H.S. cyn i'r -g gollu. Gallai'r -g honno fod wedi caledu yn C. ac wedyn fod wedi meddalu'n ôl yn -g i roi'r ff. a geir bellach.

223

SAEDS, SAEDS CARTREFIC, SAEDS PhRENGIC, SAEDS GWYLLT, SAEDS GWYLLTION, SAEDS Y MYNYDD, SAETS

c.c. (Rh) (saetj) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
(ff.: *sache, saych/says, saes*)  
c.c. (Rh) (saetj gwylltion) : HAFOD 16  
c.c. (Rh) (ff.iau est. eraill) : T

OED:

d.g. Sage : O'r S.C. *sauge* o'r Ff. *sauge* o'r Ll. *salvia*.

OLD:

d.g. *saluia* : enw'n perthyn mae'n debyg i *saluus*.

d.g. *saluus* : 3) 'iachus'.

Gallasai fod trawslofffa o'r Ff. a'r S. yn hanes cael y ff.iau hynaf. Ond yn sicr o'r S. y bnth.wyd trwch yr engh.iau yn y Rh. Hawdd gweld fod ymgais at gyfleu sain estron yn y ff.iau sillafu amrywiol.



T (tud. 218):

"... wrth y Phrancaec y dyscwn y ei galw yn Saeds gwylltion ne Saeds y mynydd ...".

DHS (tud. 260a):

"DE STACHY.

NOMINA.

... [*Gallis Sauge sauluage, où de montaigne*]...".

Dyna ddangos tras Ff. a ffynhonnell y ff.iau Ff. a roes saeds gwylltion a saeds y mynydd.

DHS (tud. 87a):

"DE ELELISPHACO. ...

GENERA.

... *domestica* aut *hortensis* *Saluia* ... *Saluia minor*, *franca nobis dicitur* ... [*Gallicè De la Saulge franche*] ...".

Oddi yma y cafwyd gweddill y ff.iau est..

224

SAFRI DOF

c.c. (Rh) (safri) : C.M. 1, G.W.S

c.c. (Rh) (safri dof) : T

OED:

d.g. *Savory* : Yn y pen draw o'r Ll. *satureia*, o bosibl drwy'r Ff.. Ceir yr amrywiad *savry*.

OLD:

d.g. *saturēia* : Tarddiad anhysbys.

Bnth. o'r S. ydyw *safri* (o'r ff. megis yr amrywiad a nodais o'r OED). Y mae diweddarwch y c.c. hefyd yn cadarnhau hynny.

DHS (tud. 284a):  
"DE HYSSOPO. ...  
FORMA.  
... Satureiae sativae".

Dyna a roes y ff. est..

225

SAPhRAN, GAU SAPhRAN, SAPhRON, SAPhRÓN

c.c. (Rh) (saffyr/saffrwn) : L1.B. 14912, HAFOD 16, L1YFR  
COCh (ff.: *saffyr, saffyr/saffrwn de ort, saffyr/saffrwn*)  
c.c. (Rh) (saffrwm) : PEN. 204, PEN. 326  
c.c. (Rh) (saffran/saffron) : T  
c.c. (Rh) (gau-saffran) : T

OED:

d.g. Saffron : O'r Ff. *safran* ac yn y pen draw o'r Arabeg (سافران) (*zasfarān*). Ni wyddys beth ydyw gwraidd y gair Arabeg. Gwrthodir ei fod wedi ei gysylltu â ff. ar ans. sy'n golygu 'melyn'. Nodir yma y ff. Ll.C.O. *safranum*. Nodir ymhlith yr amrywiadau S., *saffyron, saffroun, saffrun, safran*.

Yn sicr bu trawslofffa o ffynonellau gwahanol yn achos y ff.iau C.. Y ff. fwyaf cyff. o bell ydyw *saffrwm*. Ai bnth. diw. ydyw'r ff. hon yn syth o'r Ll. - o ff. gywasgedid ar *safranum* : \**safrum* ? Ac a allai'r ff. S. *saffyron* fod wedi esgor ar *saffyr* drwy i'r C. drin *saffyron* fel llunio *saffyr* yn un. newydd? Wrth gwrs y mae *saffrwn de ort* (HAFOD 16), yn amlwg yn dangos ôl estron tra bo *saffrwn* o'r S. *saffroun, saffrun*. Am y ff.iau sy'n y T, buaswn yn meddwl fod yma ddyled i S. a Ll., i *saffron/saphron* a *safranum*. Yn sicr ff.iau W.S. ydynt fel yr arwyddir gan y c.ion c. ohonynt.

NOH (tud. 29):

"*Cnecus*.  
... in englishe Bastarde saffron or mocke-saffron ...".

Cyf. y S. *mocke-saffron* o'r ffynhonnell uchod a wna gau  
*saffran*.

226

SANICKL

c.c (Rh) : HAFOD 16 (ff.: *sanikyl*)

OED:

d.g. *Sanicle* : O'r Ff. *sanicle* o'r Ll. *sanicula*,  
*saniculum*, wedi ei seilio mae'n debyg ar *san-us* 'iachus',  
oherwydd rhinweddau meddygol y llysieuyn.

Nid yn llaw R.M. y ceir yr enw hwn yn y T. Ychwanegwyd ef gan  
law a berthyn i hanner cyntaf yr 17g.. Mewn un lle (tud. 268)  
defnyddir ef fel enw S. ac fe'i bnth.ir ef fel C. wedyn (tud.  
269). Y mae'n amlwg i rywfaint o'r ff.iau yn y Rh gael ei bnth.  
o'r S.. 'Rwy'n amau y gallai eraill ddyfod yn syth o'r Ll. o  
bosibl y ff.iau *sanvgyl* (PEN. 204) *sanigyl* (PEN. 326).

SEITHGEWYN : gw. 198.

SERFEL : gw. 54.

SICORI : gw. 51.

SIRIAN, SIRIAN COCHION, SIRIAN DUON, SIRIANBRÉN, SIRIANGOED,  
PRENNE SIRIAN COCHION, SURIAN, SURIANBREN, SURIANBRÉN,  
SURIANBRENN, PRÉN SURIAN

c.c. (EEW) : 13g. T[aliesin] (ff.: *siryān*)

EEW (tud. 143):

d.g. *sirian* : Gofynnir a oes cysylltiad rhwng y gair a'r S. *cherry*. Ymddengys yn air llu. yn C.. Rhydd W.S. yr un. *sirianen*. Cyfyd anhawster â'r terf. -an. Ceir yn H.S. -es yn sill diwethaf yn yr un. *cieres cires*. Y mae ff. S. o'r 16g. *chirrie*, ff. C. arall ydyw *sirion* a'r ff. taf. *sirins* (*shirins*).

OED:

d.g. *Cherry* : Yr oedd H.S. *ciris*, *cyrs* a hanai o'r Ll. poblogaidd \**ceresia*, \**ceresea* a hanai o'r Ll. *cerasus* sy'n cyfateb i'r Gr. *Κέρσις*. Cred rhai o ysgrifenyddwyr Rhufain mai oherwydd i'r goeden gael ei dwgdyd gan Lucullus o fan o'r enw *Cerasus* ym Mhontus y'i gelwid felly. Cyfeiria eraill at y gair Gr. *Κέρσις* parthed â thras yr enw. Y mae *queres* a *kerez* (Llyd.) a *ceirioes*, *ceiroes*, *ceirios* o dras Ll.aidd tra bo *siris* (Gwydd.), *siris*, *sirist* (Alb.) a *shillish* (Manaweg) yn hanu o H.S. neu S.C..

Cadarnheir mai gair llu. ydyw *sirian/surian* gan y T e.e. *sirian cochion*, a chadarnheir tyb EEW ynglŷn â thras S. y gair yn ddiarwybod gan yr OED, drwy nodi engh.iau o bnth. o'r S. yn yr Alb., Gwydd. a Manaweg. Yn sicr bnth. o'r S. sydd yma. Byddwn yn chwannog o'm rhan fy hun i dybio bod yma terf. cyflwr traws S. (gw. 200) a bod hwnnw wedi asio o ran sŵn yn well fel llu., fel yn achos *suran* (gw. 231).

SIWDR MWDR : gw. 229.

SMALAETS : gw. 102.

## SNODEN VAIR

c.c. (Rh) : T

Ymddengys hwn yn cyf.iad o ff. Ll., ond methais â dod o hyd iddi na ff. gyfatebol mewn unrhyw iaith arall. Am ddyfalu 'Mair' gw. 52.

SOTHERNWD, SOTHERNWD GWRRYW, SOTHERNWOD, SOTHERNWOD BENYW, SOTHERNWOD GWR RYW, SOTHERNWT, SIWDR MWDR (trn.)

c.c. (Rh) (swddernwd) : Ll.B. 14912, HAFOD 16 (ff.: *swddwrnwot/swthornot, swdyr[n]wort/swddwnwot*)  
 c.c. (Rh) (siwdwr mwdwr) : T (atodedig), PEN. 170, PEN. 250, MOSTYN 56, Rh. 32975.

## OED:

d.g. Southernwood : Gair cyfansawdd o *southern* 'deheuol' + *wood* 'pren/coeden'. Tarddodd o ff. H.S. megis *sud̄erne wudu*. Y rheswm dros yr enw ydyw oherwydd iddo hanu o dde Ewrob.

Petai angen cadarnhau yr ystyr a roddir gan yr OED ceir y ff. *dehevgoed* yn PEN. 182, yn cyf. y S. yn ôl pob tebyg. Yn amlwg yr oedd wedi ei hen bnth. o'r S. erbyn oes W.S., fel y gwelir o'r c.c., ac fel y gwelir hefyd o'r ff. *siwdwr mwdwr*. Er mai o tua 1600 y daw c.c. hwnnw, ymddengys i mi ei fod yn bnth. hŷn na *swddernwd*, sef o'r H.S. a grybwyllir gan yr OED : *sud̄erne wudu*. [? *sud̄erene wudu* > \**swdder nwdw* > \**swddwr nwdwr* > \**swdwr nwdwr* > \**swdwr mwdwr* > *siwdwr mwdwr* > *siwdr mwdr*]. Yr oedd W.S. yn ymwybodol o dras y gair hwn. Hynny sy'n gyfrifol, mi fuaswn yn meddwl, am y sillafu Seisnig *sothernwd/t* a *sothernwod*.

DHS (tud. 3a-3b):

"DE ABROTONO. ...

GENERA.

Abrotonum duorum est generum ... mas & foemina. ...".

Dyna'r Ll. a roes o'u cyf. y ff.iau est..

SOWDL CRIST, SOWDL Y CRYDD ... : gw. 205.

230

SPINAC, SPINACH, SPINAEDS, SPINAETS

c.c. (Rh) (yr holl ff.iau) : T

T (tud. 191):

"Spinacia yn Llatin, Spynache yn Saxonaec a dewised Cambero yr vn a vynno ai lledieithy gyd ar Groecwyr ai alw Spinach ay gyd ar Llatinwyr ai ddoedyt Spinac ay o gyfneseifrwydd cymydogeth y gyd ar Saeson ei enwi Spinaeds./".

OED:

d.g. Spinach : O'r Ff. o'r Ll.C.O. *spinachia* / *spinacia*. Cynigir ei fod yn hanfod o'r Ll. *spina* 'draenen' neu 'bigyn' oherwydd siap yr had. Cynigir hefyd y gallai'r gair hano o Arabeg.

Sylwer fod ff. Gr. yn DHS hwn a roddod y ff. a ddyfynnir gan y

T :  $\Sigma \pi \alpha \nu \alpha \chi \iota \alpha$  (tud. 227b).

231

SURAN, SURAN Y GOC, SURAN Y GÔC, SURAN YR YD

c.c. (Rh) (suran) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh.

(ff.: *suryon y coet*, *suryon/suryon y coet*, *suryon y coed*)

c.c. (Rh) : (suran y gog) : Llan. 10, PEN. 204, PEN. 326

c.c. (Rh) (suran yr ŷd) : G.W.S.

EEW (tud. 30):

*Suran* : Ceir mai bnth. ydyw o gyflwr traws H.S. *sure* [ ? 'sur'] sef *suran*, (gw. hefyd tud. 33).

OED:

d.g. *Sorrel* : O'r Ff., ac wedi ei seilio ar yr ans. *sur* 'sur'.

Sylwer yr ymddengys fod y ff.iau yn y c.ion c. efallai'n dangos dylanwad tyb gwlad yn troi'r -an yn llu.-ion. Fel llu. y trinnir yr enw fynyachaf e.e. *suran* hirion (D.D., PEN. 250). Cyf. o'r S. hefyd, mi dybiwn a roes *suran* y gog: sef cyf. *cuckoo's sour*, *cuckoo-sorrel* (DEPN tud. 135). Ni tharewais ar ddim cyfystyr hollol i *suran* yr ŷd.

SURIAN ... : gw. 227.

232

SYFI, DAIL Y SYFI, GWYDD Y SYFI

c.c. (Rh) : L1.B. 14912, LLYFR COCH, (ff.: *syui*, *syui*)

DFB:

d.g. *FRAISE* : *sivi* (llu.) *sivienn* (un.)

GNP (tud. 27):

d.g. *Fragaris vesca* : *sùbh/sùth thalmhuinn*, *sùbhan laire* sef 'sug y ddaear'.

*Foclóir Gaedhilge agus Béarla (Dinneen)*:

d.g. *subh-uibhe* : Ceir fod *subh talmhan* yn golygu 'mefusen'.

*Foclóir Gaeilge-Béarla (Ó Dónaill)*:

d.g. *su* : *sug*.

d.g. su<sup>2</sup> : s<sup>ú</sup> tal<sup>ún</sup> 'mefusen'.

d.g. subh : 1) jam 2) mefusen.

*A Pronouncing and Etymological Dictionary of the Gaelic Language:*

d.g. s<sup>ù</sup>gh : 'sug', wedi hanu o'r H. Gwydd. s<sup>ú</sup>g o'r H. Gelteg [\*] s<sup>ú</sup>go- 'sug'. A gosodir y Ll. s<sup>ū</sup>cus ['sug'] wrth ei ymyl.

AWG (tud. 134):

Nodir fod *sugnaf* a'r Gwydd. s<sup>ū</sup>gim 'sugnaf' yn ctr. â'r Ll. s<sup>ū</sup>cus ['sug'], s<sup>ū</sup>go ['sugno'] a'r H.S. s<sup>ū</sup>gan, s<sup>ū</sup>can 'sugno'. Nodir hyn mewn adran sy'n ymdrin â hynt s- cyn llafariad wrth i'r C. esgor o'r I.E.. Ceir mai troi yn h- a wnai amlaf (fel yn achos *haf, hen, hir*) ond ar adegau cadwai'n s- (fel *sugnaf*).

O gymryd gwraidd *sug*: \*seuk (AWG tud. 166) a gwraidd y terf. ll. -i : -i<sup>ā</sup>ies (AWG tud. 202) gellir amcanu fod gair \*seuki<sup>ā</sup>ies. A fyddai'n bosibl i hwnnw ddilyn y broses a ganlyn? : \*seuki<sup>ā</sup>ies > \*sugi<sup>ā</sup>ies > \*syi<sup>ā</sup>ies (-u- (sef sain -w-) > -y- a gw. AWG tud. 162-3 am dreigladd g) > \*sui > syfi (-f- yn ymwthio rhwng dwy lafariad (cymh. â *llefydd*)). Boed hynny'n gywir ai peidio y mae tarddiad cyff. yr enw'n eglur, a'r ystyr sydd iddo. Ond am ymdriniaeth gynhwysfawr â'r enw hwn gw. y nodyn geiriol arno gan J. E. Caerwyn Williams yn B, XVII, (tud. 264-7). Gwelais hwnnw ar ôl cynnig fy awgrym uchod. Ond ni welaf fod ynddo ddim sy'n tanseilio'n sylfaenol yr hyn a awgrymais. Yno cloriennir yn fanwl y ffynonellau damcanol, ceir yno hefyd yr awgrym y gallai hwn fod yn air bnth. o'r Gwydd..

Ymgais ydyw *dail y syfi* a *gwydd y syfi* i drosi *fragaria* tra bo *fragaum* yn golygu *syfi*. Ymdrafferthir i wahaniaethu rhwng y ffrwyth chwedl na'r planhigyn (gw. T tud. 244), yn dilyn patrwm W.T. yn y NOH (tud. Dij d.g. *Fragaria*).



## SYLER MYNYDDIC

c.c. (Rh) : T

NH (11b):

"... Syler mountayne ...".

Cyf. o'r S. uchod sydd yn y T.

OED:

d.g. Siler : O'r Ll. *siler*.

OLD:

d.g. *siler* : O dras anhysbys.

## TAFOD Y CI, TAFOD YR EDYN, TAFOD YR HYDD, TAFOD YR OEN

c.c. (Rh) (tafod y ci) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

c.c. (Rh) (tafod yr edyn) : HAFOD 16

c.c. (Rh) (tafod yr hydd) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR  
COCh

c.c. (Rh) (tafod yr oen) : T

OED:

d.g. Dog's-tongue : Cyf.iad o'r Ll. *cynoglossum*.

d.g. Hound's tongue : cyf.iad o'r Gr. *κυνόγλωσσοῦ* /  
Ll. *cynoglossum*.

d.g. Bird : Ceir fod y gyfuniad *bird's tongue*.  
Cyfeiria at nifer o blanhigion gwahanol. [Un ohonynt  
ydyw'r un un a'r C. *tafod yr edn*].

[Y mae'r DEPN (d.g. Bird's tongue) yn cadarnhau i'r  
enw *bird's tongue* gael ei ddefnyddio i ddynodi'r un  
llysieuyn (*stellaria holostea*) â *tafod yr edn*].

d.g. Hart's-tongue : Cyf.iad o'r Ll.C.O. *lingua cervi*.  
Cyf.wyd o'r Ll. hefyd i'r Ff. *langue de cerf* a hefyd i'r  
Alm. a'r Ddaneg.

d.g. Lamb's-tongue : (1) Cyf.iad o'r Ll.C.O.  
*arnoglossa*, Gr. *αρνόγλωσσοῦ*.

Y mae'r S. *dog's tongue/hound's tongue, bird's tongue, hart's tongue, lamb's tongue* yn cyfateb (yn eu trefn) i'r ff.iau dan sylw. Yn L ceir dau gyfateb Gwydd. : *teanga chon*, 'tafod y ci' a *teanga énáin*, 'tafod yr aderyn'. Yn L hefyd dan yr ail enw rhoddir yr enw Ll. *lingua avis*. Gwelais innau hwnnw rywle yn y d.ll. (ond nis nodais gan mai enwau C. yr oeddwn yn eu hel). Yr enw Ll. hwnnw, ydyw'r enw sy'n ffynhonnell i'r enw *tafod yr edyn* a'i gyfatebion mewn ieithoedd eraill, ac fel y gwelir uchod y mae gwraidd clas. i'r tri enw arall.

T (tud, 19-20):

"Y mae rhyw Phranc yn seny ei veddwl yn escribedic yn llyfyr Phwcsiws am ryw rhei o'r llysaie hynn a hwnnw a vŷn bod rhyw canolic o'r Plantan a ei alw y mae ar enw Groec Arnoglosson sef Tafod yr oen ...".

Mae'r dyfyniad hwn yn eglur ddigon yn dangos mai cyf. iad W.S. o'r Gr. a roes yr enw, *tafod yr oen*.

Felly y mae'r enwau hyn yn uniongyrchol ddyledus i byd clas., ac efallai fod dyfalu 'tafod' hefyd yn hanfod o'r byd hwnnw.

235

TAFOL, TAFOL GARDdAE, TAFOL MAIR, TAFOL Y MÔR, TAFOLEN VAIR, TAFOLEN VAWR, TAFOLEN VECHAN WYLLT, TAFOLEN MAIR

c.c. (Rh) (tafolen) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, LLYFR COCh  
c.c. (Rh) (tafol gerddi) : Ll.B. 15045  
c.c. (Rh) (tafol(en) M/Fair) : PEN. 204  
c.c. (Rh) (ff.iau eraill) : T

Enwau Llyd. ctr. : *tael* (llu.), *taelenn* (un.) (*Hor yezh*, 104, *miz Gwengolo*, 1975, tud. 51) a *teol* (*Hor Yezh*, 136, *miz Kerzu*, 1980, tud. 43).

Ymddengys mai ans. ydyw -ol. A allai fod perthynas rhwng y taf- a'r taf- yn tafod, tafell, ac a oes perthynas pellach â'r Ll. *tabula*? Gw. "Geiriau Celteg Diweddar yn y Ffrangeg" gan J. Piette ym B, XIX, (tud. 34-41) am gyffwrdd pellach ar y cyswllt posibl hwn.

DHS (tud. 160b-161b):  
"DE LAPATHO. ...  
GENERA.  
... genus hortense ...  
FORMA.  
... Oxalis autem folia sylvestri & paruo humilive Rumeci similia habet."

Oddi yma y cafwyd *tafol garddae* a *tafolen vechan* wyllt.

Trosi *Hippolapathon* (DHS 161b, EX DIOSCORIDE) a wna *tafolen fawr*. Byddai cyf.'r enw wedi rhoi *march dafolen*, ac ystyr hynny fyddai *tafolen fawr* gw. T (tud. 222) a gw. 166.

Ni chanfûm gyfateb mewn iaith arall i *tafol(en) M/Fair*. Gallai'n hawdd fod y ff. Ll. y tu cefn i'r enw hwnnw, ynghlŷn â dyfalu 'Mair' gw. 52.

Cyf.iad o'r S. *sea-dock* (gw. OED d.g. Sea) ydyw *tafol y môr*, hyd y tybiwn. Ond gan mai planhigyn estron ydyw hwnnw (*acanthus*) i Brydain y tebycaf ydyw mai cyf.iad o Ll. neu iaith arall ydyw'r enw S.. Hwyrach nad W.S. sy'n gyfrifol am ei cyf. i'r C., gan na nodar enw S. cyfystyr.

TAGARATR : gw. 45.

236

TAMEIT DIAUOL, TAMMAID DIAUOL

c.c. (Rh) (tamaid (y) Diabol) : T  
c.c. (Rh) (tamaid y Cythraul) : Ll.B. 14912, HAFOD 16

T (tud. 203):

"A hwn yw yr llyseun y mae llawer Nasiwn yn ol phŵc rhyw hên chwedl yn ei alw Tammaid Diauol : o bleit y llysewyr annyscedic ai geilw yn ei Llatin wy Morsus Diaboli."

Yn y T hefyd nodir cyfystyron S., Ff., Alm.. Mae cyfystyr Alb./Gwydd. hefyd greim an diabhail (GNP tud. 49). Amhosibl ydyw dweud ai'r Ll. *morsus Diaboli* ydyw'r gwreiddiol ond yn sicr hwnnw a ledaenodd yr enw i gynifer o ieithoedd. Yma lledaenai W.S. yntau yr enw i'r C., a nodir mai ei adffriad ef ar *Diawl* ydyw *Diabol* (gw. AWG tud. 220). Gwnai hynny, yn ôl pob golwg, heb ymwybod bod yr enw eisoes yn yr iaith yn ff. *tamaid y Cythraul*.

237

TANSI, TANSI GWYLLT

c.c. (Rh) (tansi) : Ll.B. 14912, HAFOD 16, (ff.: *tansi*,  
*tansi*)  
c.c. (Rh) (tansi gwyllt) : C.M. 1

OED:

d.g. Tansy : drwy'r H.Ff. *tanesie* o'r Ll. *athanasia* o'r Gr. *ἀθανασία* 'anfarwoldeb'.

DHS (tud. 211b):

"DE POTENTILLA.  
NOMINA.

...Tanacetum sylvestre...[Galli *Tanaisie saulvage*]..."

Cyf.'r rhain a roes y ff. est. yn y T (er mai cyf.'r S. *wild tansy* a roddodd y ff. yn y c.c., yn ôl pob tebyg).

238

TEIM

c.c. (sGPC) : 13g. Brut B. (ff.: *thym*)  
c.c. (Rh) : PEN. 204, C.M.1, G.W.S. (ff.: *teim, teim, teim*)

OED:

d.g. Thyme : O'r Ff. *thym* o'r Ll. *thymum* o'r Gr.  
*θύμον* (*θύμος*), wedi ei lunio ar *τέλει* sef 'llosgi  
aberth'.

Ymddengys fod ff. y c.c. yn hanu o'r Ll. *thymum* yn enwedig o gofio mai testun Ll. ydoedd gwreiddiol *Brut y Brenhinedd*. Wedyn y mae yr holl ff.iau ar yr enw a roddir yn y Rh, ynghyd â ff. y T, yn tarddu o'r S., gyda'r -ei- yn cynrychioli y sain S.. Hefyd gw. EEW (tud. 151).

239

TEIRCAILL, TEIRCEILL, TEIRCEILL BENYW, TEIRCEILL GWR RYW

c.c. (Rh) : T

T (tud. 155):

"Triorchis yn Groec ... ac yn ol pwyll y Groec mi aei galwaf y Teirceill...".

Dyma ddangos y tarddiad. Ateb gofynion trosi DHS a wna'r ddau ff. est. hwythau:

DHS (tud. 192b):

"DE ORCHI SERAPIDE. ...  
GENERA.  
... marē ... foeminam ...".

TEWBANOC : gw. 193.

## TORLLWYD, DORLLWYD, LLWYD y DIN

c.c. (Rh) (torllwyd) : Ll.B. 14912 (ff.: *torllwyt*)  
 c.c. (Rh) (llwyd y din) : T

Ni tharewais ar gyfatebion i'r rhain mewn iaith arall. Mae 'torllwyd' sef *tor* 'bol' + *llwyd* yn cyfeirio at wedd lwyd yn ochr isaf i'r dail. Efallai mai at arfer o ddefnyddio'r llysieuyn at anhwylderau'r din y cyfeiria'r ail enw o bosibl. Ni chrybwyllir y defnydd hwnnw yn y T, ond ceir brith gyfeiriad ato yn yr EF (tud. 160 d.g. *Silverweed*). Wedyn gallai fod yn llygriad ar *llwyd* a *ei* *din*, sef yr un ysytyr â *torllwyd*.

## TORMAEN, TÓRMAEN

c.c. (Rh) : LLYFR COCH

## DEPN (GG):

d.g. SAXIFRAGE : O'r Ff. o'r Ll. *saxifraga* sef *saxum* 'maen' + *frage* 'torri'. Ceir fod cyfiad S. o'r Ll. hwnnw sef *stone breke*. Dywedir hefyd y defnyddid yr enw i ddynodi planhigion (o amryw rywogaethau) a feddai ar y grym i dorri'r garreg yn y corff, ac a dybid o'r herwydd eu bod yn tyfu mewn llefydd caregog.

## OED:

d.g. *Saxifrage* : Rhoddir yr un tras i'r enw ag a wnâ'r DEPN. Ond dywedir mai oherwydd i'r planhigyn perthnasol dyfu mewn llefydd caregog y cafodd ei enwi, ac nid oherwydd y dyb ei fod yn torri carreg yn y corff.

Hawdd ydyw gweld mai cyf. o'r Ll., *saxifraga* a roes *tormaen* (*tor(ri)* + *maen*). At *pimpinella saxifraga* y cyfeiria yr enw *tormaen* yn y T.

TOSTFRWYN : gw. 25.

242

TRACLOC

c.c. (Rh) : T

T (tud. 246):  
"... Theriacaria sef y Driacloc...".

OLD:  
d.g. theriacus : meddyginiaeth yn erbyn gwenwyn.

Yn yr OED d.g. Treacle 'triagl' gwelir mai o'r Ll. *theriacus* y daeth yr gair *treacle* yn anuniongyrchol. Ac yn yr EEW (tud. 52, 64, 149, 241) nodir mai o'r S. *treacle* y cafwyd *triagl*. O'r c.c. a gogwydd y T gwelir mai gwaith W.S. ydyw'r enw hwn.

TROED COLOMEN : gw. 60.

243

TROED YR ASSEN, TROET YR ASSEN. TROET Y GWEN, PALF YR WYDD,  
TROED YR WYDD

c.c. (Rh) (y ff.iau i gyd) : T

DHS (tud. 39b):  
"DE ALLIARIA. ...  
NOMINA.  
... Pedectarum author Pedem asininum vocat...".

Ac ar y ymyl ceir *Pes asininus*. Hwn o'i cyf. a roes yr enw  
*troed yr assen*.

DHS (tud. 42a):

"DE ANDRACHNE...

NOMINA.

... *Portulaca vtraque nobis cum Sereno pullae pes, Pouille  
pied, corrupte Pourpier dictur.*"

Y mae *pullae pes* o'i drosi yn rhoi *troed y gywen*.

DHS (tud. 222a):

"DE PEDE ANSERINO. ...

NOMINA.

.. *.Germanis ... Geuszsusoz ...*".

NOH (tud. 85-6):

"*Pes anserinus*.

*Pes anserinus* is called in duch geusz fusz and it may be  
called in englishe Goosefote ...".

T (tud. 184):

"*Pes anserinus* yn Llatin, Goosefoote yn Saesonaec,  
Troed nei Balf yr wydd yn Camberaec."/

Cyf. y Ll. *pes anserinus* a roddodd *palf/troed yr wydd*. Gwelir  
uchod i'r un peth ddigwydd yn S. (drwy law W.T.) ac o bosibl yn  
yr Alm. a'r Is-Alm.; ac yr oedd W.S. yn ymwybodol o hynny. Er  
hynny nid oedd y llysieuyn hwn yn hysbys i'r byd clas., gan hynny  
y mae'n bosibl mai cyf.iad o Alm. neu Is-Alm. ydyw'r Ll. ei hun.  
Ni wn ddigon i allu dweud pa un sy'n wreiddiol (gw. hefyd DEPN  
(GG) d.g. GOOSEFOOT). W.S. piau cyf.'r enwau hyn o'r Ll., er na  
chydnebu hynny.

244

TRYW, LLYSAE YR TRYW



c.c. (Rh) (tryw) : LLYFR COCh (ff.: *tryw*)  
c.c. (Rh) (llyisiau'r tryw/dryw) : PEN. 326 (ff.: *llyssev r dryw*)  
